
# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Strategaeth a Ffefrir



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Gorffennaff 2019

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw’n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o’r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti  i orfodi telerau’r drwydded hon i’r Arolwg Ordnans.

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) – Strategaeth a Ffefrir 2018-2033 Cyngor Sir Conwy.

Mae'r neges yn eglur yn y Cynllun hwn.  Gyda'n gilydd, rydym eisiau cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad cynaliadwy drwy wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghonwy erbyn 2033. Mae Strategaeth a Ffefrir CDLlN yn nodi'r fframwaith ddatblygu i bennu ceisiadau cynllunio, rheoli defnydd a datblygu tir, ac yn y pen draw yn ceisio creu mannau cynaliadwy o fewn Conwy.

Mae'r Cynllun yn cynnwys datblygu cynaliadwy a'r syniad o Greu Lleoedd ac yn cynnwys ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn gwneud camau cadarnhaol i greu mannau cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a llesiant gwell ar gyfer pawb yn sir Conwy. Mae'n rhoi Gweledigaeth, Amcanion, Strategaeth Ofodol a Pholisïau Strategol newydd mewn lle i fodloni twf yn y dyfodol, hyrwyddo ffyniant, iechyd a diogelu ein asedau hanesyddol a naturiol hyfryd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi bod yn rhan o ystod o ymgysylltiadau gyda chymunedau, cynghorwyr a rhanddeiliaid.  Yn y digwyddiadau hyn, rydym wedi trafod y pynciau a heriau pwysig sy'n wynebu Conwy yn awr ac yn y dyfodol, ac rwyf wedi gwrando ar wahanol safbwyntiau ar sut y gallwn fynd i'r afael â'r rhain. Mae Conwy yn wynebu heriau anodd, ond rwy'n hyderus bod y Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r fframwaith sydd yn mynd ymlaen i fynd i'r afael â'r materion hyn a hyrwyddo mannau cynaliadwy yng Nghonwy.

Y Cyng. Charlie McCoubrey – Deilydd Portffolio Tai a Rheoleiddio
.

# Cynnwys


**Rhagair** ...3
**1 Crynodeb Gweithredol** ...5
**2 Dull Strategol Trosfwaol** ...9
**3 Adran Strategol 1: Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy** ...56
3.1 Cyflwyniad ...56
3.2 Creu Lleoedd Cynaliadwy ...57
3.3 Lefelau Twf Tai ...60
3.4 Lefelau Twf Swyddi ...62
3.5 Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau ...63
3.6 Creu Lleoedd a Dylunio Da ...66
3.7 Hyrwyddo Lleoedd Iachach ...68
3.8 Yr Iaith Gymraeg ...70
3.9 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ...71
3.10 Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig ...72
3.11 Cynlluniau Lleoedd ...73
3.12 Safleoedd Strategol ...74
3.13 Seilwaith a Datblygiad Newydd ...77
3.14 Rheoli Ffurf Anheddiad ...80
**4 Adran Strategol 2: Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy** ...82
4.1 Cyflwyniad ...82
4.2 Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd ...83
4.3 Tai ...90
4.4 Canolfannau Manwerthu a Masnachol ...101
4.5 Cyfleusterau Cymunedol ...107
4.6 Mannau Hamdden ...111
**5 Adran Strategol 3: Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy** ...114
5.1 Cyflwyniad ...114
5.2 Y Dirwedd ...115
5.3 Ardaloedd Arfordirol ...117
5.4 Yr Amgylchedd Hanesyddol ...120
5.5 Adfywio drwy Ddiwylliant ...123
5.6 Seilwaith Gwyrdd ...125
5.7 Bioamrywiaeth ...127
5.8 Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau ...131
5.9 Llifogydd ...135
**6 Adran Strategol 4: Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy** ...137
6.1 Cyflwyniad ...137
6.2 Datblygu Economaidd ...138
6.3 Twristiaeth ...143
6.4 Yr Economi Wledig ...148
6.5 Isadeiledd Cludiant ...149
6.6 Telathrebu ...153
6.7 Ynni ...155
6.8 Mwynau a Gwastraff ...164
**Atodiad 1: Rhestr o bolisïau wedi eu cadw, eu diwygio a pholisïau newydd** ...169
**Atodiad 2: Asesu Polisïau a Chysylltiadau** ...176
**Atodiad 3: Canllawiau Cynllunio Atodol i'w cynhyrchu** ...178
**Atodiad 4: Mapiau Safleoedd Strategol** ...179
**Atodiad 5: Papurau Testun a Phapurau Cefndir** ...185

# Crynodeb Gweithredol

Mae Conwy yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl Newydd) ar gyfer y cyfnod 2018 - 2033. Gyda'n gilydd, rydym am gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at ddatblygu cynaliadwy drwy wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Conwy erbyn 2033 er mwyn **'Creu Mwy o Gyfleoedd i Fyw, Gweithio ac Ymweld'**

Byddwn yn cyflawni hyn drwy lunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl Newydd) cryno a pherthnasol sy'n cofleidio egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd. Trwy weithredu fel hyn byddwn yn sicrhau bod y CDLl Newydd yn ymgorffori ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ceisio cymryd camau cadarnhaol i greu lleoedd cynaliadwy, sicrhau cynhwysiant cymdeithasol a gwella lles pawb yng Nghonwy.

Y Strategaeth a Ffefrir yw'r cam statudol cyntaf yn y broses o lunio'r CDLl Newydd. Mae'n nodi'r dull gweithredu eang mae'r CDLl Newydd yn bwriadu ei fabwysiadu er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy yng Nghonwy. Ategir y Strategaeth a Ffefrir (SaFf) gan bedair adran a gynlluniwyd er mwyn cyfrannu'n unigol i greu lleoedd a datblygu cynaliadwy yng Nghonwy:

***Creu Lleoedd yng Nghonwy***


Yn seiliedig ar yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol yng Nghymru, bydd y cysyniad o greu lleoedd yn elfen allweddol yn Strategaeth a Ffefrir Conwy ar gyfer cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau yng Nghonwy wrth lunio'r cynllun a rheoli datblygu i greu lleoedd cynaliadwy. Bydd creu lleoedd yng Nghonwy yn sicrhau ein bod yn cynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd mewn ffordd holistig gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol mewn ardaloedd trefol a gwledig. Bydd yn tynnu ar botensial Conwy i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

***Creu Lleoedd Cynaliadwy***

Lluniwyd y Strategaeth a Ffefrir ar ôl ystyried y materion creu lleoedd strategol sy'n effeithio ar Gonwy. Mae'r adran hon o'r SaFf yn canolbwyntio ar y polisïau strategol hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y math o ddatblygiad a gyflawnir yn y pen draw a'i gyfraniad i ddatblygu cynaliadwy a llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Conwy. Mae'r adran hon yn hybu polisïau integredig na ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys ystyried dyluniad y datblygiad a'i effeithiau ar fywyd pob dydd yn ogystal â meddwl mewn ffordd holistig ynghylch lle y gallai pobl fyw a gweithio ynddynt a pha ardaloedd y dylid eu gwarchod. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r weledigaeth creu lleoedd strategol a lleol ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy, ac fe'i hategir gan bolisïau strategol yn ymwneud ag Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy, Lefelau Twf Tai, Lefelau Twf Swyddi, Dosbarthu Twf ac Hierarchaeth Setliadau, Creu Lleoedd a Dylunio Da, Hybu Lleoedd Iachach, Yr iaith Gymraeg, Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig, Cynlluniau Lle, Safleoedd Strategol, Seilwaith a Datblygiadau Newydd a Rheoli Ffurf Aneddiadau.

***Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy***

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn hybu economi ffyniannus yng Nghonwy drwy ddarparu cyflogaeth a datblygiad economaidd â chysylltiadau da mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch. Bydd y lleoedd hyn yn cael eu dylunio a'u lleoli i hyrwyddo ffordd o fyw iach ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy eu gwneud yn lleoedd hawdd i gerdded a beicio



iddynt ac o'u hamgylch ac yn hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy ac o ffynonellau carbon isel. Mae'r adran hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer **Datblygu Economaidd, Twristiaeth, Yr Economi Wledig**, **Seilwaith Trafnidiaeth, Telegyfathrebu, Ynni a Mwynau a Gwastraff.**

***Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy***

Byddwn yn cyfrannu at Leoedd Cymdeithasol yng Nghonwy drwy ddarparu cymunedau cydlynus â chysylltiadau da ar gyfer pob sector o'r gymuned. Cyflawnir hyn drwy alluogi pawb i gael bywyd da drwy fyw mewn cymunedau cryf a diogel, hyrwyddo datblygiadau cynhwysol a gwella mynediad i wasanaethau allweddol a chyfleusterau hamdden. Bydd dull gweithredu'r Strategaeth a Ffefrir yn cynorthwyo pobl i fabwysiadu ffyrdd o fyw iach, gan sicrhau datblygiad sy'n gynhwysol yn gymdeithasol a chymunedau sy'n fwy cydlynol. Mae'r adran hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer **Trafnidiaeth, Tai, Canolfannau Manwerthu a Masnachol, Cyfleusterau Cymunedol a Mannau Hamdden.**

***Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy***

Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy yw'r rhai sy'n gwerthfawrogi ansawdd tirweddau ac amgylchedd hanesyddol Conwy, yn diogelu asedau economaidd at y dyfodol mewn ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd ac wrth hyrwyddo atebion carbon isel, gwarchod tirweddau a chynefinoedd, galluogi cyfleoedd ar gyfer cysylltu gyda'r amgylchedd naturiol ac annog ffyrdd o fyw iachach gyda'r fantais o wella lles corfforol a meddyliol, elfennau sy'n cael eu hannog yng Nghynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r adran hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer **Tirwedd, Ardaloedd Arfordirol, Amgylchedd Hanesyddol, Adfywio a arweinir gan Ddiwylliant, Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth, Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau, a Llifogydd.**

Gyda'i gilydd mae'r pedwar maes pwnc strategol hyn yn helpu i gyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo ffyniant i bawb yng Nghonwy. Caiff hyn ei wireddu yn y lle cyntaf drwy **Weledigaeth, Amcanion a Strategaeth Twf** arfaethedig y Strategaeth a Ffefrir hon.

**Gweledigaeth ac Amcanion**


Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r materion sydd wedi'u hadnabod fel rhai hanfodol bwysig i Gonwy hyd at 2033 er mwyn ymgynghori yn eu cylch. Mewn ymateb i'r rhain mae'n cynnig **Gweledigaeth** ar gyfer y math o leoedd byddem yn dymuno ei weld yng Nghonwy yn 2033 a'r **Amcanion** i wireddu hyn.

**Strategaeth Ofodol**

Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried ac asesu nifer o opsiynau realistig ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiad ar draws Ardal y Cynllun. Ar ôl ystyried yr opsiynau hyn, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi lefel y **twf** newydd sydd ei angen erbyn 2033 a **dosbarthiad gofodol** y twf drwy nodi lleoedd cynaliadwy allweddol, safleoedd strategol a gofynion seilwaith hanfodol.

**Twf Newydd 2018 – 2033**

Mae'r twf newydd a gynigir yn Strategaeth a Ffefrir Conwy yn seiliedig ar dystiolaeth a'r angen i gydbwyso nifer o ffactorau allweddol. Mae'n ystyried y newidiadau disgwyliedig o ran poblogaeth ac aelwydydd hyd at 2033, ac yn cynllunio ar gyfer y gofynion cyflogaeth, tai a seilwaith cysylltiedig fydd eu hangen o ganlyniad i yrwyr economaidd lleol a rhanbarthol a'r angen am dai fforddiadwy. Mae hefyd yn adlewyrchu capasiti'r diwydiant datblygu ac amcanion strategol eraill y mae'n rhaid i'r CDLl Newydd fynd i'r afael â nhw. Trwy gydbwyso'r ffactorau twf allweddol hyn mae Strategaeth a Ffefrir Conwy yn cynnig lle ar gyfer **1,800 o swyddi newydd a 4,300 o gartrefi** erbyn 2033. Mae hefyd yn nodi cynllun uchelgeisiol i gyflenwi anghenion **1800 o dai fforddiadwy**



dros gyfnod y cynllun, **gydag oddeutu 1000 ohonynt yn dai fforddiadwy newydd ac 800 yn sgil mecanweithiau polisi a mentrau'r Cyngor.**

**Dosbarthiad Gofodol Twf**

Un elfen hanfodol wrth greu lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy yw penderfynu ar leoliad datblygu. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn gosod sylfaen ar gyfer lleoli twf ac mae'n adnabod ardaloedd strategaeth datblygu allweddol a safleoedd strategol ar gyfer datblygu newydd, wedi'u cefnogi gan y seilwaith gofynnol o ran cymunedau a chyfleustodau hyd at 2033. Ar ôl nodi a deall anghenion ardaloedd trefol a gwledig presennol a'u nodweddion allweddol, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn bwriadu canolbwyntio twf yn y ddwy ardal strategaeth, **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (ASDA)** a'r **Ardal Datblygu Strategaeth Gwledig (ADSG).**

**Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (ASDA)**

Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Conwy yn byw ar hyd y coridor arfordirol trefol ar hyd llwybrau trafnidiaeth strategol ffordd ddeuol yr A55 a'r rheilffordd. Mae'r lleoliadau trefol hyn yn cynnig y cyfle gorau i leoli twf, bodloni anghenion y gymuned, hybu teithio llesol, cymunedau iachach, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn y pen draw, cydymffurfio â'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd hyn hefyd yn wynebu problemau yn ymwneud â chapasiti cymunedol a seilwaith (e.e. ysgolion, meddygfeydd a chyflenwad cyfleustodau), y cynllunnir ar eu cyfer yn y Strategaeth a Ffefrir hon er mwyn sicrhau y caiff cymunedau cynaliadwy eu creu.

At hynny, mewn ardaloedd trefol fel Abergele, Pensarn, Tywyn a Bae Cinmel, mae cyfyngiadau sylweddol, fel perygl llifogydd a seilwaith priffyrdd, yn effeithio ar eu gallu i ganiatáu twf ac adfywio. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn hybu Ardal Adfywio a Buddsoddi Dwyreiniol (AABD) fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir er mwyn atal yr ardaloedd bregus hyn rhag dirywio ymhellach a sicrhau bod y cynllun yn cyfrannu at greu cymunedau gwydn.

Ar ôl ystyried y materion trefol allweddol hyn, mae'r rhan fwyaf o'r twf yn canolbwyntio ar y trefi mwyaf cynaliadwy a hygyrch yn ardaloedd Canolog, Creuddyn a Gorllewinol yr ASDA.

**Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (ASDG).**

Mae cefn gwlad Conwy yn adnodd dynamig ac amlbwrpas. Yn unol â datblygu cynaliadwy a'r egwyddorion cynllunio cenedlaethol ac er mwyn cyfrannu at ganlyniadau creu lleoedd, rhaid ei warchod a'i wella, lle bo'n bosibl, er budd ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archeolegol, diwylliannol ac amaethyddol a'i dirwedd ac adnoddau naturiol. Bydd yr angen i warchod y nodweddion hyn yn cael ei gydbwyso yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr.

Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd gwledig yn ASDG Conwy mae'r cyfleoedd i leihau'r defnydd o geir ac annog mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig nag yn yr ASDA. Oherwydd hyn, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn canolbwyntio twf cyfyngedig ar yr aneddiadau hynny sy'n weddol hawdd eu cyrraedd heb gar o'u cymharu â'r ardal wledig yn ei gyfanrwydd. O'r herwydd mae'r rhan fwyaf o'r twf gwledig yn canolbwyntio ar Ganolfan Wasanaeth Allweddol Llanrwst, anheddiad sy'n cynnal y cymunedau gwledig ehangach o ran cyflogaeth, manwerthu ac addysg. Er mwyn sicrhau bod y cymunedau gwledig ehangach yn cael cyfleoedd i gynnal eu hunain, bydd dull datblygu mwy hyblyg yn cael ei hyrwyddo i ddiogelu hunaniaeth gymunedol a bodloni anghenion lleol.



**Safleoedd Strategol**

Cyn paratoi'r Strategaeth a Ffefrir hon, cynhaliodd y Cyngor ymarferiad 'galwad am safleoedd ymgeisiol', gan roi cyfle i bob parti gyflwyno safleoedd posibl i'w cynnwys yn y CDLl Newydd. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol a'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r gofrestr o safleoedd ymgeisiol yn ddogfen fyw y gellir ei diweddaru hyd nes caiff y CDLl Newydd ar Adnau ei gyhoeddi ar ddechrau 2020.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn nodi'r Safleoedd Strategol sy'n allweddol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol, gan gynnwys asesiadau hyfywedd ategol a lluniadau cysyniadol. Diffinnir Safle Strategol fel un 6 hectar (60,000 metr sgwâr) neu fwy, a gall gynnwys defnydd penodol neu ddefnydd cymysg. Ategir Safleoedd Strategol gan weledigaeth creu lleoedd a fframweithiau cynlluniau, egwyddorion dylunio a gofynion seilwaith.

I adlewyrchu eu cyfraniad i ofynion twf Conwy yn y dyfodol ac fel elfennau allweddol o Fargen Twf Gogledd Cymru (Bargen Twf y Gogledd), clustnodwyd pum Safle Strategol fel rhai sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer twf yn ystod oes y Cynllun.



# Dull Strategol Trosfwaol

2.1 **Cyflwyniad**

Mabwysiadodd Conwy ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn 2013 ac mae ar fin dod i ben yn 2021. Mae angen datblygu CDLl Newydd felly (CDLl Newydd) a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu yng Nghonwy (ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 hyd at 2033. Bydd y CDLl presennol yn dal i fod mewn grym nes i'r CDLl Newydd gael ei fabwysiadu, a rhagwelir bydd hynny yn y flwyddyn 2021.

2.2 Mae tystiolaeth yn awgrymu bydd poblogaeth Conwy yn tyfu dros y 15 mlynedd nesaf. Ynghyd â'r angen i ddarparu mwy o dai fforddiadwy a chyfrannu at ddyheadau economaidd Bargen Dwf y Gogledd, mae angen i ni gydweithio a chynllunio ar gyfer tai newydd, swyddi, cyfleusterau cymunedol a seilwaith i gefnogi'r twf hwn. Mae'n bwysig bod twf yn cael ei gynllunio'n gywir er mwyn bod o fudd i gymunedau a sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae angen gwella ac adfywio ardaloedd yng Nghonwy er mwyn hybu eu cydnerthedd hefyd, ac mae angen gwarchod ardaloedd eraill i annog ffyrdd o fyw iach a thwristiaeth gynaliadwy. Bydd y CDLl Newydd yn cofleidio'r egwyddorion cynaliadwyedd a chysyniad creu lleoedd i gyflenwi'r twf hwn mewn ffordd gynaliadwy a bodloni ein dyletswyddau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

2.3 **Y Strategaeth a Ffefrir**

Wrth fynd ati i lunio'r Strategaeth a Ffefrir cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu cynnar gyda budd-ddeiliaid allweddol, nodwyd y prif faterion a defnyddiwyd dull blaen-lwytho i baratoi'r cynllun. Mae'r Strategaeth yn nodi **Gweledigaeth**, **Amcanion Strategol, Strategaeth Ofodol** a **Pholisïau Strategol** y Cyngor i lywio lefel y datblygiad a thwf a ddewisir ar gyfer Conwy yn y dyfodol hyd at 2033. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cynnwys **Safleoedd Strategol**, wedi'u hategu gan **Gynllun Seilwaith**, **Asesiadau Hyfywedd** a **Lluniadau Cysyniadol**. Mae'n fwy na chynllun defnydd tir; mae ei gylch gorchwyl yn ehangach, gyda phwyslais ar greu lleoedd a chreu cymunedau cynaliadwy, ac mae'n dangos cysylltiadau gyda materion cysylltiedig fel iechyd, addysg, newid yn yr hinsawdd, seilwaith gwyrdd, teithio llesol a llesiant.

2.4 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn darparu'r cyd-destun strategol ar gyfer paratoi polisïau, cynigion a dyraniadau defnydd tir mwy manwl a gaiff eu cynnwys yn y pen draw yn y CDLl Newydd ar Adnau, a fydd yn cael ei baratoi ar ddechrau 2020.

2.5 **Dogfennau Ategol**

Yn ategol i'r Strategaeth a Ffefrir, lluniwyd nifer o ddogfennau cefndir manwl sy'n sail i'r dull gweithredu a'r nod cyffredinol o hybu cymunedau cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi bod yn destun **Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol** i asesu a fydd y CDLl yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd (cadarnhaol neu negyddol) ac i ganfod a fydd o gymorth i sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae hefyd wedi bod yn destun **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** ac **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.**



- **Dogfennau Tystiolaeth Cefndir**

Mae Dogfennau Tystiolaeth Cefndir eraill a Phapurau Pwnc hefyd yn cynnwys gwybodaeth ategol a'r rhesymeg dros y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n fwy manwl ar rai o'r Materion Allweddol sy'n arbennig o arwyddocaol i'r CDLl Newydd. Mae'r 12 Papur Pwnc yn dwyn ynghyd tystiolaeth sy'n gysylltiedig â 47 Dogfen Gefndir. Mae'r rhain ar gael ar **wefan y Cyngor**, ac yn bwysicach, dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir.

Cyhoeddwyd dwy ddogfen arall i gyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir – y rhain yw'r **Adroddiad Adolygu** a'r **Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol**.

- **Yr Adroddiad Adolygu**

Mae'r Adroddiad Adolygu yn ddogfen sy'n nodi pa feysydd o'r CDLl presennol y mae angen eu newid.

- **Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol**

Mae'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol yn dangos yr holl safleoedd a gyflwynwyd i'r Awdurdod fel rhan o'i alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn 2018. Ac eithrio'r safleoedd strategol a gynigiwyd fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir hon, cafodd y safleoedd hyn eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd yn awgrymu tir ar gyfer datblygu, neu ar gyfer ei warchod rhag datblygu. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma ar y safleoedd a gaiff eu cynnwys yn y CDLl ar Adnau.


Mae'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol yn nodi'r safleoedd hynny sy'n cyd-fynd ar hyn o bryd â'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd cyfle i'r cyhoedd wneud sylwadau ar y safleoedd hyn fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

2.6 **Ymgysylltiad Blaenorol â Budd-ddeiliaid Allweddol a'r Gymuned**


Mae'n rhaid i'r CDLl Newydd gael ei ategu a'i seilio ar ymgysylltiad buan, effeithiol ac ystyrlon â'r gymuned er mwyn deall ac ystyried amrediad eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau a chynigion. Cyhoeddodd y Cyngor ddwy ddogfen CDLl allweddol, Papurau Pwnc ategol a Dogfennau Cefndir cysylltiedig ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019 fel a ganlyn:

- **Papur Ymgynghori 1: Strwythur, Materion Blaenoriaeth, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl Newydd.** Roedd y Papur hwn yn cynnig strwythur newydd ar gyfer y CDLl Newydd i ystyried Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n mynd ymlaen i amlinellu'r materion blaenoriaeth sy'n effeithio ar Gonwy ac yn cynnig Gweledigaeth ac Amcanion i fynd i'r afael â'r rhain.
- **Papur Ymgynghori 2: Twf Strategol ac Opsiynau Dosbarthiad Gofodol.** Mae'r Papur hwn yn amlinellu'r **opsiynau ar gyfer lefel twf strategol** (faint o dai fydd eu hangen arnom a nifer y swyddi bydd y CDLl yn darparu ar eu cyfer), yr **hierarchaeth aneddiadau** (sut caiff yr aneddiadau eu hasesu o ran cyfleusterau a gwasanaethau, maint a phoblogaeth) a'r **dosbarthiad gofodol** (lle rydym yn nodi faint o dai a swyddi y cytunwyd i'w darparu.)

2.7 Cafodd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu hasesu a dylanwadodd llawer o'r sylwadau ar y gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir. Cyhoeddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad mewn dogfen ar wahân.



*Ffigur 1: Strwythur y CDLlN*



2.8 **Strwythur y CDLl Newydd**

Roedd yr ymgysylltiad cyntaf â Budd-ddeiliaid Allweddol a'r Gymuned yn cynnig strwythur newydd ar gyfer CDLl Newydd (cyfeiriwch at Ffigur 1) i sicrhau ei fod yn cofleidio'r themâu allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC Argraffiad 10) a'r nodau llesiant sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd pob elfen o'r Strategaeth a Ffefrir a'r CDLl Newydd yn cael eu strwythuro o amgylch y pedair thema a ganlyn. Mae'r themâu hyn yn dwyn ynghyd y cysylltiadau rhwng polisïau cynllunio i ddangos yn eglur sut mae'r adrannau unigol yn cyfrannu at greu lleoedd yng Nghonwy.

2.9 **Gweithio tuag at Leoedd Cynaliadwy a Gwella Llesiant yng Nghonwy**


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal **datblygu cynaliadwy** wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Deddf LlCD yn nodi **saith nod llesiant** y mae'n rhaid i CDLl Newydd Conwy weithio tuag atynt. Bydd CDLl Newydd Conwy yn croesawu'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd i sicrhau ei fod yn gweithio tuag at Leoedd Cynaliadwy a Gwella Llesiant yng Nghonwy.

2.10 Er mwyn sicrhau bod y CDLl Newydd yn gweithio tuag at y nodau hyn, mae'n rhaid gweithredu yn unol â gyrwyr allweddol a fydd yn ei gwneud yn bosibl i wireddu nodau Deddf LlCD:

- Mae Deddf LlCD hefyd yn disgrifio'r **'Pum Ffordd o Weithio'** y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u dilyn wrth gyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy ac wrth baratoi'r CDLl Newydd.
- Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn nodi gyrwyr cynllunio allweddol ar ffurf '**Pum Egwyddor Gynllunio Allweddol'** y dylent fod yn fan cychwyn wrth baratoi'r CDLl Newydd. Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi'r newid diwylliant sydd ei angen er mwyn croesawu creu lleoedd a sicrhau bod cynllunio yn hwyluso'r datblygiad cywir yn y lle cywir.
- Dylai'r **Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy** fod yn sail ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu ac asesu cynigion datblygu. Mae'r canlyniadau yn darparu fframwaith sy'n cynnwys y ffactorau hynny a ystyrir yn ganlyniad delfrydol cynlluniau datblygu a datblygiadau unigol. Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn fan cychwyn ar gyfer y CDLl Newydd.



*Ffigur 2*


Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol
5 Dull o Weithio
Cyfranogiad
Cydweithio
Integreiddio
Atal
Hirdymor
Llywodraeth Cymru
5 Egwyddor Cynllunio Allweddol
Y math iawn o ddatblygiad yn y lle iawn
Hybu amgylchedd hygyrch ac iach
Gwneud y defnydd gorau o adnoddau
Creu a chynnal cymunedau
Rhoi'r amddiffyniad gorau i'r amgylchedd
Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy
Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy
Creu Lleoedd yng Nghonwy
Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy
Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy
Mannau Cynaliadwy a Lles Gwell yng Nghonwy
Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol
7 Amcan Lles
Ffyniannus
Cyfartal
Cydnerth
Iachach
Cymunedau Cydlynol
Cyfrifoldeb Byd-eang
Ysgogwyr ar gyfer Cynllunio
Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy
Canlyniadau

Mae **Atodiad 2** yn dangos ymhellach sut mae'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy yn berthnasol i'r 7 nod llesiant, themâu Polisi Cynllunio Cymru, Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych a'r themâu a gynigir yn y Strategaeth a Ffefrir hon ar gyfer y CDLl Newydd.

2.11 **Adran 1: Cyd-destun a Materion Allweddol**

Mae'n rhaid i'r CDLl Newydd fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth ardal gan gynnwys y cysylltiadau swyddogaethol ag ardaloedd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol. Mae'r adran hon yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol, a'r materion allweddol sy'n wynebu Conwy, sydd yn eu tro yn sail i Weledigaeth ac Amcanion y CDLl Newydd a gyflwynwyd yn Adran 2, y Strategaeth Ofodol yn Adran 3 a'r Themâu Strategol yn Adran 4. Wrth baratoi'r CDLl Newydd rydym wedi ceisio adolygu a diweddaru ein dealltwriaeth o'r materion perthnasol ymhellach drwy weithredu ymlaen llaw a chasglu tystiolaeth gadarn gyda chymorth budd-ddeiliaid allweddol a chymunedau.

2.12 Rhaid i'r CDLl Newydd gael y cydbwysedd cywir rhwng gwarchod yr elfennau hynny sy'n gwneud Conwy yn arbennig, a helpu i hwyluso cyfleoedd newydd ar gyfer twf ac adfywio er mwyn cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant.



## 2.13 Nodweddion Gwaelodlin Allweddol Conwy

### Poblogaeth a Ffurf Ofodol

- Mae Conwy yn ymestyn dros ardal 1130km$^2$ yng Ngogledd Cymru, a phellter o tua 30 cilometr o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae Conwy yng nghalon Gogledd Cymru. Mae'n manteisio ar gysylltiadau cryf ag economïau ehangach i'r dwyrain a thu hwnt i Loegr, ond hefyd i'r gorllewin i gyfeiriad Ynys Môn ac Iwerddon yn ogystal â chanolbarth a de Cymru.
- Amcangyfrifwyd mai maint poblogaeth breswyl Bwrdeistref Sirol Conwy ar 30 Mehefin 2017 oedd 116,850 o bobl. Yn ystod y 15 mlynedd ers 2002 mae poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi tyfu 6,250, sef 5.6% – cyfartaledd o tua 0.4% y flwyddyn, ond nid yw cyfraddau'r newid hwnnw wedi'u gwasgaru'n gyson ar draws y cyfnod. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd o 6.9% ym mhoblogaeth Cymru ac roedd cynnydd o 11.2% ym mhoblogaeth y DU.
- Nid yw poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn adnewyddu ei hun yn naturiol gan fod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn yr ardal bob blwyddyn. Dros gyfnod o 10 mlynedd y cyfartaledd marwolaethau oedd 1,500 y flwyddyn a'r cyfartaledd genedigaethau oedd 1,150 y flwyddyn, felly byddai poblogaeth ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gostwng o tua 350 o bobl y flwyddyn pe na bai unrhyw fewnfudo net i'r ardal.
- Mae nifer y plant yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng yn raddol dros y degawd diwethaf, gan adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y babanod gafodd eu geni ar ddiwedd yr 1990au / dechrau'r 2000au. Mae'r duedd hon tuag at gyfraddau genedigaeth is wedi dod i'r amlwg unwaith eto yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Mae 16.2% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy o dan 16 oed o'i gymharu ag 17.9% yng Nghymru gyfan ac 18.9% ar draws y DU.
- Mae strwythur oedran y Fwrdeistref Sirol yn llawer hŷn na strwythur oedran Cymru neu'r DU yn gyffredinol. Mae 27.2% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn 65 oed a throsodd o'i gymharu ag 20.6% yng Nghymru gyfan ac 18.2% yn unig ar draws y DU. Canolrif oedran y boblogaeth yn 2017 oedd 49.1 oed (Cymru = 42.5; y DU = 40.1). Mae'r canolrif oedran wedi codi o 45.5 i 49.1 oed dros y degawd diwethaf.
- Mae mwyafrif y boblogaeth (85%) yn byw yn y prif ganolfannau trefol ar hyd y coridor arfordirol, a gefnogir gan Ffordd Ddeuol Strategol yr A55 a'r rheilffordd. Mae'r rhain yn cynnwys o'r gorllewin i'r dwyrain – Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy, Cyffordd Llandudno, Llandudno, Mochdre, Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos, Hen Golwyn, Abergele, Pensarn, Tywyn a Bae Cinmel. Oherwydd ei leoliad daearyddol, tua 13 milltir i'r de o'r coridor trefol arfordirol, mae Llanrwst yn gweithredu fel canolfan wasanaeth allweddol i'r ardaloedd gwledig.
- Mae trefi arfordirol gogledd Conwy, Bae Colwyn a Llandudno, yn gwasanaethu'r cymunedau o'u cwmpas fel canolfannau ar gyfer gwasanaethau, cyflogaeth, tai a datblygiadau manwerthu. Mae gan y trefi penodol hyn statws eisoes fel y prif ganolfannau gwasanaeth.
- Awdurdod gwledig yw Conwy yn bennaf, ac fe'i nodweddir gan ei drefi a phentrefi amrywiol sy'n adlewyrchu maint ac amrywiaeth y Sir. Mae'r rhain yn amrywio o ran eu maint a'u swyddogaeth ac mae llawer ohonynt yn aml yn gwneud cyfraniad nodedig i anghenion a gofynion eu cymuned a'r ardal o'u cwmpas. Mae nifer o aneddiadau a phentrefi yn hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau, ac maent yn aml yn cyflawni rôl wasanaethu ehangach. Fodd bynnag, mae diffyg gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau eraill llai o faint. Mae anghenion preswylwyr yr ardaloedd hyn fel arfer yn cael eu diwallu gan y prif ganolfannau ac mewn rhai achosion gan yr aneddiadau gwasanaeth llai.

### Tai

- Yn ôl yr asesiad o'r galw presennol am dai yn CDLl Conwy, mae gan Gonwy gyflenwad tir o 3.1 blynedd ar gyfer tai. Roedd yr asesiad o'r cyflenwad ar gyfer y blynyddoedd blaenorol yn amrywio o 4.1 blynedd yn 2012-13, 4.8 blynedd yn 2013-14, 4.0 blynedd yn 2014-15 a 3.7 blynedd yn 2015-16. Mae hyn yn dangos bod cyflenwad tir wedi gostwng yn barhaus ers y flwyddyn 2013-14.
- Gwelwyd cynnydd o 3.1% ym mhrisiau tai cyfartalog yn ardal CBSC rhwng mis Gorffennaf 2016 (£149,243) a mis Gorffennaf 2017 (£153,862), ac mae hyn £3,016 yn uwch na chyfartaledd pris eiddo yng Nghymru sef £150,846 (Gorffennaf 2017).
- Hyd yma, darparwyd tua 713 annedd fforddiadwy dros gyfnod y CDLl presennol (2007-08 i 2016-17). At hyn, bwriedir darparu 50 annedd fforddiadwy ychwanegol yn ystod 2017-18.

### Perygl Llifogydd

- Nodwyd bod ardaloedd sylweddol ar draws cyrsiau dŵr afon Conwy yn y Fwrdeistref Sirol mewn perygl o ddioddef llifogydd. Mae afonydd yn achosi llawer o lifogydd yng Nghonwy, a'r tir a'r môr (llanwol) ar hyd arfordir y gogledd. Mae cyfyngiadau mawr yn yr aneddiadau yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol oherwydd perygl llifogydd.

### Rheoli Gwastraff

- Mae Canolfan Ailgylchu Cyngor Conwy yn gwaredu, ailgylchu a thrin gwastraff. Yn 2016-2017, o'r cyfanswm o 62,560 tunnell o wastraff trefol a gynhyrchwyd, cafodd 39,149 tunnell ei hailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio; llosgwyd 5,438 tunnell a chafodd 62.6% o wastraff ei ailddefnyddio /ailgylchu/compostio. Roedd hyn yn gadael 17,813 tunnell a anfonwyd at safleoedd tirlenwi. Yn 2016, cyfradd ailgylchu'r DU ar gyfer Gwastraff o Gartrefi oedd 45.2% o'i gymharu â chyfartaledd o 57.3% yng Nghymru.

### Ansawdd yr Aer

- Yn ôl y data diweddaraf, nid yw safonau ansawdd yr aer yn ardal CBSC mewn perygl o fynd dros y safonau a nodir yn Amcanion Ansawdd Aer yr Undeb Ewropeaidd ac nid oes angen unrhyw asesiadau na chynlluniau rheoli ar lefel Cyngor ar gyfer unrhyw lygredd.

### Economi ac Adfywio

- O ran cyflogaeth, mae'r meysydd canlynol yn gryf iawn yng Nghonwy: Llety a Gwasanaethau Bwyd, Manwerthu, Addysg, Iechyd, Gofal Preswyl a Gwaith Cymdeithasol. Mae'r sectorau Llety a Gwasanaethau Bwyd, Manwerthu ac Addysg hefyd yn cyflogi llawer iawn o weithwyr mewn termau absoliwt. Nid yw hyn yn syndod – mae golygfeydd godidog ardaloedd gwledig ac arfordirol y Sir yn sicrhau mai twristiaeth (a sectorau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth fel lletygarwch) yw conglfaen yr economi leol. Mae amaethyddiaeth, coedwigaeth a'r sector pysgota hefyd yn elfennau pwysig, ond mae swyddi proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill wedi'u tangynrychioli o'u cymharu â Chymru a gweddill y DU. Mae Conwy yn wahanol i weddill Gogledd Cymru gan fod yma gyfran is o fusnesau gweithgynhyrchu, a chyfran uwch o wasanaethau llety, bwyd a busnesau hamdden.
- Ar y llaw arall, mae cyfraddau isel iawn (ac mewn rhai achosion, dim o gwbl) o swyddi yn y sectorau mwy diwydiannol. Yn benodol, tua 400 o bobl yn unig a gyflogir yn y sectorau gweithgynhyrchu traddodiadol, neu 0.88% o'r gweithlu cyfan. Mae hyn yn cymharu â thros 148,000 o bobl a gyflogir yn y sector gweithgynhyrchu ar draws Cymru yn 2018 (10% o'r gweithlu cyfan).
- Mae poblogaeth economaidd weithgar Conwy wedi cynyddu 2.2% rhwng 2004-05 a 2017-18. Mae hyn yn debyg i'r cynnydd a welwyd ar draws Gogledd Cymru (2.3%), ond mae'n is na'r cynnydd yng Nghymru (7.0%) a'r DU (10.0%). Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n economaidd weithgar yng Nghonwy yn gyflogedig; y gyfradd gyflogaeth bresennol yw 73.7%. Mae hyn yn is na gweddill Gogledd Cymru (75.1%), Cymru (72.7%) a'r DU (74.8%).
- Mae lefelau gweithio rhan amser yn uwch ym Mwrdeistref Sirol Conwy – mae 35% o weithwyr yn gweithio rhan amser o'i gymharu â 31% ym Mhrydain.
- Mae gan Gonwy tua 4,400 o fusnesau ac, fel sy'n gyffredin ar draws Cymru a'r DU yn gyffredinol, mae'r mwyafrif helaeth yn cael eu hystyried yn Fusnesau Bach a Chanolig [BBCh] yn cyflogi hyd at 249 o weithwyr. Er bod proffil busnesau yn debyg ar draws pob ardal, mae gan Gonwy fwy o fusnesau bach yn gyfatebol gyda rhwng 10 a 49 gweithiwr. Lleolir y rhan fwyaf o fusnesau ar stadau diwydiannol pwrpasol gerllaw cyffyrdd yr A55 a'r A470 mewn ardaloedd fel Cyffordd Llandudno, Mochdre a Llandudno.
- Mae'r Sir wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad sylweddol, ac mae'n ystyried adfywio a gwella yn flaenoriaeth bwysig, yn enwedig ym Mae Colwyn, Abergele, Pensarn, Tywyn a Bae Cinmel.
- Mae Conwy yn ardal atyniadol iawn i dwristiaid, ac yn denu 9.50 miliwn o ymwelwyr. Amcangyfrifir bod Twristiaeth gwerth tua £887.62 miliwn i'r economi leol, ac mae'n cynnal 12,319 o swyddi.
- Mae mwy o bobl yn teithio allan o Gonwy i weithio nag sy'n dod i mewn i'r Fwrdeistref Sirol – sef all-lif net o tua 5,000 o gymudwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r cymudwyr sy'n gadael yr ardal yn teithio i ardaloedd awdurdodau cyfagos (Sir Ddinbych yn benodol), er bod tua 2,800 o bobl yn teithio i Loegr i weithio.

### Cyrhaeddiad Addysgol

- Yn 2017, doedd gan 5.9% o'r boblogaeth oedran gwaith (rhwng 16 a 64 oed) yn ardal CBSC ddim cymwysterau, sy'n is na'r ganran o'r boblogaeth heb gymwysterau ar draws Cymru (8.7%). Mae lefel cyrhaeddiad y boblogaeth oedran gwaith sydd â chymwysterau yn uwch yng Nghonwy nag ar draws Cymru: mae 56.3% o'r boblogaeth yng Nghonwy wedi ennill cymwysterau at lefel NVQ3 neu uwch o'i gymharu â 54.6% ar draws Cymru, ac mae gan 37.1% gymwysterau at lefel NVQ4 neu uwch o'i gymharu â 35.1% yn genedlaethol.
- Roedd gan 39.4% o'r boblogaeth oedran gwaith gymwysterau lefel gradd neu uwch yn 2017. Mae gennym lai o bobl heb gymwysterau/cymwysterau isel iawn, a mwy o bobl â chymwysterau lefel gradd neu uwch o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

### Cyrff Dŵr

- Mae ardal CBSC yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae'n cynnwys 25 o gyrff dŵr, a nodwyd bod statws 60% o'r rhain yn dda'n gyffredinol yn 2015 (yn ansoddol a chemegol). Ar draws Gorllewin Cymru, mae gwaith mwyngloddio hanesyddol yn parhau i beryglu ansawdd y dŵr – sy'n agored i gael ei halogi gan lygredd nitradau
- Mae 63 cwrs dŵr a 9 llyn yn nalgylchoedd afonydd Conwy a Chlwyd. O'r rhain, mae 16 afon ac 8 o'r llynnoedd yn rhai artiffisial neu wedi'u haddasu'n sylweddol.

### Seilwaith Cymunedol a Mynediad at Wasanaethau

- Ar hyn o bryd mae 53 ysgol gynradd a 7 ysgol uwchradd yn ardal CBSC. Mae pob ysgol yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i wahanol raddau.
- Mae Conwy yn cynnal 10 llyfrgell gyhoeddus (Abergele, Conwy, Llanfairfechan, Bae Penrhyn, Cerrigydrudion, Bae Cinmel, Llanrwst, Bae Colwyn, Llandudno a Phenmaenmawr). Hefyd, mae pedair canolfan hamdden yng Nghonwy (Abergele, Bae Colwyn, Llandudno a Llanrwst).
- Mae Canol Tref Llandudno ar frig hierarchaeth manwerthu a masnachol y Fwrdeistref Sirol ac fe'i diffinnir fel Canolfan Is-ranbarthol.

## Ynni a Newid yn yr Hinsawdd

- Mae tymheredd cyfartalog dros dir Cymru wedi cynhesu yn ystod y degawdau diwethaf ac roedd y degawd 2005 – 2014 0.9°C yn gynhesach na chyfartaledd y tymheredd yn ystod y degawdau 1961-1990. Fodd bynnag, ni chofnodwyd unrhyw newidiadau sylweddol o ran nifer y dyddiau o rew yn yr aer yng Nghymru ers 1960 (Met Office, State of UK Climate 2014). Nid yw cyfartaledd glawiad blynyddol Cymru wedi newid yn sylweddol ers 1910.
- Yn ôl ystadegau ar gyfer 2015 gan InfoBase Cymru, cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) ardal CBSC yw 4.9, ac mae hyn yn dangos bod y lefelau $CO_2$ i bob preswylydd (tunelli) yn is na chyfartaledd Cymru (8.0) yn 2016. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae angen parhau i leihau lefel allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Cyfrannodd CBSC 2.7% o ynni carbon isel i Gymru yn 2015. Fodd bynnag, gellir gwella hyn drwy gynhyrchu rhagor o gapasiti adnewyddadwy yn y dyfodol.
- Roedd 1,272 o brosiectau Solar PV ar waith yng Nghonwy yn 2016 gan gynhyrchu 4,523MWhe o drydan. At hyn, yn ystod yr un flwyddyn, cynhyrchodd 256 prosiect Solar Thermal 587MWhth o wres. Roedd 36 prosiect gwynt ar y tir ar waith yn ardal CBSC yn 2016 gan gynhyrchu 46,093MWhe o drydan. Fodd bynnag, nid oedd gan CBSC unrhyw brosiectau gwynt oddi ar y tir ar hyd ei arfordir gorllewinol.
- Mae gan CBSC uchelgais i sicrhau Prosiect Morlyn Llanw ar hyd yr arfordir gogleddol, a allai greu ardal fwy gwydn yn erbyn llifogydd, gan ddod â buddion hefyd o ran adfywio a chynhyrchu ar gyfer twristiaeth a'r economi.

## Bioamrywiaeth, Anifeiliaid a Phlanhigion

- Mae ardal CBSC yn cynnal amrywiaeth eang o fathau o gynefinoedd pwysig, gan adlewyrchu ei amodau daearyddol ac amgylchol amrywiol o ardaloedd arfordirol i rai mewndirol. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal pob math o anifeiliaid a phlanhigion, gan gynnwys amryw o rywogaethau a warchodir, a rhywogaethau prin neu rywogaethau sy'n diflannu. Mae Conwy hefyd yn cynnwys 3 Ardal Tirwedd Arbennig (ATA), 8 Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) ac un Safle Ramsar, 43 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), a 40 Ardal Bioamrywiaeth ar dir sy'n berchen i'r Cyngor neu a reolir ganddo ac 11 Gwarchodfa Natur Leol.
- Mae ardal Conwy yn gorwedd o fewn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae'r ardal yn cynnwys 25 o gyrff dŵr daear, a nodwyd bod 60% ohonynt yn dda'n gyffredinol yn 2015 (yn ansoddol a chemegol). Mae 63 o gyrff dŵr a 9 llyn yn nalgylchoedd afonydd Conwy a Chlwyd. O'r rhain mae 16 afon ac 8 o'r llynnoedd yn artiffisial neu wedi'u haddasu'n sylweddol.

## Anghydraddoldeb, Allgáu Cymdeithasol ac Amddifadedd

- Mae rhai rhannau o ardal CBSC, yn enwedig yng nghymunedau trefol yr Arfordir Gogleddol, ymysg ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a diffyg mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig i blant, pobl ifanc a phobl hŷn
- Mae'r ardaloedd canlynol yng Nghonwy ymysg y 10% ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn enwedig mewn perthynas â mynediad at wasanaethau: Uwchaled; Llansannan; Uwch Conwy; Llangernyw; Eglwysbach; Betws yn Rhos; Caerhun; Trefriw; Betws-y-Coed.
- Mae canran yr aelwydydd heb waith yng Nghonwy 1.4% yn uwch na'r ganran ym Mhrydain. Mae 13.7% o'r boblogaeth yng Nghonwy yn hawlio budd-daliadau'r llywodraeth; 0.7% yn is na'r ganran yng Nghymru a 2.7% yn fwy na'r ganran ym Mhrydain. Adlewyrchir hyn yn yr incwm aelwydydd crynswth i'w wario ar draws Conwy, sef £16,004, sy'n is na chyfartaledd y DU sef £17,965.

## Treftadaeth Ddiwylliannol

- Mae ardal y cynllun yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel rhyngwladol er mwyn gwarchod a gwella gwerth ardaloedd cadwraeth natur pwysig, yn ogystal â thirweddau a threfi a phentrefi hanesyddol unigryw. Mae asedau hanesyddol yn chwarae rôl bwysig mewn twristiaeth, buddsoddi a chymunedau. Mae Castell Conwy yn Safle Treftadaeth y Byd. Yn ôl UNESCO, Castell Conwy yw "un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol o ddiwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop'. Mae ardal CBSC yn gartref i 162 Heneb Gofrestredig, 1735 Adeilad Rhestredig y mae 29 ohonynt wedi'u rhestru yn adeiladau Gradd I, 1610 yn Gradd 2 a 96 yn Gradd 2*, a 24 Ardal Gadwraeth.

## Yr Iaith Gymraeg

- Mae Strategaeth yr Iaith Gymraeg CBSC yn ymrwymo'r Cyngor i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus. Mae CBSC hefyd yn ymroddedig i helpu i godi proffil yr iaith Gymraeg a'r diwylliant ymhlith preswylwyr a gweithwyr.
- Yn ôl Cyfrifiad 2011, dywedodd 27.4% o'r boblogaeth breswyl yn ardal CBSC (30,600 o bobl) eu bod yn siarad Cymraeg. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad hwn yn dangos bod canran uwch o breswylwyr ifanc yn siarad Cymraeg, ac mae'r ganran hon yn gostwng ymhlith y grwpiau oedran hŷn.

## Trafnidiaeth a Chysylltiadau

- Mae Conwy mewn lleoliad da ar y rhwydwaith priffyrdd strategol gyda ffordd ddeuol yr A55 yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd. Ategir y cysylltiad hwn rhwng y dwyrain a'r gorllewin gan reilffordd Gogledd Cymru sy'n darparu cysylltiadau strategol â'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach. Mae'r cysylltiadau strategol hyn yn cysylltu â'r porthladd llongau i Iwerddon yng Nghaergybi a chysylltiadau ehangach i Loegr a De Cymru.
- Gwasanaethir y Sir hefyd gan nifer o ffyrdd dosbarth 'A' ynghyd â llawer o ffyrdd dosbarth 'B' sy'n elfennau pwysig o'r rhwydwaith priffyrdd. Mae ein prif rwydwaith priffyrdd yn cynnwys cefnffordd yr A470 sy'n cysylltu'r A55 a'r aneddiadau gwledig. Mae cefnffyrdd yr A470 a'r A5 yn cysylltu â Chanolbarth a De Cymru. Mae'r A470 a Rheilffordd Dyffryn Conwy yn cysylltu â Chanolfan Wasanaeth Allweddol Llanrwst.
- Ar y cyfan, gwasanaethir yr ardal yn dda gan drafnidiaeth gyhoeddus drwy'r rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd, er bod lefel ac amlder y gwasanaeth yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad a'r gyrchfan. Er bod rhwydweithiau teithio llesol yn gwasanaethu'r coridor arfordirol, mae angen gwelliannau. Mae gan Gonwy amryw o orsafoedd rheilffordd trefol (Abergele a Phensarn, Bae Colwyn, Cyffordd Llandudno, Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan) ar hyd prif linell reilffordd y Gogledd, gyda chysylltiadau i nifer o drefi mawr eraill. At hynny, mae rheilffordd Dyffryn Conwy yn rhedeg o orsaf Llandudno, gan gysylltu nifer o bentrefi gwledig; Deganwy, Glan Conwy, Tal-y-cafn, Dolgarrog, Gogledd Llanrwst a Llanrwst.
- Mae Maes Awyr John Lennon yn Lerpwl a Maes Awyr Manceinion o fewn siwrne 75-munud o Gonwy, ac mae Maes Awyr Môn (sy'n hedfan i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) 40 munud i ffwrdd. Mae hyn yn rhoi mynediad at gyrchfannau Cenedlaethol a Rhyngwladol i deithwyr ac o ran cludo nwyddau.
- Disgrifiwyd y llwybrau teithio llesol yn ardal CBSC fel rhai gwael ac nad oes digon o fuddsoddi ynddynt. Ers 2013, mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu map rhwydwaith integredig (INM) o lwybrau teithio llesol. Ar hyn o bryd, mae CBSC wedi creu cynigion ar gyfer pob tref (Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Deganwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst, Llansanffraid Glan Conwy, Llysfaen Llanddulas, Hen Golwyn, Penmaenmawr, Bae Penrhyn, Llandrillo-yn-Rhos a Thywyn/Bae Cinmel) ac maent yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

## Natur y Dirwedd, Cymeriad a Chapasiti

- Y tu hwnt i'r prif aneddiadau, sydd ar hyd arfordir gogleddol Môr Iwerddon yn gyffredinol, mae ardal CBSC yn amrywio o uwchdiroedd a rhostiroedd anghysbell a gwyllt i orlifdiroedd eang afonydd, iseldiroedd bugeiliol, arfordiroedd a dyffrynnoedd serth. Un o nodweddion amlycaf y dirwedd yw'r dyffrynnoedd a'r ucheldiroedd cysylltiedig sy'n rhan o hen Faes Glo'r Gogledd-orllewin. Ymhellach i'r de mae'r dirwedd yn agor allan yn ddyffrynnoedd eang gydag iseldiroedd Eryri i'r de-orllewin.
- Ymhlith y tirweddau hanesyddol cofrestredig ar draws Conwy mae: Pen Isaf Dyffryn Conwy, Creuddyn a Chonwy, Gogledd Arllechwedd, Pen Isaf Dyffryn Elwy a Mynydd Hiraethog.

## Llesiant Corfforol ac Iechyd Meddwl

- Yn gyffredinol, mae preswylwyr Conwy yn perfformio rhywfaint yn well na chyfartaledd Cymru o ran dangosyddion iechyd fel gordewdra, salwch meddwl ac yfed alcohol. Fodd bynnag, mae cysondeb yr ymarfer corff ac achosion derbyn i'r ysbyty am resymau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol gryn dipyn yn waeth nag yng ngweddill Cymru.
- Mae rhai rhannau o ardal CBSC, yn enwedig y cymunedau trefol ar hyd yr Arfordir Gogleddol, ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a diffyg mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig i blant, pobl ifanc a phobl hŷn.
- O'u cymharu ag awdurdodau eraill, mae preswylwyr CBSC yn ystadegol yn fwy tebygol o wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw na chyfartaledd Cymru.
- Mae tua 9.8% o boblogaeth CBSC yn cael eu trin am salwch meddwl (cyfartaledd Cymru – 12.1%).
- Mae tua 54% o oedolion CBSC yn ordew (Cymru – 58%). Mae 25.2% o blant 4-5 oed yn ardal CBSC yn ordew neu dros eu pwysau (tua 283 o blant).
- Mae tri ysbyty mawr gydag unedau Damweiniau ac Achosion Brys yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n gwasanaethu Conwy. Fodd bynnag, un Uned Mân Anafiadau sydd yng Nghonwy yn unig, yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno, ac mae'n darparu gwasanaethau iechyd acíwt i'r boblogaeth leol. Yn ardal CBSC mae 20 meddygfa ac 16 deintyddfa.

## Cyd-destun Strategol

2.14 **Cyd-destun Cenedlaethol**

Er bod y CDLl yn chwarae rôl i lunio penderfyniadau a phenderfynu ar leoliad a natur datblygiadau yng Nghonwy, mae'n cael ei lunio a'i weithredu o fewn y fframwaith cenedlaethol a nodir gan ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol ategol (TANs). Rhoddir ystyriaeth fwy manwl i'r rhain yn y Papurau Testun ategol.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n nodi saith nod llesiant i gefnogi'r ffyrdd y gallwn sicrhau datblygu cynaliadwy.

Mae **Deddf yr Amgylchedd 2016** yn rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'n cynnwys dyletswydd ehangach mewn perthynas â bioamrywiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus gynnal a chofleidio bioamrywiaeth a hybu ecosystemau gwydn.

**Polisi Cynllunio Cymru** (Argraffiad 10) (PCC) yw dogfen bolisi Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir yng Nghymru a dylid ei hystyried wrth lunio cynlluniau datblygu. Fe'u hategir gan **Nodiadau Cyngor Technegol** (TAN) a **Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau** sy'n cynnwys canllawiau technegol. Mae canllawiau gweithredol hefyd wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyrau Llywodraeth Cymru.

Pan gaiff ei gyhoeddi, bydd **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru,** yn llywio penderfyniadau ar y defnydd cynaliadwy o'n moroedd.

2.15 **Cyd-destun Rhanbarthol**

**Bargen Twf Gogledd Cymru**

Paratowyd Bargen Twf Gogledd Cymru (Y Fargen Dwf) mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae'n ymwneud ag ardaloedd daearyddol y 6 Awdurdod Lleol yn y Gogledd. Mae Conwy yng nghalon y Fargen Dwf a byddwn yn cydweithio gyda'r holl bartneriaid i gyfuno adnoddau ym meysydd cynllunio trafnidiaeth strategol, datblygu economaidd, cyflogaeth a sgiliau a chynllunio defnydd tir strategol. Mae'r rhanbarth yn ymroddedig i gydweithio at nod cyffredin er mwyn hwyluso a chyflymu twf economaidd.

Disgwylir i'r Fargen Dwf greu bron i 5,500 o swyddi newydd a dod â buddsoddiad o £671m i'r rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae cyfanswm o 16 prosiect wedi'u cynllunio gan gynnwys ynni carbon isel ac ynni niwclear; ymchwil prifysgol; gwell cysylltiadau trafnidiaeth i dyfu busnesau digidol; gwella sgiliau a chyfleoedd i gadw mwy o bobl ifanc yn yr ardal. Nod cyffredin y fargen dwf yw gwella'r hyn sydd gan y rhanbarth i'w gynnig mewn nifer o feysydd, gan gynnwys tir ac eiddo, ynni, sgiliau, trafnidiaeth a thwristiaeth antur yn ogystal â chysylltiadau digidol a thechnoleg.

Trwy lunio Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy (2018) a'r Asesiad o'r Farchnad, mae'r CDLl Newydd wedi ystyried effaith bosibl y Fargen Dwf ar y Strategaeth Dwf, gan gynnwys nifer y swyddi, dyraniadau tir a seilwaith, sydd wedi'u hadlewyrchu yn BP1: 'Adroddiad Opsiynau Lefel Twf' a'r Strategaeth a Ffefrir hon.



2.16 **Materion Blaenoriaeth Lleol ac Amcanion i Gonwy**

Cyflwynir y Materion Lleol a nodir isod i adlewyrchu Strwythur newydd y CDLl Newydd. Ystyrir materion lleol ymhellach gan nodi eu goblygiadau posibl ar gyfer y CDLl Newydd. Maent hefyd yn ystyried materion cenedlaethol a rhanbarthol a allai effeithio ar y CDLl Newydd. Mae data ystadegol a ffynonellau ychwanegol ar gyfer pob un o'r materion lleol ar gael yn y Papurau Pwnc, y Papurau Cefndir a'r Papurau Ymgynghori Budd-ddeiliaid Allweddol: Materion ac Opsiynau blaenorol. Mae'r materion blaenoriaeth a nodwyd yn llywio'r Weledigaeth a'r Amcanion a gyflwynir yn yr adrannau sy'n dilyn.

***Tabl 1: Materion Blaenoriaeth ac Amcanion i Gonwy***

| **Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy** | |
|---|---|
| **Materion Blaenoriaeth** | **Goblygiadau ar gyfer y CDLl Newydd** |
| **Creu Lleoedd Cynaliadwy:**<br><br>• Fel yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy mae angen sicrhau bod CDLl Newydd Conwy yn hwyluso lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a llesiant i bawb. | Bydd angen i'r CDLl Newydd gofleidio'r egwyddorion cynaliadwyedd a'r cysyniad creu lleoedd i gyflenwi twf a datblygu mewn ffordd gynaliadwy. Dylai lefelau twf a datblygu'r dyfodol ddigwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, gan geisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, amddiffyn yr iaith Gymraeg, a dylid cefnogi hyn gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd gwych.<br><br>Mae'n hanfodol bod y CDLl Newydd yn cynllunio ar gyfer seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau fel cyfleusterau addysg ac iechyd ynghyd â thrafnidiaeth, cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff yn gynaliadwy, trydan a nwy a thelegyfathrebu sy'n hanfodol i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol |

| | |
|---|---|
| **Lleoedd Iach, Cydraddoldeb a Lles:**<br><br>• Mae angen mynd i'r afael â'r materion iechyd a lles penodol a nodwyd yng Nghynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych, gan gynnwys iechyd corfforol a meddwl, lles cymdeithasol a diogelwch y gymuned. Ar y cyfan, mae preswylwyr CBSC yn perfformio ychydig yn well na chyfartaledd Cymru o ran dangosyddion iechyd fel gordewdra, salwch meddwl a'r defnydd o alcohol. Fodd bynnag, mae cysondeb yr ymarfer corff ac achosion derbyn i'r ysbyty am resymau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol gryn dipyn yn waeth nag yng ngweddill Cymru.<br><br>• Mae rhai rhannau o ardal CBSC, yn enwedig cymunedau trefol Arfordirol y Gogledd, ymhlith yr ardaloedd gwaethaf o ran amddifadedd yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a diffyg mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig i blant, pobl ifanc a phobl hŷn. Ar y llaw arall, yn ardal wledig ddeheuol CBSC mae rhai o'r cymunedau lle ceir y lefelau amddifadedd isaf yng Nghymru. | Mae angen amddiffyn a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gofal iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella lles corfforol a meddyliol cymunedau yng Nghonwy. Bydd angen i'r CDLl Newydd sicrhau ei fod yn hwyluso ac yn annog teithio llesol, ymarfer corff, seilwaith gwyrdd ac yn gwella hygyrchedd ac ansawdd y ddarpariaeth mannau agored.<br><br>Mae angen lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hybu cydlyniad cymunedol, gan gynnwys gwella mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae angen sicrhau bod y cymunedau yn agos at gyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol sydd eisoes yn bodoli. |




| | |
|---|---|
| **Dylunio Da, yr Amgylchedd Adeiledig a Chreu Lleoedd:**<br><br>• Mae angen gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd gwych i bobl yng Nghonwy, ac mae hyn yn bwysig o ystyried y gymysgedd o aneddiadau a'r ffaith bod ardal CBSC yn un wledig yn bennaf. | I gyflawni datblygu cynaliadwy yn y CDLl Newydd, rhaid i ystyriaethau dylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys sut defnyddir gofod, sut mae adeiladau a'r maes cyhoeddus yn cefnogi hyn, yn ogystal â'i adeiladwaith, gweithrediad, rheolaeth, a'i berthynas â'r ardal amgylchynol.<br><br>Mae angen i'r CDLl Newydd hybu pensaernïaeth a dylunio o ansawdd uchel sy'n cryfhau cymeriad lleol unigryw ac yn meithrin ymdeimlad o le. Bydd materion dylunio a chreu lleoedd yn berthnasol i rai elfennau o'r CDLl Newydd (e.e. polisïau yn gysylltiedig â dylunio a dynodiadau safle). |
| **Yr iaith Gymraeg:**<br><br>• Mae strategaeth yr iaith Gymraeg CBSC yn ymrwymo'r cyngor i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Yn ychwanegol at hyn mae CBSC yn ymroddedig i helpu i godi proffil y Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith preswylwyr a gweithwyr. Mae angen diogelu a chefnogi'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg ymhlith y boblogaeth sy'n byw yn ardal CBSC. | Dylai'r CDLl Newydd gydnabod gwerth iaith a chynnwys darpariaethau polisi i gefnogi twf yn y defnydd o'r iaith Gymraeg. Gall graddfa a lleoliad datblygiadau tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol oll effeithio ar yr iaith Gymraeg. |
| **Poblogaeth a Chreu Lleoedd Cynaliadwy:** | Bydd angen i'r CDLl Newydd sicrhau ei fod yn hybu strwythur oedran |

| | |
|---|---|
| • Mae cadw ein pobl ifanc yn ein hardal yn fater o bwys, gan fod y rhagolygon poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos bwlch mawr yn y strwythur oedran rhwng tua 18 a 40 oed. Dyma'r grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o fod yn symudol yn economaidd a chymdeithasol, o fod yn chwilio am waith, addysg a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal.<br><br>• Mae gan Gonwy boblogaeth sy'n heneiddio. Mae strwythur oedran y Fwrdeistref Sirol yn hŷn o lawer na strwythur oedran Cymru ac mae 27.2% o'r boblogaeth yn 65 oed a throsodd, sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol. Erbyn canol y 2030au (cyn diwedd Oes y Cynllun), bydd Conwy yn gweld gostyngiad yn y grwpiau oedran hŷn (yn enwedig dros 75 oed). | cytbwys ac yn darparu'r tai, cyflogaeth a seilwaith angenrheidiol i annog llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i bawb. Mae cadw'r boblogaeth ifanc yn fater hollbwysig i'r cynllun yn ogystal ag annog y boblogaeth iau i ddychwelyd i'r ardal.<br><br>Bydd angen i'r CDLl Newydd gynllunio ar gyfer newidiadau yn y boblogaeth gan sicrhau hefyd ei fod yn cynllunio ar gyfer y lefel briodol o wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol i gynnal poblogaeth sy'n heneiddio. |
| **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:**<br><br>• Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal yn ddarnau o dystiolaeth allweddol y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi'r cynllun datblygu. | Bydd angen i'r CDLl nodi sut:<br><br>- mae'n cyfrannu at wella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol;<br>- mae'n atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth;<br>- mae'n cynnal a gwella seilwaith gwyrdd ar sail ceisio buddion ac atebion lluosog i'n hecosystemau;<br>- mae'n sicrhau dewisiadau cydnerth o ran lleoliadau ar gyfer seilwaith a datblygu adeiledig, gan roi ystyriaeth i |




| | |
|---|---|
| | gyflenwadau dŵr, ansawdd dŵr a, lle bynnag y bo'n bosibl, lleihau llygredd aer a sŵn a pheryglon amgylcheddol, fel y rhai sy'n cael eu hachosi gan berygl llifogydd, newidiadau i'r arfordir, halogiad tir ac ansefydlogi;<br>- mae'n cymryd camau i symud tuag at economi fwy cylchol yng Nghymru; ac<br>- mae'n hwyluso'r symudiad tuag at ddatgarboneiddio'r economi. |
| **Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig:**<br><br>• Fel ardal wledig yn bennaf, mae cefn gwlad Conwy yn adnodd dynamig ac amlbwrpas. Rhaid ei warchod a, lle bo'n bosibl, ei wella er budd ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archeolegol, diwylliannol ac amaethyddol a'i dirwedd ac adnoddau naturiol. | Mae angen i'r CDLl Newydd warchod y nodweddion hyn gan eu cydbwyso yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr. Mewn ardaloedd gwledig dylai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gael eu lleoli mewn aneddiadau sy'n weddol hygyrch heb orfod teithio mewn ceir o'u cymharu â'r ardal wledig yn gyffredinol. Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried y materion hyn wrth fwrw ymlaen â'r Weledigaeth, Amcanion a Strategaeth Twf. |
| **Tir a Ddatblygwyd Eisoes, Tir â Chyfyngiadau a Chreu Lleoedd Cynaliadwy:**<br><br>• Mae diffyg capasiti tir a ddatblygwyd eisoes i gynnal twf dros Gyfnod y Cynllun, ac mae hyn yn rhoi pwysau ar yr angen am diroedd maes glas. Hefyd, mae rhai aneddiadau ar hyd coridor yr arfordir yn gyfyngedig iawn, yn bennaf oherwydd y dopograffeg i'r de, y perygl o | Mae angen i'r CDLl Newydd sicrhau bod lefelau twf a datblygu yn y dyfodol yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, eu bod yn ceisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, yn amddiffyn yr iaith Gymraeg a'u bod wedi'u cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol. Wrth ddatblygu'r strategaeth ofodol ar gyfer y CDLl Newydd, mae angen |

| | |
|---|---|
| lifogydd i'r gogledd a chapasiti'r priffyrdd, sy'n effeithio ar allu'r cymunedau hynny i hwyluso twf, adfywio a chreu lleoedd cynaliadwy. | blaenoriaethu'r defnydd o dir addas a chynaliadwy a ddatblygwyd eisoes a/neu dir na ddefnyddiwyd eisoes neu safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio ar gyfer pob math o ddatblygiadau mewn aneddiadau presennol. Os nad oes tir a ddatblygwyd eisoes ar gael, dylid rhoi ystyriaeth i safleoedd maes glas addas a chynaliadwy mewn aneddiadau neu ar eu cyrion.<br><br>Yr yr ardaloedd hynny lle mae llawer o gyfyngiadau (e.e. perygl llifogydd), bydd angen i'r CDLl Newydd sicrhau ei fod yn cyfrannu at gymunedau cydnerth drwy raglenni adfywio a gwella. |
| **Rheoli Ffurf Aneddiadau:**<br><br>Ar hyn o bryd mae gan Gonwy nifer o Letemau Glas a gynlluniwyd i warchod rhag ymledu trefol. | Bydd angen i'r CDLl Newydd warchod rhag ymledu trefol a datblygu amhriodol drwy adolygu'r Lletemau Glas. |
| **Safleoedd Strategol:**<br><br>• Dylid nodi safleoedd strategol yn y Strategaeth a Ffefrir ynghyd â lluniadau cysyniadol, asesiadau o'r gallu i'w cyflawni ac asesiad hyfywedd | Gan adlewyrchu eu cyfraniad i ofynion twf Conwy ar gyfer y dyfodol ac fel elfennau allweddol o Fargen Dwf y Gogledd, nodwyd Pum Safle Strategol fel rhai sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer twf yn ystod Cyfnod y Cynllun. |
| **Cynlluniau Lle:**<br><br>• Mae Cynlluniau Lle yn ddewisol ac anstatudol. Gellir eu paratoi gan y gymuned leol ac maent yn adnodd grymus i hyrwyddo cydweithio i wella llesiant a chreu lleoedd. | Bydd angen i'r CDLl Newydd nodi'r polisïau a ddefnyddir ar gyfer Cynlluniau Lle er mwyn rhoi cymorth i gymunedau. |



| | |
|---|---|
| • Dylai Cynlluniau Lle gefnogi'r gwaith o ddarparu polisïau'r CDLl a byddant yn cael eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol. | |
| **Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy** | |
| **Trafnidiaeth a Hygyrchedd:**<br><br>• Dylai'r system gynllunio alluogi pobl i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau drwy gymryd teithiau byrrach, mwy effeithlon a chynaliadwy drwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy yn allweddol i gefnogi cymunedau iach sydd â chysylltiadau da.<br><br>• Disgrifir llwybrau teithio llesol yn ardal CBSC fel rhai gwael lle mae diffyg buddsoddiad.<br><br>• Fel ardal wledig yn bennaf, mae rhai cymunedau yn ei chael yn anodd osgoi defnyddio eu ceir yn hytrach na dulliau teithio cynaliadwy.<br><br>• Mae rhai cymunedau, yn enwedig ar hyd coridor yr arfordir, yn wynebu problemau capasiti ar y priffyrdd.<br><br>• Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol presennol yn nodi prosiectau blaenoriaeth ar gyfer Ardal Conwy.<br><br>• Mae Rhwydwaith y Ffyrdd Craidd yn cysylltu ardal CBSC gyda | Bydd angen i'r CDLl Newydd ddylanwadu ar y lleoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd o ddefnydd a dyluniad datblygiadau newydd i sicrhau eu bod yn gwella dewisiadau trafnidiaeth ac yn sicrhau hygyrchedd mewn ffordd sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy, yn arwain at ragor o weithgarwch corfforol, yn gwella iechyd ac yn helpu i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd a llygredd aer.<br><br>Bydd angen i'r CDLl Newydd:<br><br>- Alluogi Mwy o Ddewisiadau o ran Teithio Cynaliadwy - mesurau i annog mwy o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, a lleihau dibyniaeth ar y car i deithio bob dydd;<br>- Rheoli'r Rhwydwaith – mesurau i wneud y defnydd gorau o'r capasiti sydd ar gael, gan gefnogi hyn â seilwaith newydd wedi'i dargedu; a<br>- Rheoli Galw – defnyddio strategaethau a pholisïau i leihau'r galw am deithio, yn benodol teithiau gan unigolion mewn ceir preifat. |

| | |
|---|---|
| Bwrdeistrefi Sirol cyfagos ac ardaloedd consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Mae'r ffyrdd canlynol yn ardal CBSC yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd: yr A55 (llwybr Arfordir y Gogledd) a'r A470 (llwybr y Canolbarth). Mae'r ddwy brif ffordd graidd yn cysylltu'r boblogaeth leol gyda'r prif aneddiadau, gan gysylltu â rhwydweithiau ffyrdd dosbarth B a'r holl ffyrdd heb eu dosbarthu a'u rhifo yn ardal CBSC. | |
| **Tai, Tai Fforddiadwy ac Anghenion Sipsiwn a Theithwyr:**<br><br>• Mae disgwyl i boblogaeth Conwy gynyddu tua 5.6% a mudo fydd yn bennaf gyfrifol am y newid hwn.<br><br>• Erbyn 2033 bydd aelwydydd yn llai a bydd mwy o aelwydydd nag sydd ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, bydd angen rhagor o dai.<br><br>• Mae poblogaeth Conwy yn heneiddio.<br><br>• Mae'r ffaith bod y boblogaeth iau yn gadael Conwy yn broblem fawr.<br><br>• Awgryma tystiolaeth bresennol y bydd ar Gonwy angen tua 120 o unedau tai fforddiadwy bob blwyddyn, neu 1800 hyd at 2033<br><br>• Ar hyn o bryd, mae gan Gonwy gyflenwad tir o lai na phum mlynedd ar gyfer tai, sef 3.1 blynedd. Yn | Bydd y materion allweddol hyn yn arwain at yr angen i ddarparu tai ychwanegol a seilwaith cysylltiedig dros gyfnod y CDLl Newydd.<br><br>Mae goblygiadau hefyd o ran math, cymysgedd a maint y tai sydd eu hangen i ystyried aelwydydd llai a thai wedi'u haddasu ar gyfer yr henoed.<br><br>Mae angen i'r CDLl Newydd annog strwythur oedran sy'n fwy cytbwys a rhoi sylw i'r broblem allfudo ymysg y boblogaeth iau drwy gyflogaeth, tai, addysg, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau.<br><br>Mae angen ystyried anghenion tai fforddiadwy yn erbyn dulliau cyflenwi eraill, yn hytrach nag adeiladu tai newydd (e.e. tai gwag, y farchnad rhentu breifat). Mae hyfywedd yn ystyriaeth allweddol yn y CDLl Newydd wrth benderfynu ar lefel y tai fforddiadwy y gofynnir amdano mewn datblygiadau tai. |




| | |
|---|---|
| hanesyddol mae'r gyfradd adeiladu flynyddol wedi bod tua 250 uned y flwyddyn.<br><br>• Bydd yr angen i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn parhau. Mae'r Asesiad presennol o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn dod i'r casgliad bod angen Safle Teithiol yn cynnwys 7 llain. | Mae angen i'r CDLl Newydd roi ar waith y mecanweithiau i sicrhau ei fod yn cadw cyflenwad tir ar gyfer tai o bum mlynedd drwy ystyried tystiolaeth ymlaen llaw, cynyddu nifer y safleoedd wrth gefn a dad-ddyrannu tiroedd na ellir eu sicrhau.<br><br>Bydd angen i'r CDLl Newydd sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer yr angen presennol am Safle Teithiol yn cynnwys 7 Llain yng Nghynllun yr Ardal ac yn rhoi polisïau perthnasol ar waith i sicrhau unrhyw angen yn y dyfodol. |
| **Canolfannau Manwerthu a Masnachol:**<br><br>• Mae'r Gyd-astudiaeth Manwerthu (Conwy a Sir Ddinbych) yn dod i'r casgliad bod angen canolfan fanwerthu a chymhariaeth fawr newydd rhwng Bae Colwyn a gweddill ardal ddwyreiniol y Fwrdeistref Sirol.<br><br>• Daeth Gwiriadau Iechyd Canol Trefi Conwy i'r casgliad bod rhai trefi yn y Fwrdeistref Sirol yn iach a heb lawer o siopau gwag, ond bod eraill wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd y pwyslais presennol ar bolisi manwerthu A1 a'r ffaith bod rhai siopau penodol wedi cau (e.e. banciau'r stryd fawr). | Dylai'r CDLl Newydd sefydlu strategaeth glir ar gyfer datblygu manwerthu, wedi'i chefnogi gan bolisïau, er mwyn creu canolfannau manwerthu a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw.<br><br>Drwy'r CDLl Newydd, mae angen sicrhau strategaethau manwerthu priodol i gefnogi'r anghenion, y pwysau a'r cyfleoedd manwerthu hyn. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai fod angen gweithredu'n rhagweithiol i nodi lleoliadau lle gall canolfannau masnachol a manwerthu ehangu. Dro arall, efallai y bydd angen nodi mesurau i adfywio canolfannau neu reoli newid mewn pwysigrwydd cymharol canolfan wrth i ganolfannau eraill, a'u pwrpas, ehangu. |

| | |
|---|---|
| • Cafodd yr angen canlynol ar gyfer cyfleusterau manwerthu cyfleustra ei nodi:<br><br>- Dwyrain Conwy: 35,000 troedfedd sgwâr<br>- Canol Conwy: 20,000 troedfedd sgwâr<br>- Gorllewin Conwy: Dim angen<br>- Gogledd Conwy: 5,000 troedfedd sgwâr<br>- De Conwy: 15,000 troedfedd sgwâr<br><br>• Nodwyd yr angen canlynol ar gyfer manwerthu cymharol:<br><br>- Llandudno: Dim angen<br>- Bae Colwyn: 25,000 troedfedd sgwâr | |
| **Cyfleusterau Cymunedol:**<br><br>• Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le, sy'n bwysig i iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol ac mae eu bodolaeth yn aml yn elfen allweddol i greu cymunedau hyfyw a chynaliadwy. Gallant gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd ac addoldai.<br><br>• Mae mynediad at wasanaethau yn yr ardaloedd gwledig yn broblem benodol ac mae'r 9 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol o ran mynediad at wasanaethau. | Dylai'r CDLl Newydd nodi darpariaeth ddigonol ar gyfer seilwaith cymunedol i fodloni angen y boblogaeth bresennol ac yn y dyfodol. |



| | |
|---|---|
| • Mae rhai ysgolion yn llawn neu byddant yn cael eu llenwi yn dibynnu ar dai newydd a chynnydd yn y boblogaeth yn y dyfodol.<br><br>• Mae angen rhandiroedd a thir ar gyfer claddu pobl dros gyfnod y CDLl Newydd. | |
| **Ardaloedd Hamdden:**<br><br>• Mae ardaloedd hamdden yn hanfodol i'n hiechyd, lles ac amwynder a gallant gyfrannu at seilwaith gwyrdd ardal. Maent yn darparu lle i wneud gweithgarwch corfforol a chwaraeon a lle i ymlacio, yn aml ym mhresenoldeb natur, ac maent yn cyfrannu at ansawdd ein bywydau.<br><br>• Bydd rhwydweithiau o ardaloedd gwyrdd a hamdden hygyrch, o ansawdd uchel, hefyd yn hyrwyddo cadwraeth natur, bioamrywiaeth ac yn rhoi cyfle i breswylwyr ac ymwelwyr fwynhau a chymryd rhan mewn pob math o weithgareddau corfforol er mwyn hybu lles corfforol a meddyliol.<br><br>• Mae Asesiad Mannau Hamdden Agored Conwy hefyd yn nodi bod diffyg ardaloedd o'r fath mewn rhai ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>• Mae angen nodi, rheoli, ehangu a gwella rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd y Fwrdeistref Sirol, gan | Bydd angen i'r CDLl Newydd annog lles corfforol a meddyliol drwy ddarparu a gwarchod mannau gwyrdd hygyrch, o ansawdd a rhwydweithiau ardaloedd hamdden. |

| | |
|---|---|
| gynnwys y mannau agored cyhoeddus a chydnabod eu pwysigrwydd i ddarparu manteision amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol, ac iechyd, a nodir fel materion allweddol yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych. | |
| **Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy** | |
| **Datblygu Economaidd:**<br><br>• Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy (ELR) yn dod i'r casgliad y bydd gweithlu Conwy, sef nifer y bobl oedran gwaith sy'n economaidd weithgar, yn cynyddu erbyn 2033. Ar y sail hon, mae'n bosibl bydd angen rhwng 12.46 ac 13.33 hectar o dir busnes (crynswth) dros gyfnod y CDLl Newydd.<br><br>• Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu diogelu a bod dyraniadau yn cael eu cyflwyno i gefnogi cyflogaeth yn y cymunedau.<br><br>• Mae all-lif net o 4,784 o breswylwyr sy'n cymudo o Gonwy i weithio mewn ardaloedd eraill. Mae cymhareb dwysedd swyddi Conwy, sef 0.72, yn is na chyfartaledd Cymru 0.74 a'r awdurdodau cyfagos (0.78 yn Sir Ddinbych ac 0.85 yng Ngwynedd). Gallai ail-gydbwyso'r defnydd tir yn y Sir i sicrhau bod rhagor o swyddi (a swyddi o ansawdd gwell) yn cael eu darparu helpu i newid y duedd hon ac | Bydd angen i'r CDLl Newydd gefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio, drwy fanteisio ar safle strategol Conwy ym margen dwf y rhanbarth yn ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth holistig ar gyfer cyd-leoli twf cyflogaeth a thai.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd gyfeirio datblygiad economaidd a buddsoddiad i'r lleoliadau mwyaf effeithlon a chynaliadwy.<br>Dylai'r CDLl Newydd helpu i ddarparu tir digonol i ateb anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol. Dylid gwarchod safleoedd cyflogaeth presennol a'r rhai a ddynodwyd drwy'r CDLl Newydd.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd geisio:<br><br>- cydlynu datblygu drwy bob math o ddarpariaeth seilwaith fel trafnidiaeth a chyfleustodau<br>- cydlynu swyddi a gwasanaethau gyda thai a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy, i leihau'r angen am |



| | |
|---|---|
| ‘adennill’ cymudwyr, gan leihau cyfraddau all-gymudo net.<br><br>• Mae Conwy yn rhan o Fargen Twf y Gogledd a fydd yn creu cyfleoedd gwaith, ac a fydd hefyd yn effeithio ar ofynion cyflogaeth, tai a seilwaith.<br><br>• Dylid nodi safleoedd cyflogaeth strategol ar raddfa ranbarthol drwy gytuno ymhlith yr awdurdodau lleol pa safleoedd sy’n gwasanaethu’r ardal gyfan orau.<br><br>• Yn ôl yr Arolwg o Dir Cyflogaeth dylid rhannu’r dyraniadau tir cyflogaeth fel a ganlyn: 50% B1 Busnes a 50% ar gyfer B2/B8 Diwydiannol a Warysau.<br><br>• Mae Asesiad Conwy o’r Farchnad Eiddo yn nodi y dylai tir cyflogaeth newydd gael ei leoli ar hyd llwybr Traws-Ewropeaidd allweddol yr A55.<br><br>• Mae Strategaeth Economaidd Conwy hefyd yn hyrwyddo’r defnydd o ganolfannau trefi fel ardaloedd allweddol ar gyfer twf cyflogaeth.<br><br>• Mae angen rhoi cymorth i ddatblygu rhwydweithiau a chlystyrau busnes yn enwedig mewn perthynas â mentrau yn seiliedig ar arloesedd a thechnoleg. | deithio, a’r ddibyniaeth ar deithio mewn ceir;<br>- sicrhau adfywiad ffisegol a chyfleoedd cyflogaeth i gymunedau difreintiedig<br>- rhoi cymorth i rwydweithiau a chlystyrau busnes lle bo hynny’n briodol.<br>- mae angen seilwaith trafnidiaeth, amgylcheddol a thelegyfathrebu cysylltiedig i gynnal y rhwydweithiau a’r clystyrau hyn a, lle bydd angen gwelliannau, dylid eu cynnwys yn y cynllun datblygu<br><br>Dylai’r CDLl Newydd hefyd ystyried yn ffafriol unrhyw gynigion i gynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel  a gynlluniwyd i wasanaethu clystyrau, fel systemau gwresogi ardal a dulliau hynod effeithlon o adfer ynni o wastraff, neu ddarparu rhwydwaith integredig o ailgylchu neu gasglu gwastraff. |
| **Twristiaeth:** | Dylai’r CDLl Newydd annog twristiaeth lle mae’n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, |

| | |
|---|---|
| • Gall twristiaeth fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella’r amgylchedd adeiledig a gwarchod yr amgylchedd.<br><br>• Mae twristiaeth yn dod yn fwyfwy pwysig i’n heconomi a chefnogir y sector gan Gynllun Rheoli Cyrchfan Conwy (2019 – 2029)<br><br>• Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig iawn yn economi Conwy a dylai’r CDLl Newydd gefnogi’r diwydiant mewn ffordd gynaliadwy. Yn hanesyddol, mae twristiaeth yng Nghonwy wedi cael ei chefnogi gan asedau naturiol a hanesyddol gwych, yn ogystal â’i leoliad strategol ger yr arfordir a Pharc Cenedlaethol Eryri.<br><br>• Yn fwy diweddar gwelwyd twf mewn busnesau twristiaeth antur ac awyr agored cynaliadwy drwy’r flwyddyn.<br><br>• Mae Conwy wedi gweld galw am wahanol fathau o lety gwyliau i’r math mwy traddodiadol.<br><br>• Bydd angen i ddatblygiadau twristiaeth mewn ardaloedd gwledig fod yn gydnaws â natur a graddfa’r amgylchedd lleol.<br><br>• Mae gan Gonwy lawer iawn o feysydd carafanau traddodiadol, ac mae llawer o’r rhain yn yr ardal sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol. | arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, gan gydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol ar yr un pryd.<br><br>Hefyd, dylai’r CDLl Newydd barhau i gefnogi llwyddiant parhaus twf twristiaeth yng Nghonwy, drwy annog datblygu priodol sy’n gysylltiedig â thwristiaeth, sy’n gydnaws â natur a graddfa’r amgylchedd lleol.<br><br>Bydd angen sicrhau twristiaeth gynaliadwy er mwyn ceisio denu twristiaeth drwy’r flwyddyn yn hytrach nag yn dymhorol yn unig. |




| | |
|---|---|
| **Economi Wledig Conwy:**<br><br>• Mae economi wledig gref yn hanfodol i gynnal cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog. Mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau presennol yn hanfodol i dwf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig, wedi eu cefnogi gan y seilwaith cymunedol a thai angenrheidiol.<br><br>• Mae aneddiadau gwledig Conwy yn cyfrif am tua 15% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhan fwyaf o'r aneddiadau gryn bellter o'r canolfannau mwy trefol, ac felly bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried datblygu economaidd a'r seilwaith angenrheidiol ar eu cyfer.<br><br>• Gall Brexit effeithio ar ein cymunedau gwledig ac mae'n bosibl bydd angen iddynt arallgyfeirio ymhellach. | Dylai'r CDLl Newydd hyrwyddo a chynnal cymunedau cynaliadwy a bywiog drwy sefydlu mentrau newydd, ehangu busnesau presennol a mabwysiadu dull adeiladol tuag at amaeth ac arferion ffermio newydd.<br><br>Bydd angen i'r CDLl Newydd fabwysiadu dull adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol, yn enwedig y rheini sy'n cael eu dyfeisio i ateb anghenion arferion ffermio newydd neu sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd yn ymwneud â'r amgylchedd, hylendid neu les. Hefyd, dylai'r CDLl Newydd fabwysiadu dull cadarnhaol gyda cheisiadau i drosi adeiladau gwledig ar gyfer busnes.<br><br>Yn ogystal, bydd angen i'r CDLl Newydd fabwysiadu agwedd gadarnhaol at brosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig. Gall arallgyfeirio gryfhau'r economi wledig a dod â chyflogaeth ychwanegol a ffyniant i gymunedau<br><br>Dylai'r CDLl Newydd ddynodi safleoedd gwledig newydd ar gyfer datblygu economaidd mewn cynlluniau datblygu lle bo hynny'n briodol.<br><br>Er y dylid parhau i warchod cefn gwlad agored lle bynnag y bo |

| | |
|---|---|
| | hynny'n bosibl, dylid cefnogi ehangu busnesau presennol yng nghefn gwlad agored yn y CDLl Newydd cyn belled nad oes effeithiau annerbyniol. |
| **Seilwaith Trafnidiaeth:**<br><br>• Mae darparu seilwaith trafnidiaeth yn hanfodol er mwyn adeiladu ffyniant, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, lleihau llygredd yn yr aer a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Conwy.<br><br>• Mae angen hwyluso'r broses o gyflwyno a gwella seilwaith trafnidiaeth di-garbon mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, ac sy'n hwyluso a chynyddu'r defnydd o ddulliau teithio llesol a chynaliadwy<br><br>• Disgrifir llwybrau teithio llesol yn ardal CBSC fel rhai gwael y mae angen buddsoddi ynddynt.<br><br>• Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi prosiectau trafnidiaeth sy'n flaenoriaeth yng Nghonwy<br><br>• Mae gan Gonwy amryw o orsafoedd trên trefol ar hyd prif linell y Gogledd gyda chysylltiadau i nifer o drefi mawr eraill. Hefyd, mae rheilffordd Dyffryn Conwy yn rhedeg o orsaf Llandudno, gan gysylltu â nifer o | Dylai'r CDLl Newydd gefnogi'r gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith trafnidiaeth, lle gellir dangos eu bod yn arwain at fwy o ddefnydd o drafnidiaeth gynaliadwy ac yn lleihau dibyniaeth ar geir preifat ar gyfer teithiau dyddiol.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd leoli twf yn yr ardaloedd lle mae'r seilwaith angenrheidiol ar gael neu mae wedi'i gynllunio er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a lleihau'r angen i ddefnyddio ceir. Dylai'r CDLl Newydd hefyd nodi lle mae angen trafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfeydd ychwanegol a dylid eu gwarchod i gefnogi datblygiadau newydd.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd gynnwys yr holl gynigion ar gyfer ffyrdd newydd a gwelliannau mawr i'r brif rwydwaith ffyrdd yn ystod oes y cynllun, a nodi'r polisïau cyffredinol ar flaenoriaethau ar gyfer mân welliannau. |



| | |
|---|---|
| bentrefi gwledig. Mae'r gwasanaeth bws ar hyd coridor yr arfordir yn eithaf da yn gyffredinol ond gall fod angen gwasanaethau ychwanegol mewn rhai ardaloedd i gynnal twf. Mae gwasanaeth da i Lanrwst yn bwydo'r ardal wledig, ond mae'n gyfyngedig ar ôl hynny o ran gwasanaethu'r aneddiadau gwledig ehangach.<br><br>• Mae nifer o gyfnewidfeydd trafnidiaeth gynaliadwy ar y gweill ar gyfer yr ardal.<br><br>• Mae amryw o gilffyrdd rheilffyrdd mawr yn yr ardal | |
| **Telegyfathrebu:**<br><br>• Mae seilwaith gyfathrebu electronig fforddiadwy a diogel yn hanfodol i bobl a busnesau.<br><br>• Mae diffygion yn y system delegyfathrebu symudol yn rhai ardaloedd o Gonwy ac nid oes gan rai ardaloedd fynediad at fand eang ar linellau sefydlog. | Dylai'r CDLl Newydd roi cymorth i'r seilwaith telegyfathrebu mewn lleoliadau priodol. Dylai nodi polisïau ar gyfer datblygu telegyfathrebu, gan gynnwys polisïau ar sail meini prawf i arwain datblygiadau i leoliadau addas.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd geisio cefnogi cynigion ar gyfer seilwaith band eang newydd neu welliannau i rwydweithiau neu gyfarpar presennol. Dylai polisïau hefyd sicrhau bod seilwaith band eang yn ofyniad hanfodol mewn cynigion datblygu newydd. |
| **Ynni a Newid yn yr Hinsawdd:**<br><br>• Mae gwaith ymchwil i'r newid yn yr hinsawdd yn darogan cynnydd yn amlder a difrifoldeb ein glawiad. Felly, mae llifogydd o afonydd, carthffosydd a dŵr wyneb yn | Dylai'r CDLl Newydd geisio cyflwyno polisïau perthnasol er mwyn:<br><br>- lleihau faint o ynni rydym yn ei ddefnyddio yng Nghonwy; |
| debygol o waethygu ar draws ardal CBSC yn y dyfodol. Disgwylir i ardal CBSC hefyd wynebu mwy o lifogydd llanw wrth i lefel y môr godi.<br><br>• Yn 2015 cynhyrchodd CBSC 2.7% o'r ynni carbon isel ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae lle i wella ar hyn drwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn y dyfodol.<br><br>• Mae Adolygiad Ynni Adnewyddadwy Conwy hefyd yn nodi cynigion strategol ar gyfer ynni gwynt a solar y bydd angen i'r CDLl Newydd eu hystyried.<br><br>• Mae Strategaeth Economaidd Conwy yn hyrwyddo cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy a dyhead i gyflwyno Morlyn Ynni Llanw ar hyd arfordir y Gogledd, a fyddai'n creu ardal fwy cydnerth yn erbyn llifogydd, adfywio a chynhyrchu ar gyfer twristiaeth a hamdden yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy.<br><br>• Yn y tymor hir gallwn ddisgwyl symudiad parhaus i ffwrdd o gynhyrchu tanwyddau ffosil i gyfeiriad ffynonellau ynni mwy cynaliadwy. | - lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir gan danwyddau ffosil;<br>- rheoli'n weithredol y broses o symud i economi carbon isel; a<br>- lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn unol â'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd sicrhau cymysgedd priodol o ynni sy'n cynnig y manteision gorau i economi a chymunedau Conwy ond yn lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol. Dylai gydnabod yn llawn y manteision a gyflwynir gan ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel fel rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac i wella diogelwch ynni. Dylai gefnogi defnydd isel o ynni adnewyddadwy, a mynediad at y grid mewn datblygiadau.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy yng Nghonwy wrth lunio targed ynni adnewyddadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, briodol.<br><br>Dylai polisïau'r CDLl Newydd sicrhau bod egwyddorion adeiladu dylunio cynaliadwy yn rhan hanfodol o ddylunio datblygiad newydd. Hefyd, dylai'r CDLl Newydd asesu safleoedd strategol drwy gynnal asesiad hyfywedd economaidd i |



| | |
|---|---|
| | nodi cyfleoedd i fynnu safonau adeiladu mwy cynaliadwy.<br><br>Dylai'r CDLl Newydd, lle bo hynny'n berthnasol, ddarparu polisïau i esbonio lle mae datblygiadau ynni gwynt mawr yn debygol o gael eu caniatáu yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol. |
| **Mwynau:**<br><br>• Mae'r ddarpariaeth ar gyfer agregau ym mhob awdurdod lleol yn cael ei arwain gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) ar gyfer agregau, sef un o ofynion paragraff 50 Nodyn Technegol Mwynau 1. Mae'r datganiad hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2020.<br><br>• Bydd y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw ddosraniad angenrheidiol i sicrhau cyflenwad digonol o greigiau wedi'u malu a thywod ac agredau graean, gan gynnwys isafswm y ddarpariaeth genedlaethol o 7 mlynedd o dywod a graean a 10 mlynedd ar gyfer creigiau wedi'u malu. | Nid yw amseriad cyhoeddi'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cyd-fynd ag amserlen adolygu'r CDLl, fodd bynnag, ar y cam hwn mae banc tir sylweddol wedi'i ganiatáu o greigiau wedi'u malu wrth gefn yng Nghonwy a rhagwelir y bydd yn para am holl gyfnod adolygu'r CDLl a'r cyfnod gofynnol ar gyfer banc tir, sef 10 mlynedd. O'r herwydd, ystyrir ei fod yn annhebygol y byddai unrhyw ofyniad sylweddol i wneud darpariaeth ychwanegol.<br><br>Hefyd, mae diffyg adnoddau tywod a graean anghyfyngedig sy'n hyfyw yn fasnachol yn golygu bod unrhyw ddarpariaeth y mae Conwy'n debygol o fod ei angen ar gyfer tywod a graean yn fwy tebygol o ddod o ddosraniad yn Sir Gwynedd.<br><br>Bydd angen i adolygiadau o'r CDLl yn y dyfodol roi ystyriaeth i ganlyniad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.) |

| | |
|---|---|
| **Gwastraff:**<br><br>• Cyhoeddwyd nifer o adroddiadau monitro rhanbarthol sy'n dangos bod cyfraddau casglu gwastraff y Sir wedi gostwng yn raddol ers 2008 a bod cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n gyffredinol.<br><br>• Mae'r gofyniad i lunio Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi cael ei ddileu, er bod yn rhaid parhau â gwaith monitro i sicrhau bod gan ranbarthau gapasiti gwaredu ac adfer digonol.<br><br>Y prif gasgliad hyd yma yw nad oes angen capasiti gwaredu ychwanegol yn y rhanbarth ac y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw alw am gapasiti trin gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth i sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain at orddarpariaeth. | Er bod polisïau a chanllawiau cenedlaethol wedi newid mewn perthynas â gwastraff, mae polisïau'r CDLl presennol MWS/6 ac MWS/7 wedi bod yn ddigon hyblyg i sicrhau seilwaith gwastraff.<br><br>Mae'r syniad o ddefnyddio tir cyflogaeth ar gyfer gwastraff yn ddichonadwy ond dylid ei addasu i gynnwys dull sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn sicrhau mai cyfleusterau priodol yn unig a gaiff eu lleoli ar ddyraniadau tir cyflogaeth.<br><br>Bydd rhai safleoedd nad ydynt yn rhai strategol yn cael eu nodi ar gyfer rheoli gwastraff yn amodol ar angen lleol. |
| **Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy** | |
| **Tirweddau:**<br><br>• Mae gan Gonwy dirweddau cyfoethog ac amrywiol. Mae Conwy wedi dynodi 6 Ardal Tirwedd Arbennig ar lefel leol.<br><br>• Parc Cenedlaethol Eryri. Wedi'i ddynodi yn Barc Cenedlaethol yn 1951, Parc Cenedlaethol Eryri yw'r parc mwyaf a'r cyntaf i gael ei ddynodi yng Nghymru. Mae'n ymestyn dros 213,200 hectar. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys rhannau o Wynedd a rhannau o | Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried tirweddau ar ddechrau'r broses o lunio strategaethau a pholisïau<br><br>Bydd angen i'r CDLl Newydd gadw a gwella asedau naturiol o ansawdd uchel Conwy. |



| | |
|---|---|
| ardal CBSC, gan gynnwys aneddiadau sydd yn y ddwy Sir. | |
| **Ardaloedd Arfordirol:**<br><br>• Mae 85% o'r boblogaeth yn byw ar hyd arfordir Conwy ac mae'r holl ardaloedd trefol mwyaf poblog ar hyd coridor yr A55.<br><br>• Mae lefel uchel o bwysau datblygu yn yr ardal ac mae angen adfywio ardaloedd fel Pensarn, Tywyn a Bae Cinmel, lle mae'r perygl o lifogydd yn her sylweddol. Mae Astudiaeth Potensial Datblygu yn cael ei chynnal yn yr ardaloedd hyn i benderfynu a ellir cynnal twf. | Bydd angen i'r CDLl Newydd sefydlu'r glir beth y mae'r arfordir yn ei olygu i Gonwy a datblygu neu ddefnyddio polisïau penodol sy'n adlewyrchu nodweddion yr arfordir. Drwy wneud hyn, dylai'r CDLl Newydd gydnabod y cyswllt a'r berthynas rhwng nodweddion ffisegol, biolegol a defnydd tir yr ardaloedd arfordirol a'u heffeithiau ar newid yn yr hinsawdd. |
| **Amgylchedd Hanesyddol:**<br><br>• Mae asedau hanesyddol yn chwarae rôl bwysig mewn twristiaeth, buddsoddi a chymunedau ac mae angen eu gwarchod a'u gwella drwy'r CDLl Newydd.<br><br>• Mae Castell Conwy wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth y Byd. Ym marn UNESCO, Castell Conwy yw "un o'r enghreifftiau mwyaf godidog yn Ewrop o bensaernïaeth filwrol diwedd yr 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop".<br><br>• Mae ardal CBSC yn cynnwys 162 o Henebion Cofrestredig, 1735 o Adeiladau Rhestredig y mae 29 o'r rhain yn adeiladau Gradd I, 1610 yn Gradd 2 a 96 yn Gradd 2*, a 24 o | Mae'r asedau treftadaeth a nodwyd yn elwa ar warchodaeth statudol a rhaid ystyried hyn yng nghyswllt polisïau, cynigion a chanllawiau'r CDLl Newydd.<br><br>Rhaid i'r CDLl Newydd warchod a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth ansawdd uchel Conwy.<br><br>Dylid gwarchod, amddiffyn a hyrwyddo eu cyfraniad i ardal CBSC ac yn enwedig tref Conwy (tref treftadaeth y byd) er mwyn annog twristiaeth yn yr ardal. |

| | |
|---|---|
| Ardaloedd Cadwraeth. Rhaid i'r CDLl Newydd gefnogi ymdrechion i warchod a gwella ein holl asedau treftadaeth dynodedig cenedlaethol, gan gynnwys eu gosodiad. | |
| **Adfywio drwy Ddiwylliant:**<br>• Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn nodi pwysigrwydd cynnal nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i le, yn ogystal â bod yn annhebyg i unrhyw le arall.<br>• Ar hyn o bryd, mae nifer o fentrau a phrosiectau adfywio parhaus ac arfaethedig ar gyfer y dyfodol agos ar draws y sir a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar wella a chynnal asedau diwylliannol Conwy. | Bydd angen i'r CDLl Newydd gynnig cefnogaeth i'r fath fentrau pan maent yn berthnasol i gynlluniau defnydd tir ac yn cyd-fynd ag amcanion/polisïau eraill yn y cynllun. |
| **Seilwaith Gwyrdd:**<br><br>• Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn sbardun cryf i ddarparu seilwaith gwyrdd aml-weithredol.<br><br>• Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd Conwy ar y gweill i oleuo'r gwaith o gynhyrchu CDLl Newydd ac i ddatblygu dull cadarn o lunio cynigion i wella bioamrywiaeth, cynyddu gwydnwch ecolegol a gwella canlyniadau lles, a bydd yn adnabod cyfleoedd strategol allweddol lle gallai adfer, cynnal, creu neu gysylltu nodweddion gwyrdd a'u swyddogaethau ddarparu'r manteision gorau yng Nghonwy. | Dylai'r CDLl Newydd warchod a gwella asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.<br><br>Rhaid i'r CDLl Newydd gydymffurfio â Dyletswydd Adran 6 mewn perthynas ag Amrywiaeth, Graddau, Cyflwr, Cysylltiadau a Gallu i Addasu i Newid. |
| **Bioamrywiaeth:** | Bydd angen i'r CDLl sicrhau ei fod yn gweithredu fesul cam wrth |



| | |
|---|---|
| • Dylid rhoi ystyriaeth i wybodaeth yn Natganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a chofnodion rhywogaethau o Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol. Hyd yma nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi'r Datganiadau Ardal ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.<br><br>• Mae Conwy yn cynnwys 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), 8 Ardal Cadwraeth Arbennig ac un Safle Ramsar.<br><br>• Mae gan Sir Conwy 43 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNC). Rhaid i unrhyw CDLl Newydd gefnogi'r gwaith o reoli safleoedd gyda dynodiadau cenedlaethol yn unol â'r amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd ar eu cyfer.<br><br>• Mae gan Sir Conwy dros 40 o Ardaloedd Bioamrywiaeth ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno neu yn ei reoli, ac 11 Gwarchodfa Natur Leol. | warchod a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu rhwydweithiau ecolegol gwydn drwy sicrhau bod unrhyw effeithiau niweidiol i'r amgylchedd yn cael eu lleihau a'u lliniaru. |
| **Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau:**<br><br>**Aer a Seinwedd:**<br><br>• Mae aer glân a seinwedd priodol yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol o le, yn ogystal â bod yn angenrheidiol ar gyfer iechyd, amwynder a lles y cyhoedd. | Dylai'r CDLl Newydd sicrhau ei fod yn cynnwys polisïau i atal effaith a gwneud y mwyaf o'i gyfle i gyfrannu at greu Cymru iachach drwy geisio lleihau faint y mae pobl yn dod i gysylltiad ar gyfartaledd â llygredd aer a sŵn, ochr yn ochr â mesurau i fynd i'r afael ag ardaloedd o lygredd uchel. Drwy wneud hyn bydd yr egwyddor 'cyfrwng newid' yn ystyriaeth berthnasol. |

| | |
|---|---|
| • Yn ôl y data diweddaraf, nid yw safonau ansawdd yr aer yn ardal CBSC mewn perygl o fynd dros y safonau a nodir yn Amcanion Ansawdd Aer yr Undeb Ewropeaidd ac nid oes angen unrhyw asesiadau manwl na chynlluniau rheoli ar lefel Cyngor ar gyfer unrhyw lygredd.<br><br>**Golau**<br><br>• Mae angen cydbwyso darparu goleuadau i gadw pobl ac eiddo'n ddiogel er mwyn helpu i atal troseddu, a gallu cynnal gweithgareddau fel chwaraeon a hamdden â'r angen i warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol gan gynnwys bywyd gwyllt; cadw ein hawyr yn dywyll lle bo hynny'n briodol; atal golau tanbaid a pharchu amwynder defnyddiau tir cyfagos ynghyd â lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â goleuadau. | Dylai'r CDLl Newydd hefyd nodi ardaloedd o bwysigrwydd diwylliannol neu hanesyddol, y dylid rhoi ystyriaeth arbennig iddynt o ran seinwedd lle gallai fod angen gwneud hyn i ddiogelu bywiogrwydd neu i ddarparu amgylchedd heddychlon ac adferol mewn ardaloedd adeiledig prysur.<br><br>Bydd yn anhepgor i'r CDLl Newydd adnabod synergedd rhwng mapio seilwaith gwyrdd a'r effaith gymedroli y gallai gwarchod neu ddarparu seilwaith gwyrdd ei chael ar gynnal ansawdd aer da a seinwedd priodol, gan gynnwys rôl mannau gwyrdd tawel. |



2.17 **Adran 2: Gweledigaeth ac Amcanion**

**Gweledigaeth y CDLl**

Mae angen i'r CDLl Newydd fod yn seiliedig ar weledigaeth, amcanion a strategaeth hirdymor a chryno. Er mwyn cyflawni hyn, datblygwyd Gweledigaeth glir ar sail consensws yn dilyn ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r gymuned. Datblygwyd gweledigaeth y CDLl Newydd gan roi ystyriaeth i nodau a negeseuon allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2017), Cynllun Corfforaethol Conwy ac elfennau o Gynllun Gofodol Cymru (WSP) a thystiolaeth gadarn. Cafodd ei mireinio ymhellach yn ystod y broses Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n parhau. Yn bwysig iawn, mae'n adlewyrchu'r materion ac yn amlinellu strategaeth ar gyfer sut bwriedir i'r Cynllun Ardal ddatblygu, newid neu aros yr un fath hyd at 2033.

**Erbyn 2033, bydd Sir Conwy yn cynnig gwell cyfleoedd i fyw, gweithio ac ymweld â hi. Bydd ansawdd bywyd da yn cael ei gynnig i bawb, gan gefnogi amrywiaeth pobl a lleoedd Sir Conwy. Bydd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg mewn sawl cymuned yn cael ei werthfawrogi a'i gryfhau. Bydd pobl hŷn Sir Conwy yn cael eu hannog i fyw bywydau gweithgar, iach a llawn wrth heneiddio. Bydd gwell addysg, cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol ar gael i annog pobl ifanc i aros yn Sir Conwy a dychwelyd yma a chynnal twf. Darperir dewis ehangach o lety wedi'i ddylunio'n dda ar draws Sir Conwy, yn seiliedig ar yr angen lleol am dai fforddiadwy a thai marchnad agored.**

**Bydd pwyslais newydd ar greu lleoedd a mentrau sy'n arwain adfywio yn sicrhau bod datblygu o ansawdd uchel a dyluniad da yn cefnogi'r gwaith o greu lleoedd iachach a mwy bywiog gan adlewyrchu safle Sir Conwy ym Margen Twf y Gogledd.**

**Byddwn yn gwella cryfder economaidd canolfannau cyflogaeth Sir Conwy, a adeiladwyd o amgylch y cysylltiadau trafnidiaeth strategol ar draws y sir. Bydd gan Sir Conwy rwydwaith ffyniannus o drefi a phentrefi, ac economi wledig hyfyw sy'n gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Bydd rhagor o fuddsoddiad mewnol, seilwaith, a darpariaeth teithio llesol yn cael ei annog i gynnal datblygiad cynaliadwy lle bydd yn gydnaws â'r angen i liniaru achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog Sir Conwy yn cael ei gwarchod a'i hybu; gan gydnabod ei phwysigrwydd i les pobl a bywyd gwyllt, ac i'r economi dwristiaeth.**



2.18 **Gwireddu'r Weledigaeth**

Er mwyn sicrhau cysondeb, cafodd y Weledigaeth a'r Amcanion eu hystyried yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych a dogfennau allweddol eraill fel Bargen Dwf y Gogledd. Caiff y weledigaeth hon i Gonwy ei chyflawni drwy weithio ar y cyd gyda'r holl fudd-ddeiliaid sy'n gysylltiedig yn y maes cynllunio gan ddilyn y pum ffordd o weithio (cydweithredu, atal, integreiddio, hirdymor a chynnwys) mewn ymdrech i sicrhau lleoedd cynaliadwy. Bydd ymdrechion i greu lleoedd ac adfywio yn canolbwyntio felly ar sicrhau atebion ar sail lleoedd i'r heriau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n wynebu'r ardal. Caiff y weledigaeth ei rhoi ar waith felly drwy fynd i'r afael â'r amcanion a nodir yn yr adran nesaf, ac yna drwy weithredu polisïau a chynigion cysylltiedig.

2.19 **Amcanion y CDLl**

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai CDLl ddangos yn glir beth yw prif amcanion y cynllun, ynghyd â chyfeiriad cyffredinol unrhyw newid. Defnyddiwyd amcanion strategol y CDLl a fabwysiadwyd eisoes fel man cychwyn ar gyfer nodi amcanion strategol ar gyfer y CDLl Newydd.

2.20 Mae amcanion strategol y CDLl Newydd nid yn unig yn llawn dyhead ac yn uchelgeisiol ond mae modd eu darparu o fewn cyd-destun cynllunio gofodol. Maent yn ymateb i faterion allweddol y Cynllun ac yn eu cyflawni, gan gynnig llwyfan ar gyfer gwireddu'r weledigaeth. Fel yn achos y fersiwn drafft, cafodd y weledigaeth ei mireinio ymhellach yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol ar ddiwedd 2018 a thrwy'r broses Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n parhau. Unwaith yn rhagor, mae'r amcanion wedi'u grwpio o amgylch strwythur arfaethedig newydd y CDLl sy'n adlewyrchu nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Pum Egwyddor Gynllunio Allweddol, Canlyniadau Cynaliadwy a Pholisi Cynllunio Cymru.

***Tabl 2: Amcanion Strategol***

| Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy | |
|---|---|
| Mater Blaenoriaeth | Amcan |
| • **Creu Lleoedd Cynaliadwy**<br>• **Lleoedd Iach, Cydraddoldeb a Llesiant**<br>• **Dylunio Da, yr Amgylchedd Adeiledig a Chreu Lleoedd**<br>• **Yr Iaith Gymraeg**<br>• **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**<br>• **Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig**<br>• **Rheoli Ffurf Aneddiadau**<br>• **Tir a Ddatblygwyd Eisoes, Tir â Chyfyngiadau a Chreu Lleoedd Cynaliadwy**<br>• **Cynlluniau Lle** | **Amcan Strategol 1 (SO1):** Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** Pob amcan |



| Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy | |
|---|---|
| • **Tai, Tai Fforddiadwy a Sipsiwn a Theithwyr** | **Amcan Strategol 2 (SO2):** Hyrwyddo strategaeth holistig ar gyfer cyd-leoli twf tai a chyflogaeth drwy ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr, mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a sicrhau bod y mathau a'r amrediad cywir o dai o ran math, maint a deiliadaeth yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r seilwaith cymunedol angenrheidiol.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** SO1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14 ac 15 |
| • **Canolfannau Manwerthu a Masnachol** | **Amcan Strategol 3 (SO3):** Darparu canolfannau tref a masnachol deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ail-ddiffinio eu rôl ac annog amrywiaeth o weithgareddau a defnyddiau.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** SO1, 2, 6, 7, 8, 9, 13 ac 14. |
| • **Cyfleusterau Cymunedol** | **Amcan Strategol 4 (SO4):** Cyfrannu at naws lle ac at iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y boblogaeth bresennol, a'r boblogaeth yn y dyfodol, fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** SO1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 13 ac 14 |
| • **Mannau Hamdden** | **Amcan Strategol 5 (SO5):** Annog lles meddwl a chorfforol drwy ddarparu a diogelu rhwydweithiau o ardaloedd hamdden a mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** SO1, 2, 4, 6, 8, 12, 13, 14 ac 15. |
| • **Trafnidiaeth a Hygyrchedd** | **Amcan Strategol 6 (SO6):** Darparu datblygu cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd drwy ehangu'r dewis o drafnidiaeth gynaliadwy er mwyn rhoi mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol i gymunedau Conwy, drwy hybu rhwydwaith o lwybrau byrrach, mwy llesol ac effeithlon ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, maint, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiadau newydd.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** Pob amcan |



| Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy | |
|---|---|
| • **Datblygu Economaidd**<br>• **Seilwaith Trafnidiaeth**<br>• **Telegyfathrebu** | **Amcan Strategol 7 (SO7):** Cefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio drwy fanteisio ar sefyllfa strategol Conwy yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth holistig sy'n cyd-leoli twf cyflogaeth a thwf tai, a fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r math iawn mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn cefnogi clystyrau a rhwydweithiau busnes, yn cynyddu sgiliau mewn swyddi gwerth uchel ac yn darparu'r seilwaith newydd angenrheidiol. Bydd hyn yn hwyluso lleoli busnesau newydd yng Nghonwy a thwf y busnesau presennol.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** SO1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12 ac 13 |
| • **Twristiaeth** | **Amcan Strategol 8 (S08):** Annog a chefnogi twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygiad yr economi ac at gadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol, ond yn cydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau a chymunedau lleol a bod angen gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a naturiol.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** SO1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 12, 13 ac 15. |
| • **Economi Wledig Conwy** | **Amcan Strategol 9 (S09):** Hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog drwy sefydlu mentrau newydd, ehangu busnesau presennol a mabwysiadu dull adeiladol tuag at amaeth ac arferion ffermio newydd.<br><br>**Amcanion Strategol:** Pob amcan |
| • **Ynni a Newid yn yr Hinsawdd** | **Amcan Strategol 10 (S010):** Sicrhau cymysgedd priodol o ynni, gan gynnwys hyrwyddo Morlyn Ynni Llanw, sy'n cynnig manteision i economi a chymunedau Conwy ond yn lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol.<br><br>**Amcanion Strategol:** SO1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 11 ac 13 |
| • **Mwynau a Gwastraff** | **Amcan Strategol 11 (SO11):** Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gan effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a sicrhau y gwneir defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu. |



| | |
|---|---|
| | **Amcanion Strategol Cysylltiedig:** SO1, 2, 6, 7, 9, 10 ac 15. |
| **Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy** | |
| • **Tirweddau**<br><br>• **Amgylchedd Hanesyddol** | **Amcan Strategol 12 (SO12):** Gwarchod a chadw asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ansawdd uchel Conwy.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** Pob amcan |
| • **Ardaloedd Arfordirol** | **Amcan Strategol 13 (SO13):** Cefnogi cyfleoedd twf, adfywio a datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol ond, ar yr un pryd, bod yn ymwybodol ac ymatebol i’r heriau sy’n dod oddi wrth bwysau naturiol.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** Pob amcan |
| • **Seilwaith Gwyrdd**<br><br>• **Bioamrywiaeth** | **Amcan Strategol 14 (SO14):** Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn.<br><br>**Amcanion Cysylltiedig:** SO1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, 12, 13 ac 15. |
| • **Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau** | **Amcan Strategol 15 (SO15):** Lleihau faint y mae pobl a phethau’n dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwyso darparu datblygu a goleuadau i gadw pobl ac eiddo’n ddiogel â’r angen i warchod a gwella’r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear o ran eu hansawdd a faint sydd ohonynt.<br><br>**Amcan Cysylltiedig:** Pob amcan |

2.21 **Adran 3: Y Strategaeth Newydd ar gyfer Conwy**

Mae’r Strategaeth newydd hon yn nodi sut y bydd yn cyflenwi’r Weledigaeth, yr Amcanion Strategol ac yn mynd i’r afael â’r materion allweddol sy’n effeithio Conwy. Mae’r adran nesaf o’r Strategaeth a Ffefrir yn nodi’r Polisïau Strategol a ddefnyddir i gefnogi a hyrwyddo cyflenwi’r Strategaeth newydd.

2.22 Mae’r Strategaeth newydd yn ganlyniad gwaith helaeth i feithrin consensws ynghyd ag ymgysylltu blaenorol â rhanddeiliaid. Mae'n rhaid i’r Strategaeth ystyried sylfaen dystiolaeth allweddol a nodi faint o dwf a fynnir o ran cyflogaeth a thai hyd at 2033, ynghyd ag yn lle y dylid lleoli’r twf hwn, ac fe’i cefnogir gan hierarchaeth aneddiadau.

**<u>** Nodyn i’r Darllenydd**</u>** Mae’r Strategaeth newydd a gyflwynir yn yr adran hon yn ganlyniad gwaith helaeth i feithrin consensws ynghyd ag ymgysylltu blaenorol â rhanddeiliaid. Fel rhan o’r ymgynghoriad ar Opsiynau Strategol ddiwedd 2018, bu’r Cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar y materion a’r opsiynau sy’n llywio’r strategaeth newydd hon, gan gynnwys opsiynau ar gyfer twf, opsiynau o ran dosbarthiad gofodol a hierarchaeth aneddiadau.

Cefnogir yr ymgynghoriad hwn hefyd gan sylfaen dystiolaeth yn ffurf 47 Papur Cefndir (PC) a 12 o Bapurau Testun (PT) sy’n seiliedig ar bynciau penodol, sydd wedi llywio ymgynghori blaenorol a hefyd wedi llywio’r ymagwedd ar gyfer y strategaeth newydd (cyfeiriwch at Atodiad ? am restr lawn o bapurau ymgynghori allweddol.)

Mae’r holl bapurau ymgynghori blaenorol a thystiolaeth newydd ar gael fel rhan o’r Ymgynghoriad am y Strategaeth a Ffefrir hon www.conwy.gov.uk/cdlln. Nid bwriad yr adran hon yw ailadrodd y prif bwyntiau trafod yn y papurau ar y materion a’r opsiynau a’r dogfennau sy’n darparu’r sylfaen dystiolaeth. Anogir darllenwyr i ddarllen y dogfennau allweddol hyn ochr yn ochr â’r Strategaeth a Ffefrir hon.

2.23 **Y Strategaeth Newydd**

Mae’r Strategaeth newydd yn hyrwyddo lleoedd cynaliadwy hyd at 2033. Wrth gynllunio ar gyfer lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy, mae’r Strategaeth a Ffefrir hon yn ceisio adlewyrchu a choleddu egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, ynghyd â chysyniad creu lleoedd a gwreiddio’r dyletswyddau a nodir drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Mae’r Strategaeth Newydd yn cynnwys y canlynol:

- **Lefel Dwf** – Faint o dai a swyddi a gynllunnir hyd at 2033.
- **Strategaeth Dosbarthiad Gofodol** – Yn nodi yn lle y bydd y Lefel Dwf newydd yn cael ei lleoli mewn modd cynaliadwy.



- **Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy** – Trafodir yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Chreu Lleoedd allweddol y dylid eu dilyn i gyflawni'r amcan o leoedd cynaliadwy yng Nghonwy.
- **Elfennau Allweddol y Strategaeth** – Trafodir Elfennau Allweddol y Strategaeth sydd i'w dilyn i sicrhau cyflawni'r Strategaeth Newydd a'i bod yn cydymffurfio.

2.24 Mae'r Strategaeth yn annog twf yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r newidiadau o ran poblogaeth ac aelwydydd dros Gyfnod y Cynllun a'r angen i hyrwyddo strwythur oedran mwy cytbwys, gan leihau allgymudo, ynghyd â darparu ar gyfer anghenion lleol sy'n gysylltiedig â Bargen Dwf Gogledd Cymru a chynyddu nifer y tai fforddiadwy ar draws Ardal y Cynllun.

2.25 Mae dosbarthiad y twf yn adlewyrchu nifer o ffactorau allweddol, gan gynnwys cynaliadwyedd aneddiadau a'u poblogaeth, hygyrchedd, capasiti o ran isadeiledd, a'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd, diogelu'r Iaith Gymraeg a chreu cymunedau iachach i bawb. Dylanwadir ar y Strategaeth hefyd gan faterion lefel uchel o ran cyfyngiadau ac argaeledd tir sy'n gysylltiedig â Dwyrain y Fwrdeistref Sirol. Ar yr un pryd, mae'r Strategaeth newydd arfaethedig yn dangos sut y gellir ei chyflawni drwy ystyried yr hyn a gyflawnwyd yn y gorffennol a sut y bydd yn cael ei chyflawni hyd at 2033.

2.26 Er mwyn creu lleoedd cynaliadwy, mae'r Strategaeth yn derbyn bod rhaid iddi gynllunio ar gyfer strwythur oedran mwy cytbwys. Mae gan hyn ei heriau gan fod y boblogaeth iau yn lleihau ac mae'r boblogaeth hŷn yn cynyddu er anfantais o ran creu lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy. Mae'n rhaid iddi sicrhau cydbwysedd drwy ddarparu'r lefel iawn o dwf o ran tai a chyflogaeth, ynghyd â'r isadeiledd a fynnir yn gymuned i annog y boblogaeth iau i aros a dychwelyd i'r ardal, ond hefyd er mwyn i'r boblogaeth hŷn fyw bywydau iach ac egnïol.

2.27 Mae'r Strategaeth newydd yn cyd-fynd â Nodau Llesiant, Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol[1], gan gynnwys lleihau'r angen i deithio a chynyddu hygyrchedd drwy ddulliau eraill ar wahân i'r car preifat. Hyrwyddir cydbwysedd eang a hyblygrwydd rhwng cyfleoedd o ran tai a chyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig er mwyn lleihau'r angen i gymudo'n bell. Mae'r Strategaeth yn mabwysiadu ymagwedd sydd â'r nod o leoli prif gynhyrchwyr yr angen i deithio, fel tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden ac adloniant a chyfleusterau cymunedol (gan gynnwys llyfrgelloedd, ysgolion, meddygfeydd ac ysbytai), o fewn ardaloedd trefol presennol neu mewn lleoliadau eraill sy'n hawdd eu cyrraedd, neu y byddai'n bosibl eu cyrraedd ar droed neu ar feic, neu sydd â gwasanaethau cludiant cyhoeddus da. Lle bynnag y bo modd, mae'r Strategaeth yn ceisio lleoli datblygiadau dwysedd uwch ger pwyntiau cludiant cyhoeddus neu gyfnewidfeydd lle mae gan yr isadeiledd cludiant y capasiti i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn defnydd ac sy'n cyd-fynd â chynnal iechyd, amwynder a lles pobl.

2.28 **Twf Cyflawnadwy a Chynaliadwy**

Bydd y CDLlN yn darparu ar gyfer y lefel dwf a ganlyn dros Gyfnod y Cynllun o 2018-2033. Mae'r twf a gynigir ychydig yn uwch na senarios amcanestyniadau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r twf arfaethedig yn adlewyrchu newidiadau o ran poblogaeth ac aelwydydd[2], rhagolygon cyflogaeth ar lefel leol a

[1] Cyfeiriwch at Bapur Ymgynghori 2

[2] Cyfeiriwch at PC1 'Papur Opsiynau Twf'



rhanbarthol[3] ac anghenion tai fforddiadwy[4], sy'n arwain at yr angen am y lefelau twf a ganlyn. Mae'r fethodoleg ar gyfer y senario twf hwn yn wahanol i'r fethodoleg amcanestyniadau traddodiadol a ddefnyddir i asesu opsiynau amgen[2]. Cyfrifir yr effeithiau o ran poblogaeth, aelwydydd ac anheddau yn defnyddio methodoleg ôl-iteriad ('backward iteration methodology') sy'n addasu elfennau o newid o ran poblogaeth (lefelau ymfudo yn bennaf ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio a'u dibynyddion) i gyfateb twf o ran swyddi gyda lefelau twf o ran poblogaeth.

**4,300 o Gartrefi newydd**

**a**

**1,800 o Swyddi newydd**

2.29 **Twf o ran Cartrefi a'u Math**

Hyrwyddir lefel holistaidd o dwf o ran tai a chyflogaeth. Bydd y CDLlN yn darparu'r cyfle i gyflenwi 4,300 o gartrefi dros Gyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cyfateb i 290 o gartrefi y flwyddyn o 2018 i 2033.

2.30 Mae'r Strategaeth newydd yn sicrhau bod digon o gyfle'n bodoli i wneud y gorau o ddarpariaeth fforddiadwy i gefnogi anghenion tai mewn ardaloedd gwledig a threfol, wrth ddarparu sylfaen gref ar gyfer darparu lefel gyflawnadwy o dai'r farchnad agored. Darperir cyfleoedd i gydbwyso demograffeg y Sir drwy gadw oedolion ifanc a'u hymfudiad i mewn i'r Sir, lleihau allgymudo, a mynd i'r afael â rhai o'r materion o ran poblogaeth sy'n heneiddio.

2.31 Bydd y Strategaeth newydd yn cynllunio ar gyfer y math a'r cyfuniad iawn o dai i ddarparu ar gyfer aelwydydd llai a rhai sydd wedi'u haddasu ar gyfer pobl hŷn. Mae Asesiad Marchnad Dai Leol Conwy yn awgrymu y dylai 35% o'r cyflenwad tai gynnwys eiddo 1a 2 ystafell wely, gyda 35% yn eiddo 3 ystafell wely a 30% yn eiddo 4 a 5 ystafell wely. Bydd elfen o hyblygrwydd i'r cyfuniad hwn i ddarparu ar gyfer nodweddion lleol a newidiol aneddiadau.

2.32 **Cartrefi a Hyblygrwydd**

Y gofyniad tai sylfaenol ar gyfer Conwy yw 4,300, sydd hefyd yn adlewyrchu'r cyflenwad posibl o 100 o gartrefi y gellir ei ddarparu o fewn Parc Cenedlaethol Eryri dros Gyfnod y Cynllun. Ychwanegir lefel hyblygrwydd o 20% (850) sy'n cyfateb i gyflenwi 5,150 o gartrefi newydd.

2.33 **Tai Fforddiadwy**

Cynllunnir targed uchelgeisiol ond cyflawnadwy i gyflenwi 1800 (120 y flwyddyn) o gartrefi fforddiadwy ar gyfer y cyfnod hyd at 2033, gan gynnwys oddeutu 1000 o dai newydd fforddiadwy ac 800 arall yn sgil mecanweithiau polisi a mentrau'r Cyngor. Mae'r targed hwn yn ganlyniad ymgymryd ag asesiad o anghenion tai fforddiadwy y gymuned ynghyd â llunio Asesiad Hyfywedd Fai Fforddiadwy[5]. Cyflawnir y targed drwy gyfuniad o

[3] Cyfeiriwch at PC18 'Adolygiad o Dir Cyflogaeth (gan gynnwys goblygiadau **B**argen Dwf Gogledd Cymru)

[4] Cyfeiriwch at PC9 'Asesiad Marchnad Dai Leol', PC10 'Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy' a PC11 'Cyfrifiad Anghenion Tai Fforddiadwy'.

[5] PC10 'Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy'



fecanweithiau, gan gynnwys dyraniadau tir, polisïau a mentrau'r Cyngor. Mae Asesiad Marchnad Dai Leol Conwy yn awgrymu y dylai'r cyflenwad o dai fforddiadwy ar safleoedd ddarparu ar gyfer 50% o Dai Cymdeithasol a 50% o Dai Cost Isel o ran Perchnogaeth. Gweithredir y cyfuniad hwn gydag elfen o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer nodweddion lleol a newidiol aneddiadau.

2.34 **Twf Swyddi a'u Math**

O ran creu lleoedd cynaliadwy, cyfrannu at strwythur oedran mwy cytbwys a lleihau lefelau allgymudo anghynaliadwy, cynllunnir ar gyfer lefel dwf o 1800 o swyddi yn y cyfnod hyd at 2033, sy'n awgrymu'r angen am 12 - 14 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer swyddi newydd dros Gyfnod y Cynllun. Mae hyn yn adlewyrchu'r amcanion o ran twf a chreu swyddi sy'n debygol o gael eu darparu yng Nghonwy drwy Fargen Dwf Gogledd Cymru. Bydd y Strategaeth newydd yn cynllunio ar gyfer tir i ddarparu ar gyfer 50% o'r 1800 o swyddi i ddiwallu anghenion Busnesau B1 a 50% ar gyfer Warysau Diwydiannol B2/B8.

2.35 **Strategaeth Dosbarthiad Gofodol**


Er mwyn sicrhau cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun, mae'r Strategaeth Dosbarthiad Gofodol yn arwain lleoliad y twf a'r ddarpariaeth o wasanaethau ac isadeiledd tuag at y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy a nodir yn yr **Hierarchaeth Aneddiadau**. Ar ôl nodi a deall anghenion a chynaliadwyedd ardaloedd trefol a gwledig presennol a nodir o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig canolbwyntio 90% o'r twf o fewn **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (CDSA)** a 10% o fewn yr **Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA).** Mae hyn yn fwy neu lai'n cyd-fynd â rhaniad presennol y boblogaeth yng Nghonwy ac mae iddo'r manteision o ddiwallu anghenion a chyflawni cyfleoedd mewn cymunedau trefol a gwledig.

2.36 **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (CDSA)**

Mae'r Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (CDSA) yn cynnig y cyfle gorau i leoli twf, diwallu anghenion y gymuned, hybu teithio llesol, cymunedau iachach, mynd i'r afael â newid hinsawdd ac, yn y diwedd, cydymffurfio ag Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy ac Elfennau Allweddol y Strategaeth. Mae'n cynnwys pedair ardal strategol ar draws y coridor arfordirol, sy'n cynnwys y prif aneddiadau trefol, Prif Bentrefi Haen 1 a nifer o aneddiadau bychain eraill o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau (gweler Tabl 3). Tra na fydd y Pentrefi Haen 1 yn darparu ar gyfer yr un lefel o dwf â'r aneddiadau trefol, fe'u cynhwyswyd oherwydd eu hygyrchedd a'u cysylltiad â'r ardaloedd trefol a llwybrau cludiant strategol. Fel y cyfryw, mae'r CDSA yn cyfeirio tua 90% o'r datblygiadau newydd, yn bennaf, o fewn neu'n gyfagos i'r aneddiadau trefol o fewn y pedair Ardal Strategol, sef ardaloedd y **Gorllewin,** y **Creuddyn**, a'r **Canol** ac i lefel is, o fewn y **Dwyrain** (gweler Map 1). Mae'r lleoliadau hyn yn hygyrch i wasanaethau allweddol, wedi'u cysylltu'n agos ag ardaloedd cyflogaeth presennol, yn cael eu cefnogi gan rwydwaith ffyrdd, rheilffyrdd a chludiant cyhoeddus ardderchog, ac yn ffurfio'r ardaloedd amlycaf sydd angen tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy.



*Map 1: Diagram Allweddol y CDLlN*




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023380
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

2.37 Bydd angen cael ymagwedd gytbwys ac wedi'i haddasu tuag at ddosbarthu twf o fewn y pedwar ardal strategol er mwyn sicrhau bod y lefel uchel o gyfyngiadau ar gyfer y perygl o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r Dwyrain yn cael eu ffactorio'n llawn. Fel y cyfryw, bydd y twf na ellir [6] darparu ar ei gyfer o fewn y Dwyrain yn cael ei ddosbarthu'n gymesur ar draws gweddill yr ardaloedd strategol a ystyrir i fod y lleoliadau mwyaf cynaliadwy. I ddarparu ar gyfer twf, bydd y ffiniau anheddiad a'r lletemau glas yn cael eu hadolygu a'u diwygio. Ni chaniateir datblygu y tu allan i'r ffiniau aneddiadau yn aneddiadau trefol a Phentrefi Haen 1 y CDSA, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol i gefnogi newidiadau o ran gofynion cyflogaeth ac i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i gyflwyno lefelau uwch o dai fforddiadwy, hyd at uchafswm o 20 o unedau.

2.38 **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Gorllewin**

Lleolir yr ardal strategol hon yng nghyrion pellaf Ardal Cynllun y CDLlN, wedi'i gwahanu'n ffisegol o ardal Creuddyn gan bentir Penmaenbach, ac mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ffinio â hi tua'r de. Llanfairfechan a Phenmaenmawr yw'r ddau anheddiad trefol o fewn yr ardal strategaeth hon, ac at ei gilydd, maent yn hunangynhwysol gyda lefel dda o gyfleusterau a gwasanaethau (cyfeiriwch at Fap 2). Er mwyn adlewyrchu'r lefelau poblogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, hygyrchedd da a'r effeithiau mewn perthynas â'r dosbarthiad twf wedi'i addasu o'r Dwyrain, lleolir 10% o'r twf o ran tai (marchnad agored a fforddiadwy) o fewn Ardal Strategol y Gorllewin, gan gynnwys safleoedd a gwblhawyd, caniatadau, datblygiadau ar hap a dyraniadau newydd. O ganlyniad i dopograffi ac argaeledd tir ym Mhenmaenmawr, lleolir y mwyafrif o gartrefi newydd o fewn Llanfairfechan, sy'n arbennig o hygyrch i'r rhwydwaith rheilffyrdd a ffyrdd strategol a'r aneddiadau trefol lefel uwch ehangach. Yn seiliedig ar gasgliadau'r Adroddiad Dadansoddi Marchnad Masnachol[7] ni fydd unrhyw ddyraniadau cyflogaeth newydd yn cael eu lleoli o fewn Ardal Strategol y Gorllewin. Mae Llanfairfechan yn profi materion o ran capasiti ysgolion cynradd ar hyn o bryd, ac mae ysgol Band B newydd wedi'i chynllunio rhwng 2019 a 2024. I sicrhau bod modd cyflawni twf a thai newydd, cynigir safle strategol defnydd cymysg yn Llanfairfechan sy'n cynnwys 400 o gartrefi newydd, tai fforddiadwy, ysgol gynradd newydd a man hamdden. Bydd angen rhoi gwelliannau ar waith i wella'r parth cerddwyr o'r ardaloedd preswyl ehangach a'r llwybrau teithio llesol i gefnogi cynaliadwyedd y safle a'r ardal strategol.

2.39 Lleolir Pentref Haen 1 Dwygyfylchi o fewn Ardal Strategol y Gorllewin, fel y mae Pentrefan Capelulo. Fe'u lleolir i'r dwyrain o aneddiadau trefol Llanfairfechan a Phenmaenmawr ac mae ganddynt fynediad da i'r aneddiadau trefol drwy'r rhwydwaith cludiant strategol a chludiant cyhoeddus. Bydd lefel y twf o fewn yr aneddiadau hyn yn cyd-fynd â'r hierarchaeth aneddiadau ac yn adlewyrchu ystod bresennol y cyfleusterau a'r gwasanaethau a'r rheiny a gynllunnir dros Gyfnod y Cynllun.


---

[6] Cyfeiriwch at PC35 'Y Perygl o Lifogydd a Chyfleoedd Datblygu'

[7] Cyfeiriwch at PC19 'Adroddiad Dadansoddiad Marchnad Masnachol'



***Map 2: Ardal Strategaeth: Gorllewin***




2.40 **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Creuddyn**


Llandudno, Cyffordd Llandudno a Chonwy yw'r prif aneddiadau trefol o fewn yr ardal hon, sy'n perfformio rôl ddiwylliannol, gymdeithasol ac economaidd bwysig ar gyfer Ardal y Cynllun. Fe'u lleolir yn strategol gyda chysylltiadau ardderchog i'r rhwydwaith ffyrdd, rheilffyrdd a chludiant cyhoeddus. Dros Gyfnod y Cynllun, rhagwelir y lleolir tua 30% o'r twf o ran tai (marchnad agored a fforddiadwy) o fewn Ardal Strategol y Creuddyn sy'n cynnwys safleoedd a gwblhawyd, caniatadau, datblygiadau ar hap a dyraniadau newydd. I sicrhau y cyflawnir yr anghenion a nodir yng nghasgliadau Adroddiad Dadansoddiad Marchnad Masnachol Conwy, bydd yr ardal hefyd yn darparu ar gyfer tua 30% o'r tir cyflogaeth sy'n cynnwys safleoedd a gwblhawyd, caniatadau a dyraniadau newydd. Er yn ardal allweddol ar gyfer twf, mae cyfyngiad ar argaeledd tir o ganlyniad i faterion ffisegol, hanesyddol ac amgylcheddol. Felly cynigir safle strategol defnydd cymysg yn Llanrhos, rhwng aneddiadau trefol Cyffordd Llandudno a Llandudno, sy'n cynnwys 250 o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy), 1 hectar o B1 (swyddfeydd) i hyrwyddo defnyddiau cyflogaeth clwstwr, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd a man hamdden. Cydnabyddir yr ardal hefyd fel un sydd angen gwelliannau o ran cludiant cyhoeddus, teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd, a hyrwyddir drwy Frîff Datblygu cynhwysfawr. Bydd y safle strategol yn cael ei ddatblygu'n raddol o 2024 ymlaen i sicrhau ei fod yn cysylltu â Rhaglen Foderneiddio Ysgolion 'Band C'. Cefnogir y safle strategol gan hygyrchedd ardderchog i'r A470 a'r A55 a ffyrdd amgen i mewn i'r aneddiadau trefol lefel uwch.

2.41 Ni fydd Canol Tref Llandudno yn darparu ar gyfer unrhyw safle manwerthu cyfleustra mawr neu gymharol hyd at 2022[8], ond bydd yn cael ei warchod a, lle'n bosibl, ei wella i sicrhau cymysgedd cytbwys o ddefnyddiau sy'n cynnal y gweithgaredd drwy'r dydd a gyda'r nos. Bydd y gwasanaethau a gynigir o ran twristiaeth a llety o fewn Llandudno yn cael eu gwarchod, eu gwella a'u harallgyfeirio ymhellach ar gyfer twristiaeth drwy'r flwyddyn. Bydd Llandudno yn cydnabod y newidiadau o ran arferion siopa, yn enwedig y cynnig cymharol.

2.42 Mae Cyffordd Llandudno yn gweithredu fel hyb economaidd allweddol yng nghanol Gogledd Cymru gyda chysylltiadau ardderchog o ran ffyrdd, rheilffyrdd a chludiant cyhoeddus. Bydd y cynnig o ran cyflogaeth yn cael ei ddiogelu a'i hybu drwy raglenni gwella.

[8] Cyfeiriwch at PC24 'Astudiaeth Capasiti Manwerthu Conwy'

*Map 3: Ardal Strategaeth: Creuddyn*




2.43 Bydd Conwy'n gweld ychydig iawn o dwf o ran tai a chyflogaeth oherwydd ei ansawdd amgylcheddol a hanesyddol. O fewn Canol Tref Conwy, rhoir ymagwedd gytbwys ar waith i sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu, ond bod yr asedau hanesyddol ac amgylcheddol yn cael eu gwarchod a'u gwella ar yr un pryd er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at dwristiaeth.

2.44 Bydd aneddiadau eraill o fewn Ardal y Creuddyn hefyd yn cefnogi rhyw lefel o dwf, sy'n gymesur â'u lefel o fewn yr hierarchaeth aneddiadau (Tabl 3). Lleolir Pentref Haen 1 Glan Conwy i'r de o Ardal Strategol y Creuddyn ar hyd yr A470. Fe'i lleolir i'r de o aneddiadau trefol Cyffordd Llandudno gyda mynediad da i'r aneddiadau trefol drwy'r rhwydwaith cludiant strategol a chludiant cyhoeddus. Bydd lefel y twf o fewn Glan Conwy yn adlewyrchu'r ystod bresennol o gyfleusterau a gwasanaethau a'r rheiny a gynllunnir dros Gyfnod y Cynllun.

2.45 **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Canol**


Dros Gyfnod y Cynllun, rhagwelir y lleolir tua 35% o'r twf o ran tai (marchnad agored a fforddiadwy) o fewn Ardal Strategol y Canol sy'n cynnwys safleoedd a gwblhawyd, caniatadau a dyraniadau newydd. I sicrhau y cyflawnir yr anghenion a nodir yng nghasgliadau Adroddiad Dadansoddiad Marchnad Masnachol Conwy, bydd yr ardal hefyd yn darparu ar gyfer tua 10% o'r tir cyflogaeth sy'n cynnwys safleoedd a gwblhawyd, caniatadau a dyraniadau newydd.

2.46 Mae Bae Colwyn yn gwasanaethu anghenion preswyl, manwerthu ac economaidd y dalgylch o'i amgylch ac mae'n parhau i weld buddsoddiad a gwelliannau sylweddol i ganol y dref a ffryntiad y traeth. Fe'i lleolir ar hyd y rhwydwaith rheilffyrdd a ffyrdd strategol ac fe'i gwasanaethir yn effeithiol

gan ddulliau cludiant cyhoeddus ac amgen. I barhau â'r buddsoddiad, bydd yr ardal yn cael ei hadfywio ymhellach dros Gyfnod y Cynllun, ond yn cael ei gwella drwy ddyrannu safle strategol i'r de o Hen Golwyn, sy'n cynnwys 450 o gartrefi newydd a mannau hamdden. Bydd y safle strategol yn cael ei ddatblygu'n raddol o 2024 ymlaen ac yn cael ei gefnogi gan welliannau o ran priffyrdd, gwell gwasanaethau cludiant cyhoeddus a chysylltiadau teithio llesol. Mae'n bosibl y bydd gwelliannau i'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos hefyd yn gofyn am ailddatblygu i ddarparu ar gyfer twf yn ystod Rhaglen Foderneiddio Ysgolion Band C o 2024 ymlaen, o ganlyniad i dwf tai. Bydd y safle hefyd yn cynnwys meddygfa ychwanegol. Hefyd, hyrwyddir safleoedd manwerthu cyfleustra a chymharol ym Mae Colwyn i ddiwallu anghenion Astudiaeth Manwerthu Conwy.

2.47 Lleolir Pentref Haen 2 Llysfaen o fewn y CDSA hefyd oherwydd ei berthynas â Hen Golwyn, tra bo cysylltiad agos iawn rhwng Pentrefan Bryn y Maen â Bae Colwyn Uchaf. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd yr aneddiadau hyn yn cael ei gyfyngu gan y cysylltiadau strategol â'r prif ffyrdd a'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd yr ymagwedd o ran polisi at yr aneddiadau hyn dros Gyfnod y Cynllun yn cael ei llywio gan eu lleoliad yn yr hierarchaeth aneddiadau, gyda lefel y twf yn adlewyrchu anghenion lleol a'r ystod bresennol o gyfleusterau a gwasanaethau a gynigir ganddynt.

***Map 4: Ardal Strategaeth: Canolog***




## 2.48 Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Dwyrain

Mae Ardal Strategol y Dwyrain yn cynnwys aneddiadau trefol Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinmel, a Phentref Haen 1 Llanddulas, fel y prif ganolfannau preswyl ac economaidd. Mae'r ardal yn gwasanaethu anghenion gwasanaeth hanfodol y dalgylchoedd o amgylch.

2.49 Mae Abergele wedi gweld lefelau uchel o dwf o ran tai a chyflogaeth dros flynyddoedd blaenorol, sydd yn eu tro wedi rhoi straen sylweddol ar gapasiti canol y dref o ran traffig. Bydd datblygu yn Abergele yn cael ei gyfyngu dros Gyfnod y Cynllun ar wahân i ar gyfer dod â safle strategol De Ddwyrain Abergele ymlaen ar gyfer cyflogaeth defnydd cymysg, manwerthu ac ysgol newydd. Canolbwyntir ar adfywio o fewn ardal Abergele a


Phensarn a gefnogir gan ymyraethau newydd yng nghanol y dref i gynyddu capasiti ar gyfer traffig yng nghanol y dref. Mae Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru hefyd y nodi Abergele fel ardal strategol ar gyfer gwelliannau o ran capasiti canol trefi ar gyfer traffig, ac mae gwaith yn datblygu'n unol ag ymagwedd WelTAG.  Ni fydd unrhyw ddyraniadau tai newydd o fewn ardal Abergele a Phensarn dros Gyfnod y Cynllun.

2.50 Mae'r ardal o fewn Ardal Strategol y Dwyrain hefyd yn cynnwys aneddiadau trefol Pensarn, Towyn a Bae Cinmel. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u cyfyngu'n sylweddol gan y perygl o lifogydd yr amddiffynnir yn ei erbyn sy'n arwain at gyfle cyfyngedig i ddarparu ar gyfer twf o ran tai a chyflogaeth dros Gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mae'r ardal yn profi amddifadedd ac mae cyfleoedd i ddiwallu anghenion y gymuned yn gyfyngedig. Bydd gwelliannau'n cael eu gwneud o ran amddiffyn rhag llifogydd, ond dim ond er mwyn cynnal y sefyllfa bresennol yn hytrach nag ar gyfer cynorthwyo cyfleoedd ar gyfer twf. Mae'r cyfyngiadau hyn a'r diffyg cyfleoedd o ran datblygu yn cael eu cydnabod o fewn y Strategaeth newydd drwy hyrwyddo **Ardal Adfywio a Buddsoddi y Dwyrain (AABD).**

2.51 Fel y cyfryw, dros Gyfnod y Cynllun, rhagwelir y bydd tua 15% o'r twf o ran tai (marchnad agored a fforddiadwy) yn cael ei leoli o fewn Ardal Strategol y Dwyrain sy'n cynnwys safleoedd a gwblhawyd, caniatadau a hap-safleoedd yn unig. Ni fydd unrhyw ddyraniadau tai newydd yn cael eu dyrannu yn yr ardaloedd hyn, ac eithrio twf lleol o fewn Pentref Haen 1 Llanddulas, y mae llai o gyfyngiadau yno. Bydd yr angen am dwf na ellir darparu ar ei gyfer yn y Dwyrain yn cael ei rannu drwy weddill yr aneddiadau trefol cynaliadwy o fewn y CDSA. I sicrhau y cyflawnir yr anghenion a nodir yng nghasgliadau Adroddiad Dadansoddiad Marchnad Masnachol Conwy, bydd yr ardal hefyd yn darparu ar gyfer tua 50% o'r tir cyflogaeth sy'n cynnwys safleoedd a gwblhawyd, caniatadau a dyraniadau newydd. Mae hyn yn ganlyniad lefel uchel o hygyrchedd strategol, cydnabyddiaeth o fewn Bargen Dwf Gogledd Cymru a chapasiti o ran priffyrdd ar gyfer y mathau hyn o ddefnydd.

2.52 Lleolir Pentref Haen 1 Llanddulas ar hyd y rhwydwaith ffyrdd a chludiant cyhoeddus strategol, gydag Abergele wedi'i lleoli yn y dwyrain a Bae Colwyn yn y gorllewin. Bydd lefel y twf o fewn Llanddulas yn adlewyrchu ystod bresennol y cyfleusterau a'r gwasanaethau a rheiny a gynllunnir dros Gyfnod y Cynllun

***Map 5: Ardal Strategaeth: Dwyrain***



2.53 **Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA)**

O ran y mwyafrif o ardaloedd gwledig yn RDSA Conwy, mae'r cyfleoedd ar gyfer lleihau'r defnydd o geir a chynyddu cerdded, beicio a'r defnydd o gludiant cyhoeddus yn fwy cyfyngedig nag yn y CDSA. Felly bydd aneddiadau sy'n dod o fewn y RDSA yn canolbwyntio ar dwf lleol ac arallgyfeirio, yn dibynnu ar eu cynaladwyedd a'u lleoliad o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Diffinnir Llanrwst fel Canolfan Wasanaeth Allweddol sy'n gwasanaethu llawer o gefnwlad wledig Conwy, a dyma lle y bydd datblygiadau cyflogaeth a thai yn cael eu canolbwyntio yn y RDSA.

2.54 Hyrwyddir economi wledig gref i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog. Mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau presennol yn hanfodol i dwf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig, a gefnogir gan y tai a fynnir a'r isadeiledd cymunedol sy'n angenrheidiol.

2.55 Mae'r Strategaeth newydd yn canolbwyntio 10% o'r twf o ran tai yn yr aneddiadau gwledig sydd â hygyrchedd cymharol dda i ddulliau teithio nad ydynt yn defnyddio car, o gymharu â'r ardal wledig yn ei chyfanrwydd. I annog pobl i beidio â defnyddio ceir ac er mwyn gwasanaethu'r ardal wledig ehangach, lleolir 10% o'r gyflogaeth hefyd y fewn y RDSA.


2.56 Canolbwyntir y rhan fwyaf o'r twf gwledig yn Llanrwst, sy'n anheddiad sy'n cefnogi'r cymunedau gwledig ehangach yn nhermau cyflogaeth, manwerthu a gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Llanrwst yw'r anheddiad mwyaf a mwyaf cynaliadwy sy'n dod o fewn y RDSA, ac a leolir rhyw 13 milltir o aneddiadau trefol Cyffordd Llandudno a Chonwy. Fe'i gwasanaethir yn bennaf gan gefnffordd yr A470, gyda'r A548 a'r B5106 hefyd yn darparu cysylltiadau ffordd lleol, tra bod Llinell Rheilffordd Dyffryn Conwy yn cysylltu â'r rhwydwaith rheilffyrdd strategol arfordirol. I annog datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy, cynigir safle strategol yn Llanrwst sy'n cynnwys 200 o gartrefi newydd (marchnad agored a fforddiadwy) a mannau hamdden ar hyd yr A470. Bydd tir cyflogaeth gwag yn Safle Diwydiannol Tŷ Gwyn hefyd yn cael ei ddiogelu ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol. Hyrwyddir manwerthu cyfleustra hefyd yn Llanrwst er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd.

2.57 Bydd ffin anheddiad a lletemau glas Llanrwst yn cael eu hadolygu. Caniateir datblygu y tu allan, ond ar gyrion ffin anheddiad Llanrwst, mewn amgylchiadau eithriadol i gefnogi newidiadau o ran gofynion cyflogaeth ac i gyflenwi lefelau uwch o dai fforddiadwy, hyd at 20 annedd, a lle nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol.

2.58 Mae'r mwyafrif o'r Prif Bentrefi Haen 2, y Pentrefi Bach a'r Pentrefannau wedi'u lleoli hefyd o fewn y RDSA (Tabl 3) gyda lefelau'r twf o ran cyflogaeth a thai yn y cymunedau hyn yn gysylltiedig â'u hanghenion ar gyfer datblygiadau economaidd a phreswyl, yn seiliedig ar yr hierarchaeth aneddiadau.



*Map 6: Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig*



*Tabl 3: Hierarchaeth Aneddiadau*

| Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Is-ardal** | **Gorllewin** | **Creuddyn** | **Canolog** | **Dwyrain** |
| **Trefol** | Llanfairfechan, Penmaenmawr | Conwy, Cyffordd Llandudno, Deganwy/Llanrhos, Llandudno, Bae Penrhyn/Ochr Penrhyn | Llandrillo yn Rhos, Mochdre, Bae Colwyn, Hen Golwyn | Abergele/Pensarn, Tywyn, Bae Cinmel |
| **Prif Bentrefi Haen 1** | Dwygyfylchi* | Glan Conwy | | Llanddulas |
| **Prif Bentrefi Haen 2** | | | Llysfaen | |
| **Pentrefi Bychain** | | Bryn Pydew, Glanwydden, Pentrefelin | | Rhyd y Foel, Llan San Siôr |
| **Pentrefannau** | Capelulo* | | Bryn y Maen | Bodtegwel |
| **Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig** | | | | |
| **Canolfan Wasanaethau Allweddol** | Llanrwst | | | |
| **Prif Bentrefi Haen 2** | Betws yn Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog*, Eglwysbach, Llanfair TH, Llangernyw, Llansannan, Trefriw*, Tal y Bont*/Castell | | | |
| **Pentrefi Bychain** | Groes, Henryd, Llanbedr y Cennin*, Llanddoged, Llanelian, Llangwm, Llannefydd, Pentrefoelas, Tal y Cafn, Tyn y Groes | | | |
| **Pentrefannau** | Bryn Rhyd-yr-Arian, Brymbo, Bylchau, Cefn Berain, Cefn Brith, Dinmael, Glasfryn, Groesffordd, Gwytherin, Hendre, Llanfihangel GM, Maerdy, Melin y Coed, Nebo*, Pandy Tudur, Pentre Isa, Pentre Llyn Cymmer, Pentre Tafarn y Fedw, Rhydlydan, Tan y Fron | | | |

* Lleolir yr anheddiad yn rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri



2.59 **Hierarchaeth Aneddiadau**

**Aneddiadau Trefol a Chanolfannau Gwasanaeth Allweddol**

Yr aneddiadau trefol o fewn y CDSA a Llanrwst yn y RDSA yw'r prif ganolbwynt ar gyfer datblygu preswyl ac economaidd dros Gyfnod y Cynllun, a bydd hynny'n parhau. Y rhain yw'r aneddiadau mwyaf gyda phoblogaeth o leiaf 3,000, a'r aneddiadau hyn sydd a'r cysylltiadau cludiant, y cyfleusterau a'r gwasanaethau gorau i ddiwallu anghenion eu preswylwyr.

2.60 Bydd datblygiadau economaidd presennol ac arfaethedig yn yr aneddiadau hyn sy'n cefnogi swyddi lleol yn cael eu cefnogi, yn amodol ar yr holl faterion perthnasol. Nodir safleoedd strategol yn Llanfairfechan, Llanrhos, Hen Golwyn, Abergele a Llanrwst a fydd yn diwallu'r angen ar gyfer ystod o ddarpariaeth o ran cyflogaeth, preswyl, rhandiroedd, addysg a mannau agored. Er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflenwi mwy o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol, caniateir datblygiadau bach o hyd at 20 o anheddau ar safleoedd addas y tu allan, ond yn gyfagos, i Aneddiadau Trefol a'r Ganolfan Wasanaeth Allweddol, yn amodol ar ddarparu lleiafswm o 50% ohonynt yn dai fforddiadwy.

2.61 **Prif Bentrefi Haen 1**

Mae'r CDLlN yn nodi tri Phrif Bentref Haen 1 sy'n llai, a gyda llai o wasanaethau a chyfleusterau lleol na'r aneddiadau trefol, felly bydd lefel y twf a gefnogir dros Gyfnod y Cynllun yn is ar gyfartaledd. Er hynny, lleolir y Pentrefi Haen 1 mewn lleoliadau cynaliadwy iawn sydd â mynediad da i gysylltiadau cludiant strategol a'r aneddiadau trefol, felly dyrannir rhai safleoedd datblygu yn y lleoliadau hyn. Bydd lefelau tai fforddiadwy ar safleoedd a ddyrannir a safleoedd ar hap o fewn ffiniau anheddiad Prif Bentrefi Haen 1 yn cael eu diffinio gan y polisi tai fforddiadwy, yn seiliedig ar asesiad hyfywedd. Er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflenwi mwy o dai fforddiadwy, caniateir datblygiadau bach o hyd at 20 o anheddau ar safleoedd addas y tu allan, ond yn gyfagos, i Brif Bentrefi Haen 1, yn amodol ar ddarparu lleiafswm o 50% ohonynt yn dai fforddiadwy.

2.62 **Prif Bentrefi Haen 2**

Mae'n hanfodol i'r Prif Bentrefi Haen 2 allu cynnal eu hunain er mwyn creu lleoedd cynaliadwy. Mae'r aneddiadau hyn yn bennaf yn gwasanaethu eu poblogaeth leol, ac fel y cyfryw, hyrwyddir twf ac arallgyfeirio o'r fath er mwyn cynnal hunaniaeth gymunedol, gwarchod yr Iaith Gymraeg ac annog strwythur oedran mwy cytbwys.

2.63 Ni fydd tir yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiadau newydd yn y Pentrefi Haen 2. Fel arall, hyrwyddir ymagwedd hyblyg o fewn y ffiniau anheddiad. Cefnogir mentrau newydd a chynlluniau i ehangu busnesau yn y Pentrefi Haen 2. Mabwysiadir ymagwedd adeiladol hefyd tuag at gynigion ar gyfer datblygiadau amaethyddol, yn enwedig y rheiny a ddylunnir i ddiwallu anghenion arferion ffermio newidiol neu sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd o ran yr amgylchedd, hylendid neu les. Mabwysiadir ymagwedd gadarnhaol tuag at addasu adeiladau gwledig ar gyfer eu hailddefnyddio at ddibenion busnes, yn ogystal â chymryd ymagwedd gadarnhaol tuag at brosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig.

2.64 Wrth gydnabod y cyflenwad tai blaenorol yn yr aneddiadau gwledig hyn byddir yn fwy hyblyg. Gellir caniatáu tai marchnad agored a fforddiadwy o fewn y ffiniau anheddiad ar safleoedd ar hap a rhai a ddyrannir. Bydd hyfywedd cynlluniau tai yn pennu'r



lefel briodol o dai marchnad agored a thai fforddiadwy. Yn gyffredinol, bydd cynlluniau o’r fath yn llai na’r aneddiadau lefel uwch ac yn cael eu cyfyngu i 15 o unedau a llai er mwyn gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol. Gellir caniatáu safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth y tu allan, ond ar gyrion, ffiniau aneddiadau ar raddfa sy’n briodol i swyddogaeth yr anheddiad, a lle nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol.

2.65 **Mân Bentrefi**

Mae Mân Bentrefi yn profi’r un materion â chymunedau gwledig eraill ond maent yn fwy hunangynhwysol na Phrif Bentrefi Haen 2. Y flaenoriaeth ar gyfer y Mân Bentrefi yw hybu bywiogrwydd, gwarchod hunaniaeth gymunedol a chreu strwythur oedran mwy cytbwys. Mae’r aneddiadau hyn yn gwasanaethu eu poblogaeth leol yn dda, ond mae ganddynt lai o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol na’r aneddiadau gwledig ar lefel uwch, ac fel y cyfryw, dylid eu gwarchod a’u hyrwyddo.

2.66 Nid oes unrhyw ffiniau anheddiad ar gyfer Mân Bentrefi ac ni wneir unrhyw ddyraniadau ar gyfer tai’r farchnad agored neu gyflogaeth. Fel arall, cefnogir lefel briodol o ddatblygu i ddiwallu twf lleol ac arallgyfeirio. Caniateir sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau presennol gyda chefnogaeth gan y tai a fynnir a’r isadeiledd cymunedol angenrheidiol sy’n briodol i gymeriad yr anheddiad. Bydd datblygiadau ar lefel is na hynny a ganiateir yn yr aneddiadau gwledig lefel uwch.

2.67 Mabwysiadir ymagwedd adeiladol tuag at gynigion ar gyfer datblygiadau amaethyddol, yn enwedig y rheiny a ddylunnir i ddiwallu arferion ffermio newidiol. Bydd adeiladau gwledig yn cael eu haddasu i’w hailddefnyddio at ddibenion busnes, yn ogystal â chymryd ymagwedd gadarnhaol tuag at brosiectau arallgyfeirio mewn Mân Bentrefi.

2.68 Byddir yn fwy hyblyg o ran datblygiadau tai i ddiwallu anghenion dros Gyfnod y Cynllun. Gellir caniatáu tai’r farchnad agored a thai fforddiadwy o fewn cyfyngiadau’r aneddiadau ar safleoedd ar hap, lle mae datblygiadau’n cynrychioli mewnlenwi neu dalgrynnu. Bydd hyfywedd cynlluniau tai yn pennu’r lefel briodol o dai’r farchnad agored a thai fforddiadwy. Yn gyffredinol, bydd cynlluniau o’r fath yn llai na’r aneddiadau gwledig lefel uwch ac wedi’u cyfyngu i 10 uned a llai i warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol. Gellir caniatáu safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth ar safleoedd sy’n gyfagos i aneddiadau ar raddfa sy’n briodol i swyddogaeth yr anheddiad, a lle nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol

2.69 **Pentrefannau**

Pentrefannau yw’r haen leiaf o aneddiadau a nodir yn y CDLlN ar gyfer Conwy ac, yn gyffredinol, maent yn cynnwys clystyrau bach iawn o 20-50 o dai. Mae cyfleusterau lleol a chysylltiadau cludiant cyhoeddus yn wael at ei gilydd, sy’n gwneud y rhain yn lleoliadau llai cynaliadwy ar gyfer cyflogaeth newydd neu ddatblygiadau preswyl. Er hynny, gan gydnabod bod cymunedau bach gwledig yn dal i allu bod angen tai newydd, caniateir datblygiadau preswyl cyfyngedig ar safleoedd ar gyfer uchafswm o 5 annedd, sy’n cael eu llywio gan yr angen lleol am dai fforddiadwy.

2.70 Nid oes unrhyw ffiniau anheddiad yn cael eu nodi mewn Pentrefannau, ond ar safleoedd addas o fewn yr anheddiad, yn ffurf mewnlenwi neu dalgrynnu, caniateir elfen o dai’r farchnad agored i gefnogi’r cyflenwad o dai fforddiadwy. Ni fydd ymestyn aneddiadau, ar safleoedd sy’n gyfagos i’r pentrefan presennol



ond yn cael ei ganiatáu mewn amgylchiadau eithriadol i ddarparu 100% o dai fforddiadwy, yn amodol ar gydymffurfio â pholisïau eraill.

2.71 **Cefn Gwlad Agored**

Mae cefn gwlad agored, y tu allan i unrhyw aneddiadau a gydnabyddir, yn adnodd dynamig ac amlbwrpas ac mae'n rhaid ei gadw a, lle'n bosibl, ei wella er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archeolegol, diwylliannol ac amaethyddol ac ar gyfer ei adnoddau tirwedd a naturiol. Diffinnir Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig i warchod yr ardaloedd hynny sy'n gwneud cyfraniad eithriadol i'r asedau tirwedd. Bydd yr angen i gadw'r nodweddion hyn yn cael ei gydbwyso yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr. Tra dylid parhau i warchod cefn gwlad agored lle bynnag y bo modd, gellir cefnogi ehangu busnesau presennol a leolir mewn cefn gwlad agored os nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol.

2.72 **Diagram Allweddol**

Mae'r Diagram Allweddol (Map 1) yn darlunio Strategaeth y CDLlN ar raddfa Cynllun Ardal eang.


2.73 **Creu Lleoedd Cynaliadwy, Lles a Newid Hinsawdd**

Lleoedd Cynaliadwy yw nod blaenoriaethol CDLlC Conwy. Wrth gynllunio ar gyfer lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy, mae'r Strategaeth newydd yn coleddu egwyddorion datblygu cynaliadwy a chysyniad creu lleoedd. Dylai'r holl benderfyniadau o ran datblygu o fewn Conwy ceisio cyfrannu tuag at wneud lleoedd cynaliadwy a sicrhau gwelliant o ran lles. Dylai'r Cynllun greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn egnïol, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Drwy weithredu yn y fath fodd, bydd yn sicrhau bod y CDLlN yn gwreiddio ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ceisio cymryd camau cadarnhaol i greu lleoedd cynaliadwy a gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau. Bydd hefyd yn allweddol o ran mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd.

2.74 Bydd y CDLlN yn hyrwyddo Creu Lleoedd Cynaliadwy drwy'r canlynol:

**Diogelu'r Amgylchedd i'r Eithaf a Lleihau'r Effaith ar yr Amgylchedd**

- *Diogelu a hybu bioamrywiaeth, ecosystemau, trefluniau, seinweddau a thirweddau.*
- *Hyrwyddo Isadeiledd gwyrdd.*
- *Lleihau Risgiau Amgylcheddol.*
- *Rheoli adnoddau dŵr yn naturiol drwy hyrwyddo rheoli dŵr mewn modd cynaliadwy (gan gynnwys sicrhau cyflenwad cynaliadwy o adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, hyrwyddo dulliau draenio cynaliadwy a mynd i'r afael â materion o ran llifogydd). Mae hyn yn cynnwys lleihau natur fregus cymunedau drwy sicrhau nad yw datblygiadau'n cael eu lleoli mewn ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd.*
- *Hyrwyddo Aer Glân a Lleihau Llygredd.*
- *Hyrwyddo Gwydnwch yn Wyneb Newid Hinsawdd.*
- *Creu Amgylcheddau Arbennig ac Unigryw.*



**Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach**

- *Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol.*
- *Diogelu mannau gwyrdd hygyrch ac o safon uchel.*
- *Hyrwyddo teithio llesol a chludiant cyhoeddus hygyrch a pheidio â dibynnu ar geir, drwy ddosbarthu a lleoli datblygiadau yn unol â'r fframwaith aneddiadau gyda golwg ar leihau dibyniaeth diesgus ar y car modur preifat. Bydd yn hyrwyddo dewisiadau teithio amgen cynaliadwy a 'gwyrdd' gan adeiladu ar ddatblygiadau mewn technoleg a hyrwyddo hygyrchedd i ddulliau teithio amgen.*
- *Darparu hygyrchedd i bawb.*
- *Darparu cymunedau diogel a chynhwysol i bawb.*
- *Darparu mynediad i bawb i wasanaethau a chyfleusterau allweddol.*

**Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau**

- *Gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol.*
- *Hyrwyddo rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy.*
- *Blaenoriaethu'r defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac adeiladau presennol.*
- *Datgloi potensial, adfywio a denu buddsoddiad i greu cymunedau cryf.*
- *Hyrwyddo dylunio o ansawdd da a datblygiadau cynaliadwy.*

**Tyfu Ein Heconomi Mewn Modd Cynaliadwy**

- *Meithrin gweithgaredd economaidd sy'n coleddu technoleg a chyfathrebu clyfar ac arloesol.*
- *Lleihau'r galw a'r defnydd o ynni drwy hwyluso'r cyflenwad o adeiladau a chartrefi carbon niwtral, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau, a chyfeirio datblygiadau at dir a ddatblygwyd yn flaenorol lle bynnag y bo modd.*
- *Hyrwyddo amgylcheddau economaidd bywiog a dynamig sy'n gallu addasu i newid.*

**Creu a Chynnal Cymunedau**

- *Galluogi'r Iaith Gymraeg i ffynnu.*
- *Diogelu dwyseddau priodol o ran datblygu.*
- *Sicrhau bod cartrefi a swyddi ar gael i ddiwallu anghenion y gymdeithas.*
- *Hyrwyddo cymysgedd o ddefnyddiau lle bo'n briodol.*
- *Cynnig profiadau diwylliannol.*
- *Diogelu a gwarchod cyfleusterau a gwasanaethau yn y gymuned.*


2.75 **Elfennau Allweddol y Strategaeth**

Ffurfir y Strategaeth newydd ar ôl cael ei hystyried yn erbyn nifer o Elfennau Allweddol y Strategaeth sy'n seiliedig ar y Papurau Cefndir, y Papurau Testun, ynghyd â'r Materion a'r Amcanion arfaethedig. Dylanwadwyd ar y strategaeth gan nifer o elfennau allweddol y strategaeth i sicrhau ei bod yn iawn ar gyfer Conwy:



*Tabl 4: Elfen Allweddol y Strategaeth*

| Elfen Allweddol y Strategaeth | A yw'r Strategaeth newydd yn ystyried yr elfen hon? |
|---|---|
| Yn ystyried Strategaethau, Cynlluniau, Polisïau a Thystiolaeth Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. | ✓ |
| Yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y 5 Egwyddor Cynllunio a Chanlyniadau Cynaliadwy. | ✓ |
| Yn ceisio creu Lleoedd Cynaliadwy ac yn coleddu creu lleoedd cynaliadwy. | ✓ |
| Yn hyrwyddo lleoedd iach, cydraddoldeb a lles yng Nghonwy. | ✓ |
| Yn hyrwyddo strwythur oedran mwy cytbwys ac yn ceisio lleihau allgymudo drwy gyflenwi a gwarchod y lefel iawn o gartrefi, swyddi a chyfleusterau cymunedol i gefnogi cadw a dychweliad y boblogaeth iau ac economaidd weithgar. | ✓ |
| Byddai'n hyrwyddo strategaeth holistaidd ac yn caniatáu ar gyfer darparu cartrefi a chyflogaeth newydd yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau i adlewyrchu cynaliadwyedd, hygyrchedd a nodweddion swyddogaethol aneddiadau, eu gwasanaethau a'u cyfleusterau, yn ogystal â'u gallu i ddarparu ar gyfer twf. | ✓ |
| Yn cydnabod lefel uchel y perygl o ran llifogydd a'r cyfyngiadau o ran priffyrdd i'r Dwyrain o'r Fwrdeistref Sirol ynghyd â'r angen i hybu buddsoddiad ac adfywio i hyrwyddo cymunedau cryf. | ✓ |
| Mae'n cefnogi ac yn darparu ar gyfer yr isadeiledd angenrheidiol o ran cyfleustodau a'r gymuned er mwyn cefnogi twf. | ✓ |
| Mae'n ceisio darparu 4,300 (ac 20% wrth gefn) o gartrefi newydd a 1800 o dai fforddiadwy a gefnogir gan yr isadeiledd a fynnir o ran cyfleustodau a'r gymuned. | ✓ |
| Yn ceisio cynyddu nifer unedau tai marchnad agored llai, cyfleoedd ar gyfer byw mewn cartrefi a addaswyd a rhaniad 50% yn y cyflenwad o eiddo cymdeithasol a chost isel o ran perchnogaeth, lle bo'n briodol. | ✓ |
| Ei bod yn gyflawnadwy ac yn adlewyrchu cyfraddau adeiladu blaenorol a chapasiti'r diwydiant datblygu. | ✓ |
| Yn hyrwyddo mwy o hyblygrwydd yn yr ardaloedd gwledig i adlewyrchu'r anhawster o ran cyflenwi cynlluniau tai, ac yn y diwedd yn darparu ar gyfer fframwaith sy'n gwarchod hunaniaeth gymunedol ac yn cefnogi twf lleol. | ✓ |



| | |
|---|---|
| Yn darparu ar gyfer 1,800 o swyddi newydd i gyfrannu at dwf economaidd a chreu swyddi sy'n adlewyrchu Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy, Bargen Dwf ranbarthol Gogledd Cymru a'r cyflenwad o isadeiledd, wrth ddarparu hyblygrwydd ar gyfer newidiadau o ran gofynion economaidd dros Gyfnod y Cynllun. | ✓ |
| Yn adlewyrchu Dadansoddiad Marchnad Cyflogaeth Conwy o ran y lleoliad priodol ar gyfer twf cyflogaeth newydd. | ✓ |
| Yn cydnabod argaeledd cyfyngedig tiroedd llwyd, ond ar yr un pryd yn blaenoriaethu cyfleoedd ar safleoedd tir llwyd lle maent yn addas ac yn gyflawnadwy, cyn ystyried safleoedd tir glas. | ✓ |
| Yn hyrwyddo lefel briodol o ddatblygu mewn aneddiadau gwledig i ddiwallu twf lleol ac arallgyfeirio. | ✓ |
| Mewn ardaloedd gwledig, mae'n cadw nodweddion sydd wedi'u cydbwyso yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr. | ✓ |
| Yn mabwysiadu ymagwedd adeiladol tuag at gynigion ar gyfer datblygiadau amaethyddol, yn enwedig y rheiny a ddylunnir i ddiwallu anghenion arferion ffermio newidiol neu sy'n angenrheidiol i gyflawni cydymffurfiaeth â deddfwriaeth newydd o ran yr amgylchedd, hylendid neu les. Ymagwedd gadarnhaol tuag at addasu adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio at ddibenion busnes, yn ogystal â mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at brosiectau ar gyfer arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig. | ✓ |
| Yn cyfrannu at gyflenwi cyfleoedd ar gyfer adfywio ffisegol a chymdeithasol ac yn darparu ar gyfer ystod amrywiol a chydlynus o aneddiadau a chymunedau. | ✓ |
| Yn cydnabod gwerth iaith ac yn cynnwys polisïau i gefnogi twf o ran y defnydd o'r Iaith Gymraeg. | ✓ |
| Yn gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd gwych ar gyfer pobl yng Nghonwy. | ✓ |
| Yn gwarchod rhag blerdwf trefol a datblygiadau amhriodol drwy adolygu'r Lletemau Glas a'r defnydd o ffiniau aneddiadau. | ✓ |
| Yn nodi'r safleoedd Strategol Allweddol o fewn y Strategaeth a Ffefrir. | ✓ |
| Bydd yn annog dulliau cludiant cynaliadwy amgen er mwyn hybu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus, lleihau dibyniaeth ar y car ar gyfer teithio bob dydd a chyfrannu at leihau'r newid yn yr hinsawdd. | ✓ |



| | |
|---|---|
| Yn lleoli twf mewn ardaloedd sydd â'r isadeiledd angenrheidiol neu sydd wedi'i gynllunio i greu lleoedd cynaliadwy, a lleihau'r angen i ddefnyddio ceir. Dylai'r CDLIN hefyd nodi yn lle mae angen rhagor o gludiant cyhoeddus a chyfnewidfeydd a dylid eu gwarchod er mwyn cefnogi datblygiadau newydd. | ✓ |
| Yn diwallu anghenion presennol Sipsiwn a Theithwyr ac yn darparu'r mecanweithiau angenrheidiol i gyflenwi ar gyfer anghenion yn y dyfodol. | ✓ |
| Yn lleihau effaith datblygu ar yr arfordir ac yng nghefn gwlad ac yn ceisio cadw a gwella asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol Conwy sydd o ansawdd uchel. | ✓ |
| Yn ceisio cyflawni canolfannau tref a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ailddiffinio eu rôl a thrwy annog amrywiaeth o weithgareddau a defnyddiau. | ✓ |
| Fe'i cefnogir gan yr isadeiledd a fynnir o ran cyfleustodau a'r gymuned. | ✓ |
| Yn annog twristiaeth lle mae'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, wrth gydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol. | ✓ |
| Yn cefnogi llwyddiant parhaus twf presennol twristiaid yng Nghonwy, drwy annog datblygiadau priodol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, sy'n sympathetig o ran natur a graddfa i'r amgylchedd lleol. | ✓ |
| Yn sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy yn cael ei hyrwyddo, sy'n ceisio darparu ar gyfer twristiaeth drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na thymhorol. | ✓ |
| Yn cefnogi isadeiledd telathrebu mewn lleoliadau priodol ac yn nodi polisïau ar gyfer datblygu telathrebu, gan gynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn arwain datblygiadau i leoliadau addas. | ✓ |
| Yn ceisio cefnogi cynigion ar gyfer isadeiledd band eang neu welliannau i rwydweithiau neu gyfarpar presennol. | ✓ |
| Yn cydnabod buddion ynni adnewyddadwy a charbon isel fel rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chynyddu diogelwch o ran ynni. | ✓ |
| Yn cefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy, ynni isel cynaliadwy ynghyd â mynediad i'r grid o fewn datblygiadau. | ✓ |
| Yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer gwarchod a dyrannu anghenion o ran mwynau dros Gyfnod y Cynllun. | ✓ |



| | |
|---|---|
| Yn hyrwyddo rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. | ✓ |
| Yn gwarchod ac yn hybu ansawdd naturiol, hanesyddol a chadwraeth adeiledig Conwy ynghyd â'i thirweddau sydd o werth uchel. | ✓ |
| Yn sefydlu beth mae'r arfordir yn ei olygu i Gonwy ac yn datblygu polisïau penodol, sy'n adlewyrchu nodweddion y morlin. Wrth wneud hyn, bydd yn cydnabod y rhyngberthynas rhwng nodweddion ffisegol a biolegol ei hardal arfordirol ac o ran defnydd tir, ynghyd ag effeithiau newid hinsawdd. | ✓ |
| Yn gwarchod ac yn gwella asedau a rhwydweithiau o ran isadeiledd gwyrdd. | ✓ |

2.76 **Y Polisïau Strategol ar gyfer Conwy**

Mae'r pedair adran strategol ganlynol yn disgrifio'r polisïau strategol sy'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer gweithredu a chyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLlN). Mae'r fformat a'r strwythur yn adlewyrchu'r elfennau craidd, sef datblygu cynaliadwy, creu lleoedd a'r nodau llesiant.

**Adran Strategol 1: Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy**

**Adran Strategol 2: Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy**

**Adran Strategol 3: Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy**

**Adran Strategol 4: Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy**

2.77 Mae'r pedair adran strategol yn cynnwys meysydd pwnc allweddol (e.e. tai, yr economi, twristiaeth, ayb.) a'u polisïau strategol. Cynhwysir adran bellach ym mhob maes pwnc sy'n disgrifio'r **'dull o gyflawni amcanion y CDLlN'**, sy'n ddatganiad ar sut mae'r polisïau yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn debygol o ddatblygu. Mae'r strwythur hwn yn caniatáu i'r Polisïau Strategol drawsgyfeirio at yr amcanion strategol a geir yn y ddogfen hon. Mae'r dystiolaeth ategol, y Papurau Cefndir a'r Papurau Testun yn ystyried ymhellach sut mae'r dull yn cydymffurfio â'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y 5 Egwyddor Gynllunio Allweddol a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, a sut maent yn cyfrannu atynt.

2.78 Cydnabyddir y bydd rhyw gymaint o orgyffwrdd rhwng adrannau'r polisïau strategol a'r polisïau strategol ac o'r herwydd fe ddylent gael eu darllen ochr yn ochr â'i gilydd. I gyd-fynd â phob polisi strategol ceir testun esboniadol a dull o gyflawni'r CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.



# Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Caiff y CDLlN ei lunio gan bwyso a mesur yr ystyriaethau creu lleoedd strategol sy'n effeithio ar Gonwy. Mae'r adran hon o strategaeth y cynllun yn canolbwyntio ar y polisïau strategol hynny a gaiff yr effaith fwyaf ar y math o ddatblygiad a gyflawnir yn y pendraw a'i gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy ac at les amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Conwy. Mae'r adran hon yn hyrwyddo polisïau integredig na ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys ystyried dyluniad datblygiad a'i effaith ar fywydau pob dydd yn ogystal â meddwl yn gyfannol am ymhle y gallai pobl fyw a gweithio a pha ardaloedd y dylid eu gwarchod. Yr adran hon sy'n darparu'r weledigaeth creu lleoedd strategol ac unigryw leol er mwyn sicrhau ein bod yn creu lleoedd cynaliadwy, ac fe'i hategir gan bolisïau strategol ar **Greu Lleoedd Cynaliadwy, Lefelau Twf, Hierarchaeth Aneddiadau, Creu Lleoedd a Dylunio da, Hybu Lleoedd Iachach, y Gymraeg, Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig, Cynlluniau Lleoedd, Safleoedd Strategol, Seilwaith a Datblygiadau Newydd a Rheoli Ffurf Aneddiadau**.

Mae'r holl Bolisïau Strategol yn yr Adran hon ar Greu Lleoedd Cynaliadwy yn gysylltiedig ag Amcan Strategol 1 (SO1). Ni chaiff yr amcan felly ei ailadrodd yn yr adran hon.



## 3.2 Creu Lleoedd Cynaliadwy

3.2.1 **Amcan Strategol 1 (SO1):** Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella llesiant yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf i'r dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu mannau rhagorol.

***Polisi Strategol 1: Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy***

**Polisi Strategol 1 (SP/1): Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy**

Rhaid i bob cynnig groesawu egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy fel cysyniad a sicrhau bod datblygiadau'n gefnogol i gyflawni datblygu cynaliadwy a lles amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Conwy. Lle bo'n briodol, ni chaiff cynigion datblygu ond eu caniatáu os ydynt yn gydnaws â'r egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy:

1. Yn Gwarchod yr Amgylchedd i'r Eithaf ac yn Cyfyngu ar yr Effeithiau ar yr Amgylchedd:
    a) Yn gwarchod ac yn gwella bioamrywiaeth, ecosystemau, trefluniau, seinweddau a thirweddau;
    b) Yn hybu seilwaith gwyrdd;
    c) Yn lleihau risgiau amgylcheddol;
    d) Yn rheoli adnoddau dŵr yn naturiol;
    e) Yn hyrwyddo aer glân ac yn lleihau llygredd;
    f) Yn hybu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd; ac,
    g) Yn creu amgylcheddau arbennig ac unigryw.
2. Yn hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach:
    a) Yn hybu llesiant ac iechyd meddwl a chorfforol;
    b) Yn sicrhau mannau gwyrdd hygyrch ac o ansawdd da;
    c) Yn annog pobl i beidio â bod yn ddibynnol ar geir;



d) Yn rhoi hygyrchedd i bawb;

e) Yn darparu cymunedau diogel a chynhwysol i bawb; ac,

f) Yn darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau allweddol i bawb.

3. Yn Defnyddio Adnoddau yn y Ffordd Orau:

a) Yn defnyddio adnoddau naturiol yn y ffordd orau;

b) Yn hybu arferion rheoli gwastraff cynaliadwy;

c) Yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol ac adeiladau sy’n bodoli eisoes;

d) Yn datgloi potensial, gan adfywio a denu buddsoddiadau i greu cymunedau cadarn; ac

e) Yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a dyluniadau o ansawdd da.

4. Yn Tyfu ein Heconomi mewn Ffordd Gynaliadwy:

a) Yn meithrin gweithgaredd economaidd sy’n croesawu technoleg a dulliau cyfathrebu clyfar ac arloesol;

b) Yn lleihau newid hinsawdd ac yn hybu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd; ac

c) Yn hyrwyddo amgylcheddau economaidd byw a dynamig sy’n barod i addasu i newid.

5. Yn Creu ac yn Cynnal Cymunedau:

a) Yn galluogi’r Gymraeg i ffynnu;

b) Yn sicrhau dwyseddau datblygu priodol;

c) Yn sicrhau bod cartrefi a swyddi ar gael i fodloni anghenion cymdeithas;

d) Yn hyrwyddo defnydd cymysg lle bo hynny’n briodol;

e) Yn cynnig profiadau diwylliannol; ac

f) Yn diogelu ac yn gwarchod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.



3.2.2 Ystyr Datblygu Cynaliadwy yw’r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Conwy drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda’r nod o gyrraedd y nodau llesiant. Y ffordd fwyaf priodol o weithredu’r gofynion hyn drwy’r system gynllunio yw mabwysiadu dull creu lleoedd cynaliadwy.

3.2.3 Mae creu lleoedd cynaliadwy yn broses gynhwysol, sy’n cynnwys pawb sydd â buddiant proffesiynol neu bersonol yn yr amgylchedd adeiledig a’r amgylchedd naturiol, mae’n canolbwyntio ar gyflwyno datblygiadau sy’n cyfrannu at greu a gwella lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy. Mae’r elfen creu lleoedd mewn penderfyniadau datblygu yn digwydd ar bob lefel ac mae’n cynnwys ystyriaethau ar raddfa fyd-eang, gan gynnwys newid hinsawdd, i lawr i’r lefel fwyaf lleol, megis ystyried yr effaith ar amwynder pobl ac eiddo cyfagos.

3.2.4 Dylai’r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy sy’n atyniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn weithgar, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu’r amodau i ddwyn pobl at ei gilydd, gan wneud iddynt fod eisiau byw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a llesiant, gan greu ffyniant i bawb. Mae Polisi SP/1 yn disgrifio’r prif ffyrdd y bydd disgwyl i gynigion datblygu ddangos eu bod yn gefnogol i sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gan gyfrannu felly at ddatblygu cynaliadwy yng Nghonwy.

3.2.5 Mae gweithredu yn unol â’r egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gynigion weithredu mewn ffordd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau. O’r herwydd, rhaid i bawb sy’n gysylltiedig â’r system gynllunio yng Nghonwy neu sy’n gweithredu fel rhan ohoni groesawu’r cysyniad o greu lleoedd cynaliadwy er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau yng Nghonwy.

3.2.6 Ni fydd pob cynnig datblygu yn gallu dangos ei fod yn gallu bodloni’r holl ganlyniadau hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ddylid eu hystyried yn y broses rheoli datblygiadau i weld a ellir gwella neu adolygu’r cynnig i hyrwyddo llesiant ehangach. Mater i ddatblygwyr yw adnabod y cyfleoedd hyn a gweithredu arnynt. Caiff cysylltiadau â dulliau a Pholisïau Strategol mwy penodol, a gaiff eu defnyddio i asesu a yw meini prawf yr SP/1 yn cael eu bodloni, eu disgrifio yn nhestun y polisi sy’n ymwneud â holl Adrannau Strategol y CDLlN. Caiff Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ei baratoi i roi arweiniad i ddatblygwyr i sicrhau bod cynlluniau yn gynaliadwy ac yn cydymffurfio â Pholisi SP/1.



## 3.3 Lefelau Twf Tai

3.3.1 **Amcan Strategol 1 (SO1):**

***Polisi Strategol 2: Lefelau Twf Tai***

> **Polisi Strategol 2 (SP/2): Lefelau Twf Tai**
>
> Gwneir darpariaeth gofynion tai ar gyfer oddeutu 4,300 o anheddau dros Gyfnod y Cynllun (ac 20% wrth gefn). Gwneir darpariaeth yn y Cynllun ar ôl ystyried cyfraddau cwblhau, ymrwymiadau, safleoedd ar hap a dyraniadau newydd dros Gyfnod y Cynllun.

3.3.2 Ceir senario demograffig sy’n dylanwadu ar ffigur gofynion tai’r CDLl, ac mae’r senario hwn yn cynnwys rhagdybiaethau ymfudo ar sail twf swyddi yn lleol ac o ganlyniad i’r anghenion sy’n gysylltiedig â Bargen Twf y Gogledd. Mae’r senario hwn yn golygu bod y gofyn blynyddol am dai ychydig yn uwch nac amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, ond ei fod yn adlewyrchu’r materion blaenoriaethol a’r sylfaen dystiolaeth gefndir, yn benodol yr angen i gyfrannu at strwythur oedran mwy cytbwys, lefelau cymudo allan is a gwarchod a gwella hunaniaeth y gymuned. Mae’r gofyn am dai yn cynnwys derbyn y ‘corddi’ a geir yn y farchnad dai sy’n cynnwys lwfans ar gyfer cartrefi gwag, ail gartrefi a lletyau gwyliau.

3.3.3 Mae’r gofyniad tir ar gyfer tai, sy’n 4,300 (290 y flwyddyn) yn seiliedig ar dwf disgwyliedig yn y boblogaeth o oddeutu 5.8% rhwng 2018 a 2033[9]. Mae’r lefel yn rhoi ystyriaeth i’r cyflenwad tai tebygol a allai fod ar gael yn y rhan o’r Fwrdeistref Sirol sydd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri (100 dros gyfnod y cynllun) a chapasiti’r diwydiant codi tai. Mae’r cyfanswm cyflenwad tai o 5,150 yn cynnwys lwfans ar gyfer 20% (850 o anheddau) wrth gefn er mwyn caniatáu ar gyfer dewis, hyblygrwydd ac adnewyddu’r stoc dai bresennol ac ar gyfer safleoedd nas defnyddir. Dangosir y gallu i fodloni’r gofyn am dai drwy daflwybr tai yn yr adran dai.

3.3.4 Caiff cartrefi newydd eu datblygu ar dir a ddyrannwyd ar gyfer tai, defnydd cymysg ac a gefnogir gan y seilwaith cyfleustodau a chymunedol perthnasol. Caiff safleoedd eu lleoli yn unol â’r Hierarchaeth Aneddiadau ac mae’n gysylltiedig â rhaniad y boblogaeth, cynaliadwyedd, hygyrchedd ac anghenion cymunedau. Mae maint a dosbarthiad y tai hefyd yn rhoi sylw i’r cyfyngiadau a gydnabyddir yn nwyrain Ardal y Cynllun. Yn gyffredinol, caiff cydbwysedd bras rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol ei hybu i leihau’r angen i gymudo ymhell.

[9] Gweler BP/3 ‘Papur Dewisiadau Twf’



3.3.5 Caiff 5 o Safleoedd Strategol Allweddol sy’n cynnwys 1,300 o gartrefi newydd a seilwaith eu cynnig fel rhan o’r aneddiadau lefel uwch.  Mae i’r Safleoedd Strategol y potensial i greu galw mawr am deithio ac, o’r herwydd, fe’u cynigir mewn ardaloedd trefol sy’n bodoli eisoes ac mewn ardaloedd y gellir neu y gellid eu cyrraedd yn hawdd ar droed neu ar feic, ac sydd â darpariaeth cludiant cyhoeddus dda. Cynigir y safleoedd ar ôl canfod y gofynion, capasiti’r seilwaith a’r hyfywedd a chyflwynir hefyd ddarluniadau o’r cysyniad. Mae’n amlwg bod angen i nifer o’r Safleoedd Strategol gael eu graddol gyflwyno’n briodol er mwyn bodloni’r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Band ‘B’ ac ‘C’ dros Gyfnod y Cynllun.

3.3.6 Wedi’u hategu gan y polisïau perthnasol yn y Cynllun, hyrwyddir tai fforddiadwy a thai’r farchnad, a’r rheini’n dai sydd wedi’u dylunio’n dda, sy’n effeithlon o ran ynni ac sydd o ansawdd da a fydd yn cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy. Mae’r Cynllun yn hyrwyddo safleoedd ar gyfer y dewis llawn o fathau o dai er mwyn rhoi sylw i’r anghenion a welwyd yn y cymunedau, gan gynnwys anghenion pobl hŷn a phobl ag anableddau. I’r perwyl hwn, hyrwyddir cymunedau preswyl deiliadaethau cymysg, cynaliadwy sydd â thai ‘heb rwystrau’, er enghraifft wedi’u hadeiladu yn unol â’r safonau Cartrefi Gydol Oes i alluogi pobl i fyw yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain yn hirach, lle bo hynny’n bosibl.

3.3.7 Mae’r Cynllun hefyd yn darparu ar gyfer amrywiol safleoedd cynaliadwy a chyraeddadwy er mwyn rhoi i bob sector a math o adeiladwyr tai, gan gynnwys cwmnïau cenedlaethol, rhanbarthol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Busnesau Bach a Chanolig a’r sector hunan-adeiladu neu deilwra tai ar y pwrpas, y cyfle i gyfrannu at gyflawni’r gofyn arfaethedig am dai. Er enghraifft, mae’r Strategaeth Dai yn cynnig polisïau i helpu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyflwyno tiroedd y tu allan i ffiniau aneddiadau os yw’n helpu i gyflenwi rhagor o dai fforddiadwy.

3.3.8 Caiff y Lefel Twf Tai ei chyflawni’n unol â’r polisïau a geir yn Adran Strategol Lleoedd Iach a Chymdeithasol..



## 3.4 Lefelau Twf Swyddi

3.4.1 **Amcan Strategol 1 (SO1):**

***Polisi Strategol 3: Lefelau Twf Cyflogaeth***

**Polisi Strategol 3 Lefelau Twf Cyflogaeth**

Gwneir darpariaeth gofynion cyflogaeth ar gyfer oddeutu 1,800 o swyddi newydd yng Nghyfnod y Cynllun (gan gynnwys swyddi wrth gefn) i annog strwythur oedran mwy cytbwys, lleihau niferoedd sy'n cymudo allan, gwarchod hunaniaeth y gymuned a chyfrannu'n gadarnhaol at Fargen Twf y Gogledd. Gwneir darpariaeth yn y Cynllun ar ôl ystyried cyfraddau cwblhau, ymrwymiadau a dyraniadau newydd dros Gyfnod y Cynllun.

3.4.2 Mae gan Gonwy boblogaeth sy'n heneiddio ac mae'r boblogaeth iau yn dirywio er anfantais i greu lleoedd cynaliadwy a gwarchod hunaniaeth y gymuned. Mae'n holl bwysig bod y CDLlN yn ceisio cyfrannu at strwythur oedran mwy cytbwys, yn ceisio cadw ac annog y boblogaeth iau i ddychwelyd i'r ardal ac yn lleihau'r lefelau cymudo allan. Yn ogystal ag yn diogelu ac yn gwella'r asedau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, mae'n darparu ar gyfer strategaeth a fydd yn cyfrannu at leoedd cynaliadwy yng Nghonwy. Ar ôl ystyried effeithiau Bargen Twf y Gogledd dros Gyfnod y Cynllun a'r rhagolygon economaidd, mae angen i'r CDLlN ddatblygu 1,800 o swyddi yn ychwanegol rhwng 2018 a 2033, ac mae hyn yn cyfateb i oddeutu 12 – 14 hectar o dir. Yn unol â'r Adolygiad Tir Cyflogaeth mae'r gofynion swyddi yn cael eu rhannu'n wastad rhwng B1 Swyddfeydd a B1c/B2/B8 Diwydiannol a Warysau.

3.4.3 Caiff y gofynion tir a swyddi eu dosbarthu'n unol â'r Asesiad o'r Dadansoddiad o Farchnadoedd Masnachol, sy'n cefnogi'n bennaf dwf sy'n agos i goridor arfordirol y rheilffordd a'r A55. O'r 5 Safle Strategol Allweddol a gynigir, lleolir 2 yn yr aneddiadau trefol lefel uwch sy'n cynnwys oddeutu 6 hectar o dir cyflogaeth gyda'i gilydd a'r seilwaith angenrheidiol. Mae'r safle arfaethedig yn nwyrain Ardal y Cynllun yn cefnogi'r cynigion am brosiectau a welir ym Margen Twf y Gogledd. Cynigir y safleoedd ar ôl canfod y gofynion, capasiti'r seilwaith a'r hyfywedd a chyflwynir hefyd ddarluniadau o'r cysyniad.

3.4.4 Caiff y Lefel twf swyddi ei chyflawni'n unol â'r polisïau a geir yn Adran Strategol Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy.



## 3.5 Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau

### 3.5.1 Amcan Strategol 1 (SO1)

**Polisi Strategol 4: Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau**

**Polisi Strategol 4 (SP/4): Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau**

Dros Gyfnod y Cynllun, caiff datblygiadau eu lleoli yn unol â’r dull strategol a nodir yn y strategaeth dosbarthiad twf, a hierarchaeth aneddiadau. Bydd y rhan fwyaf o’r datblygiadau’n digwydd o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, sy’n cynnwys y rhan fwyaf o rannau adeiledig yr awdurdod ac fe’i gwahanir yn bedair is-ardal. Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig sy’n cwmpasu’r rhan fwyaf o arwynebedd y tir yn Ardal y Cynllun er mai cyfran gymharol fechan o’r boblogaeth a geir yma.

Dylai twf cyflogaeth yn gyffredinol gael ei anelu at y Lleoliadau Cyflogaeth Dymunol Allweddol, fel y gwelir yn y diagram allweddol, er y bydd safleoedd at ddibenion cyflogaeth yn cael eu darparu ar sail anghenion busnesau, gan ddefnyddio dull dilyniannol o chwilio am safleoedd pan fydd safle newydd yn ofynnol fel y nodir yn Polisi Strategol 27: Datblygu Economaidd. Er mwyn sicrhau bod cyfran o’r twf economaidd yn digwydd yn yr ardal wledig bydd yn rhaid gweithredu mewn ffordd fwy hyblyg o safbwynt ehangu busnesau gwledig, gan alluogi iddynt dyfu heb fod angen eu symud, os yw’n briodol ac yn gynaliadwy gwneud hynny.

Caiff twf tai ei ddosbarthu i ardal pob strategaeth fel y gwelir isod.

| **Ardal y Strategaeth** | **Ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol** | | | | **Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Is-ardal** | **Gorllewin** | **Creuddyn** | **Canolog** | **Dwyrain** | |
| **Cyfran o gyfanswm y twf** | 10% | 30% | 35% | 15% | 10% |

Dylai datblygiad newydd a gynigir mewn anheddiad fod yn briodol o’i gymharu â maint, swyddogaeth, lleoliad a chymeriad yr anheddiad presennol. Mae’r maint a’r math o ddatblygiad yr ystyrir ei fod yn addas mewn anheddiad yn seiliedig ar ei safle yn yr Hierarchaeth Aneddiadau fel y diffinnir isod:



| **Trefol** |
|---|
| Abergele/Pensarn, Bae Colwyn (gan gynnwys Llandrillo-yn-Rhos a Hen Golwyn), Conwy, Deganwy/Llanrhos, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Mochdre, Penmaenmawr a Bae Penrhyn/ Ochr Penrhyn a Thowyn/Bae Cinmel. |
| **Canolfan wasanaethau allweddol** |
| Llanrwst |
| **Prif Bentrefi Haen 1** |
| Llanddulas, Dwygyfylchi*, Glan Conwy |
| **Prif Bentrefi Haen 2** |
| Betws-yn-Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog*, Eglwysbach, Llanfair Talhaiarn, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, Tal-y-Bont*/Castell a Threfriw* |
| **Pentrefi Bach** |
| Bryn Pydew, Glanwydden, Groes, Henryd, Llanbedr-y-Cennin*, Llanddoged, Llanelian, Llangwm, Llannefydd, Pentrefelin, Pentrefoelas, Rhyd-y-Foel, Llan San Sior, Tal-y-Cafn a Thyn-y-Groes. |
| **Pentrefannau** |
| Bodtegwel, Bryn-y-Maen, Brymbo, Bryn Rhyd-y-Arian, Bylchau, Capelulo*, Cefn Berain, Cefn Brith, Dinmael, Glasfryn, Groesffordd, Gwytherin, Hendre, Llanfihangel GM, Maerdy, Melin y Coed, Nebo*, Pandy Tudur, Pentre-llyn-cymmer, Pentre Isa, Pentre Tafarn-y-Fedw, Rhydlydan, Tan-y-Fron. |

* Aneddiadau sy’n rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri

Bydd aneddiadau trefol a’r Ganolfan Wasanaethau Allweddol, Llanrwst, yn holl bwysig ar gyfer cyflenwi’r tai, y gyflogaeth a’r seilwaith, y cyfleusterau a’r gwasanaethau eraill sydd eu hangen dros gyfnod y cynllun. Dewiswyd safleoedd strategol yn Llanfairfechan, Llanrhos, Hen Golwyn, Abergele a Llanrwst i helpu i ddarparu’r gofynion defnydd tir hyn. Caiff safleoedd pellach eu dyrannu yn y Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd fel sy’n ofynnol yn yr aneddiadau trefol, y Ganolfan Wasanaethau Allweddol a hefyd ym Mhrif Bentrefi Haen 1.



Mae'r dull ar gyfer cyflenwi tai yn cael ei ddisgrifio'n fanwl yn yr adran dai. Bydd yr holl ddatblygiadau preswyl sy'n fwy na'r trothwy maint isaf mewn aneddiadau trefol, y Ganolfan Wasanaethau Allweddol a Phrif Bentrefi Haen 1 yn darparu lefel ofynnol o dai fforddiadwy, yn unol â'r polisi ymrannu a hysbysir gan yr astudiaeth hyfywedd tai fforddiadwy. I roi hyblygrwydd i sicrhau mwy o gyfleoedd i gyflenwi mwy o dai fforddiadwy, caiff datblygiadau graddfa fechan sy'n cynnwys o leiaf 50% o dai fforddiadwy eu cefnogi ar safleoedd addas y tu allan ond wrth ymyl ffiniau'r anheddiad.

Mewn aneddiadau llai – Prif Bentrefi Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau – ni chaiff safleoedd tai eu dyrannu ond caiff datblygiadau graddfa fechan sy'n gymesur â maint a lefel cyfleusterau'r anheddiad eu cefnogi ar safleoedd addas os ydynt yn cynnwys mewnlenwi neu dalgrynnu. Rhaid i'r cyfryw safleoedd gael eu hysgogi gan alw lleol am dai a darparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

Fel eithriad i'r polisi hwn, caiff safleoedd i gyflenwi 100% o dai fforddiadwy eu cefnogi y tu allan i ffiniau'r aneddiadau llai, yn amodol ar yr holl faterion polisi lleol a chenedlaethol eraill ac os ceir tystiolaeth o angen lleol.

Mewn cefn gwlad agored ymaith oddi wrth aneddiadau diffiniedig, caiff unrhyw ddatblygiad ei reoli'n gaeth ac ni chaiff ond ei ganiatáu mewn amgylchiadau eithriadol. Yn achos tai, i fodloni angen a brofwyd am Annedd Menter Gwledig neu i ddarparu datblygiad Un Blaned, yn unol â'r canllaw cenedlaethol.

3.5.2 Cafodd y dosbarthiad twf a'r hierarchaeth aneddiadau a welir yma eu diffinio drwy roi ystyriaeth i'r adran yn PCC ar Greu Lleoedd Strategol, gan gynnwys ystyriaethau cynaliadwyedd a hygyrchedd, cyfleusterau lleol a'r safleoedd sydd ar gael, fel y nodir yn y Papurau Cefndir BP2: Adroddiad Dewisiadau Dosbarthiad Gofodol a BP3: Hierarchaeth Aneddiadau a Ffiniau Aneddiadau.

3.5.3 Mae'r dull hwn yn canolbwyntio'r twf yn bennaf yn yr aneddiadau arfordirol trefol, hefyd yn y Ganolfan Wasanaethau Allweddol lle ceir gwell mynediad i wasanaethau lleol, cyflogaeth a chysylltiadau cludiant cynaliadwy. Caiff datblygiadau priodol eu cefnogi ar safleoedd addas ym mhob anheddiad ar draws yr awdurdod, fodd bynnag, byddant yn amodol ar angen ac ystyriaethau polisi perthnasol eraill. Caiff y dull gweithredu ei ddisgrifio'n fanylach yn yr adrannau tai a chyflogaeth yn y Strategaeth a Ffefrir.



## 3.6 Creu Lleoedd a Dylunio Da

### 3.6.1 Amcan Strategol 1 (SO1)

***Polisi Strategol 5: Creu Lleoedd a Dylunio Da***

**Polisi Strategol 5 (SP/5): Creu Lleoedd a Dylunio Da**

1. Er mwyn cyfrannu at Greu Lleoedd Cynaliadwy a rhoi sylw i'r 5 elfen allweddol mewn Dylunio Da, dylai cynigion datblygu, lle bo'n briodol:

   a) Gyflawni Polisi Strategol 1: Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy

   b) Rhoi sylw i '*Fynediad a Chynhwysiant*' i bawb drwy wneud darpariaeth i fodloni anghenion pobl sydd â nam ar y synhwyrau, ar y cof, ar symudedd ac ar eu dysgu, pobl hŷn a phobl sydd â phlant ifanc;

   c) Rhoi sylw i '*Gynaliadwyedd Amgylcheddol*' drwy geisio bod mor ynni-effeithlon â phosibl a defnyddio adnoddau eraill (gan gynnwys tir) mor effeithlon â phosibl, hybu symudiad cynaliadwy, defnyddio llai ar adnoddau nad ydynt o ffynonellau adnewyddadwy, annog datgarboneiddio ac atal gwastraff a llygredd rhag cael eu cynhyrchu;

   d) Rhoi sylw i '*Gymeriad*' drwy ystyried patrwm, ffurf, maint ac edrychiad datblygiad arfaethedig a'i berthynas â'i amgylchfyd.  Dylid ceisio rhesymeg glir y tu ôl i'r penderfyniadau dylunio a wnaed, ar sail dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun, gweledigaeth gref, gofynion perfformiad ac egwyddorion dylunio, gydol y broses ddatblygu a dylai'r rhain gael eu mynegi, pan fo'n briodol, mewn datganiad dylunio a mynediad.

   e) Rhoi sylw i '*Ddiogelwch Cymunedol*' drwy gyfrwng y broses ddylunio drwy atal a lleihau troseddu ac anhrefn; a

   f) Rhoi sylw i '*Symudiad*' drwy ddylunio mewn ffordd sy'n annog pobl i beidio â bod yn ddibynnol ar geir a darparu cynifer â phosibl o gyfleoedd i bobl wneud dewisiadau cynaliadwy a dewis dulliau teithio llesol.

2. Dylid defnyddio'r dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun i bennu priodoldeb cynnig datblygu o ran fel y mae'n ymateb i'w amgylchfyd.




3.6.2 Er mwyn creu dyluniad da a chreu ymdeimlad o le yn effeithiol rhaid cael dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pob elfen o'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. Mae dylunio yn un o'r cydrannau sylfaenol wrth greu datblygiad cynaliadwy, ac mae gan hynny ynddo'i hun le blaenllaw yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

3.6.3 Mae dylunio da yn elfen sylfaenol mewn creu lleoedd cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu. Mae mwy i ddylunio na dim ond pensaernïaeth adeilad, mae'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig, a rhwng pobl a lleoedd, hefyd yn bwysig. Er mwyn gallu creu lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys sut caiff gofod ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a thir y cyhoedd yn cefnogi'r defnydd hwn, yn ogystal â'r ffordd y'i hadeiladwyd, y ffordd mae'n cael ei ddefnyddio, ei reoli a'i berthynas â'r ardal gyfagos.

3.6.4 Mae dylunio yn broses gynhwysol, sy'n gallu codi dyheadau'r cyhoedd, atgyfnerthu balchder dinesig a chreu ymdeimlad o le a helpu i siapio ei ddyfodol. Bydd Conwy yn ceisio sicrhau bod datblygiadau'n bodloni amcanion dylunio da. Caiff yr amcanion hyn eu categoreiddio mewn pum elfen allweddol yn PCC, 10. (gweler Ffigur:1): Nod y polisi hwn yw sicrhau bod cynigion datblygu yn gallu cael canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol positif ac yn gallu lleihau'r canlyniadau niweidiol. Bydd hwn, ochr yn ochr â pholisïau manylach a gaiff eu llunio yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, yn sylfaenol i'r holl benderfyniadau cynllunio, a chaiff dangosyddion eu datblygu fel rhan o fframwaith monitro'r Cynllun i ddangos effeithiolrwydd y polisïau.

***Ffigur 3: Elfennau Dylunio Da***






## 3.7 Hyrwyddo Lleoedd Iachach

3.7.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 6: Hyrwyddo Lleoedd Iachach yng Nghonwy***

**Polisi Strategol 6 (SP/6): Hyrwyddo Lleoedd Iachach yng Nghonwy**

Er mwyn hyrwyddo lleoedd iachach yng Nghonwy, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chyfrannu at Gynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych, mae gofyn i gynigion datblygu:

a) Alluogi cyfleoedd ar gyfer hamdden a gweithgareddau awyr agored yn unol â Pholisi Strategol 18: Mannau Hamdden

b) Sicrhau bod poblogaethau'n dod i lai o gysylltiad â llygredd aer a sŵn yn unol â Pholisi Strategol 25: Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau

c) Hyrwyddo dewisiadau teithio llesol yn unol â Pholisi Strategol 14: Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd; a

d) Ceisio gwelliannau amgylcheddol a ffisegol, yn enwedig yn yr amgylchedd adeiledig yn unol â Pholisi Strategol 5: Creu Lleoedd a Dyluniad Da.

3.7.2 Mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn un o'r penderfynyddion iechyd a llesiant allweddol yng Nghonwy. Bydd gan y CDLlN ran bwysig i'w chwarae i siapio'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n pennu iechyd ac sy'n hybu neu'n effeithio ar lesiant yn unol â'r nod Cymru Iachach. Mae'r ffordd y mae lleoedd yn gweithio ac yn gweithredu yn gallu cael effaith ar y dewisiadau a wna pobl yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys eu dewisiadau hamdden a theithio a pha mor hawdd fyddai cymdeithasu ag eraill.

3.7.3 Mae problemau iechyd yn tueddu i effeithio'n anghymesur ar gymunedau difreintiedig a dan anfantais. Ceir cysylltiadau rhwng yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol ac iechyd gydol oes unigolyn, ac mae dealltwriaeth o'r penderfynyddion iechyd ehangach yn un o gydrannau allweddol y CDLlN. Mae SP/6 yn nodi'r mesurau rhagweithiol ac ataliol strategol i leihau anghydraddoldebau iechyd, a chaiff y rhain eu trafod ymhellach drwy adrannau perthnasol y CDLlN.

3.7.4 Mae gan Gonwy ran i'w chwarae i atal salwch corfforol a meddyliol a achosir fel y nodir yng Nghynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych, neu a waethygir gan lygredd, datgysylltiad pobl oddi wrth weithgareddau cymdeithasol (sy'n cyfrannu at unigedd) yn ogystal ag i hyrwyddo patrymau teithio sy'n hwyluso ffyrdd o fyw llesol. Rhaid i gynigion datblygu roi ystyriaeth i effeithiau datblygiad newydd ar y cymunedau sy'n bodoli eisoes a sicrhau eu bod yn gwarchod iechyd a llesiant i'r



eithaf ac yn diogelu amwynderau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y ddarpariaeth asedau cymunedol ac iechyd, a mynediad iddynt, megis neuaddau bro, llyfrgelloedd, meddygfeydd ac ysbytai. Dylid cyfyngu ar yr effeithiau ar iechyd ym mhob achos, yn enwedig os gallai datblygiad newydd gael effaith niweidiol ar iechyd, amwynder a llesiant. Mewn amgylchiadau o'r fath, os na all yr effeithiau ar iechyd neu amwynderau eu goresgyn yn foddhaol, dylid gwrthod datblygiad lle bo'n briodol.

3.7.5 Dylai'r CDLlN ddatblygu a chynnal lleoedd sy'n annog ffyrdd iach, gweithgar o fyw ar draws pob oedran a grŵp cymdeithasol-economaidd, gan gydnabod y gall buddsoddi mewn seilwaith cerdded a beicio fod yn fesur ataliol effeithiol sy'n ysgafnu'r baich ariannol ar wasanaethau cyhoeddus yn y tymor hwy. Gall y ffordd y caiff datblygiad ei osod allan a'i drefnu ddylanwadu ar ymddygiad a phenderfyniadau pobl a gall fod yn ddull effeithiol o leddfu llygredd aer a sŵn. Gall cynllunio effeithiol ddarparu amgylchfyd tawel, llonydd yn ogystal ag amgylcheddau cyffrous a synhwyraidd, mae'r ddau yn gwneud cyfraniad pwysig i leoedd llwyddiannus yng Nghonwy.

3.7.6 Gall seilwaith gwyrdd fod yn ffordd effeithiol o wella iechyd a llesiant, drwy gyplysu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol a drwy ddarparu mannau gwyrdd hygyrch, o ansawdd da. Ym mhob datblygiad ac mewn mannau cyhoeddus yn enwedig, dylid ymdrin yn sensitif â golau, a dylid cyfyngu cymaint ag sy'n rhesymol bosibl ar lygredd yn yr awyr. Bydd yr ystyriaeth a yw defnyddiau tir yn cydweddu yn ffactor allweddol i roi sylw i ansawdd aer, felly hefyd greu seinweddau sy'n ffafriol i, ac yn adlewyrchu, gweithgareddau a phrofiadau cymdeithasol a diwylliannol penodol, yn enwedig mewn ardaloedd canolog prysur yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (CDSA). Yn yr un modd, gall darparu mannau tawel, llonydd sy'n noddfa heddychlon mewn amgylcheddau swnllyd helpu i leihau lefelau llygredd cyffredinol a hybu llesiant corfforol a meddyliol yng Nghonwy.



## 3.8 Yr Iaith Gymraeg

### 3.8.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 7: Yr Iaith Gymraeg***

> **Polisi Strategol 7 (SP/7): Yr Iaith Gymraeg**
>
> Bydd y defnydd o'r Gymraeg yng Nghonwy yn cael ei gefnogi a'i annog drwy'r CDLlN, drwy gefnogi'r ddarpariaeth o gyflogaeth leol a datblygiadau preswyl yn gymesur ag anghenion y cymunedau lleol.
>
> Bydd asesiad effaith y Gymraeg yn cael ei gyflawni a fydd yn amlygu pa gamau lliniaru, os oes rhai, fydd eu hangen i rwystro niwed posibl i'r defnydd o'r Gymraeg all gael ei achosi gan gynigion datblygu. Bydd ardaloedd sy'n sensitif i iaith yn cael eu diffinio, a bydd polisi yn seiliedig ar feini prawf yn cael ei gynnwys yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, er mwyn canfod datblygiadau anrhagweladwy a fydd angen asesiad effaith yn ystod y cam ymgeisio.

3.8.2 Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o gyfansoddiad cymdeithasol a diwylliannol Conwy, gyda dros 27% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg[10]. Yng nghyfrifiad 2011, canfuwyd bod amrywiaeth sylweddol yn nefnydd y Gymraeg ar draws Conwy, o dros 70% o'r boblogaeth yn ward Uwchaled yn ne-ddwyrain gwledig y sir, i lai na 12% yn ardaloedd arfordirol dwyreiniol Pensarn, Towyn a Bae Cinmel.

3.8.3 Mae'r Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, fodd bynnag mae NCT20 yn ei gwneud yn glir bod effaith datblygiad ar y Gymraeg yn fater y dylid ei asesu yn ystod y cam cynllunio datblygiad; dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd angen i geisiadau cynllunio unigol gyflwyno asesiad effaith.

3.8.4 Felly, mae asesiad effaith lefel uchel yn cael ei gyflawni er mwyn ystyried y dull strategol a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir, a sut gellir defnyddio'r CDLlN i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Gall hyn fod drwy annog datblygiad o'r math a'r lleoliad cywir er mwyn cryfhau cymunedau sy'n siarad Cymraeg, a chael rhai datblygiadau er mwyn lliniaru yn erbyn niwed posibl a achosir gan ddatblygiad.

3.8.5 Ac ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â'r economi oherwydd bod Prydain yn gadael yr UE, mae'n holl bwysig i'r Cynllun roi digon o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau newidiol. Caiff yr hyblygrwydd hwn ei greu yn rhannol drwy bolisïau ar sail meini prawf a fydd yn galluogi i geisiadau ar safleoedd y tu allan i ddyraniadau gael eu hystyried.

---

[10] 27.4% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd. Ffynhonnell: Bwletin Ymchwil Y Gymraeg yn Mwrdeistref Sirol Conwy: Ar gael o http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Statistics-and-research/Welsh/Assets/documents/The-Welsh-language-in-Conwy-County-Borough-ad-hoc-research-bulletin-August-2013.pdf



## 3.9 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

3.9.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 8: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy***

**Polisi Strategol 8 (SP/8): Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**

Er mwyn cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a roddant i greu lleoedd cynaliadwy, bydd y Cyngor yn sefydlu fframwaith i sicrhau y cyfrennir yn bositif at yr egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, y Polisi Adnoddau Naturiol, yr 'Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol' a 'Datganiadau Ardal'.

3.9.2 Caiff egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) eu cyflwyno drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n cyflwyno fframwaith i gyflawni'r rhain wrth wneud penderfyniadau. Nod egwyddorion SMNR yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a roddant. Mae trosi egwyddorion SMNR i'r system gynllunio yn rhan annatod o gydrannau hanfodol lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy ac fe'u cyflawnir drwy annog dulliau sy'n seiliedig ar ganfod a sicrhau canlyniadau sy'n esgor ar lu o fanteision i'n hecosystemau.

3.9.3 Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi a gweithredu Polisi Adnoddau Naturiol statudol sy'n datgan ei blaenoriaethau o safbwynt SMNR, tra bod gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lunio 'Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol' a pharatoi 'Datganiadau Ardal' i'w hysbysu sut i weithredu mewn gwahanol leoedd. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal yn ddarnau allweddol o dystiolaeth y mae'n rhaid rhoi ystyriaeth iddynt wrth baratoi cynllun datblygu. Hyd yma ni chyhoeddwyd y Datganiad Ardal ar gyfer Conwy.

3.9.4 Mae'r system gynllunio yn delio â chwmpas cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eang ac mae'n gweithredu mewn ffordd hollgynhwysol o safbwynt datblygu cynaliadwy lle mae penderfyniadau ar anghenion tymor byr a thymor hir a chost a manteision yn dod ynghyd. Mae'n sicrhau canlyniadau sy'n gallu darparu llu o fanteision (mwy nag un budd i'r ecosystem) fel rhan o strategaethau gwneud cynlluniau neu gynigion datblygu unigol. Caiff y Polisi Strategol ei gyflawni ymhellach drwy bolisïau a welir yn yr Adran Lleoedd Naturiol a Diwylliannol.



## 3.10 Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig

3.10.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 9: Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig***

> **Polisi Strategol 9 (SP/9): Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig**
>
> Yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau, caiff cynigion datblygu mewn aneddiadau gwledig eu cefnogi os ydynt yn meithrin natur hyblyg a gwydn cymunedau gwledig Conwy ac os ydynt yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng bodloni anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr â'r angen i warchod a, lle bo'n bosibl, gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol.

3.10.2 Caiff economi wledig gadarn ei hyrwyddo i annog cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog yng Nghonwy. Bydd meithrin y gallu i addasu a gwytnwch yn un o'r nodau allweddol i aneddiadau gwledig wrth wynebu'r cryn her o warchod hunaniaeth a ffyniant cymunedau.

3.10.3 Mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes yn hanfodol i dwf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig, a rhaid cefnogi hynny â'r seilwaith cymunedol angenrheidiol a'r tai sy'n ofynnol. Mae angen cyflawni hyn heb anghofio'r angen i warchod a, lle bo'n bosibl, gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol.

3.10.4 Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ardaloedd gwledig yn Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA) Conwy, mae'r cyfleoedd i ddefnyddio llai ar geir a cherdded, seiclo a defnyddio cludiant cyhoeddus mwy yn fwy cyfyngedig nag yn y CDSA. Felly, bydd aneddiadau yn yr RDSA yn canolbwyntio ar dwf lleol ac amrywiaeth yn ddibynnol ar eu cynaliadwyedd a'u safle yn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Caiff dull gweithredu adeiladol ei fabwysiadu wrth ddelio â chynigion datblygu amaethyddol hefyd, yn enwedig y rheini sydd â'r nod o fodloni anghenion arferion ffermio newidiol neu'r rheini sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu les newydd. Gweithredir yn bositif o safbwynt addasu adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio ar gyfer busnes, felly hefyd o safbwynt prosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig.

3.10.5 Bydd y dull hwn yn sicrhau bod cefn gwlad yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd a'i fod yn chwarae rhan i leihau achosion newid hinsawdd drwy warchod dalfeydd carbon ac fel ffynhonnell ynni cynaliadwy.



## 3.11 Cynlluniau Lleoedd

3.11.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 10: Cynlluniau Lleoedd***

> **Polisi Strategol 10 (SP/10): Cynlluniau Lleoedd**
>
> Er mwyn hybu cydweithrediad, gwella llesiant a chreu lleoedd, caiff Cynlluniau Lleoedd eu cefnogi os ydynt yn cyflawni Polisïau'r CDLIN, os cânt eu paratoi ar gais y gymuned leol a'u mabwysiadu fel canllaw cynllunio atodol.

3.11.2 Dogfennau anstatudol yw Cynlluniau Lleoedd. Gallant gael eu paratoi ar gais y gymuned leol ac maent yn offer pwerus i hybu cydweithrediad i wella llesiant a'r broses creu lleoedd. Dylai Cynlluniau Lleoedd helpu i gyflawni polisïau'r CDLl ac fe'u mabwysiadir fel canllaw cynllunio atodol.

3.11.3 Mae Cynlluniau Lleoedd yn rhoi cyfle i gymunedau ymgysylltu â'r broses gwneud cynllun ar lefel leol, gydag ACLlau yn cefnogi cynlluniau Creu Lleoedd mewn cymunedau lleol. Nod Cynlluniau Lleoedd yw cyflawni canlyniadau lleol, helpu i sicrhau consensws ac ymrwymiad ym mhroses y cynllun datblygu ehangach. Gallant ychwanegu'r manylder at CDLl mabwysiedig. Gallant gael eu llunio gan Gynghorau Tref a Chymuned neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n holl bwysig bod yr holl bartïon dan sylw yn deall faint o adnoddau sy'n ofynnol i baratoi Cynllun Lle a bydd yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar â'r holl bartïon.

3.11.4 Dylai Cynlluniau Lleoedd gydymffurfio â'r CDLIN a chael eu mabwysiadu fel CCA. Gallant fwydo gwybodaeth i adolygiad o CDLl, cael eu paratoi ochr yn ochr â CDLl, neu ar ôl ei fabwysiadu, cyn belled ag y ceir 'cysylltiad polisi' digonol yn y cynllun. Ni chânt ddyblygu na chyflwyno polisi newydd, ac ni chânt ychwaith ddad-ddyrannu safleoedd a enwir yn y cynllun datblygu mabwysiedig. Nid yw Cynlluniau Lleoedd yn rhan o'r cynllun datblygu statudol; yn hytrach, ychwanegu manylder at y cynllun mabwysiedig a wnânt.

3.11.5 Gall Cynlluniau Lleoedd hefyd fod yn llyw ar gyfer dosbarthu a gwario arian a godir o rwymedigaethau cynllunio a106/symiau gohiriedig a lle bo'n berthnasol, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Dylid nodi yn y Cynlluniau Lleoedd pa bolisi dyrannu safle perthnasol yn y CDLIN y mae'n berthnasol iddo a/neu nodi sut maent yn ychwanegu at bolisïau cysylltiedig generig eraill, megis, dylunio, canolfannau masnachol a mannau gwyrdd. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi canllawiau a deunydd ategol ar ddefnyddio a pharatoi Cynlluniau Lleoedd.



## 3.12 Safleoedd Strategol

### 3.12.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 11: Safleoedd Strategol***

**Polisi Strategol 11 (SP/11): Safleoedd Strategol**

I rannol fodloni'r gofynion twf i'r dyfodol, adlewyrchu tir cyfyngedig iawn yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol a chyfrannu'n gadarnhaol at Fargen Twf y Gogledd, cynigir pump o Safleoedd Strategol Allweddol* mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, wedi'u hategu gan y seilwaith gofynnol a'u cynnig yn raddol dros Gyfnod y Cynllun.

<u>Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (CDSA):</u>

1. Llanfairfechan – Tai Defnydd Cymysg (400 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2029
2. Llanrhos – Tai Defnydd Cymysg (250 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, 1 Hectar o Dir Cyflogaeth B1, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2024 a 2031.
3. Hen Golwyn – Tai Defnydd Cymysg (450 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2024 a 2033.
4. Abergele – Cyflogaeth Defnydd Cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8), Siopau Adwerthu Cyfleustra, Ardal Hamdden ac Ysgol Gynradd. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2027.

<u>Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA)</u>

5. Canolfan Wasanaethau Allweddol Llanrwst – Tai (200 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2026.

*Mae'r holl Safleoedd Strategol Allweddol yn cael eu hategu gan Asesiad Hyfywedd, Asesiadau Safle a Darluniadau o'r Cysyniad. Bydd yr holl Safleoedd Strategol yn cael eu hategu gan Weledigaeth Creu Lleoedd, Egwyddorion Dylunio a Briffiau Datblygu.

3.12.2 I adlewyrchu eu cyfraniad i ofynion twf Conwy i'r dyfodol ac fel cydrannau allweddol o Fargen Twf y Gogledd, dewiswyd pump o Safleoedd Strategol fel rhai creiddiol i sicrhau twf yn ystod Cyfnod y Cynllun. Ategir yr holl Safleoedd Strategol Allweddol gan weledigaeth creu lleoedd, egwyddorion dylunio a briffiau datblygu wrth i'r CDLlN fwrw ymlaen drwy'r broses ar gyfer ei fabwysiadu. Cael eu henwi yn dilyn ymarferiad dechrau dwys â gwasanaethau cyhoeddus allweddol a chwmnïau cyfleustodau a wnaeth y safleoedd arfaethedig ac o'r herwydd maent yn adlewyrchu ystyriaethau ynglŷn â chapasiti a'r seilwaith newydd sy'n ofynnol dros Gyfnod y Cynllun.

3.12.3 Dylai'r holl ddyraniadau a'r cynigion datblygu ystyried yr holl Bolisïau perthnasol yn y CDLlN ac, yn benodol, sut mae egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy a dylunio da yn dylanwadu ar faint a lleoliad datblygiad. Mae'n hanfodol bod cynigion yn creu lleoedd o ansawdd sydd wedi'u dylunio'n dda lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â nhw. Er nad yw hon yn rhestr gyflawn, bydd angen i Safleoedd Strategol Allweddol ystyried y canlynol wrth baratoi Briffiau Datblygu: **Defnyddiau tir, mathau o dai a dwysedd, maint a chrynhoad, mynediad allweddol, coridorau symud a'r hierarchaeth strydoedd, trafnidiaeth / symudiad (pob math), seilwaith gwyrdd, seilwaith ffisegol, bioamrywiaeth, cyfleoedd ynni adnewyddadwy / effeithlonrwydd ynni, cyflwyno graddol a gofynion seilwaith.**

3.12.4 Mae gwaith ar Asesiadau Hyfywedd yn mynd rhagddo i asesu'r cyfleoedd i fynnu safonau adeiladu cynaliadwy uwch, gan gynnwys dim carbon, ar safleoedd datblygu a bydd y gwaith hwn yn bwydo gwybodaeth i'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

3.12.5 **Llanfairfechan – Tai Defnydd Cymysg (400 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden, Seilwaith Gwyrdd a Chysylltiadau Teithio Llesol. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2029.**

Cynigir Safle Strategol defnydd cymysg newydd yn Llanfairfechan a fydd yn cynnwys 400 o gartrefi newydd, tai fforddiadwy, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd ac ardal hamdden. Mae'r dull dechrau dwys wedi canfod bod digon o gapasiti yn y cyflenwad dŵr a'r seilwaith carthffosiaeth/draeniau ac yn y Feddygfa. Fodd bynnag, mae angen gwella'r llwybrau teithio llesol a'r llwybrau diogel i'r ysgol o'r ardaloedd preswyl ehangach yn Llanfairfechan. Ceir cynlluniau hefyd i sefydlu Ysgol Gynradd Band B newydd rhwng 2019 a 2024. Rhoddwyd ystyriaeth i effaith y lefel dwf ac fe'i hadlewyrchir mewn ysgol o'r maint priodol.

3.12.6 **Llanrhos – Tai Defnydd Cymysg (250 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, oddeutu 1 Hectar o Dir Cyflogaeth B1, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden, Seilwaith Gwyrdd a Chysylltiadau Teithio Llesol. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2024 a 2031.**

Cynigir Safle Strategol defnydd cymysg yn Llanrhos rhwng aneddiadau trefol Cyffordd Llandudno a Llandudno a fydd yn cynnwys 250 o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy), oddeutu 1 hectar o dir B1 (swyddfeydd) i hyrwyddo defnydd cyflogaeth clwstwr, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd ac ardal hamdden. Mae'r ardal hefyd yn cael ei chydnabod fel ardal sydd angen gwell cludiant cyhoeddus, seilwaith gwyrdd a theithio llesol, a chaiff hyn ei gyflawni drwy Friff Datblygu cynhwysfawr. Caiff y Safle Strategol ei raddol gyflwyno o 2024 ymlaen i sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 'Band C'.



3.12.7 **Hen Golwyn – Tai (450 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden, Seilwaith Gwyrdd a Chysylltiadau Teithio Llesol. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2024 a 2033.**

Safle Strategol i'r de o Hen Golwyn a fydd yn cynnwys 450 o gartrefi newydd, rhandiroedd ac ardal hamdden. Caiff y Safle Strategol ei raddol gyflwyno o 2024 ymlaen i ystyried Effeithiau'r Ysgol Band C. Yn dilyn y dull dechrau dwys, mae'n bosibl y bydd angen gwella'r rhwydwaith priffyrdd ehangach, gwella'r gwasanaethau cludiant cyhoeddus a'r llwybrau teithio llesol ar gyfer y safle. Mae gwaith Modelu Hydrolig hefyd yn mynd rhagddo i ganfod a fydd gofyn gwneud gwaith i wella'r seilwaith carthffosiaeth/draeniau a'r cyflenwad dŵr.

3.12.8 **De Ddwyrain Abergele – Cyflogaeth Defnydd Cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8), Siopau Adwerthu Cyfleustra, Ardal Hamdden ac Ysgol Gynradd, Seilwaith Gwyrdd a Chysylltiadau Teithio Llesol. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2027.**

Mae De Ddwyrain Abergele yn un o'r prosiectau allwedd ym Margen Twf y Gogledd. Dyrannwyd y safle yn flaenorol yn y CDLl Mabwysiedig ac o'r herwydd rhoddwyd ystyriaeth ofalus i ailddyrannu'r Safle Strategol Allweddol at ddefnydd Cyflogaeth cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8), Siopau Adwerthu Cyfleustra, Ardal Hamdden ac Ysgol Gynradd. Un ystyriaeth bwysig cyn cyflenwi'r safle yw'r capasiti sydd ar gael yng nghanol y dref ac ar y rhwydwaith priffyrdd i ddelio â'r twf, heb orfod gwneud gwaith sylweddol i wella seilwaith y briffordd yng nghanol y dref. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na all goleuadau traffig canol y dref ddelio â rhagor o draffig ac y byddai twf pellach a'r traffig cysylltiedig yn niweidiol heb wneud ymyraethau yng nghanol y dref (e.e. system gylchu neu system unffordd).

3.12.9 I gael gwybodaeth ynglŷn â'r dichonoldeb, cynhaliwyd Astudiaeth o Gapasiti'r Briffordd sy'n dangos y gellir cyflenwi'r defnyddiau arfaethedig heb fod angen gwneud ymyraethau mawr yng nghanol y dref. Mae'r defnyddiau arfaethedig, drwy hybu dulliau teithio llesol a chynaliadwy, yn rhoi pwysau teithio gwahanol ar ganol y dref nag y byddai cynlluniau tai newydd, ac o'r herwydd, mae'r dystiolaeth a'r dull dechrau dwys yn awgrymu bod modd cyflenwi'r safle dros Gyfnod y Cynllun.

3.12.10 Mae'r CDLlN yn dal i hyrwyddo gwelliannau i gapasiti traffig canol y dref drwy annog ymyrraeth strategol. Mae'r dewisiadau ar gyfer gwella yn cael eu hystyried yn unol â'r broses WelTag. Fe'i cefnogir gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a bydd yn cynorthwyo ymhellach amcan y CDLlN i hybu gweithgaredd adfywio a buddsoddi yn Ardal Abergele a Phensarn.

3.12.11 **Canolfan Wasanaethau Allweddol Llanrwst – Tai (200 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden, Seilwaith Gwyrdd a Chysylltiadau Teithio Llesol. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2026.**

Mae'r rhan fwyaf o'r twf gwledig yn canolbwyntio ar Ganolfan Wasanaethau Allweddol Llanrwst, sy'n anheddiad sy'n cefnogi'r cymunedau gwledig ehangach â chyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac adwerthu. I annog datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy cynigir Safle Strategol yn Llanrwst a fydd yn cynnwys 200 o gartrefi newydd (marchnad a fforddiadwy), rhandiroedd ac ardal hamdden ar hyd yr A470. Mae'r gwaith dechrau dwys yn awgrymu y ceir capasiti yn y gwasanaethau cyhoeddus a'r cyfleustodau.



## 3.13 Seilwaith a Datblygiad Newydd

### 3.13.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 12: Seilwaith a Datblygiad Newydd***

**Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygiad Newydd**

1. Rhaid i gynigion datblygu ariannu a/neu gyflenwi seilwaith, gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol newydd neu well os ydynt:
   - a) yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio;
   - b) yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac
   - c) yn eithaf ac yn rhesymol gysylltiedig o ran maint a math o ddatblygiad.
2. Bydd gofynion seilwaith datblygiadau yn amrywio'n fawr yn unol â'u lleoliad, y ddarpariaeth seilwaith bresennol, eu maint a'u math. Wrth ystyried anghenion cynigion datblygu mae'n bosibl y bydd y seilwaith, y gwasanaethau a'r cyfleusterau canlynol yn ofynnol:
   - a) Gwaith sy'n ofynnol i sicrhau amgylchedd diogel i'r gymuned a meddianwyr y datblygiad arfaethedig i'r dyfodol:
     - i. Cynlluniau traffig, trafnidiaeth a phriffyrdd (gan gynnwys cludiant cyhoeddus, teithio llesol a llwybrau diogel i'r ysgol);
     - ii. Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig; a
     - iii. Rheoli gwastraff ac ailgylchu.
   - b) Yn achos datblygiad preswyl rhaid darparu tai fforddiadwy i fodloni anghenion y gymuned leol:
     - i. Tai fforddiadwy.
   - c) Mesurau sy'n ofynnol i fodloni anghenion meddianwyr y datblygiad arfaethedig i'r dyfodol lle byddai methu â darparu'r rhwymedigaeth yn cael effeithiau annerbyniol ar y gymuned leol:
     - i. Ardaloedd Hamdden (gan gynnwys Seilwaith Gwyrdd);
     - ii. Cyfleusterau Addysgol;
     - iii. Rhandiroedd;
     - iv. Llyfrgelloedd;



v. Hamdden; ac

vi. Iechyd.

d) Mesurau sy'n ofynnol i leddfu effaith y datblygiad arfaethedig ar y gymuned leol neu materion y cydnabyddir eu bod yn bwysig:

i. Cyflogaeth a Hyfforddiant;

ii. Y Gymraeg;

iii. Cynlluniau Adfywio;

iv. Seilwaith Digidol;

v. Diogelwch Cymunedol; ac

vi. Ynni isel ar garbon ac ynni adnewyddadwy.

e) Cyfleusterau a gwasanaethau eraill y credir eu bod yn angenrheidiol

3.13.2 Mae darparu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau priodol yn holl bwysig i sicrhau y cyflawnir polisïau a chynigion y Cynllun. Mae seilwaith priodol yn allweddol i hwyluso datblygiad ond mae hefyd yn anghenraid i gefnogi anghenion a galwadau parhaus datblygiad a chymunedau Conwy.

3.13.3 Bydd gofynion rhwymedigaethau cynllunio yn rhoi ystyriaeth i hyfywedd ariannol datblygiad arfaethedig. Os ceir anghydfod ynglŷn â'r effaith a gaiff y gofynion ar hyfywedd ariannol y cynllun, bydd gofyn i'r ymgeisydd dalu'r costau o gynnal gwerthusiad hyfywedd annibynnol, wedi'i gwblhau gan drydydd parti sydd wedi cymhwyso a'i gymeradwyo'n briodol.

3.13.4 Nod y Cynllun yw sicrhau bod y seilwaith, y gwasanaethau a'r cyfleusterau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r datblygiad yn cael eu cyflawni'n amserol, cyn dechrau, neu pan ddechreuir, ar y datblygiad, neu lle bo'n briodol, yn cael eu graddol gyflwyno gydol y broses ddatblygu. Mae'r Cynllun yn annog i'r gwaith o gyflenwi'r seilwaith gael ei wneud mewn ffordd gydlynol gan effeithio cyn lleied â phosibl ar y cymunedau sy'n bodoli eisoes.

3.13.5 Gallai'r cyfraniadau gynnwys y canlynol:

1. Cyfraniadau mewn Nwyddau – Y datblygwr yn gwneud y gwaith sy'n ofynnol yn uniongyrchol.
2. Cyfraniadau Ar y Safle / Oddi ar y Safle – Y datblygwr yn cyfrannu'n ariannol at ddarparu mesurau a fyddai'n lleddfu effeithiau niweidiol y datblygiad.



3. Cronni Cyfraniadau – Gallai’r Cyngor geisio cronni cyfraniadau oddi wrth fwy nag un datblygwr ar draws y Fwrdeistref Sirol, er mwyn rhoi sylw i’r effeithiau ehangach ar draws datblygiadau.

3.13.6 Darpariaeth ar y safle yw’r dewis a ffafrir, yn enwedig o ran rhwymedigaethau megis tai fforddiadwy ac ardaloedd hamdden. Lle bo angen, bydd y datblygwr yn gyfrifol am gynnal y rhwymedigaeth i’r dyfodol. Ni ddylai’r datblygiad ddigwydd nes bo’r seilwaith sy’n angenrheidiol gan ei feddianwyr wedi’i sefydlu. Oni nodir yn wahanol, nid oes dim eithriadau.

3.13.7 **Ardoll Seilwaith Cymunedol Conwy (CIL)**

Mae’r Cyngor yn bwrw ymlaen ag Asesiad Hyfywedd sy’n rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau cynllunio drwy’r dull A106 a’r Ardoll Seilwaith Cymunedol.  Mae’r CIL yn cael ei ddal ar encil ar hyn o bryd tra bo Adolygiad Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo. Pe byddai’r Cyngor yn bwrw ymlaen ac yn mabwysiadu ffi CIL yn unol â chanlyniad yr Asesiad Hyfywedd, ni cheisir y rhwymedigaeth eto drwy Gytundeb Adran 106 na drwy amod cynllunio.



## 3.14 Rheoli Ffurf Anheddiad

3.14.1 **Amcan Strategol 1 (SO1)**

***Polisi Strategol 13: Rheoli Ffurf Aneddiadau***

> **Polisi Strategol 13 (SP/13): Rheoli Ffurf Aneddiadau**
>
> Er mwyn gwarchod tir agored rhag datblygiad, cynyddu mynediad i gefn gwlad ac annog cyfleoedd chwaraeon a hamdden dros Gyfnod y Cynllun, nodir lletemau glas mewn aneddiadau trefol a phentrefi Haen 1 yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol.

3.14.2 Yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol mae angen gwarchod tir agored rhag datblygiad, cynyddu mynediad i gefn gwlad ac annog gweithgareddau hamdden er mwyn gwella iechyd. Gellir gwneud hyn drwy nodi dynodiadau Lletemau Glas. Ceir sail gadarn i'r Lletemau Glas arfaethedig ac fe'u dynodwyd i warchod y ffurf drefol lle na chredir bod ffiniau'r aneddiadau yn ddigon cadarn i warchod y tir agored.

3.14.3 **Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas**

Tir amaethyddol graddau 1, 2 a 3a o'r system Dosbarthu Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd nad yw'n ddi-ben-draw i'r dyfodol.

3.14.4 Wrth ystyried y chwiliad dilyniannol am safleoedd, ym mholisïau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu dylid rhoi cryn bwysau ar ddiogelu'r cyfryw dir rhag datblygiadau, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid ond datblygu ar dir graddau 1, 2 a 3a os oes angen tra phwysig am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddatblygwyd yn flaenorol na thir ar raddau amaethyddol is ar gael, neu os yw'r tir gradd is sydd ar gael o werth amgylcheddol a gydnabyddir gan ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol sy'n bwysicach na'r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir ar raddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd ar wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad i'r tir â'r radd isaf.

3.14.5 **Lletemau Glas**

Mae gan letemau glas i bob pwrpas yr un diben â Lleiniau Glas a chawsant eu defnyddio fel tir clustogi rhwng ymyl yr anheddiad a dynodiadau statudol ac i warchod golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r ardal. Caiff lletemau glas unwaith eto eu cynnig ac fe'u hadolygir fel rhan o broses y CDLlN. Mae'r polisïau cyffredinol sy'n rheoli datblygiadau yng nghefn gwlad yn weithredol mewn lletem las ond ceir, hefyd, dybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygu sy'n amhriodol o safbwynt dibenion y dynodiad. Gall lletemau glas gael effeithiau llesol eraill gan gynnwys darparu mynediad i gefn gwlad a chyfleoedd chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, nid yw i ba raddau y mae'r defnydd o'r tir yn cyflawni'r amcanion hyn yn ffactor pwysig wrth bennu a ddylai tir gael ei gynnwys mewn lletem las.

3.14.6 Caiff ffiniau lletemau glas eu dewis yn ofalus gan ddefnyddio ffiniau a nodweddion ffisegol i gynnwys dim ond y tir hwnnw y mae'n angenrheidiol ei gadw yn agored yn y tymor hwy. I



gynnal y natur agored, rhaid i ddatblygiad mewn lletem las gael ei reoli'n llym. Bydd y Cyngor yn dangos pam na fyddai polisïau rheoli datblygu a chynllunio arferol yn rhoi'r warchodaeth angenrheidiol i'r dynodiad lletem las.

3.14.7 Wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio mewn lletemau glas, bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu amhriodol yn weithredol. Dylid rhoi pwysau sylweddol ar unrhyw effaith niweidiol y byddai datblygiad yn ei chael ar ddibenion dynodiad lletem las. Caiff polisïau eu cynnwys i amlinellu'r amgylchiadau pan fyddai datblygiad yn cael ei ganiatáu yn yr ardaloedd hyn lle bo natur agored y lletem las yn dal i gael ei chynnal.

3.14.8 Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad amhriodol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn lle bo ystyriaethau eraill yn amlwg yn bwysicach na'r niwed y byddai'r cyfryw ddatblygiad yn ei wneud i'r lletem las. Dylai polisïau lletemau glas mewn cynlluniau datblygu sicrhau na fyddai unrhyw geisiadau am ddatblygiad amhriodol yn cyd-fynd â'r cynllun. Byddai'r achosion eithriadol iawn hyn felly'n cael eu trin fel amrywiadau oddi wrth y cynllun.

3.14.9 Mae codi adeiladau newydd mewn lletem las yn ddatblygiad amhriodol oni bai ei fod at y dibenion canlynol:

- anghenion menter wledig y gellir eu cyfiawnhau;
- cyfleusterau hanfodol ar gyfer chwaraeon awyr agored neu hamdden awyr agored, mynwentydd, a
- defnyddiau tir eraill sy'n cynnal natur agored y lletem las ac nad ydynt yn gwrthdaro â diben cynnwys tir ynddi;
- gwaith ymestyn, addasu cyfyngedig neu adnewyddu anheddau sy'n bodoli eisoes; neu
- gynllun arallgyfeirio graddfa fechan ar fuarthau ffermydd lle caiff ei redeg fel rhan o fusnes y fferm.

3.14.10 Nid yw ailddefnyddio adeiladau mewn lletem las yn ddatblygiad amhriodol cyn belled â:

- bod yr adeilad gwreiddiol yn sylweddol, yn barhaol ac yn addas i'w addasu heb waith adeiladu mawr;
- na fydd y defnydd newydd yn cael effaith fwy ar natur agored y lletem las a dibenion cynnwys tir ynddi. Bydd angen rheoli'n llym y gwaith ymestyn, addasu neu unrhyw ddefnydd tir cysylltiedig ar gyfer adeiladau a ailddefnyddir; a
- bod yr adeilad yn gweddu i'r ardal o'i amgylch.

3.14.11 Gallai rhai ffurfiau eraill ar ddatblygiad fod yn briodol yn y lletem las cyn belled â'u bod yn gwarchod ei natur agored ac nad ydynt yn gwrthdaro â dibenion cynnwys tir ynddi.

Gallai'r rhain gynnwys:

- cloddio am fwynau;
- cynhyrchu ynni isel ar garbon ac adnewyddadwy;
- gweithrediadau peirianyddiaeth; a
- chynlluniau seilwaith trafnidiaeth lleol.

3.14.12 Byddai ffurfiau eraill ar ddatblygiad yn ddatblygiadau amhriodol oni bai eu bod yn cynnal natur agored lletem las ac nad ydynt yn gwrthdaro â dibenion y dynodiad.



# Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Cyfrannir at Leoedd Cymdeithasol yng Nghonwy drwy ddarparu cymunedau cydlynol sydd wedi'u cysylltu'n dda ar gyfer holl sectorau cymdeithas. Cyflawnir hyn drwy ganiatáu i bawb gael ansawdd bywyd da drwy fyw mewn cymunedau cryf a diogel, hyrwyddo datblygiadau cynhwysol drwy wella mynediad ar wasanaethau allweddol a chyfleusterau hamdden. Bydd y dull Strategaeth a Ffefrir yn cefnogi pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, sicrhau datblygiad cynhwysol yn gymdeithasol a chymunedau mwy cydlynol. Mae'r adran hon yn gosod y cyfarwyddyd strategol ar gyfer Cludiant, Tai, Canolfannau Manwerthu a Masnach, Cyfleusterau Cymunedol a Mannau Hamdden.



## 4.2 Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd

4.2.1 **Amcan Strategol 6 (SO6):** Darparu datblygiad cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd trwy ymestyn y dewis o gludiant cynaliadwy i alluogi cymunedau Conwy i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol trwy annog pobl i wneud siwrneiau byrrach a mwy egnïol ac effeithlon trwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd defnydd a dyluniad datblygiadau newydd.

***Polisi Strategol 14: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd***

**Polisi Strategol 14 (SP/14): Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd**

Caiff rhwydwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd ei hyrwyddo i gefnogi datblygu cynaliadwy, annog newid mewn ymddygiad teithio, cynyddu gweithgarwch corfforol, gwella iechyd a mynd i'r afael ag achos newid hinsawdd a llygredd yn yr aer. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo rhwydwaith **trafnidiaeth gynaliadwy, integredig, hygyrch, ddibynadwy, effeithlon a diogel i bawb, yn unol â Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy. Cyflawnir hyn drwy:**

a) Lleoli datblygiad yn unol â Pholisi Strategol 4 Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Anheddiad lle ceir mynediad hawdd drwy ddulliau teithio cynaliadwy heb yr angen am gar;

b) Blaenoriaethu'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ym mhob datblygiad.

c) Creu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar bobl, wedi'u cynllunio'n dda sy'n sicrhau hygyrchedd drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, trwy flaenoriaethu darpariaeth seilwaith ar y safle a, lle bo angen, lliniaru effeithiau trafnidiaeth drwy ddarparu mesurau oddi ar y safle, gan gynnwys llwybrau teithio llesol, rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, seilwaith blaenoriaeth bysiau a chymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

d) Cyfrannu tuag at reoli rhwydwaith cynaliadwy drwy wneud y defnydd gorau o'r lleoedd sydd ar gael dros y cyfnod Cynllunio.

e) Dylanwadu ar sut y mae pobl yn dewis teithio drwy gymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar ddylunio tuag at gynlluniau, sy'n sicrhau bod lefel briodol o feysydd parcio wedi'u hintegreiddio mewn ffordd nad yw'n dominyddu'r datblygiad. Caiff y ddarpariaeth parcio ceir ei llywio gan y cyd-destun lleol, gan gynnwys hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus, egwyddorion dylunio trefol a'r amcan o leihau dibyniaeth ar geir preifat a chefnogi'r newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â defnyddio pwyntiau gwefru Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVs).



f) Blaenoriaethu hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy drwy hyrwyddo Teithio Llesol a Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor. Bydd y Cynllun yn nodi, diogelu a chefnogi darpariaeth ffyrdd a rhwydweithiau teithio llesol.

g) Cefnogi'r gwaith o gludo nwyddau ar y rheilffordd drwy ddiogelu cyfleusterau cludo nwyddau ar y rheilffyrdd a'r tir yng Nghyffordd Llandudno a Phenmaenmawr.

h) Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru (blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer Conwy, yn benodol annog cyfleusterau cyfnewid, parcio a theithio, a gwella lleoedd a symudiad mewn trefi fel Abergele.

4.2.2 Cyflwynodd Papur Testun 8 y materion sy'n ymwneud â Thrafnidiaeth yn Ardal Y Cynllun ac mae'r cyfnod hwn yn adeiladu ar y darn hwnnw o waith i fod yn sail i ddull strategol o weithio. Mae darparu isadeiledd trafnidiaeth gynaliadwy yn hanfodol er mwyn meithrin ffyniant, mynd i'r afael â newid hinsawdd, lleihau llygredd yn yr awyr a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

4.2.3 Y nod allweddol yw galluogi pobl i gael gafael ar swyddi a gwasanaethau trwy wneud siwrneiau byrrach, mwy effeithlon a chynaliadwy, ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Trwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiad newydd, gall y system gynllunio wella dewis mewn trafnidiaeth a sicrhau hygyrchedd mewn ffordd sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy, cynyddu gweithgarwch corfforol, gwella iechyd a helpu i fynd i'r afael a'r pethau sy'n achosi newid hinsawdd a llygredd yn yr awyr trwy:

- Galluogi mwy o ddewisiadau teithio cynaliadwy – mesurau i gynyddu lefelau cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, lleihau dibyniaeth ar y car i deithio bob dydd;
- Rheoli rhwydwaith – mesurau i wneud y defnydd gorau o'r capasiti sydd ar gael, gyda chefnogaeth isadeiledd newydd sydd wedi'i thargedu; a
- Rheoli'r galw – cymhwyso strategaethau a pholisïau i leihau'r galw am deithio, yn arbennig cerbydau preifat meddiannaeth sengl.

4.2.4 **Cyflawni'r Amcanion a Pholisi Strategol**

Mae'n rhaid i gynlluniau defnydd tir a thrafnidiaeth fod yn integredig. Mae'n rhaid i'r system gynllunio sicrhau ei fod yn galluogi integreiddio:

- o fewn a rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth;
- rhwng mesurau trafnidiaeth a chynlluniau defnydd tir;
- rhwng mesurau trafnidiaeth a pholisïau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd; a
- rhwng mesurau trafnidiaeth a pholisïau ar gyfer addysg, iechyd, cynhwysiant cymdeithasol a chreu cyfoeth.

4.2.5 Bydd y CDLlN yn nodi a chynnwys polisïau a chynigion sy'n ymwneud â datblygu isadeiledd trafnidiaeth a gwasanaethau cysylltiedig (megis cyfleusterau cyfnewidfa trafnidiaeth



gyhoeddus, cyfleusterau rheilffordd a phorthladdoedd), gan gynnwys ardaloedd a ddiogelir ar gyfer isadeiledd / llwybrau trafnidiaeth y dyfodol. Caiff llwybr isadeiledd arfaethedig neu well ei ddangos yn map cynigion y CDLlN. Pan fo'r union lwybr yn anhysbys, mae'n bosibl y caiff polisi diogelu ei gymhwyso ar gyfer y darn o dir sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynllun.

4.2.6 **Materion Trafnidiaeth Strategol Allweddol**

- Mae 74% o breswylwyr Conwy sy'n gweithio yn gweithio yn y fwrdeistref sirol, mae 94% yn gweithio yng Nghymru ac mae 6% yn cymudo allan.
- Mae lefelau traffig ar ffyrdd Conwy yn cynyddu, yn enwedig traffig tymhorol.
- Mae lefelau teithio ar reilffyrdd a gwasanaethau bysiau wedi cynyddu o 289,620 (2006-2007) i 313,033 (2016-17)
- Mae lefelau beicio hamdden wedi cynyddu yn ogystal â lefelau cymudo ar gefn beic.
- Mae'r boblogaeth yng Nghonwy yn heneiddio'n gynt o'i gymharu â llawer o weddill Cymru.
- Mae Cyd-gynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru yn darparu sail ar gyfer datblygu prosiectau trafnidiaeth yn yr ardal ac mae'r CDLlN yn ceisio helpu i ddod â'r prosiectau hyn ymlaen gyda chysylltiadau i ddatblygiad newydd.
- Amlinellir dull y Seilwaith Gwyrdd yn PCC 10 a bydd yn ffurfio rhan annatod o'r broses flaengynllunio ac integreiddio safleoedd.

4.2.7 Mae'n glir bod llawer o newidiadau cyd-destunol wedi digwydd o ran dyheadau trafnidiaeth ranbarthol ers i'r CDLl presennol gael ei fabwysiadu, ond, mae'r cyfnod hwn yn caniatáu i CDLl cwbl newydd gyflwyno sylfaen dystiolaeth a strategaeth wedi'u diweddar ac mae'n gyfle i gynnwys rhanddeiliaid.

4.2.8 **Beth mae'r Strategaeth a Ffefrir a'r CDLlN yn ceisio ei gyflawni?**

Heb CDLl, byddai trafnidiaeth yn dal i gael ei ddatblygu o ran Cyd-gynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru, cynlluniau ar raddfa genedlaethol a gofynion Teithio Llesol. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn caniatáu ar gyfer integreiddio sylweddol a gweithio ar y cyd â therfynau amser datblygiadau a strategaethau eraill a fydd yn arwain at fuddion ehangach o ran integreiddio datblygiadau yn well, rhannu costau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

4.2.9 **Cynllunio integredig a Strategaethau Trafnidiaeth**

Bydd y CDLlN yn gosod allan strategaeth gynllunio a thrafnidiaeth integredig a fydd yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn:

- integreiddio a chydlynu trafnidiaeth gynaliadwy a chynllunio defnydd tir;
- hwyluso a hyrwyddo hygyrchedd i bawb;
- lleihau'r angen i deithio;
- lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat;
- rhoi blaenoriaeth a chefnogaeth i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus;
- annog mwy o bobl i ddewis Cerbydau Gollyngiadau Isel Iawn;
- lleihau llygredd yn yr awyr sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth; a



- hwyluso darpariaeth isadeiledd trafnidiaeth a’r gwelliannau a’r datblygiadau sy’n angenrheidiol i drafnidiaeth gynaliadwy.

4.2.10 Bydd Polisi Strategol 14 yn cyfrannu at hyn yn fanylach a bydd polisi sy’n seiliedig ar feini prawf yn cael ei ddatblygu yn unol â dull gweithio Hierarchaeth Trafnidiaeth Polisi Cynllunio Cymru. Cyd-gynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru yw’r Cynllun Trafnidiaeth Lleol sy’n gosod allan polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel ac effeithlon a gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn Ardal y Cynllun. Mae angen i fframwaith cynllunio trafnidiaeth gael dull gweithredu integredig rhwng blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd cynlluniau trafnidiaeth yn y Cyd-gynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru sy’n debygol o gael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y Cynllun yn cael eu nodi yn y CDLlN.


4.2.11 **Aneddiadau a thwf**

Mae'r CDLlN yn categoreiddio aneddiadau yn ôl hierarchaeth sy’n adlewyrchu eu cynaliadwyedd cymharol. Oherwydd dyhead y Cynllun i leihau’r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir modur preifat (yn arbennig rhai sy’n defnyddio tanwydd traddodiadol), a’i rôl i gyfrannu at hwyluso strategaeth drafnidiaeth integredig, mae’n ceisio cyfeirio datblygiad i leoliadau priodol sy’n ceisio cyflawni hynny. Mae’r strategaeth yn rhoi ystyriaeth i’r rhwydwaith priffyrdd a rheilffyrdd ynghyd â hygyrchedd at drafnidiaeth gyhoeddus a’r posibilrwydd o dwf aneddiadau gan adlewyrchu lefelau hygyrchedd a ystyrir fel rhan o’r CDLl a fydd yn cael ei archwilio gan y cyhoedd.

4.2.12 Mae ystyriaeth ofalus wedi cael ei rhoi i ddyrannu safleoedd strategol newydd, sy’n debygol o gynhyrchu lefelau symud sylweddol yn lleol, gan sicrhau bod darpariaethau mynediad sy’n hyrwyddo cerdded a beicio, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, yn cael eu cynnwys o’r dechrau a bod modd mynd i’r afael ag unrhyw oblygiadau sy’n gysylltiedig â llygredd yn yr awyr.

4.2.13 Oherwydd amrywiaeth Ardal y Cynllun, mae hygyrchedd a’r nod o leihau’r angen i deithio (a gollyngiadau CO2 cysylltiedig) yn dal i fod yn her i ran helaeth o Gonwy, yn enwedig wrth fynd i’r afael â’r angen i gynnal ardaloedd gwledig a sicrhau nad yw eu cymunedau yn dioddef effeithiau allgáu cymdeithasol. Mae'n rhaid i hyn gysylltu hefyd â derbyn yn realistig bod y car modur yn dal i fod yn gyfrwng teithio pwysig mewn ardaloedd felly. Mae’n bosibl y gellir lleihau traffig hefyd trwy strategaeth drafnidiaeth integredig sy’n cynnwys mentrau lleol i geisio datblygu cymunedau hunangynhaliol (gan gynnwys argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau).

***Ffigur 4: Hierarchaeth Trafnidiaeth***






4.2.14 **Trafnidiaeth gyhoeddus**

Bydd y CDLlN yn hyrwyddo a hwyluso darpariaeth isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus o safon uchel a bydd yn gosod polisïau i wneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yn nodi a hwyluso llwybrau, mesurau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus briodol, sy'n cymryd i ystyriaeth cynigion yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol, a allai gynnwys gwella cyfleusterau i deithwyr ar fysiau, cynlluniau parcio a theithio, rheilffyrdd newydd (gan gynnwys trenau ysgafn), ail-agor rheilffyrdd, darparu gorsafoedd newydd a gwella gwasanaethau i deithwyr ar reilffyrdd presennol.

4.2.15 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cymryd i ystyriaeth yr angen am safleoedd cyfnewid ychwanegol a gwelliannau i gyfnewidfeydd presennol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mesurau i hyrwyddo diogelwch personol. Mewn ardaloedd gwledig, nodir cyfnewidfeydd ar geinciau lle mae'n bosibl trosglwyddo rhwng gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lleol a phell. Bydd y Cyngor hefyd yn diogelu cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus bresennol rhag datblygiadau a fyddai'n arwain at lai o ddefnydd ohonynt.

4.2.16 **Teithio Llesol**

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn nodi mai cerdded a beicio yw'r dewis a ffefrir ar gyfer siwrneiau byrrach, yn enwedig siwrneiau bob dydd, megis i'r gweithle neu sefydliad addysgol ac yn ôl, neu er mwyn cael gafael ar gyfleusterau iechyd, hamdden neu wasanaethau neu gyfleusterau eraill. Yn unol â'r Ddeddf Teithio Llesol mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Integredig sy'n nodi'r llwybrau cerdded a beicio sy'n ofynnol i greu rhwydweithiau cwbl integredig er mwyn cerdded a beicio i gael gafael ar waith, addysg, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn cael ei hategu gan Ganllawiau Dylunio statudol. Mae'r canllawiau yn gosod allan y safonau sy'n ddisgwyliedig o isadeiledd teithio llesol newydd a gwell yng Nghymru, gan gynnwys cyfleusterau cysylltiedig, a'r ystyriaethau wrth ddewis datrysiadau dylunio ar gyfer llwybrau a safleoedd penodol.

4.2.17 Mae'r CDLlN a'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi a diogelu llwybrau a rhwydweithiau teithio llesol, gan gynnwys y rheiny a nodir ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig (MRhI) sy'n ofynnol gan y Ddeddf Teithio Llesol, ac yn cefnogi'r gwaith o'u darparu. Fel rhan o'r gwaith o ddewis safleoedd datblygu yn y dyfodol, mae blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i safleoedd y gellir eu cysylltu'n rhwydd â llwybrau teithio llesol presennol neu rwydweithiau'r dyfodol. Anelir at integreiddio datblygiadau newydd gyda rhwydweithiau teithio llesol a chyfrannu at y gwaith o'u ehangu a'u gwella. Cyflawnir hyn trwy gynnwys llwybrau a chyfleusterau wedi'u cynllunio'n dda fel rhan o'r cynlluniau a'r cyfraniadau ariannol i dalu am gysylltiadau oddi ar y safle.

4.2.18 Caiff Cynllun Teithio Llesol ei ddatblygu trwy Bapur Cefndirol. Bydd yn helpu i integreiddio darpariaeth llwybrau MLIP / MRhI ym mhroses y CDLl a datblygiad yn y dyfodol. Caiff buddion ychwanegol eu cyflawni trwy gynllunio'r Seilwaith Gwyrdd. Mae Map Llwybrau Presennol a gwybodaeth a llwybrau MRhI Teithio Llesol Cymru ar gael trwy'r dolenni isod[11].

---

[11] http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Active-Travel/Integrated-Network-Map-INM-Routes-in-Conwy.aspx
http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Active-Travel/Active-Travel-Wales-Act-2013.aspx



4.2.19 **Trafnidiaeth a'r Effeithiau Uniongyrchol ar Iechyd**

Mae gan awdurdodau cynllunio rôl i'w chwarae wrth atal salwch corfforol a meddyliol a achosir neu a waethygir gan lygredd, datgysylltu pobl o weithgareddau cymdeithasol (sy'n cyfrannu at unigrwydd), yn ogystal â hyrwyddo patrymau teithio sy'n hwyluso ffyrdd egnïol o fyw. Bydd y CDLlN yn ystyried effeithiau datblygiadau newydd ar gymunedau presennol a diogelu iechyd a lles yn well yn ogystal â diogelu amwynder lleol.

4.2.20 **Seilwaith Gwyrdd**

Caiff hwn ei drafod yn fanylach o dan thema allweddol: 'Lleoedd Nodedig a Naturiol', er bod ganddo amcanion sy'n gysylltiedig â'r ffordd y gellir integreiddio nodau trafnidiaeth gynaliadwy a Theithio Llesol i Ardal y Cynllun gyda buddion amgylcheddol ac iechyd ehangach. Bydd hyn yn golygu gweithio ar y cyd yn unol â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, asesu tirweddau a'r angen cytbwys am dwf cynaliadwy a dosbarthiad o safleoedd tai a chyflogaeth. Caiff polisi manwl ei ddatblygu a'i gynnwys hefyd yn y CDLlN mewn perthynas â dwyn argymhellion ymlaen a amlinellwyd yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd.

4.2.21 Caiff darpariaeth Cerbydau Gollyngiadau Isel Iawn (ULEVs) a phwyntiau gwefru ei annog a'i gefnogi trwy'r CDLl fel rhan o ddatblygiadau newydd. Lle darperir meysydd parcio ar gyfer datblygiadau amhreswyl newydd, bydd y CDLl yn ceisio sicrhau bod 10% o leoedd parcio yn cynnwys pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau ULEV. Bydd y Cyngor hefyd yn paratoi Strategaeth ULEV a fydd yn ategu uchelgeisiau ULEV yn y CDLlN.

4.2.22 **Cludo nwyddau**

Bydd dewisiadau cludo nwyddau cynaliadwy yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, gan gynnwys y potensial i gludo nwyddau ar reilffyrdd, dyfrffyrdd neu biblinellau yn hytrach nag ar ffyrdd. Bydd y CDLlN yn nodi a diogelu ardaloedd ar gyfer symud nwyddau mewn modd cynaliadwy. Bydd y Cyngor yn ystyrid pa lwybrau sydd fwyaf addas i'w defnyddio i gludo nwyddau ar y ffordd ac yn cefnogi lleoli neu symud canolfannau dosbarthu a gweithredu ar safleoedd sydd â mynediad da at y llwybrau hynny. Mae'r un peth yn wir am ddatblygiadau eraill sy'n cynhyrchu symudiadau nwyddau yn aml ar ffyrdd. Lle bo hynny'n bosibl, dylid lleoli cyfleusterau newydd ger rheilffyrdd a/neu borthladdoedd er mwyn hyrwyddo trosglwyddiad moddol. Ar y cyd ag awdurdodau cyfagos, rhoddir ystyriaeth i ba mor ddichonol fyddai datblygu canolbwyntiau HGV ar hyd y prif lwybrau allweddol hefyd, lle byddai modd trosglwyddo i gerbydau LGV ar gyfer cymal olaf y siwrnai cludo nwyddau.

4.2.23 **Parcio Ceir**

Mae darpariaeth parcio ceir yn ddylanwad mawr ar y ffordd y mae pobl yn dewis teithio ac ar batrwm datblygiad. Gall lle a sut y mae ceir yn parcio fod yn ffactor pwysig i ansawdd rhywle.

4.2.24 Caiff darpariaeth parcio ceir ei arwain gan ddyluniad yn y CDLlN i'w archwilio gan y cyhoedd, a bydd yn sicrhau bod lle priodol i barcio ceir yn cael ei integreiddio mewn ffordd na fydd yn ennill lle blaenllaw ar y datblygiad. Dylai darpariaeth parcio ceir gael ei llywio gan y cyd-destun lleol, gan gynnwys hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus, egwyddorion dylunio trefol a'r amcan o leihau dibyniaeth ar geir preifat a chefnogi'r newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y CDLlN i'w archwilio gan y cyhoedd yn darparu polisi sy'n cefnogi cynlluniau i gadw lefelau parcio yn isel, enwedig parcio oddi ar y stryd, pan



gaiff ei ddylunio'n dda. Rhaid cydnabod anghenion pobl anabl a rhaid darparu digon o lefydd parcio ar eu cyfer.


4.2.25 Bydd y Ddogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd yn gofyn am ddyluniad parcio ceir o safon uchel, na fydd yn caniatáu i gerbydau ennill lle blaenllaw ar y stryd neu beri anghyfleustra i bobl sy'n cerdded a beicio. Dylai llefydd parcio ceir fod yng nghanol eiddo cyfagos er mwyn darparu gwyliadwriaeth naturiol.

4.2.26 **Dyraniadau Teithio Llesol**

Bydd Llwybrau Teithio Llesol fel y dangosir ar y MLIP / MRhI a’r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cael eu dyrannu a’u datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ffordd gyswllt o McDonalds i Belgrano
- Gwella’r lôn fysiau wrth oleuadau traffig Bae Cinmel
- Gwella mynediad rheilffordd Cyffordd Llandudno gan gynnwys cyswllt pont
- Ffordd Gors, Ffordd Towyn a Gwelliannau Teithio Llesol
- A547 gwelliannau teithio llesol rhwng Ffordd Borth Cross a Rhuddlan (cydweithio â CSDd)
- A470 cysylltiadau teithio llesol rhwng Llanrwst a Betws-y-Coed (cydweithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

***Map 7: Brosiectau Strategol Arfaethedig***



## 4.3 Tai

4.3.1 **Amcan Strategol 2 (SO2):** Hybu strategaeth cyflogaeth a thwf tai holistaidd a chyd-leoledig drwy ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy ac anghenion llety ar gyfer sipsiwn a theithwyr mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a sicrhau bod yr amrediad cywir o ran mathau, meintiau a daliadaethau tai yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r seilwaith cymunedol angenrheidiol.

***Polisi Strategol 15: Tai***

**Polisi Strategol 15 (SP/15): Tai**

1 Yn ystod cyfnod y cynllun 2018 – 2033 bydd y Cynllun Datblygu Lleol Gwledig (CDLIG) yn darparu ar gyfer twf yr economi a'r gofyniad tai yn y dyfodol drwy ddarparu tua 4300 (+20% wrth gefn) o gartrefi newydd i ddiwallu angen a nodwyd.

2 Mae Safleoedd Strategol wedi'u nodi yn y lleoliadau canlynol ar gyfer datblygiadau preswyl a defnydd cymysg;

- Llanrhos
- Llanfairfechan
- Hen Golwyn
- Llanrwst

Bydd safleoedd pellach yn cael eu dynodi yn y cynllun adneuo i ddiwallu cyfanswm y gofyniad tai.

3 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Gwledig yn ceisio sicrhau'r nifer fwyaf bosibl o Dai Fforddiadwy (1,800 o dai fforddiadwy dros Gyfnod y Cynllun gydag oddeutu 1000 yn dai newydd fforddiadwy ac 800 arall yn sgil mecanweithiau polisi a mentrau'r Cyngor) drwy ddefnyddio polisi rhanedig yn seiliedig ar ardaloedd y farchnad dai, a dull gweithredu hyblyg o gefnogi Tai Fforddiadwy mewn aneddiadau llai, wedi'i gysylltu i dystiolaeth o angen a chynaliadwyedd pentrefi fel y'u nodwyd yn yr hierarchaeth aneddiadau.

4 Bydd tir yn cael ei ddyrannu i ddiwallu'r angen a nodwyd ar gyfer llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu safleoedd ychwanegol, yn amodol ar angen, yn cael ei gynnwys hefyd.

5 Bydd y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cynnwys polisïau pellach sy'n ymwneud ag addasiadau gwledig, anheddau mentrau gwledig a safleoedd Hunanadeiladu Cymru.



4.3.2 **Cyflawni'r Amcan a'r Polisi Strategol**

Roedd y CDLl presennol yn defnyddio cyfnod o dwf eithriadol o uchel i gynllunio ar gyfer y dyfodol er gwaethaf effaith glir y dirwasgiad dilynol ar brisiau tai a chwblhau yng Nghonwy. Roedd hyn yn darged afrealistig, o ystyried cyflwr y farchnad dai yng Ngogledd Cymru ac, felly, mae CBSC wedi methu cyflawni'r targed tai bob blwyddyn, mae'r gofyniad blynyddol ar gyfer tai ar gyfer gweddill cyfnod y CDLlC yn cynyddu, sy'n wir i nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru.

4.3.3 Drwy greu lleoedd egnïol a chymdeithasol yng Nghonwy, bydd y CDLlG yn alinio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA)/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), effeithiau ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Yn ogystal, bydd y CDLlG yn ystyried goblygiadau'r amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd, Asesiad y Farchnad Lafur Leol a'r effeithiau ar dwf swyddi sy'n gysylltiedig ag Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy a'r ysgogwyr economaidd rhanbarthol sy'n cael eu hyrwyddo ym Margen Twf Gogledd Cymru wrth bennu lefelau cynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth.

4.3.4 Darparu tai, ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy, yw'r prif fater tai ers i Gynllun Datblygu Lleol Conwy gael ei fabwysiadu, wrth i lefelau adeiladu tai blynyddol fethu cyflawni'r targedau'n gyson. Pwysleisiwyd hyn yn adroddiadau'r Gyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai (JHLAS) a'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) dros nifer o flynyddoedd ac mae wedi'i achosi gan nifer o ffactorau gan gynnwys yr economi genedlaethol a ffactorau lleol megis cael gwared ar dir, cyflawni/hyfywedd safle a chapasiti adeiladu tai. Mae ffactorau o'r fath wedi golygu bod gan Gonwy ffigur o 3.1 blwyddyn o gyflenwad tir ar gyfer tai.

4.3.5 Mae llawer o drefi arfordirol Conwy wedi'u cyfyngu gan ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, a nodwyd ym Mapiau Cyngor Datblygu TAN15: '*Datblygu a Pherygl o Lifogydd'* y mae datblygiadau newydd, bregus iawn, megis tai, wedi'u cyfyngu ynddynt. Er bod yr egwyddor a'r agwedd ragofalus at ddatblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yn hollbwysig, mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) 10 yn cynnwys perygl o lifogydd yn ei ddiffiniad o 'ddad-beryglu datblygiadau' a cheir cydnabyddiaeth bellach o rôl amddiffynfeydd llifogydd naturiol. Byddai atgyfnerthu'r polisi dad-beryglu datblygiadau yn galluogi i safleoedd addas heb gyfyngiadau technegol gael eu cyflwyno gan greu buddiannau adfywio mewn ardaloedd a oedd wedi'u gwahardd yn flaenorol a galluogi cymunedau o'r fath i dyfu'n naturiol.

4.3.6 Er mwyn cynorthwyo a hysbysu'r Opsiynau Dosbarthu Twf fe gomisiynodd CBSC astudiaeth i edrych ar *'Botensial Datblygu yn Nwyrain y Fwrdeistref Sirol'* er mwyn asesu'r perygl o lifogydd a'r posibilrwydd o ddarparu atebion dylunio arloesol a fyddai'n sicrhau twf tai yn Nwyrain y Fwrdeistref Sirol. Mae'r astudiaeth yn datgan bod datblygiadau bregus mewn ardaloedd y gwyddys eu bod yn agored i lifogydd yn annhebygol o gael eu cyflwyno heb waith sylweddol ar amddiffynfeydd llifogydd. Felly, mae'n annhebygol y byddai unrhyw Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn dangos y byddai dechrau llifogydd, wrth ystyried newid yn yr hinsawdd, a thorri'r amddiffynfeydd o bosibl, yn cydymffurfio â TAN15.



4.3.7 Y meysydd strategol allweddol i'w trafod yw:

> **Twf Tai**
>
> Bydd y CDLlG yn darparu ar gyfer twf yr economi a'r gofyniad tai yn y dyfodol drwy ddarparu tua 4,300 (+20% wrth gefn = tua 5,150) o dai newydd i ddiwallu angen a nodwyd.

4.3.8 Mae strategaeth dwf CDLlG Conwy yn gyson â PPW10, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych a'r dystiolaeth gefndir a'r adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd, sydd wedi nodi'r materion blaenoriaeth, yr uchelgeisiau a'r amcanion y bydd y Cynllun yn gweithio atynt.

4.3.9 Yn ogystal, cadarnhaodd Gweinidog Llywodraeth Cymru bod yn rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddarparu lefel o dai sy'n seiliedig ar yr holl ffynonellau tystiolaeth yn hytrach nac amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru yn unig. Felly, mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu ffigur sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dod i law a materion ac ystyriaethau perthnasol amrywiol. Er enghraifft, mae angen i'r opsiynau twf ystyried sut y gallant gyfrannu'n gynaliadwy at gyflawni'r gofyniad swyddi a'r anghenion tai fforddiadwy a nodwyd. Yn ogystal, mae angen ystyried yr opsiynau twf yn erbyn yr hyn a gyflawnwyd yn y gorffennol a chapasiti cyffredinol y diwydiant adeiladu i gyflawni twf.

4.3.10 Mae'r Adroddiad Opsiynau Lefel Twf (BP/01 - 2018) yn archwilio tueddiadau demograffeg Conwy ac yn nodi'r opsiynau ar gyfer twf a sut y gallai'r rhain effeithio ar gyfansymiau a strwythurau'r boblogaeth a gofynion o ran tir ar gyfer tai a chyflogaeth. Craffwyd ar nifer o ffactorau yn yr Adroddiad, gan gynnwys proffil demograffaidd, twf economaidd, cyfraddau cwblhau tai yn y gorffennol ac uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer y CDLlG.

4.3.11 Bydd y lefel arfaethedig o dwf tai yn tua 4300 o dai (+ 20% wrth gefn = 5150). Gan ystyried hap-safleoedd a'r cyflenwad presennol o safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai, rydym yn edrych ar tua 2550 o anheddau newydd ar safleoedd dynodedig. Yn nhermau Tai Fforddiadwy, bydd hyn yn gyfwerth â thua 1,800 o dai fforddiadwy newydd yn ystod cyfnod y Cynllun, yn cynnwys adeiladau newydd, systemau polisi a mentrau'r Cyngor.



***Tabl 5: Y cyflenwad tai ar gyfer CDLlN Conwy***
(Y sefyllfa ar 1[af] Ebrill 2018, cyfeiriwch at BP07: Cyflenwad Tir ar gyfer Tai am fanylion pellach).

Nodwch: Caiff y ffigyrau eu talgrynnu er mwyn peidio â chreu’r argraff o fanwl gywirdeb nad yw’n bodoli mewn gwirionedd. Caiff y niferoedd eu hadio cyn eu talgrynnu, felly mae’n bosibl nad yw’r ffigurau unigol mewn tablau yn adio i gyfansymiau’r colofnau neu’r rhesi.

| | | | Hap-safleoedd | | Dyraniadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Strategaeth** | **Is-ardal** | **Ymrwymiadau** | **Bach** | **Mawr** | **Strategol** | **Anstrategol** | **CYFANSWM** |
| **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol** | **Gorllewin** | 50 | 100 | 50 | 400 | 50 | 600 |
| | **Creuddyn** | 200 | 350 | 150 | 250 | 550 | 1,550 |
| | **Canolog** | 250 | 400 | 250 | 450 | 450 | 1,800 |
| | **Dwyrain** | 300 | 100 | 150 | 0 | 150 | 700 |
| | **Cyfanswm** | 800 | 950 | 600 | 1,100 | 1,200 | 4,650 |
| **Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig** | | 50 | 250 | 0 | 200 | 50 | 500 |
| | **CYFANSWM** | **850** | **1,200** | **600** | **1,300** | **1,250** | **5,150** |

4.3.12 Mae tystiolaeth yn dangos bod allfudo ymhlith y boblogaeth ar ddechrau oedran gweithio yng Nghonwy yn cyflwyno problem o ran cadw ei phoblogaeth o oedolion ifanc. O ganlyniad, mae angen sicrhau bod y CDLlG yn ceisio cyflawni anghenion tai poblogaeth sy’n heneiddio, ond ei fod yn sicrhau'r un pryd bod cartrefi newydd ar gael i geisio cadw’r boblogaeth iau. Bydd y mathau o dai (gan gynnwys tai a addaswyd), eu meintiau a’u daliadaeth sydd wedi’u nodi yn y LHMA yn cael eu harchwilio a’u hyrwyddo drwy’r Cynllun.

4.3.13 Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y CDLlG yn cynnwys cyflenwad digonol o dir ar gyfer tir er mwyn cyflawni’r gofynion tai a ragwelir yn ystod Cyfnod y Cynllun, fodd bynnag, os bydd y cyflenwad tir yn gostwng islaw’r trothwy 5 mlynedd, bydd y CDLl yn cyflwyno dull o gynyddu’r cyflenwad tir ar gyfer tai.

**Safleoedd sydd wedi’u Dyrannu ar gyfer Tir**

Mae Safleoedd Strategol wedi’u nodi yn y lleoliadau canlynol ar gyfer datblygiadau preswyl a defnydd cymysg;

- Llanrhos
- Llanfairfechan
- Hen Golwyn
- Llanrwst

Bydd safleoedd pellach yn cael eu dyrannu yn y cynllun Adneuo er mwyn cyflawni’r gofyniad cyfanswm tai.




4.3.14 Bydd y datblygiadau preswyl yn canolbwyntio ar ardal(oedd) twf strategol Llanrhos, Hen Golwyn, Llanfairfechan a Llanrwst fel Canolfannau Gwasanaethau Allweddol, gyda datblygiadau pellach wedi'u dosbarthu o amgylch Ardal y Cynllun yn unol â'r Strategaeth Twf a'r Hierarchaeth Aneddiadau. Bydd y Cynllun hefyd yn dyrannu safleoedd pellach ym Mhrif Bentrefi Haen 1 er mwyn diwallu'r angen tai a nodwyd.

4.3.15 Mae'r opsiwn hierarchaeth aneddiadau yn adlewyrchu dull gweithredu Cynllun Gofodol Cymru, ynghyd â hygyrchedd a chynaliadwyedd lleoliadau gwledig i ardaloedd trefol presennol, yn arbennig y rhai sy'n agos at goridor yr A55. Er nad oes gan yr aneddiadau hyn gyfres lawn o gyfleusterau eu hunain o bosibl, mae eu lleoliad agos at aneddiadau allweddol ac eilaidd yn galluogi cydberthnasau sylweddol o ran gwasanaethau. Mae'r dull yn adlewyrchu cyfyngiadau dwyrain y Sir ac yn hyrwyddo Hierarchaeth Aneddiadau newydd a fyddai, o bosibl, yn meddu ar y capasiti angenrheidiol a'r seilwaith i allu cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Ystyrir bod Llanrwst yn unigryw yn y sir am ei bod yn Ganolfan Gwasanaethau Allweddol sy'n brif dref i nifer o bentrefi cyfagos, o fewn a'r tu allan i Ardal y Cynllun.

4.3.16 Y lefel gyflawni flynyddol gyfartalog, a nodwyd yn yr Astudiaethau Tir sydd ar gael ar gyfer Tai yng Nghonwy, yn y 5 mlynedd ddiwethaf yw 244 o gartrefi, gyda'r nifer fwyaf o dai newydd a ddarparwyd yn 320 yn 2017-18. Cafodd lefelau uwch eu cyflawni yn y blynyddoedd cyn y dirwasgiad, a ddangosir yn y diagram isod. Mae'r lefel dwf a ddefnyddiwyd yn y CDLIG yn ystyried capasiti'r diwydiant adeiladu tai i gyflawni ac mae'n unol â BP14: Capasiti'r Diwydiant Adeiladu Tai a thueddiadau adeiladu hanesyddol.






| | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Safleoedd mawr | 317 | 259 | 204 | 141 | 215 | 170 | 129 | 159 | 117 | 137 | 227 | 147 | 112 | 195 | 213 |
| Safleoedd bach | 182 | 160 | 180 | 160 | 206 | 162 | 86 | 73 | 101 | 50 | 68 | 44 | 71 | 38 | 107 |

4.3.17 Mae CDLl presennol Conwy yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dyrannu, ac mae ansicrwydd ynglŷn â phryd y byddant ar gael, ac mewn rhai achosion a fyddant yn gallu eu cyflawni yn realistig yn ystod Cyfnod y Cynllun. Mae'r rhesymau dros yr ansicrwydd hwn yn amrywiol, a gallant gynnwys:

- Bwriadau tirfeddianwyr;
- Tir y mae'r cyhoedd yn berchen arno (gan gynnwys awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru) lle nad oes strategaeth gwaredu ar ei gyfer neu y bydd y gwarediad yn debygol o fod y tu hwnt i gyfnod pum mlynedd;
- Safleoedd sydd wedi'u 'trosglwyddo ymlaen' o Gynlluniau Datblygu Unedol;
- Safleoedd sydd wedi'u cynnwys ar gyfer eu rôl adfywiol ehangach, ond sy'n debygol o fod yn gymhleth a chostus yn nhermau eu cyflwyno.

4.3.18 Felly, yn unol â PPW, gallai unrhyw ddyraniadau tai presennol sydd wedi profi problemau cyflenwadwyedd gael eu heithrio o'r CDLlG a gallai safleoedd mwy priodol gael eu hystyried.



4.3.19 Mae darparu safleoedd, ac yn benodol hyfywedd safleoedd, wedi bod yn broblem genedlaethol, fel y dangoswyd yn Astudiaeth Hydredol o Hyfywedd y Broses Gynllunio (2017) Llywodraeth Cymru a PPW10. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd CBSC yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwyr / tirfeddianwyr safleoedd gyflwyno gwerthusiadau hyfywedd sy'n seiliedig ar fethodoleg a gofynion a nodwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o broses asesu darpar safle fesul camau o'r CDLlG. Mae Papur Cefndir 06 - 'Asesiad Cyflawni Safle' yn cynnwys asesiad llawn o'r holl 'ddarpar safleoedd' a gyflwynwyd, er mwyn nodi'r safleoedd mwyaf addas a chyflawnadwy i'w cynnwys yn y CDLlG.

4.3.20 Mae llwyddiant dull polisi'r CDLlG at ddarparu tai fforddiadwy yn gofyn am hyblygrwydd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth gan dirfeddianwyr a datblygwyr wrth drafod prynu tir neu gostau opsiynau yn y dyfodol. Mae'r CDLlG yn cynnwys rhagdybiaeth polisi bod y tir wedi'i brynu ar y pris cywir, gan ystyried yr holl gostau datblygu, gan gynnwys gofynion polisi. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir gwyro oddi wrth y polisïau a byddai hyn yn amodol ar gyflwyno tystiolaeth hyfyw mewn dull llyfr agored.

4.3.21 Bydd newidiadau diweddar i'r Canllaw Costau Derbyniol gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar hyfywedd ac felly ar ddarparu tai fforddiadwy yn y dyfodol. Mae'r Canllaw wedi cynyddu ar gyfer pob uned, ac mae wedi'i rannu gyda gwerth uwch ar gyfer safleoedd o 10 safle a llai o anheddau, o gymharu â safleoedd mwy. Dylai'r newid hwn weithio i wella hyfywedd ariannol ar safleoedd, gan alluogi datblygwyr preifat i adeiladu anheddau mwy fforddiadwy ar safleoedd tai, ac annog tirfeddianwyr i gyflwyno safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy.

4.3.22 I'r gwrthwyneb, mae newidiadau i Reoliadau Adeiladu Rhan M wedi cynyddu costau adeiladu, ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob annedd newydd, gan gynnwys addasiadau, gynnwys system chwistrellu. Bydd cyflwyniad systemau draenio cynaliadwy gorfodol yn ddiweddar ar gyfer gwaredu dŵr wyneb hefyd yn cynyddu costau datblygu.

4.3.23 Mae'r ystyriaethau uchod yn berthnasol i bob datblygiad yn genedlaethol, fodd bynnag, bydd angen ystyried effeithiau'r newidiadau hyn ar hyfywedd a darparu tai ar lefel leol. Mae'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy yn ystyried y materion hyn, a materion eraill perthnasol o ran hyfywedd.



**Tai Fforddiadwy**

O fewn ffiniau aneddiadau trefol, bydd yn ofynnol i Brif Bentrefi a Chanolfannau Gwasanaethau Allweddol Haen 1, bydd yn rhaid i bob datblygiad preswyl sy'n darparu elw net o 3 annedd neu fwy gyfrannu at dai fforddiadwy.

Fel arfer mae'n well darparu tai fforddiadwy ar y safle, ond mae'n bosibl na fydd hyn bob amser yn bosibl neu'n briodol. Ar gyfer safleoedd gyda 3-5 annedd, derbynnir swm gohiriedig yn lle tai fforddiadwy ar y safle. Ar gyfer safleoedd gyda 6-9 annedd, gallai swm gohiriedig fod yn dderbyniol yn amodol ar gyfiawnhad digonol. Disgwylir i dai fforddiadwy gael eu darparu ar bob safle o 10 annedd neu fwy, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol o ganlyniad i hyfywedd, neu pan fydd Strategaeth Tai CBSC yn galw am swm gohiriedig yn lle tai fforddiadwy ar y safle.

Dylid darparu tai fforddiadwy ar y safle yn unol â dull polisi rhanedig a fydd wedi'i ddisgrifio yn y Cynllun Adneuo, ac a fydd yn seiliedig ar yr asesiad hyfywedd sy'n gysylltiedig â'r amrywiaethau yn y farchnad dai ar draws yr awdurdod.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir lefelau is o dai fforddiadwy. Gallai eithriadau o'r fath gynnwys achosion pan fydd costau datblygu tir yn sylweddol uwch na safleoedd eraill, gan ganiatáu ar gyfer gwerth tir is hyd yn oed, neu pan fydd costau ychwanegol, anhysbys a sylweddol o annormal yn cael eu datgelu yn ystod y datblygiad.

Ar safleoedd addas y tu allan ond ger ffiniau annedd aneddiadau trefol, Prif Bentrefi a Chanolfannau Gwasanaethau Allweddol Haen 1, caniateir datblygiadau preswyl ar raddfa fach, yn amodol ar isafswm darpariaeth o 50% o dai fforddiadwy, ac uchafswm maint safle o 20 annedd.

I gefnogi'r ddarpariaeth tai fforddiadwy, caniateir safleoedd bychain sy'n darparu isafswm o 50% uned o dai fforddiadwy ar safleoedd addas o fewn Prif Bentrefi, Pentrefi Bychain a Phentrefannau Haen 2. Mae'n rhaid i safleoedd o'r fath fod wedi'u lleoli'n dda mewn cysylltiad â'r anheddiad presennol, gan gynnwys mewnlenwad neu dalgrynnu. Dylai'r safleoedd ddarparu dim mwy na 1 annedd mewn Prif Bentrefi Haen 2; 10 annedd mewn Pentrefi Bychain a 5 annedd mewn Pentrefannau. Dylai'r tai fforddiadwy a gynigir fel rhan o gynllun o'r fath gael eu darparu er mwyn cyflawni angen lleol gyda thystiolaeth o'r angen am dai fforddiadwy yn yr aneddiad. Mae'n rhaid i'r tai fforddiadwy fod yn ddarostyngedig i gytundeb cyfreithiol o ran rheoli daliadaeth am byth. Pan fydd tai'r farchnad agored yn cael eu darparu ar y safle, mae'n rhaid i'r cytundeb cyfreithiol sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu'n amserol.

Gellir caniatáu unedau marchnad agored sengl mewn amgylchiadau eithriadol ar leiniau mewnlenwi mewn Prif Bentrefi Haen 2, Mân Bentrefi a Phentrefannau, ac oherwydd eu maint neu gyfyngiadau safle-benodol nid oes modd darparu mwy nag un annedd, ac ni fyddai'n hyfyw i'w ddatblygu fel annedd fforddiadwy sengl. Rhaid iddynt fod yn addas i'w datblygu fel arall yn unol â pholisïau lleol a chenedlaethol a bydd caniatâd yn amodol ar swm cymudol yn gyfnewid am dai fforddiadwy ar y safle.

Fel eithriad i'r polisi tai, caniateir safleoedd llai ar gyfer 100% o dai fforddiadwy y tu allan i, ond gerllaw Pentrefi, Pentrefi Bychain a Phentrefannau Haen 2. Mae'n rhaid i safleoedd o'r fath adlewyrchu math a daliadaeth y tai fforddiadwy sydd eu hangen yn yr ardal leol a chydymffurfio â holl bolisïau eraill y CDLl.



4.3.24 Mae darparu tai fforddiadwy yn broblem gymhleth gyda nifer o elfennau sy'n effeithio ar ddarparu adeiladau newydd y tu hwnt i ddylanwad yr awdurdod cynllunio lleol. Hyd yn oed o fewn y system gynllunio, cyfyngedig yw pwerau awdurdodau cynllunio lleol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth y CDLlG yn nodi angen am tua 1800 o gartrefi fforddiadwy yn ystod Cyfnod y Cynllun (tua 120 y flwyddyn). Mae'r Cynllun yn cynnig darparu oddeutu 1000 o dai newydd fforddiadwy ac 800 arall yn sgil mecanweithiau polisi a mentrau'r Cyngor fel y nodir yn nhabl 6 (gweler isod):

**Tabl 6: Cyflenwad Tai Fforddiadwy CDLlG Conwy**

| Ardaloedd Strategol y CDLlG | Canrannau Tai Fforddiadwy | Ymrwymiadau | Hap-safleoedd | | Dyraniadau | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bach | Mawr | Strategol | Anstrategol | |
| **Gorllewin** | 20% | 0 | 20 | 10 | 80 | 10 | 120 |
| **Creuddyn** | 30% | 66 | 105 | 45 | 75 | 165 | 456 |
| **Canol** | 20% | 8 | 80 | 50 | 90 | 90 | 318 |
| **Dwyrain** | 15% (Abergele) | 16 | 15 | 22 | 0 | 22 | 75 |
| **CYFANSWM YR ARFORDIR** | | **90** | **220** | **127** | **245** | **287** | **969** |
| **Gwledig** | 20% yn Llanrwst a chanran uwch mewn ardaloedd gwledig eraill yn unol â'r polisi) | 0 | 100 | 0 | 40 | 10 | 150 |
| **NIFER Y TAI NEWYDD** | | **90** | **320** | **127** | **285** | **297** | **1119** |
| **TAI YN SGIL MECANWEITHIAU POLISI A MENTRAU'R CYNGOR** | | | | | | | **681** |
| **PRIF GYFANSWM** | | | | | | | **1800** |

4.3.25 Mae'r gofyniad tai fforddiadwy ar gyfer Conwy yn seiliedig ar y dystiolaeth ym Mhapurau Cefndir 10: Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy a BP11: Cyfrifiad o'r Angen am Dai Fforddiadwy ac Asesiad y Farchnad Dai Leol (LHMA). Mae'r Cyfrifiad o'r Angen am Dai Fforddiadwy yn ystyried y cyfrifiad anghenion tai fforddiadwy a nodir yn Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol 2017-22 a'r canlyniadau posibl o fabwysiadu methodoleg newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r angen am dai.

4.3.26 Bydd gofyniad tai fforddiadwy rhaniad canrannol, fel y'i hysbysir gan yr Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy, yn cael ei gynnwys yn y CDLlG, a fydd yn ystyried yr amrywiaeth ym mhrisiau tai ar draws Ardal y Cynllun, ystyriaethau hyfywedd a chanllawiau PPW. Mae'r Astudiaeth yn cynghori ar dargedau cyflawnadwy a hyfyw a throthwyon ar gyfer tai fforddiadwy, sy'n adlewyrchu'n llwyr argaeledd yr amrediad o gyllid ar gyfer tai fforddiadwy ac sy'n adlewyrchu anghenion seilwaith blaenoriaeth. Mae'r Astudiaeth hefyd yn asesu opsiynau posibl



eraill ar gyfer cynyddu'r lefelau o dai fforddiadwy a fydd yn hysbysu polisïau diweddarach.

| Is-Farchnad | Targed |
|---|---|
| Conwy a Dyffryn Conwy | 30% |
| Llandudno, Bae Penrhyn, Llandrillo a Llandrillo-yn-Rhos | 30% |
| De, Dwyrain a Gorllewin yr Ardal Wledig | 20% |
| Bae Colwyn a Hen Golwyn | 20% |
| Penmaenmawr a Llanfairfechan | 20% |
| Abergele | 15% |
| Towyn a Bae Cinmel | 0% |

4.3.27 Cydnabyddir nad yw'r gofyniad o ran yr angen am dai fforddiadwy yn ddibynnol ar adeiladu cartrefi newydd yn unig. Yn ogystal â darparu tai fforddiadwy newydd, mae yna nifer o ffyrdd eraill o helpu'r aelwydydd hynny nad oes angen adeiladau newydd arnynt - er enghraifft drwy eu lleoli o fewn y stoc tai cymdeithasol presennol; darparu cynlluniau prynu â chymorth fel y rhai sy'n cael eu darparu drwy'r gofrestr Camau Cyntaf; trosi neu addasu'r stoc bresennol er mwyn cyflawni anghenion tenantiaid yn well a thrwy gymorth ariannol i rentu o fewn y sector preifat (budd-dal tai). Nid yw hyn yn negyddu'r angen i ddarparu nifer sylweddol uwch o opsiynau tai fforddiadwy ond mae'n awgrymu y bydd angen defnyddio dulliau gwahanol i adeiladu tai newydd ar gyfer daliadaethau cymdeithasol a chanolraddol er mwyn cyflawni'r angen hwn.

4.3.28 Mae'r polisi yn amlinellu'r ddarpariaeth dai yn y Prif Bentrefi, Pentrefi Llai a Phentrefannau Haen 2. Mae'r dull yn cynnig polisi hyblyg i ganiatáu datblygiadau preswyl ar safleoedd bach addas o fewn aneddiadau a/neu mewn aneddiadau gwledig cyfagos. Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau gael eu llywio gan dai fforddiadwy, er mwyn cyflawni angen lleol a nodwyd. Caniateir i unedau'r farchnad gefnogi'r gwaith o ddarparu'r safle, ond mae'n rhaid i anghenion tai fforddiadwy lleol ffurfio o leiaf 50% o'r tai sy'n cael eu hadeiladu ar y safle ac mae'n rhaid sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod unedau tai fforddiadwy yn cael eu darparu'n amserol a'u cynnal wedi hynny.

4.3.29 Er bod PPW10 yn datgan *nad yw safleoedd eithrio tai fforddiadwy yn briodol ar gyfer marchnad dai* mae hefyd yn nodi *bod angen ystyried darparu safleoedd eithrio tai fforddiadwy er mwyn helpu i nodi gofynion a sicrhau hyfywedd y gymuned leol.* Mae'n amlwg yng Nghonwy, heb ddull hyblyg o ganiatáu elfen o unedau'r farchnad agored ar safleoedd o fewn neu ger Prif Bentrefi, Pentrefi Llai a Phentrefannau Haen 2, y bydd yn annhebygol i safleoedd o'r fath gael eu cyflwyno am na fyddant yn hyfyw, a fydd yn arwain at beidio cyflawni angen a nodwyd.

4.3.30 Bydd Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig y CDLlG yn hybu economi wledig gynaliadwy ac yn ceisio cyfrannu at gyflawni Angen Lleol Tai Fforddiadwy (AHLN) yn y prif bentrefi, pentrefi llai a phentrefannau. Ardaloedd â gwerth isel yn y farchnad ac anawsterau yn sicrhau cyllid ar gyfer tai fforddiadwy yw dau o'r materion sydd wedi cyfyngu ar ddarparu tai gwledig. Rhagwelir y bydd polisïau tai newydd a gwell yn cynorthwyo gyda'r anghenion tai gwledig ac yn diogelu'r cymeriad naturiol ac adeiledig yr un pryd.



**Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Bydd tir yn cael ei ddyrannu i gyflawni'r angen a nodwyd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr.

Bydd angen polisi ar sail meini prawf ar gyfer asesu safleoedd ychwanegol, yn amodol ar angen.

4.3.31 Mae angen i Gonwy sicrhau bod prosesau priodol ar waith i ddarparu ar gyfer unrhyw angen a nodir ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Mae'r angen preswyl presennol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghonwy wedi'u cyflawni drwy adeiladu safle parhaol ar gyrion tref Conwy. Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) Conwy (2017-2022) yn datgan y dylai'r CDLlG hyrwyddo tir i ddarparu safle dros dro ar gyfer 7 llain. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio ddyrannu safleoedd addas i gyflawni angen a nodwyd yn ystod cam adneuo'r CDLlG (h.y. Ionawr 2020). Mae CBSC wedi cynnal 'galwad am safleoedd' a byddai'r Cynllun Adneuo yn cynnwys safle dros dro penodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr; yn ogystal bydd polisi ar sail meini prawf yn cefnogi'r ddarpariaeth o safleoedd eraill i gyflawni angen newydd sy'n dod i'r amlwg, y gellir ei nodi mewn Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol.



## 4.4 Canolfannau Manwerthu a Masnachol

4.4.1 **Amcan Strategol 3 (SO3):** Darparu canolfannau tref a masnachol deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ail-ddiffinio eu rôl ac annog amrywiaeth o weithgareddau a defnyddiau.

***Polisi Strategol 16: Manwerthu***

**Polisi Strategol 16 (SP/16): Manwerthu**

Bydd canolfannau manwerthu a masnachol yng Nghonwy yn ganolbwyntiau gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd ac yn bwynt ffocws i amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Anogir hyn trwy:

a) Sefydlu hierarchaeth ar gyfer canolfannau manwerthu a fydd yn arwain lleoliad datblygiad manwerthu newydd;

b) Tir sydd wedi'i ddyrannu at ddefnydd manwerthu i ddiwallu anghenion a nodwyd yn Astudiaeth Manwerthu Conwy;

c) Darparu polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer cynigion manwerthu newydd ar safleoedd sydd heb eu dyrannu ac ar gyfer newidiadau i ddefnydd canol trefi;

d) Dynodi Prif Ardal Siopa a ffiniau Parth Siopa;

e) Annog dargadw cyfleusterau manwerthu y tu allan i'r Is-ranbarth a Chanol Trefi;

f) Diogelu swyddogaeth manwerthu penodol Parc Llandudno a Pharciau Manwerthu Mostyn Champneys a swyddogaeth hamdden Parc Hamdden Cyffordd Llandudno

g) Annog Strydoedd Blaen Siopau o safon uchel a Diogelwch Blaen Siopau.

4.4.2 Mae canolfannau manwerthu yn ganolfannau gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Maent yn cynnwys ystod eang o wasanaethau a defnyddiau, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, hunaniaeth ddinesig a chyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol. Mae'r rhain yn cefnogi anghenion y gymuned leol ac, yn achos y canolfannau mwy, y gymuned ehangach hefyd.

4.4.3 Mae paragraff 4.3.10 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sefydlu hierarchaeth canolfannau manwerthu a masnachol. Mae'r canolfannau yn ardal y CDLlN wedi'u nodi isod. Maent wedi'u categoreiddio yn ôl y canllawiau ym mharagraff 4.3.12 PCC ac Adran 4 TAN4, yn seiliedig ar lefel y cyfleusterau a'r gwasanaethau maent yn eu darparu, dalgylchoedd eu cynnig manwerthu a lefel y



boblogaeth sy'n siopa yno.  Gweler Papur Cefndir 26 am ragor o fanylion.

**Yr Hierarchaeth Fanwerthu**

Mae'r hierarchaeth fanwerthu ganlynol wedi'i sefydlu:

| | |
|---|---|
| **Canolfan Siopa Is-ranbarthol** | Llandudno |
| **Canol Trefi** | Abergele<br>Bae Colwyn<br>Conwy<br>Cyffordd Llandudno<br>Llanrwst |
| **Canolfannau Lleol** | Deganwy<br>Bae Cinmel<br>Llanfairfechan<br>Hen Golwyn<br>Penmaenmawr<br>Llandrillo-yn-rhos<br>West End (Bae Colwyn) |

Dangosir yr hierarchaeth fanwerthu ar Fap 8.

Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu yn cael eu hystyried yn unol â'r hierarchaeth hon.  Llandudno, fel Canolfan Siopa Is-ranbarthol yw'r lleoliad a ffafrir ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd, wedi'i dilyn gan Ganol Trefi ac yna'r Canolfannau Lleol.

Bydd unrhyw gynigion manwerthu y tu allan i'r canolfannau hyn yn cael eu hasesu gan ddefnyddio polisi ar sail meini prawf.

4.4.4 Bydd angen i ddatblygiadau newydd yn y canolfannau manwerthu gyd-fynd â graddfa a swyddogaeth y ganolfan honno, a'u bod yn ystyried safle'r ganolfan yn yr hierarchaeth. Bydd angen i gynigion ar gyfer defnyddiau sy'n briodol ar gyfer canol tref, a ddiffinnir ym mharagraff 4.3.21 PCC, fabwysiadu dull datblygu dilyniannol, gan ffafrio safleoedd yng nghanol y Canolfannau Is-ranbarthol a Chanol Trefi, yna safleoedd ger canol trefi, ac yna'r Canolfannau Lleol.

4.4.5 Llandudno yw'r ganolfan fanwerthu fwyaf yn ardal y CDLlN ac mae'n denu nifer fawr o siopwyr ac ymwelwyr.  Bydd rôl isranbarthol Llandudno yn cael ei diogelu a'i gwella er mwyn sicrhau ei fod yn dref gynaliadwy i fyw, gweithio ac ymweld â hi.

**Cyflawni angen manwerthu**


Mae Safle Strategol Abergele wedi'i glustnodi ar gyfer defnydd-cymysg gan gynnwys Manwerthu.

Bydd rhagor o safleoedd yn cael eu dyrannu yn y cam CDLlN Adneuo er mwyn cyflawni angen manwerthu a nodwyd.

4.4.6 Pe byddai'r dystiolaeth yn dangos bod angen dyraniadau, mae paragraff 4.39 PCC yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y ddarpariaeth fwyaf priodol o ran ffurf, graddfa a lleoliad er mwyn cyflawni'r angen hwn.  Dylid ystyried gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hefyd.



***Map 8: Hierarchaeth Fanwerthu***




4.4.7 Mae Astudiaeth Capasiti Manwerthu Conwy (Papur Cefndir 24) yn amlinellu'r angen am ddatblygiad manwerthu pellach yn ystod cyfnod y CDLlG. Nodir yr angen canlynol yn ôl ardal.

| | **Cyfleustra** | **Cymhariaeth** |
|---|---|---|
| Dwyrain Conwy | 35,000 troedfedd sgwâr (3,252m2) | |
| Canol Conwy | 20,000 troedfedd sgwâr (1,858m2) | 25,000 troedfedd sgwâr (2,323m2) |
| Gogledd Conwy | 5,000 troedfedd sgwâr (465m2) | |
| Gorllewin Conwy | 10,000 troedfedd sgwâr (929m2) | |
| De Conwy | 15,000 troedfedd sgwâr (1,394m2) | |

4.4.8 Mae'r angen hwn wedi'i gyflawni yn y gorffennol drwy'r caniatâd a roddwyd ar y safle Gwaith Brics ar gyfer archfarchnad fanwerthu. Fodd bynnag, daeth y caniatâd hwn i ben ym mis Mai 2019 ac nid yw wedi'i adnewyddu. Mae'r angen a nodwyd yn ardal orllewinol y Fwrdeistref Sirol wedi'i chyflawni gan ddatblygiad y siop Lidl newydd sy'n mynd rhagddo yng Nghyffordd Llandudno yn awr.

4.4.9 Bydd angen dyraniadau mewn ardaloedd eraill er mwyn cyflawni'r angen a nodwyd. Bydd y rhain yn cael eu nodi yn y cam Adneuo. Bydd lleoliad y dyraniadau hyn yn cael eu llywio gan y dull gweithredu dilyniannol a hierarchaeth fanwerthu'r CDLlG. Bydd arwynebedd llawr arfaethedig y safleoedd hyn yn hyblyg, sy'n ofyniad ym mharagraff 4.3.22 PCC, er mwyn sicrhau y gellir darparu ar gyfer newid yn y galw a'r cyfleoedd manwerthu.



**Cynigion manwerthu ar safleoedd heb eu dyrannu**

Asesir ceisiadau ar gyfer arwynebedd llawr newydd ar gyfer manwerthu ar safleoedd heb eu dyrannu drwy bolisi ar sail meini prawf. Bydd angen i ymgeiswyr fabwysiadu dull gweithredu dilyniannol ar gyfer dewis safleoedd ac, ar gyfer ceisiadau y tu allan i ganol trefi, arddangos angen am yr arwynebedd llawr ychwanegol.

4.4.10 Mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw safleoedd manwerthu wedi'u dyrannu, mae paragraff 4.3.9 PCC yn datgan, er mwyn caniatáu hyblygrwydd, dylid cynnwys polisi ar sail meini prawf mewn cynlluniau datblygu y gellir asesu cynigion yn eu herbyn. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu ar gyfer unrhyw newidiadau i angen sy'n deillio o newidiadau annisgwyl yn y farchnad fanwerthu.

**Defnyddiau canol trefi**

Bydd y ffiniau ar gyfer y Prif Ardaloedd Siopa a Pharthau Siopa yn y Ganolfan Is-ranbarthol a Chanol Trefi yn cael eu nodi yn y cam Adneuo.

Bydd cynigion i newid defnydd yn yr ardaloedd dynodedig hyn yn ddarostyngedig i bolisi ar sail meini prawf, a fydd yn sicrhau bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad.

Mae canllawiau ychwanegol yn debygol o fod yn berthnasol ar gyfer cynigion ar gyfer unedau tecawê bwyd poeth newydd.

4.4.11 Mae paragraffau 4.3.30-32 PCC yn annog cymysgedd o ddefnyddiau er mwyn cynnig canolfannau manwerthu bywiog, hyfyw ac atyniadol, oherwydd dim ond rhan o'r hyn sy'n sicrhau bywiogrwydd canolfan yw defnyddiau A1. Bydd y ffiniau ar gyfer y Prif Ardaloedd Siopa a Pharthau Siopa yn cael eu hadolygu a'u cyhoeddi ym Mhapur Cefndir 27 yng ngham y CDLlG Adneuo. Bydd y rhain yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol, pan fydd y prif ardaloedd yn cynnwys cyfran uchel o ddefnyddiau manwerthu A2 a chymysgedd o ddefnyddiau mewn ardaloedd eilaidd. Bydd polisïau'n cael eu cynnwys ar y cam Adneuo, a fydd yn llywio'r math o ddefnyddiau a fydd yn cael eu hystyried yn rhai derbyniol yn yr ardaloedd hyn (gan adlewyrchu'r canllaw ym mharagraffau 4.3.30-30 PCC).

4.4.12 Gall defnyddiau hamdden ac adloniant a bwyd a diod fod yn fuddiol i ganolfannau manwerthu a masnachol. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ddiogelu amwynder wrth gyfrannu at economi gyda'r nos. Mae paragraff 3.3.34 PCC yn annog cynlluniau defnydd cymysg, sy'n cael eu cynllunio mewn ffordd briodol. Mae hefyd yn annog economi fywiog a hyfyw gyda'r nos ac yn y nos, a phrofiadau a mannau diwylliannol, a all gyfrannu'n gadarnhaol at adfywio canolfan (paragraffau 4.3.43-48).

4.4.13 Gallai canllawiau ychwanegol ar unedau tecawê bwyd poeth gynnwys meini prawf megis lliniaru neu ddiogelwch ar gyfer defnyddiau cyfagos, cyfyngiadau ar y nifer o unedau sy'n cael eu lleoli ger ei gilydd ac ardaloedd eithrio o amgylch ysgolion uwchradd.



4.4.14 Mae paragraff 4.3.36 PCC yn ei gwneud yn ofynnol i asesu iechyd ein canolfannau manwerthu, er mwyn i'r strategaeth fanwerthu gael ei hysbysu, a chymryd camau ymyrryd pan fydd angen. Mae Papur Cefndir 25 yn cynnwys manylion pellach. Os ystyrir bod canolfan yn dirywio, gall defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 helpu i leihau siopau gwag a chynyddu amrywiaeth.

**Diogelu cyfleusterau manwerthu y tu allan i Ganolfannau Is-ranbarthol a Chanol Trefi**

Bydd cadw cyfleusterau manwerthu y tu allan i Ganolfannau Is-ranbarthol a Chanol Trefi yn cael ei annog. Bydd cynigion ar gyfer newid y defnydd o siopau cyfleus, swyddfeydd post, gorsafoedd petrol a thafarndai yn ddarostyngedig i bolisi ar sail meini prawf.

4.4.15 Mae cyfleusterau lleol a gwledig fel y rhai uchod yn chwarae rôl allweddol wrth gynnal canolfannau llai a lleihau'r angen i breswylwyr deithio er mwyn cyflawni eu hanghenion bob dydd. Maent yn cyfrannu at ymdeimlad o le, gan gael effaith gadarnhaol ar lesiant ac amwynder cymunedau lleol. Mewn pentrefi llai, maent hefyd yn chwarae rôl bwysig yn cynorthwyo'r rhai sy'n cael anhawster i deithio ymhellach ac maent yn creu canolbwynt i fywyd pentref. Bydd y Cyngor yn annog cadw cyfleusterau o'r fath, yn unol â pharagraff 4.3.41 PCC.

**Dynodiadau parciau manwerthu a hamdden**

Bydd cynigion ym mharciau manwerthu Parc Llandudno a Mostyn Champneys yn ddarostyngedig i bolisi ar sail meini prawf er mwyn diogelu eu swyddogaeth fanwerthu benodol a bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canol tref Llandudno.

Bydd cynigion ym Mharc Hamdden Cyffordd Llandudno yn ddarostyngedig i bolisi ar sail meini prawf er mwyn diogelu ei swyddogaeth hamdden.

4.4.16 Mae parciau manwerthu Parc Llandudno a Mostyn Champneys yn cyflawni swyddogaeth fanwerthu wahanol fel arfer i ganol tref Llandudno. Ers mabwysiadu'r CDLl, bu cynigion i ddiwygio'r nwyddau sy'n cael eu gwerthu ac i gael unedau A3 ym Mostyn Champneys/ Mae angen i'r parciau manwerthu allu denu manwerthwyr, ond nid os yw'n peryglu bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canol tref Llandudno.

**Dyluniad Ffryntiadau Siopau**

Bydd polisi ar sail meini prawf yn llywio cynigion ar gyfer newidiadau i neu ffryntiadau siopau newydd.

**Diogelwch ffryntiad stryd siopa**

Bydd polisi ar sail meini prawf yn llywio cynigion ar gyfer newidiadau i neu ddiogelwch ffryntiad stryd siopa.



4.4.17 Mae ffryntiad siopau yn hollbwysig er mwyn creu cymeriad ac ymddangosiad ffryntiadau siopa. Mae'r Cyngor yn cysylltu cryn bwysigrwydd i ffryntiadau siopau sydd wedi'u dylunio'n addas, nid yn unig er mwyn diogelu cymeriad adeiladau, ond hefyd er mwyn cynnal atyniad cyffredinol strydoedd a chynnal eu hyfywedd masnachol. Gall datblygiadau amhriodol gael effaith andwyol sylweddol nid yn unig ar yr adeilad ond hefyd ar y strydlun, a photensial masnachu'r stryd.

4.4.18 Mae cwsmeriaid a pherchnogion siopau yn elwa os bydd y strydlun yn cael ei wella gan ffryntiadau siopau sydd wedi'u dylunio'n dda a ffryntiau siopau sy'n cael eu cynnal a'u cadw. Mewn pentrefi bydd yn bwysig parchu cymeriad presennol y stryd a'r pentref, ac mewn canolfannau siopau mawr mewn anheddau trefol bydd y pwyslais ar greu a chynnal amgylchedd o ansawdd a hyfyw. Mae angen cydnabod y bydd llawer o ffryntiadau siopau wedi'u lleoli mewn ardaloedd cadwraeth. Gweler Adran 5.4 am fanylion.



## 4.5 Cyfleusterau Cymunedol

4.5.1 **Amcan Strategol 4 (SO4):** Cyfrannu at naws lle ac at iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y boblogaeth bresennol, a'r boblogaeth yn y dyfodol, fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.

***Polisi Strategol 17: Cyfleusterau Cymunedol***

**Polisi Strategol 17 (SP/17): Cyfleusterau Cymunedol**

Er mwyn cyfrannu at iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol bydd y CDLl Newydd yn:

a) Gwella ac yn diogelu cyfleusterau cymunedol;

b) Dyrannu tir ar gyfer safleoedd ysgol newydd, a chefnogi cynigion i gwrdd ag angen canfyddadwy yn amodol ar feini prawf penodol;

c) Diogelu cyfleusterau gwledig rhag defnyddiau eraill;

d) Dyrannu tir ar gyfer rhandiroedd a darparu polisïau gyda meini prawf i gwrdd ag angen canfyddadwy a chefnogi cynigion yn amodol ar feini prawf penodol;

e) Dyrannu tir ar gyfer mynwentydd a chwrdd ag angen canfyddadwy, a chefnogi cynigion yn amodol ar feini prawf penodol.

4.5.2 Mae cyfleusterau cymunedol yn allweddol i greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd, mannau claddu, canolfannau hamdden a lleoedd addoli. Gallant fod ym mherchnogaeth y cyhoedd, preifat a'r trydydd sector.

4.5.3 Mae paragraff 4.4.2 o Bolisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu fod ag ymagwedd strategol a hirdymor tuag at ddarparu cyfleusterau cymunedol, gan sicrhau fod gofynion y gymuned yn parhau i gael eu diwallu. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos fod gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth sy'n heneiddio. Bydd y CDLlN yn cefnogi cyfleusterau cymunedol i ddiwallu eu hanghenion. Hefyd bydd angen i adeiladu tai newydd sicrhau fod anghenion y preswylwyr newydd o ran cyfleusterau cymunedol yn cael eu diwallu.

4.5.4 Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at synnwyr o le sy'n bwysig i iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol ac mae eu bodolaeth yn aml yn elfen allweddol mewn creu cymunedau hyfyw a chynaliadwy. Mae mynediad i'r cyfleusterau hyn yn darparu cyfle i fod yn rhan o fywyd cymunedol gan fod o gymorth i greu synnwyr o berthyn, sy'n cyfrannu tuag at gymunedau cydlynus. Mae cefnogi cyfleusterau cymunedol presennol a rhai newydd yn ffactor allweddol mewn creu lleoedd bywiog a chymdeithasol.



**Safleoedd ysgolion newydd a dyraniadau**

Mae tir wedi ei ddyrannu i bwrpas safleoedd ysgol newydd yn y lleoliadau canlynol:

- i. Llanfairfechan
- ii. Llanrhos
- iii. Abergele

Gall dyraniadau eraill gael eu nodi ar gyfer eu cynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

Bydd cynigion ar gyfer safleoedd ysgol newydd neu estyniadau i ysgolion presennol yn cael eu penderfynu yn unol â'r polisi wedi ei seilio ar feini prawf i'w gynnwys yn y CDLl Newydd i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

4.5.5 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae Band A wedi ei gwblhau ac wedi darparu ysgolion newydd. Mae Band B ar y gweill ac yn ymdrin â'r cyfnod o Ebrill 2019 i Fawrth 2024. Bydd Bandiau C a D yn dilyn. Bydd safleoedd Band B yn cael eu dyrannu lle mae angen tir. Mae tir ychwanegol yn debygol o fod ei angen yn ystod cyfnod y cynllun i ddarparu Bandiau C a D. Am y rheswm hwn bydd polisi wedi ei seilio ar feini prawf yn cael ei gynnwys.

4.5.6 Bydd capasiti ysgolion a gynigir o dan Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif yn adlewyrchu unrhyw dwf newydd mewn disgyblion ysgol a achosir gan y CDLlN. Bydd y newid ym mhoblogaeth plant a gynigir yn y CDLlN a'r effaith bosib ar gapasiti ysgolion cynradd yn cael ei asesu. Lle bo'r angen bydd camau i liniaru hynny wrth ddyrannu safleoedd preswyl.

**Iechyd**

Bydd cynigion ar gyfer safleoedd gofal cynradd ac eilaidd newydd ac estyniadau i rai presennol yn cael eu cefnogi yn ddibynnol ar gydweddu â pholisi wedi ei seilio ar feini prawf.

4.5.7 Bydd angen i safleoedd gofal iechyd cynradd ac eilaidd allu cydweddu â'r boblogaeth newidiol dros gyfnod y CDLlN. Mae ein poblogaeth yn heneiddio, sy'n rhoi gwahanol bwysau ar y gwasanaeth iechyd. Bydd y twf yn y boblogaeth a gynigir yn y CDLlN a'r effaith bosib ar gapasiti safleoedd gofal iechyd cynradd ac eilaidd yn cael ei asesu. Lle bo'r angen bydd camau i liniaru hynny wrth ddyrannu safleoedd preswyl.

**Diogelu cyfleusterau gwledig**

Bydd cynigion ar gyfer newid defnydd neuaddau pentref ac eglwys yn cael eu penderfynu yn unol â pholisi wedi ei seilio ar feini prawf i'w gynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

4.5.8 Gall cyfleusterau gwledig, gan gynnwys neuaddau pentref ac eglwys, ddod o dan fygythiad ar gyfer defnyddiau eraill a wynebu heriau economaidd. Mae mynediad i'r rhain yn hanfodol i gymunedau gwledig. I fynd i'r afael â hyn, bydd polisi wedi ei



seilio ar feini prawf yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Fe ymdrinnir â chyfleusterau manwerthu o dan adran ar wahân. *Gweler Adran 4.4 Manwerthu i gael rhagor o fanylion.

**Rhandiroedd newydd**

Mae tir wedi ei ddyrannu i ddiwallu angen a nodwyd am randiroedd yn y lleoliadau canlynol:

i. Llanfairfechan

ii. Llanrhos

iii. Hen Golwyn

iv. Llanrwst

Gall dyraniadau eraill gael eu nodi ar gyfer eu cynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

Bydd cynigion ar gyfer rhagor o safleoedd neu ymestyn safleoedd presennol yn cael eu penderfynu yn unol â'r polisi wedi ei seilio ar feini prawf i'w gynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

4.5.9 Mae rhandiroedd yn adnodd cymunedol pwysig, sydd ag ystod eang o fuddion cadarnhaol. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.4.3 o Bolisi Cynllunio Cymru, mae'r rhain yn amrywio o fudd amgylcheddol, iechyd, cymdeithasol i economaidd.  Gallant gyfrannu tuag at synnwyr o le a chymuned, gallant helpu i adfywio cymuned a mannau agored, cyfrannu tuag at gynhyrchu bwyd, darparu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt ac mae ganddynt fanteision i iechyd a lles.

4.5.10 Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd i fodloni'r galw a nodir yn lleol. Mae paragraff 4.4.3 yn nodi y dylai tir gael ei ddyrannu ar gyfer rhandiroedd. Mae Papur Cefndir 30 Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Rhandiroedd yn nodi fod nifer sylweddol o breswylwyr Conwy ar y rhestr aros am randir ymhob ardal yn y Fwrdeistref Sirol. Caiff tir ei ddyrannu i ddiwallu'r angen hwn fel rhan o'r Strategaeth a Ffafrir.

4.5.11 Gall rhagor o safleoedd rhandiroedd ddod ar gael yn ystod cyfnod y CDLlN. Bydd y safleoedd hyn yn cael eu hasesu ar y pryd ar gyfer eu haddasrwydd gan ddefnyddio polisi wedi ei seilio ar feini prawf.

**Diogelu rhandiroedd**

Bydd safleoedd rhandiroedd presennol yn cael eu diogelu. Bydd cynigion ar gyfer newid defnydd y safleoedd hyn yn cael eu penderfynu yn unol â pholisi wedi ei seilio ar feini prawf i'w gynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

4.5.12 Mae paragraff 4.4.3 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid cadw a diogelu rhandiroedd, yn enwedig os ydynt yn rhan bwysig o'r seilwaith gwyrdd neu os oes ganddynt werth cymunedol. Mae gan randiroedd statudol amddiffyniad cyfreithiol ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydsynio i'w gwaredu.



**Mannau claddu newydd**

Bydd tir yn cael ei ddyrannu yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd i ddiwallu angen a nodwyd am fannau claddu.

Bydd cynigion ar gyfer rhagor o safleoedd neu ymestyn safleoedd presennol yn cael eu penderfynu yn unol â'r polisi wedi ei seilio ar feini prawf i'w gynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

4.5.13 Mae'r sail dystiolaeth gychwynnol ar gyfer Mannau Claddu yn amlinellu fod yna angen am fannau claddu ychwanegol yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd tir yn cael ei ddyrannu yn unol â'r sail dystiolaeth hon.



## 4.6 Mannau Hamdden

4.6.1 **Amcan Strategol 5 (SO5):** Annog lles meddwl a chorfforol drwy ddarparu a diogelu rhwydweithiau o ardaloedd hamdden a mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel.

***Polisi Strategol 18: Mannau Hamdden***

> **Polisi Strategol 18 (SP/18): Mannau Hamdden**
>
> Bydd angen i ddatblygiad preswyl newydd ddarparu ar gyfer mannau hamdden drwy bolisi wedi ei seilio ar feini prawf.
>
> Mae/bydd tir yn cael ei ddyrannu ar gyfer mannau hamdden, yn unol â'r angen a nodwyd yn y sail dystiolaeth.
>
> Bydd polisi wedi ei seilio ar feini prawf yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn weithredol ar gyfer diogelu mannau hamdden presennol.

4.6.2 Mae mannau hamdden yn gwasanaethu rôl ddeuol, sef darparu lle ar gyfer chwarae, chwaraeon, gweithgarwch ac ymlacio, a chyfrannu'n gadarnhaol tuag at ansawdd bywyd, iechyd a lles. Maent hefyd yn hyrwyddo gwarchod natur a bioamrywiaeth ac yn cyfrannu tuag at seilwaith gwyrdd ardal.

4.6.3 Mae adran 4.5 Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i gefnogi datblygiad chwaraeon a hamdden a ffurfiau eraill o fannau agored cyhoeddus. Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau hamdden, yn darparu lle i ymlacio a chyfrannu tuag at ansawdd bywyd. Maent yn annog gweithgarwch corfforol sy'n cyfrannu tuag at sicrhau Cymru iachach (nod tri yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

4.6.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol fod rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd yn cael ei nodi, ei reoli a'i ehangu mewn cynlluniau datblygu. Mae mannau hamdden yn rhan o'r seilwaith hwn. Mae'n bwysig fod y CDLlN yn cydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd o ran cyflawni budd i'r amgylchedd leol, buddion economaidd gymdeithasol ac iechyd a gaiff eu hadnabod fel materion allweddol yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych.

4.6.5 Mae paragraff 4.5.2 ym Mholisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid sefydlu safonau fel rhan o'r CDLlN. Dylid nodi diffygion lleol a'u diwallu drwy safonau'r CDLlN. Mae'r safonau isod fel canllaw yn unig a gallant fod yn uwch i adlewyrchu canfyddiadau'r Asesiad Mannau Hamdden unwaith mae wedi ei gwblhau.



**Mannau hamdden mewn datblygiadau preswyl newydd**

Bydd gofyn i ddatblygiad preswyl ddarparu ar gyfer mannau hamdden. Bydd safonau'n cael eu datblygu, wedi eu seilio ar yr Asesiad Mannau Hamdden ar gyfer eu cynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, ond byddant yn adlewyrchu'r rhai a argymhellwyd gan Meysydd Chwarae Cymru.

| | |
|---|---|
| Caeau chwarae | 1.2 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth |
| Chwaraeon awyr agored | 0.4 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth |
| Ardaloedd chwarae wedi eu dynodi/yn cynnwys offer | 0.25 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth |
| Darpariaeth awyr agored arall* | 0.3 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth |
| Parciau a gerddi | 0.8 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth |
| Man gwyrdd ar gyfer amwynder | 0.6 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth |

*Ardaloedd gemau aml ddefnydd a pharciau sglefrio

Bydd trothwy o ran nifer yr anheddau yn cael ei osod yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd a fydd yn rhoi manylion pryd a pha fannau hamdden a ddylai gael eu darparu ar y safle.

4.6.6 Mae canllawiau Meysydd Chwarae Cymru hefyd yn argymell safon o 2.0 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer man gwyrdd naturiol a rhannol naturiol. Mae'n debygol fod lefelau digonol o'r deipoleg hon yn y Fwrdeistref Sirol ac o ganlyniad ni fydd angen darpariaeth ychwanegol fel arfer. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau drwy Bapur Cefndir 28: Asesiad o Fannau Hamdden.

4.6.7 I sicrhau darpariaeth ar y safle neu welliannau i fannau hamdden oddi ar y safle, fe all y Cyngor ddefnyddio'r mesurau canlynol:

- Rhwymedigaethau cynllunio drwy Gytundebau Adran 106;
- Ardoll Seilwaith Cymunedol; a/neu,
- Amodau cynllunio.

4.6.8 Bydd hyfywedd ariannol yn ystyriaeth. Bydd y datblygwr yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw fannau hamdden newydd am byth.

**Dyraniadau mannau hamdden** Caiff tir ei ddyrannu i ddiwallu angen ychwanegol am fannau hamdden yn Safleoedd Strategol yn Llanfairfechan, Llanrhos, Hen Golwyn, Abergele a Llanrwst.

Gall dyraniadau eraill gael eu nodi ar gyfer eu cynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

Bydd cynigion ar gyfer rhagor o safleoedd neu ymestyn safleoedd presennol yn cael eu penderfynu yn unol â'r polisi wedi ei seilio ar feini prawf i'w gynnwys yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.



4.6.9 Mae canfyddiadau rhagarweiniol o'r Asesiad Mannau Hamdden newydd yn nodi fod yna ddiffyg o ran rhai mathau o deipoleg yn y Fwrdeistref Sirol. I fynd i’r afael â hyn bydd tir yn cael ei ddyrannu, pan fo ar gael, yn y CDLlN i’w Archwilio gan y Cyhoedd. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gyda llunio papur cefndir yn rhoi manylion canfyddiadau'r Asesiad Mannau Hamdden. Bydd tir mewn perchnogaeth gyhoeddus, preifat a thrydydd sector yn cael ei gynnwys yn yr Asesiad, yn unol â chyngor yng nghanllawiau Meysydd Chwarae Cymru a’r polisi cynllunio cenedlaethol.

**Diogelu mannau hamdden**

Bydd safleoedd mannau hamdden presennol yn cael eu diogelu. Bydd cynigion ar gyfer newid defnydd y safleoedd hyn yn cael eu penderfynu yn unol â pholisi wedi ei seilio ar feini prawf i’w gynnwys yn y CDLlN i’w Archwilio gan y Cyhoedd.

4.6.10 Mae paragraff 4.5.3 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol gael eu diogelu rhag datblygiad. Ni fydd datblygu'r safleoedd hyn i ddefnydd arall yn cael ei ganiatáu, oni bai fod yna nifer gormodol o’r math hwnnw o fan hamdden yn y gymuned leol. Bwriad hyn yw i ddiogelu eu rôl mewn cyfrannu tuag at yr amgylchedd naturiol ac iechyd a lles. Fe allai parciau a gerddi fod yn cael eu diogelu ymhellach os ydynt yn ased hanesyddol ac wedi eu rhestru.

4.6.11 Fe all datblygu man hamdden mewn ardaloedd o ddiffyg gael ei ganiatáu dan amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, os y gellir sicrhau darpariaeth arall sy'n sicrhau budd cymunedol cyfatebol yn yr un gymuned, sy'n adlewyrchu'r amseroedd teithio a argymhellir a nodir yng nghanllawiau Meysydd Chwarae Cymru. Neu fe allai datblygiad o ran fach o’r man hamdden gael ei ganiatáu, lle mae’n sicrhau dyfodol y man hamdden hwnnw, a lle mae’r cyfleusterau’n cael eu gwella gan ddarparu budd cymunedol.



# Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae’r adran hon yn ymdrin ag agweddau Naturiol a Diwylliannol wrth greu lleoedd yng Nghonwy.  Mae’r rhain yn gwerthfawrogi ansawdd tirluniau ac amgylchedd hanesyddol Conwy, yn diogelu asedau economaidd at y dyfodol wrth ymateb i heriau yn sgil newid hinsawdd ac wrth hyrwyddo datrysiadau carbon isel, amddiffyn tirluniau a chynefinoedd, galluogi cyfleoedd i gysylltu gyda’r amgylchedd naturiol ac annog ffyrdd o fyw yn iach gyda’r fantais o wella lles meddyliol a chorfforol, a’r elfennau ohonynt sy'n cael eu hannog yng nghynllun llesiant Conwy a Sir Ddinbych. Mae’r adran hon yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer **Tirlunio, Ardaloedd Arfordirol Amgylchedd Hanesyddol, Adfywio drwy Ddiwylliant, Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth, Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau a Llifogydd.**



## 5.2 Y Dirwedd

5.2.1 **Amcan Strategol 12 (SO12):** Gwarchod a chadw asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ansawdd uchel Conwy.

***Polisi Strategol 19: Y Dirwedd***

**Polisi Strategol 19 (SP19): Y Dirwedd**

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer tirweddau, bydd y CDLlN yn gwarchod safleoedd a ddynodwyd yn statudol a thirweddau o werth gan sicrhau bod rhinweddau arbennig yn cael eu gwarchod, eu rheoli a'u gwella. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cyfleoedd a gynigir gan dirweddau ar gyfer twristiaeth, gweithgareddau hamdden awyr agored, cyflogaeth leol, ynni adnewyddadwy ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, gan sicrhau manteision lluosog o ran llesiant i bobl a chymunedau.

5.2.2 Gwerthfawrogir holl dirweddau Conwy am eu bod yn gwneud cyfraniad hollbwysig at greu naws am le, a bydd y Cyngor yn gwarchod ac yn gwella eu nodweddion arbennig. Ar yr un pryd, bydd yn rhoi sylw dyladwy i'w budd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, yn ogystal â'r modd y maent yn cyfrannu at greu lleoedd sy'n cael eu gwerthfawrogi. Ystyriwyd y dirwedd o'r cychwyn cyntaf wrth greu'r CDLlN a'i bolisïau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu datblygiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn allweddol er mwyn cynnal a gwella eu rhinweddau arbennig, ac er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o ran llesiant i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd hyn hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau dull effeithiol ac integredig o reoli adnoddau naturiol dros oes y cynllun a thu hwnt.

5.2.3 Ceir llawer o bwysau ar yr amgylchedd yng Nghonwy, ac nid yw'r holl bwysau hynny o ganlyniad i'r system gynllunio, nac ychwaith o fewn rheolaeth y system honno. Fodd bynnag, mae'r ffactorau allweddol hynny sy'n cyfrannu at newid y dirwedd y gall y system gynllunio ddylanwadu arnynt yn cynnwys ehangiad aneddiadau, datblygiadau masnachol, diwydiannol, ynni a chwarela, datblygiadau carafanau a chabanau gwyliau, gwelliannau ffordd a datblygiadau graddfa fawr yn gysylltiedig â hamdden, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniarol cysylltiedig sy'n deillio o gynhyrchu ynni mewn modd adnewyddadwy, rheoli adnoddau dŵr a thrwy gynllunio i ehangu coetiroedd. Bydd angen cynnal asesiad proffesiynol o dirweddau allweddol er mwyn sicrhau bod safleoedd a ddynodwyd yn statudol ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAoedd) a nodweddion tirweddol eraill pwysig yn cael eu gwarchod.

5.2.4 Byddwn yn parhau i gydweithio ac ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio cyfagos, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cadw a'r



trydydd sector i fanteisio ar ystod eang o arbenigedd a thystiolaeth. Bydd hyn o gymorth i sicrhau:

- Bod Conwy yn cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer tirweddau;
- Trefniadau priodol i warchod a rheoli safleoedd a ddynodwyd yn statudol;
- Bod gwerth pob tirwedd yn cael ei warchod o ran ei chymeriad unigryw a'i nodweddion arbennig; a
- Ystyriaeth o gyfleoedd am dwristiaeth, gweithgareddau hamdden awyr agored, cyflogaeth leol, ynni adnewyddadwy ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a gynigir gan dirweddau, a bod y manteision lluosog o ran llesiant i bobl a chymunedau yn cael eu sicrhau.

5.2.5 Os na ellir osgoi effeithiau andwyol ar gymeriad y dirwedd, bydd angen gwrthod caniatâd cynllunio.

5.2.6 **LANDMAP**

Mae LANDMAP yn adnodd gwybodaeth, methodoleg, a gwaelodlin monitro pwysig ar gyfer tirweddau Cymru, a gall helpu i lywio gwaith cynllunio ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ardal. Mae LANDMAP yn disgrifio ac yn gwerthuso agweddau ffisegol, ecolegol, gweledol, diwylliannol a hanesyddol ar dirweddau Cymru, ac yn sail i ddull cenedlaethol cyson â sicrwydd ansawdd o asesu tirweddau. Gall asesiadau LANDMAP helpu i lywio asesiadau seilwaith gwyrdd, canllawiau cynllunio atodol ar asesu cymeriad tirwedd, ardaloedd o dirwedd arbennig, natur unigryw leol, dylunio, ac astudiaethau o sensitifrwydd tirweddau. Fe'i defnyddiwyd i lywio a dynodi'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAoedd) cyfredol, a fydd hefyd yn cael eu diwygio a'u cynnwys yn y CDLlN.

5.2.7 Bydd Conwy yn parhau i ddefnyddio LANDMAP wrth baratoi cynlluniau ac asesiadau Tirwedd sydd eu hangen er mwyn llywio'r CDLlN, CCAau pellach a'r broses rheoli datblygu.



## 5.3 Ardaloedd Arfordirol

5.3.1 **Amcan Strategol 13 (SO13):** Cefnogi cyfleoedd twf, adfywio a datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol, gan fod yn ymwybodol ar yr un pryd o'r heriau sy'n deillio o bwysau naturiol, ac ymateb i'r heriau hynny.

***Polisi Strategol 20: Ardaloedd Arfordirol a Chynlluniau Morol***

> **Polisi Strategol 20 (SP/20): Ardaloedd Arfordirol a Chynlluniau Morol**
>
> Bydd y CDLlN a'r Cynllun Morol gyda'i gilydd yn cefnogi cydweithio a phenderfyniadau integredig ar draws rhyngwynebau a ffiniau morol a daearol.

5.3.2 Mae'r Cynllun Morol yn nodi cyfleoedd i ddatblygu moroedd Cymru mewn modd cynaliadwy, drwy lywio datblygiadau newydd a phenderfyniadau cysylltiedig ar y glannau ac ar y môr.

5.3.3 Y prif egwyddorion cynllunio ar gyfer ardaloedd arfordirol, sy'n adlewyrchu egwyddorion y Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol, yw cefnogi datblygiadau trefol a gwledig gan fod yn ymwybodol o'r heriau sy'n deillio o'r ymadwaith deinamig rhwng pwysau naturiol a phwysau datblygu mewn ardaloedd arfordirol, ac ymateb mewn modd priodol i hynny. I'r perwyl hwn, mae angen i'r CDLlN fod yn gydnerth o safbwynt ecolegol a ffisegol, a bod â'r gallu i ymaddasu i gyd-fynd â gofynion cymdeithasol ac economaidd. O roi sylw i'r ystyriaethau hyn gellir sicrhau bod y CDLlN a'r Cynllun Morol yn gydategol.

5.3.4 Bydd y CDLlN yn rhoi disgrifiad clir o arwyddocâd yr arfordir i'r ardal, ac yn cymhwyso polisïau penodol a fydd yn adlewyrchu nodweddion y morlinau, gan gynnwys y rhyngberthnasoedd rhwng nodweddion yr ardaloedd arfordirol o safbwynt ffisegol, biolegol a defnydd tir, ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr effeithiau posibl yn gysylltiedig â chynnydd graddol mewn risgiau arfordirol dros amser, ynghyd ag unrhyw fudd yn sgil newid graddol yn y defnydd o dir. Bydd hyn yn golygu clustnodi ardaloedd sydd yn debygol o fod yn addas i'w datblygu, ynghyd â'r ardaloedd y ceir cyfyngiadau sylweddol arnynt ac a ystyrir yn anaddas i'w datblygu. Gall ardaloedd y ceir cyfyngiadau arnynt, neu a ystyrir yn anaddas i'w datblygu gynnwys yr ardaloedd hynny lle:

- mae angen cyfyngu ar ddatblygiad er mwyn gwarchod neu wella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol;
- bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i amhariad gweledol a rhyngwelededd rhwng y tir a'r môr;
- bo'n rhaid cadw at bolisïau penodol yn ardaloedd yr Arfordir Treftadaeth;
- dylid gwarchod mynediad at lwybrau'r arfordir; a



- gallai risgiau fodoli yn sgil erydiad, llifogydd neu dir ansefydlog.

5.3.5 Mewn ardaloedd eraill, gellid bod modd gwireddu potensial economaidd yr arfordir mewn modd cynaliadwy. Bydd Datganiadau Ardal a chynlluniau eraill lleol ar gyfer ardaloedd arfordirol yn darparu gwybodaeth berthnasol er mwyn llywio'r CDLlN.

5.3.6 Mae Ardal Cymeriad Morol 02 Bae Colwyn a Gwastadeddau'r Rhyl ac ACM 03 Traeth Coch a Baeau Conwy yn berthnasol i Ardal y Cynllun, ac fe'u cydnabyddir yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd.

Gellir gweld yr ACMoedd yma ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru [12]

5.3.7 **Datblygu ar yr Arfordir**

Mae Conwy eisoes yn cynnwys lefel uchel o ddatblygiad, seilwaith a phoblogaeth mewn ardaloedd lle ceir risg o lifogydd. Ni ddylid cynnig datblygiadau newydd mewn lleoliadau arfordirol fel arfer, onid oes angen iddynt fod ar yr arfordir. Yn arbennig, anaml y bydd ardaloedd heb eu datblygu ar yr arfordir, yn enwedig yr ardaloedd hynny lle ceir risg o lifogydd, yn cael eu hystyried fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygiad. Pan fydd angen lleoliad arfordirol ar gyfer datblygiad newydd, ardaloedd arfordirol wedi'u datblygu fydd yr opsiwn gorau fel arfer, ar yr amod bod materion yn gysylltiedig â newid arfordirol wedi'u hystyried. Bydd materion o'r fath yn cynnwys risgiau erydu, llifogydd, tir ansefydlog a'r dulliau a ffafrir er mwyn ymdrin â'r risgiau hynny, a'r effeithiau ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol.

5.3.8 Cyn y gellir rhoi caniatâd ar gyfer datblygiadau parhaol a hirdymor, gan gynnwys rhai o bwysigrwydd rhanbarthol neu genedlaethol, bydd yn hanfodol dangos bod angen lleoliad arfordirol yn seiliedig ar nodweddion y morlin dan sylw. Lle ystyrir bod cyfiawnhad dros ddatblygu, dylid dylunio'r datblygiad i fod yn gydnerth rhag effeithiau'r newid hinsawdd hyd ddiwedd ei oes, ac fel nad yw'n achosi cynnydd graddol, ac annerbyniol, o ran risg.

5.3.9 **Newid Arfordirol**

Fel rhan o'r gwaith o ddeall nodweddion arfordiroedd, dylid cydnabod bod lefel y môr yn codi, ymchwydd storm, gweithrediad tonnau a newidiadau mewn morffoleg arfordirol a chyflenwad gwaddodion yn gallu arwain at effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr arfordir ac ar afonydd llanwol. Mae effeithiau'r newid hinsawdd yn creu mwy o ansicrwydd fyth.  Er y gall morffoleg yr arfordir fod yn nodwedd warchodol rhag lefel y môr yn codi, ymchwydd storm a gweithrediad tonnau, gall adeiladu amddiffynfeydd arfordirol ddylanwadu ar y cyflenwad gwaddodion drwy drosglwyddo'r risg o erydu i rywle arall. Dylid osgoi'r posibilrwydd hwn, o gofio bod erydu a'r risg o lifogydd yn debygol o waethygu oherwydd newid hinsawdd. Nid yw'n briodol bod datblygiad mewn un

[12] https://cdn.naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/marine-character-areas/?lang=cy



lleoliad yn ychwanegu'n annerbyniol at effeithiau newid ffisegol i'r arfordir mewn lleoliad arall.

5.3.10 Caiff Cynlluniau Rheoli Traethlin eu datblygu gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid, ac maent yn sefydlu fframweithiau polisi lleol hirdymor er mwyn lleoli risg arfordirol. Bydd y blaenoriaethau ynddynt yn llywio ac yn dylanwadu ar y CDLlN.  Pan bennir na fydd amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal mwyach, dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau clir a phenodol i reoli datblygiad mewn ardaloedd o'r fath, yn cynnwys ble maent yn teimlo y byddai datblygiad yn anaddas neu y dylid ystyried nodweddion penodol.

5.3.11 Bydd CRhTau yn dylanwadu ar y penderfyniad ynghylch a ellir cyfiawnhau'r datblygiad ei hun, neu sut y dylid ei ddylunio. Bydd rhai darnau o'r arfordir yn destun polisïau ymyrryd gweithredol mewn CRhTau i amddiffyn y llinell a bydd amserlenni clir ar waith yn llywodraethu'r polisïau hyn. Ni fydd gan ardaloedd eraill, sydd eisoes wedi cael eu datblygu o bosibl, ymyriadau gweithredol sy'n gysylltiedig ag amddiffyn neu efallai fod ail-alinio rheoledig wedi'i nodi fel yr ymateb mwyaf priodol i lifogydd.

5.3.12 Bydd sicrhau bod modd addasu i newid, yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, yn ystyriaeth allweddol a dylid nodi mesurau i leihau gwendidau a chwilio am gyfleoedd i feithrin cydnerthedd mewn cymunedau, yn enwedig wrth baratoi cynlluniau datblygu. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i natur defnyddiau newydd a allai fod yn addas mewn ardaloedd sy'n destun newid, gan gynnwys effeithiau, neu gyfleoedd, yn sgil newidiadau graddol mewn ardal. Dylid creu cysylltiadau hefyd â strategaethau ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd a chynlluniau draenio cynaliadwy yn ogystal â chynlluniau llesiant ehangach i sicrhau cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd aneddiadau ac sy'n diogelu eu gallu i ymaddasu i newid dros yr hirdymor.

**Newid Arfordirol**

Bydd fframwaith y Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhTau) ar gyfer rheoli risg arfordirol, a'i flaenoriaethau, yn llywio ac yn dylanwadu ar y CDLlN. Pan bennir na fydd amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal mwyach, dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau clir a phenodol i reoli datblygiad mewn ardaloedd o'r fath, yn cynnwys ble maent yn teimlo y byddai datblygiad yn anaddas neu y dylid ystyried nodweddion penodol.



## 5.4 Yr Amgylchedd Hanesyddol

5.4.1 **Amcan Strategol 12 (SO12):** Gwarchod a chadw asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ansawdd uchel Conwy.

***Polisi Strategol 21: yr Amgylchedd Hanesyddol***

**Polisi Strategol 21 (SP/21): yr Amgylchedd Hanesyddol**

Bydd asedau treftadaeth nodedig Conwy, a restrir isod (a – g) yn cael eu diogelu a phan fo'n briodol, eu rheoli a'u gwella.

a) Ardaloedd Cadwraeth

b) Safle Treftadaeth y Byd yn Nhref Conwy

c) Parciau, Gerddi a Thirweddau Hanesyddol

d) Adeiladau Rhestredig

e) Henebion Cofrestredig

f) Safleoedd o Bwysigrwydd Archeolegol

g) Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol

Wrth ystyried datblygiadau ar gyfer galluogi cynlluniau a datblygiadau sy'n effeithio ar leoliad ased treftadaeth, bydd penderfyniadau'n cael eu llywio gan ganllawiau cenedlaethol.

5.4.2 Mae gan asedau hanesyddol swyddogaeth bwysig ar gyfer twristiaeth, buddsoddiad a chymunedau ac mae angen eu diogelu a lle y bo'n briodol, eu gwella drwy'r Cynllun Datblygu Lleol Gwledig (CDLlG). Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ganolbwynt i ddiwylliant a chymeriad Conwy, yn adrodd ein hanes drwy adeiladau, strwythurau, parciau, gerddi a thirweddau a chyfrannu at ein hymdeimlad o le a'n hunaniaeth. Mae'n gwella ansawdd ein bywydau, ein llesiant yn gyffredinol ac mae'n ychwanegu at hynodrwydd rhanbarthol lleol ac mae'n ased economaidd a chymdeithasol pwysig y dylid ei ddiogelu i genedlaethau'r dyfodol ei brofi a'i fwynhau.

5.4.3 Mae papur o'r enw 'Pwysigrwydd Treftadaeth/Heritage Counts' a gyhoeddwyd gan y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn mesur



effaith a dylanwad y sector treftadaeth yng Nghymru. Amcangyfrifir bod y sector treftadaeth yn cynhyrchu £963 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn ac mae'n cefnogi mwy na 40,500 o swyddi.

5.4.4 Yn ogystal, mae llawer o bobl yng Nghymru'n cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n bodoli'n anuniongyrchol i'r sector treftadaeth – er enghraifft, y nifer fawr o bobl sy'n gweithio mewn gwestai a bwytai sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr i Gymru sy'n ymweld yn bennaf i gael profiad o dreftadaeth. Mae'r papur hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod 43% o swyddi'r diwydiant adeiladu yng Nghymru (26,340 o bobl) ym maes cadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau traddodiadol sydd wedi'u hadeiladu cyn 1919. Mae Pwysigrwydd Treftadaeth/Heritage Counts yn rhoi gwerth treftadaeth mewn termau mesuradwy ac yn dangos pa mor werthfawr yw'r amgylchedd hanesyddol i'r economi a'r sectorau twristiaeth ac addysg.

5.4.5 Yn ardal awdurdod cynllunio lleol Conwy mae 162 o Henebion Cofrestredig, 1735 o Adeiladau Rhestredig, y mae 29 ohonynt wedi'u rhestru fe adeiladau Gradd I, 1610 fel Gradd 2 a 96 fel Gradd 2*, a 24 Ardal Gadwraeth. Bydd y CDLlG yn cefnogi ymdrechion i warchod a gwella pob ased treftadaeth sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol, ac yn ystyried effaith datblygiad o fewn eu lleoliadau. Mae'r asedau treftadaeth a nodwyd yn elwa ar ddiogelwch statudol, ac mae'n rhaid ystyried hyn o fewn polisïau, cynigion a chanllawiau yn y CDLlG.

5.4.6 Mae Castell Conwy wedi'i ddynodi fel Safle Treftadaeth y Byd. Mae UNESCO o'r farn bod Castell Conwy yn "un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol o ddiwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop." Mae Cadw wedi cynhyrchu Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd sydd wedi'i gymeradwyo fel Canllaw Cynllunio Atodol gan Gyngor Conwy a bydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r Adolygiad CDLl hwn.

5.4.7 Mae ardal CBSC yn cynnwys amrediad o asedau treftadaeth dynodedig, ac mae angen gwarchod pob un ohonynt yn briodol rhag effeithiau ar eu hintegredd a'u lleoliad. Dylid gwarchod a diogelu eu cyfraniad i ardal CBSC ac yn arbennig Tref Conwy (tref sydd wedi'i lleoli o fewn safle treftadaeth y byd) a lle y bo'n briodol, eu gwella i annog twristiaeth yn yr ardal.

5.4.8 Mae statud a chanllawiau cynllunio cenedlaethol wedi newid yn sylweddol ers mabwysiadu'r CDLl blaenorol gyda chyflwyniad Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Er enghraifft, mae gofyniad i wneud defnydd o Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol, cynnal Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer datblygiadau sy'n galw am Ganiatâd Ardal Gadwraeth neu Adeilad Rhestredig a chynhyrchu datganiadau i gyd-fynd â cheisiadau o'r fath. Gallai hyn fod yn berthnasol hefyd pan fydd cynigion datblygu yn cael effaith ar leoliad ased treftadaeth. Mae Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig neu Adeiladau a Strwythurau O Ddiddordeb Lleol (BSLl) fel y cyfeirir atynt yn CDLl Conwy (2007-2022) yn faes arall sy'n newydd i'r canllawiau cenedlaethol, yn ogystal â'r polisi ar sail meini prawf ar Alluogi Datblygiad. Bydd yr ychwanegiadau diweddaraf hyn i'r polisi cenedlaethol yn cael effaith ar bolisïau blaenorol y CDLl CTh/3 a CTh/4 a fydd yn cael eu trafod yn y polisi strategol a'r CDLlG Adneuo.

5.4.9 **Cyflawni'r Polisi Gwrthrychol a Strategol**

Cynhyrchwyd y Canllaw Cynllunio Atodol o dan CDG blaenorol Conwy (2007-2022) i lywio'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau a phartïon eraill â diddordeb ar y pwnc o ddatblygu mewn



Ardaloedd Cadwraeth yn gyffredinol a Chynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth sy'n gysylltiedig â lleoliadau penodol, er enghraifft Llandudno, Tref Conwy, Bae Colwyn a Llaneilian. Bydd y dull hwn yn parhau ar ôl mabwysiadu'r CDLlG gyda'r cynlluniau rheoli presennol yn cael eu diweddaru ac mae cynlluniau rheoli'n cael eu cynhyrchu ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth eraill sy'n weddill.

5.4.10 Mae UNESCO (Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Rheoli gael ei baratoi i lywio datblygiad Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n cyfaddawdu cestyll a waliau Edward I yng Nghonwy, Caernarfon, Harlech a Biwmares. Mae Cynllun Rheoli wedi'i baratoi sy'n cynnwys clustogfa benodedig y bwriedir iddi ddiogelu lleoliad Safle Treftadaeth y Byd Conwy. Mabwysiadwyd hyn gan CBSC fel Canllaw Cynllunio Atodol ym mis Ebrill 2018. Bwriedir i fap cynigion y CDLlG gynnwys y ffiniau diwygiedig ar gyfer y glustogfa, fel y'i dangosir yn y Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2018 (CDLl 2007-2022).

5.4.11 Yn nhermau galluogi cynlluniau, dim ond cyfeiriad at adeiladau sy'n cyd-fynd â chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol a geir yn y CDLl (2007-2022), dylai gwmpasu asedau treftadaeth yn gyffredinol. Ni fydd y CDLlG Adneuo yn ceisio ailadrodd y meini prawf a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru ar Alluogi Datblygiadau, ond oherwydd natur gymhleth cynlluniau galluogi, bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu diweddaru yn unol â'r Polisi Strategol i gynorthwyo ymgeiswyr i ddehongli polisi ar lefel leol.

5.4.12 Cynhaliwyd arolwg o adeiladau rhestredig yn 2016 a oedd yn nodi'r adeiladau rhestredig sydd mewn perygl. Bydd y rhestr "Mewn Perygl" yn darparu'r sail ar gyfer creu cynllun gweithredu. Rhoddir blaenoriaeth i adeiladau yn seiliedig ar y drefn y gellir cymryd camau gweithredu effeithiol a graddau'r camau gweithredu sydd eu hangen. Rhoddir ystyriaeth i sgorau risg, gradd adeilad, cyfraddau dirywiad, cynlluniau a fydd yn creu budd cymunedol, lleoliad, anheddau gwag mewn ardaloedd sydd wedi'u targedu i'w hadnewyddu, arwyddocâd eiddo a'i gyfraniad i'r treflun a pha mor rhwydd fydd cyflawni canlyniad cadarnhaol. Mae Cadw wedi cynhyrchu cyfres o nodiadau canllaw sy'n darparu cyngor defnyddiol i berchenogion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er enghraifft, 'Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig' a 'Rheoli Adeiladau Rhestredig mewn Perygl yng Nghymru.'

5.4.13 Mae henebion rhestredig yn safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n cael eu diogelu gan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. Mae 155 heneb restredig yn ardal gynllunio Conwy ac mae rhestr o'r rhain ar gael ar Archwilio. Effaith rhestru yw bod cynigion i ddifrodi, dymchwel, symud, atgyweirio, newid, ychwanegu at, boddi neu orchuddio heneb restredig yn galw am ganiatâd heneb restredig, yn ychwanegol at y gofyniad caniatâd cynllunio.

5.4.14 Bydd cofrestr o Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol yn cael ei llunio a'i chynnal. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gynhyrchu, a fydd yn cynnwys meini prawf manwl ar gyfer asesu a chynnwys asedau o'r fath ar y gofrestr.

5.4.15 O ran datblygiad sy'n cael effaith ar leoliad asedau treftadaeth, dylid dilyn canllaw a gynhyrchwyd gan Cadw o'r enw 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru', yn unol â'r Polisi Strategol.



## 5.5 Adfywio drwy Ddiwylliant

5.5.1 **Amcan Strategol 1 (SO1):** Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.

***Polisi Strategol 22: Adfywio drwy Ddiwylliant***

**Polisi Strategol 22 (SP/22): Adfywio drwy Ddiwylliant**

Bydd cynigion sy'n codi o, neu'n cyd-fynd â, mentrau adfywio sy'n ceisio cadw, gwella a chefnogi asedau diwylliannol a hunaniaeth lle yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

5.5.2 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn nodi pwysigrwydd cynnal nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i le, yn ogystal â bod yn annhebyg i unrhyw le arall. Dylid nodi a gwerthfawrogi asedau diwylliannol o'r fath ac ymdeimlad o le pan ddaw i gynllunio defnydd tir. Yn wir, bodolaeth y nodweddion hyn sydd yn aml yn 'ychwanegu gwerth' at ardal ac yn ei gwneud yn lle deniadol a diddorol i fyw, gweithio ac ymweld. Gyda hyn mewn golwg, dylid cefnogi cynigion adfywio sydd yn benodol yn ceisio cefnogi a gwella asedau diwylliannol a meithrin ymdeimlad o le mewn egwyddor.

5.5.3 **Cyflawni'r Amcan a Pholisi Strategol**

Mae sawl menter strategol yn seiliedig ar ddiwylliant ar waith ar draws Sir Conwy a bydd rhai ohonynt yn effeithio ar faterion yn ymwneud â chynllunio defnydd tir. Enghraifft o brosiect a gwblhawyd yn ddiweddar yw CET Bae Colwyn (Cynllun Etifeddiaeth Trefwedd) sydd wedi chwarae rhan bwysig wrth wella amgylchedd adeiledig canol tref Bae Colwyn. Mae rhai cynlluniau eraill yn cynnwys y prosiect Lleoedd Gwych, 'Dychmygu Bae Colwyn', a fydd yn gweithio i sicrhau safle Bae Colwyn fel canolbwynt diwylliannol ar gyfer y sir, Cynllun Buddsoddi Canol Tref Bae Colwyn sy'n canolbwyntio ar fesurau a fydd yn cynorthwyo ag adfywio canol tref Bae Colwyn, y prosiect 'Lleoedd Coll' a ddarperir gan y Cwmni Buddiannau Cymunedol, Culture Action Llandudno, sy'n ceisio adfywio a datblygu lleoedd ac adeiladau diffaith i hwyluso rhaglenni diwylliannol, prosiectau parhau yn gysylltiedig â Venue Cymru, sefydlu Canolfan Ddiwylliant newydd yn Nhref Conwy a chreu Fforwm Treftadaeth Wledig.

5.5.4 Mae'r Cyngor wrthi'n llunio briff ar gyfer Strategaeth Ddiwylliannol ar draws y sir a fydd yn ehangu mynediad at



ddiwylliant a’i fanteision hysbys ar draws y sir gyfan. Bydd y briff yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol i gryfhau eu hunaniaeth, yn cynnwys Tref Conwy - Safle Treftadaeth y Byd UNESCO a lleoliad y Ganolfan Ddiwylliant newydd ddatblygedig ym Mae Colwyn – lleoliad y ganolfan newydd ar gyfer y diwydiant creadigol a Chynllun Lleoedd Gwych Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Llanrwst – canolfan wledig ar gyfer y sir a phorth i Barc Cenedlaethol Eryri a Llandudno– twristiaeth arfordirol a chanolfan fanwerthu.

5.5.5 Bydd y Cyngor yn ceisio cefnogi datblygiadau sy’n rhan o’r mentrau hyn a mentrau adfywio eraill yn gysylltiedig â defnydd tir a chydymffurfio â pholisïau eraill yn y CDLlN.



## 5.6 Seilwaith Gwyrdd

5.6.1 **Amcan Strategol 6 (SO6):** Darparu datblygu cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd drwy ehangu'r dewis o drafnidiaeth gynaliadwy er mwyn rhoi mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol i gymunedau Conwy, drwy hybu rhwydwaith o lwybrau byrrach, mwy llesol ac effeithlon ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, maint, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiadau newydd.

***Polisi Strategol 23: Seilwaith Gwyrdd***

**Polisi Strategol 23 (SP/23): Seilwaith Gwyrdd**

Bydd Conwy yn cynnig dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth drwy lunio Asesiad Seilwaith Gwyrdd ac Asesiadau Llesiant drwy ddefnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes, a'r wybodaeth orau sydd ar gael, i ddatblygu adnodd tystiolaeth integredig ar ffurf map. Bydd gwneud hynny'n hwyluso dull rhagweithiol ac yn galluogi'r cyfraniad mwyaf posib at nodau llesiant, teithio egnïol a bioamrywiaeth.

5.6.2 Seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd a chyrff dŵr sy'n gwasgaru a chysylltu lleoedd. Gall cydrannau'r seilwaith gwyrdd weithredu ar raddfeydd gwahanol. Ar raddfa'r dirwedd, gall seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan, fel gwlyptiroedd, dyfrffyrdd a chadwynau o fynyddoedd. Ar raddfa leol, gall gynnwys parciau, caeau, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi. Ar raddfa lai, gall ymyraethau unigol mewn trefi, fel coed stryd, perthi, ymylon ffyrdd a thoeau/waliau gwyrdd oll gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd.

5.6.3 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cyd-destun ar gyfer cyflwyno seilwaith gwyrdd amlbwrpas. Mae darparu seilwaith gwyrdd yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn arbennig at gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o ran yr amrywiaeth o ecosystemau ac o fewn ecosystemau a hyd a lled, cyflwr a chysylltedd ecosystemau a'u gallu i addasu. Mae hyn yn golygu bod datblygu seilwaith gwyrdd yn ffordd bwysig i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd adran 6.

5.6.4 Bydd Conwy yn cynnig dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth drwy lunio Asesiad Seilwaith Gwyrdd fydd yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth a ddarperir mewn Datganiadau Ardal ac Asesiadau Llesiant, ac a fydd wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau datblygu. Drwy hynny bydd modd sicrhau ystyriaeth fuan a chydlynol o gyfleoedd i lywio strategaethau datblygu a dylunio, a strategaethau yn gysylltiedig â'r cynllun.



5.6.5 Bydd yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu dull cadarn o wella bioamrywiaeth, cynyddu cydnerthedd ecolegol a gwella canlyniadau llesiant, ac yn nodi cyfleoedd strategol allweddol lle bydd adfer, cynnal, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn sicrhau'r manteision mwyaf sylweddol.

5.6.6 Bydd yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd hefyd yn cael ei ystyried yn gynnar mewn cynigion datblygu, ac yn llywio'r gweithrediad prosiectau. Bydd y CDLlN yn annog rheolaeth briodol o nodweddion y dirwedd sy'n bwysig i fioamrywiaeth er mwyn ategu a gwella cydlyniant ecolegol rhwydwaith Natura 2000.



## 5.7 Bioamrywiaeth

5.7.1 **Amcan Strategol 14 (SO14):** Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn.

***Polisi Strategol 24: Bioamrywiaeth***

> **Polisi Strategol 24 (SP/24): Bioamrywiaeth**
>
> Dylid gwyrdroi colledion bioamrywiaeth, lleihau llygredd, mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol a gwella cydnerthedd ecosystemau'n gyffredinol. Pan gynigir datblygiad priodol, mae'n rhaid ei ddatblygu mewn ffordd integredig i sicrhau bod materion cyffredin yn cael eu hystyried a'u datrys ar ddechrau'r broses o lunio cynllun neu gynnig unigol a bod manteision lluosog fel seilwaith gwyrdd, yn cael eu sicrhau.

5.7.2 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch yn ymwneud â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd adran 6). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru a bydd yn helpu i sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl at gyflawni nodau llesiant.

5.7.3 Mae'r Cynllun Adfer Natur yn cefnogi'r gofyniad deddfwriaethol hwn i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd colli bioamrywiaeth drwy ganolbwyntio ar natur wrth wneud penderfyniadau a chynyddu cydnerthedd ecosystemau drwy gymryd camau penodol sy'n canolbwyntio ar yr amcanion ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Mae gan y system gynllunio rôl allweddol o ran helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu cydnerthedd ecosystemau, ar wahanol raddfeydd, drwy sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i ddiogelu rhag colled a sicrhau gwelliant.

5.7.4 Bydd y strategaethau, polisïau'r CDLlN a chynigion datblygu yn ystyried yr angen i:

- gefnogi cadwraeth bioamrywiaeth, yn enwedig cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd;
- sicrhau bod gweithredu yng Nghymru'n cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd;
- sicrhau bod safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol;
- diogelu rhywogaethau gwarchodedig a blaenoriaeth ac asedau bioamrywiaeth sy'n bodoli'n barod rhag effeithiau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu buddiannau cadwraeth natur ac yn amharu ar gydnerthedd rhwydweithiau ecolegol a'r cydrannau sy'n sail iddynt, fel dŵr a phridd, gan gynnwys mawn; a



- datblygu a gwella cydnerthedd ecosystemau drwy wella amrywiaeth, cyflwr, maint a chysylltedd rhwydweithiau ecolegol.

5.7.5 **Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Dyletswydd Adran 6)**

Mae'r Cyngor yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hynny'n golygu na ddylai datblygu arwain at golled fawr i gynefinoedd na phoblogaethau o rywogaeth, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddo esgor ar fanteision net i fioamrywiaeth. Wrth wneud, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau hefyd, a'r agweddau canlynol yn arbennig:

- amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
- y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;
- graddfa ecosystemau;
- cyflwr ecosystemau (yn cynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); a
- gallu ecosystemau i ymaddasu.

5.7.6 Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cyngor yn rhoi sylw i'r canlynol:

- y rhestr o gynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf i Gymru, a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, a gyhoeddir gan CNC;
- unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n cwmpasu'r cyfan neu ran o'r ardal lle mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau. Bydd Datganiadau Ardal yn cael eu llunio gan CNC a fydd hefyd yn llywio'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd.

5.7.7 **Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth**

Bydd Conwy'n dilyn dull fesul cam o gynnal a gwella bioamrywiaeth a meithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth drwy sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn cael eu hosgoi yn y lle cyntaf, yna eu lleihau a'u lliniaru, ac fel ateb olaf, eu digolledu; rhaid darparu gwelliannau lle medrir.

1. Yn gyntaf, bydd Conwy yn ceisio osgoi difrod i fioamrywiaeth a gallu'r ecosystem i weithio.
2. Os gallai fod yna effeithiau amgylcheddol andwyol, bydd angen i'r Cyngor a chyrff cydweithredol fod yn fodlon bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i safleoedd amgen rhesymol a fyddai'n achosi llai o ddifrod, dim difrod neu welliant. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod nodweddion ac elfennau o werth i fioamrywiaeth neu'r seilwaith gwyrdd yn cael eu cadw ar y safle, a'u gwella neu eu creu lle bo'n bosibl, drwy fabwysiadu arferion gorau wrth ddylunio safleoedd ac egwyddorion seilwaith gwyrdd. Bydd darparu gwybodaeth gyfoes o arolygon ecolegol yn helpu'r broses.
3. Os oes angen, bydd y Cyngor yn ceisio addasu'r cynnig datblygu drwy drafod â'r ymgeisydd.

5.7.8 Dylai addasiadau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd roi sylw i'r materion a'r cyfleoedd a nodwyd drwy'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd.



5.7.9 Bydd y Cyngor yn gwarchod perthi, grwpiau o goed/llwyni ac ardaloedd o goetir lle mae iddynt werth ecolegol, lle maent yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal leol arbennig, neu lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol sydd wedi'i glustnodi i'r seilwaith gwyrdd.

5.7.10 Bydd y Cyngor yn ystyried pwysigrwydd coetiroedd brodorol a choed o werth, ac yn rhoi sylw i'r CCA. Ni chaniateir cael gwared ar goetir yn barhaol oni fydd hynny'n sicrhau buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chlir. Lle ceir gwared ar goetir neu goed fel rhan o gynllun arfaethedig, bydd disgwyl i ddatblygwr blannu coed yn eu lle, fel y cytunir â'r Cyngor.

5.7.11 Mae coetiroedd hynafol a choetiroedd lled-naturiol a choed hynafol, aeddfed a threftadaeth unigol yn adnoddau naturiol na ellir mo'u hadfer, ac maent yn werthfawr o ran tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliant. Caiff coed a choetiroedd eu gwarchod rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu eu dirywio oni bai bod buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chlir o wneud hynny; dylai'r mesurau gwarchod hyn atal gweithrediadau a allai achosi difrod a cholled ddiangen. Yn achos safle sydd wedi'i gofnodi ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol, dylai awdurdodau ystyried barn CNC. Bydd yr asedau hyn wedi'u mapio yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd.

5.7.12 **Safleoedd Dynodedig**

Mae safleoedd dynodedig statudol yng Nghonwy yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddiogelu bioamrywiaeth ac yn gallu bod yn bwysig o ran darparu cyfleoedd i gyflawni amcanion llesiant ehangach.

5.7.13 Mae'r CDLlN yn rhoi sylw i arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried faint o bwys i'w roi ar fuddiannau gwarchod natur. Mae canllawiau pellach, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd Natura 2000, wedi'u cynnwys yn TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio. Dylai'r rhesymau sy'n ategu'r dynodiad ar bob lefel ac amlinelliad o nodweddion cymwys y dynodiad gael eu cofnodi'n glir fel rhan o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd a'u hystyried yn y CDLlN wrth ddylunio cynigion datblygu newydd ac mewn penderfyniadau rheoli datblygu yn y dyfodol. Dylid gwahaniaethu rhwng arwyddocâd cymharol y dynodiad o fewn yr hierarchaeth wrth ystyried faint o bwysigrwydd i'w roi i fuddiannau cadwraeth natur.

**Gwarchod a Rheoli Safleoedd Dynodedig**

Bydd safleoedd â dynodiad statudol yn cael eu diogelu rhag difrod a dirywiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu gwarchod a'u gwella drwy reolaeth briodol. Bydd cyfleoedd i adfer rhwydweithiau cynefinoedd i gyflwr iach yn cael eu nodi o ganlyniad i gynnal Asesiad Seilwaith Gwyrdd, a bydd ymyriadau priodol yn cael eu nodi i sicrhau cyflawni yn erbyn yr agweddau ar gydnerthedd, amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr a gallu i ymaddasu.



*Tabl 7: Hierarchaeth Safleoedd Dynodedig*

| Haen | Enw | Safleoedd a Warchodir Drwy Statud/Heb Statud |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Ardal Cadwraeth Arbennig | Statudol |
| | Ardal Gwarchodaeth Arbennig | Statudol |
| | Safleoedd Ramsar | Statudol |
| | Gwarchodfa Biosffer UNESCO | Anstatudol |
| Cenedlaethol | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Statudol |
| | Gwarchodfa Natur Genedlaethol | Statudol |
| Lleol | Safleoedd o Bwys i Gadwraeth Natur | Anstatudol |
| | Gwarchodfa Natur Leol | Anstatudol |
| | Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol | Anstatudol |

5.7.14 **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**

Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad Hawliau Tramwy 2000, yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, i gymryd camau rhesymol, sy'n gyson â'r ffordd gywir o arfer eu swyddogaethau, i barhau i warchod a gwella'r nodweddion sy'n pennu bod SoDdGA o ddiddordeb arbennig. Gall SoDdGA gael ei ddifrodi gan ddatblygiadau y tu mewn i'w ffiniau neu gerllaw ac, mewn rhai achosion, gan ddatblygiadau sydd gryn bellter i ffwrdd. Ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o beri niwed i SoDdGA a dylid adlewyrchu'r rhagdybiaeth hon mewn ffordd briodol ym mholisïau'r CDLlN ac mewn penderfyniadau rheoli datblygu. At ddibenion cynllunio defnydd tir bydd SoDdGA arfaethedig yn cael ei drin yn yr un ffordd â SoDdGA dynodedig.



## 5.8 Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau

5.8.1 **Amcan Strategol 15 (SO15):** Lleihau faint y mae pobl a phethau'n dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwyso darparu datblygu a goleuadau i gadw pobl ac eiddo'n ddiogel â'r angen i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear o ran eu hansawdd a faint sydd ohonynt.

***Polisi Strategol 25: Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau***

**Polisi Strategol 25 (SP/25): Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau**

Bydd yr CDLl Newydd yn lleihau amlygiad i lygredd aer a sŵn, yn cydbwyso darpariaeth datblygiad a golau i wella diogelwch ac yn gwarchod a gwella amgylchedd y dŵr ac adnoddau dŵr gan gynnwys faint o ddŵr wyneb a dŵr daear a geir, a'i ansawdd.

5.8.2 **Adnabod Ansawdd Amgylcheddol Lleoedd: Dŵr a Risg Llifogydd**

Yn ogystal â bod yn ofyniad hanfodol i fyw, mae gwasanaethau dŵr sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cynnig ystod o fanteision a gwasanaethau i gymdeithas. Mae'r diwydiant dŵr ei hun yn ffynhonnell swyddi gwyrdd ac mae gwasanaethau dŵr yn cefnogi prosesau cynhyrchu ynni a bwyd, hamdden a thwristiaeth, ac yn cysylltu cartrefi a busnesau â'r rhwydweithiau seilwaith maent yn dibynnu arnynt. Yn ogystal, mae ecosystemau naturiol yn chwarae rhan bwysig i wella ansawdd dŵr a rheoli llifogydd. Ymgymerwr dŵr sydd fel arfer yn cyflenwi dŵr ond mae'n bosibl mai cyflenwadau dŵr preifat yw'r unig ddewis ymarferol mewn ardaloedd anghysbell.

5.8.3 **Datblygu a Chyflenwad Dŵr**

Ystyrir adnoddau ac ansawdd dŵr yn gynnar yn y broses o nodi tir i'w ddatblygu ac ailddatblygu, gan gydweithredu â Dŵr Cymru. Dylai gwarchod adnoddau dŵr fod yn seiliedig ar sicrhau defnydd cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n bosibl nad yw defnyddiau sy'n defnyddio llawer o ddŵr yn briodol mewn ardaloedd lle ceir prinder a chyfyngiadau ar ddŵr. Bydd datblygiad newydd yn cael ei leoli a'i weithredu gan roi ystyriaeth i ddarparu gwasanaethau dŵr cynaliadwy, gan ddefnyddio dulliau a thechnegau dylunio sy'n gwella effeithlonrwydd dŵr ac yn lleihau effeithiau andwyol ar adnoddau dŵr, yn cynnwys ecoleg afonydd, gwlyptiroedd a dŵr daear gan gyfrannu drwy hynny at gydnerthedd ecolegol.



5.8.4 **Capasiti'r Cyflenwad Dŵr a'r Seilwaith Carthffosiaeth/Draenio**

Bydd digonolrwydd y cyflenwad dŵr a’r seilwaith carthffosiaeth yn cael ei ystyried y llawn wrth gynnig datblygiadau yn y CDLIN, a hynny fel gwasanaeth dŵr ac oherwydd yr effeithiau y mae diffyg capasiti yn eu cael ar yr amgylchedd ac ar amwynderau. Mae gan y system gynllunio ran bwysig i’w chwarae o ran sicrhau bod y seilwaith mae cymunedau a busnesau’n dibynnu arno yn gallu ymdopi â datblygiad arfaethedig. Buom yn cydweithio â darparwyr gwasanaeth a CNC i drafod darpariaeth gwasanaeth, datblygiad a gwarchod dalgylchoedd dŵr.

5.8.5 **Ansawdd Dŵr a Llifogydd Dŵr Wyneb**

Mae cynnydd mewn dwysedd glawiad yn cyflwyno heriau i systemau draenio, gan achosi llifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig. Mae’r berthynas rhwng y gwahanol fathau o seilwaith draeniad yn gymhleth, er enghraifft, mae rhai draeniau priffordd yn cario dŵr wyneb o garthffosydd cyhoeddus ac mae peth seilwaith priffordd yn gollwng i garthffosydd cyhoeddus. Mae’n bwysig deall rôl gwahanol fathau o seilwaith wrth sicrhau’r dull gorau er mwyn osgoi llifogydd a llygredd gwasgaredig. Cafwyd cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau draenio, priffyrdd a chynllunio wrth lywio'r Strategaeth a'r CDLIN.

5.8.6 Mae llygredd gwasgaredig a llifogydd dŵr wyneb yn digwydd o ganlyniad i ddŵr ffo o wynebau adeiledig, gan gynnwys o fathau o ddatblygiadau allai lygru, carthion sy’n gollwng o garthffosydd gorlawn a seilwaith preifat, er enghraifft, tanciau septig. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau rheolaeth well ar ddraenio a dŵr wyneb er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn drwy:

- sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy yn cael eu hymgorffori mewn datblygiad fel bod modd rheoli dŵr wyneb yn ei darddiad neu gerllaw; a
- galluogi cysylltiad â’r garthffos mewn ardaloedd â charthffosydd a thrwy leihau cynnydd yn nifer y systemau carthion preifat.

5.8.7 **Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) a Datblygiad**

Bydd darparu SDC yn cael ei ystyried fel rhan annatod o ddyluniad datblygiad newydd a dylid ei ystyried cyn gynhared â phosibl wrth lunio cynigion ar gyfer datblygiad newydd. Wrth lywio datblygiad newydd, dylai’r system gynllunio sicrhau bod y mesurau’n cael eu hymgorffori o leiaf ar raddfa safle unigol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, er mwyn sicrhau manteision cronnus dros ardal ehangach. Daw cydymdrech fel hon â manteision dros y dalgylch cyfan. Ond ar lefel cynllun datblygu, daw manteision sylweddol o ddatblygu dulliau cydweithio sydd, gan ddefnyddio tystiolaeth asesiadau seilwaith gwyrdd, yn integreiddio SDC fel rhan o strategaethau twf ar gyfer ardaloedd neilltuol.

5.8.8 Mae angen cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) hefyd ar ddatblygiadau newydd o fwy nag un annedd neu waith adeiladu sy’n 100 metr sgwâr neu fwy, cyn y caiff y gwaith adeiladu ddechrau. Bydd angen i’r CCS gytuno ar y trefniadau mabwysiadu a rheoli, gan gynnwys y mecanwaith ariannu ar gyfer cynnal a chadw seilwaith SDC a holl elfennau’r draeniad, hynny fel rhan o’r gymeradwyaeth. Bydd hynny’n sicrhau bod seilwaith SDC yn cael ei gynnal a’i gadw’n briodol a’i fod yn gweithio’n effeithiol am ei oes.



5.8.9 **Yr Aer**

Mae aer glân a seinwedd briodol, yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol o le yn ogystal â bod yn angenrheidiol ar gyfer iechyd y cyhoedd, amwynder a llesiant. Maent yn ddangosyddion ar gyfer ansawdd yr amgylchedd lleol ac yn rhan annatod o le, a dylid eu gwarchod drwy gamau gweithredu ataliol neu ragweithiol drwy'r system gynllunio. Ar y llaw arall, gall llygredd sŵn a golau gael effeithiau negyddol ar bobl, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a dylid eu lleihau gymaint ag y medrir.

5.8.10 Nid yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn lefelau 'diogel' o lygredd aer. Yn hytrach maent yn cynrychioli trothwy pragmataidd, ac os ydynt yn cael eu croesi, mae'r llywodraeth o'r farn bod y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn annerbyniol. Nid yw aer sy'n cydymffurfio â'r amcanion hyn o drwch blewyn yn 'lân' ac mae'n peri risgiau iechyd hirdymor o hyd. Nid oes trothwy diogel wedi'i ddiffinio hyd yma ar gyfer nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol, sef y llygryddion sy'n destun y pryder mwyaf yn genedlaethol o safbwynt iechyd y cyhoedd, ac felly po isaf y crynodiad o'r llygryddion hynny, po isaf y risgiau o effeithiau iechyd andwyol.  Mae'n ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel ag sy'n bosibl.

5.8.11 Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghonwy. Mae'r holl waith monitro wedi dangos bod y lefel yn dal i gydymffurfio'n dda â'r Amcanion Ansawdd Aer Cenedlaethol, hyd yn oed yn agos at ardaloedd lle mae'r traffig ar ei brysuraf. Ni cheir unrhyw dargedau lleihau llygredd oherwydd hynny. Fodd bynnag, bydd Conwy yn parhau i ymrwymo i dargedau gwella ansawdd yr aer a datgarboneiddio a nodwyd yn yr adrannau ar Drafnidiaeth ac Ynni Adnewyddadwy. Mae'r adroddiad Ansawdd Aer diweddaraf ar gael ar wefan CBSC.

5.8.12 **Seinwedd**

Mae mathau problemus o sŵn yn cael eu profi fel llygredd sŵn a gallant effeithio ar amwynder a bod yn wael i iechyd neu'n niwsans. Mae cynlluniau gweithredu ar sŵn sy'n cael eu paratoi gan gyrff cyhoeddus yn ceisio atal a lleihau lefelau sŵn lle bo angen a diogelu ansawdd seinwedd lle mae'n dda.
Mae'r lefelau sŵn sy'n cael eu defnyddio i nodi ardaloedd â blaenoriaeth mewn cynlluniau gweithredu ar sŵn yn cael eu gosod yn eithaf uchel gan amlaf er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu clustnodi i'r ardaloedd mwyaf llygredig a rhaid i sŵn fodloni nifer o brofion cyn iddo gael ei gyfrif fel niwsans statudol. Serch hynny, gall lefelau is o sŵn, fod yn annifyr neu'n drafferthus ac effeithio ar amwynder a dylid diogelu rhagddynt felly trwy'r broses gynllunio lle bo angen. Rhaid i'r system gynllunio ddiogelu amwynder ac nid yw'n dderbyniol dibynnu ar niwsans statudol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i wneud hynny.

5.8.13 Wrth gynnig datblygiad newydd, bydd y Cyngor a datblygwyr, felly yn:

- mynd i'r afael ag unrhyw oblygiad sy'n deillio o ganlyniad i'w gysylltiad ag ardaloedd rheoli ansawdd aer, ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ar sŵn, neu ardaloedd lle ceir synwyryddion synhwyrol;
- peidio â chreu ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael a llygredd sŵn;



- ceisio ymgorffori mesurau sy'n lleihau cysylltiad cyffredinol â llygredd aer a sŵn a chreu seinweddau priodol.

5.8.14 **Golau**

Mae angen cydbwyso darparu golau i wella diogelwch er mwyn helpu i atal trosedd ac i alluogi gweithgareddau fel chwaraeon a hamdden i gael eu cynnal gyda'r angen i:

- warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol yn cynnwys bywyd gwyllt a nodweddion yr amgylchedd naturiol fel llonyddwch;
- cadw awyr dywyll lle bo'n briodol;
- atal golau llachar a pharchu amwynder y defnyddiau tir cyfagos; a
- lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â goleuadau.

5.8.15 Ceir Gwarchodfa Awyr Dywyll yn Eryri, ond nid yw'r warchodfa honno oddi mewn i Ardal y Cynllun, nac yn gyfagos â hi. Fodd bynnag drwy'r ASG, bydd Conwy yn asesu nodweddion economaidd ac amgylcheddol ardaloedd awyr dywyll yn ardal y cynllun, a bydd y CDLlN yn cyflwyno polisïau er mwyn ystyried cynigion datblygu unigol.



## 5.9 Llifogydd

5.9.1 **Amcan Strategol 13 (SO13):** Cefnogi cyfleoedd twf, adfywio a datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol ond, ar yr un pryd, bod yn ymwybodol ac ymatebol i'r heriau sy'n dod oddi wrth bwysau naturiol.

***Polisi Strategol 26: Llifogydd***

**Polisi Strategol 26 (SP/26): Llifogydd**

Bod yn ymatebol yn fyd-eang drwy sicrhau amddiffyniad tymor hir ac addasu i berygl llifogydd yn ogystal â dileu risg yn unol â chanllawiau cenedlaethol, tra'n cyflawni nodau ehangach o ran tirwedd, cynefinoedd, ansawdd aer, bioamrywiaeth a theithio cynaliadwy. Dylai datblygiad newydd leihau, a rhaid iddo beidio â chynyddu, perygl llifogydd sy'n codi o afonydd a/neu lifogydd arfordirol ar y safle datblygu ei hun ac oddi arno.

Amddiffyn y gorlifdir sydd heb ei ddatblygu neu heb ei rwystro rhag datblygu ddylai gael blaenoriaeth, yn ogystal ag atal effeithiau cronnus datblygiad cynyddrannol.

5.9.2 **Cefndir**

Mae Cymunedau Cydlynus yn cael eu cynnal a'u creu drwy ddarparu lleoedd i bobl ryngweithio a chynnal gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys mannau hamdden, chwarae, tyfu bwyd a chyfleoedd i gysylltu â natur. Mae llygredd neu beryglon fel llifogydd yn cael eu lliniaru neu eu hosgoi ac yn seiliedig ar wneud y gorau o gyfleoedd i gymunedau ffynnu a gwneud gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol mewn amgylchedd iach, deniadol a dymunol.

5.9.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i addasu i effeithiau newid hinsawdd. Mae'r cyfuniad o gynhesu byd-eang sydd eisoes wedi digwydd, ynghyd â chynhesu ychwanegol, fel y rhagwelir gan y dystiolaeth newid hinsawdd ddiweddaraf, yn golygu bod yna effeithiau sylweddol posibl ar gyfer Conwy a Chymru o ran ymaddasu. Mae'r heriau'n cynnwys peryglon llifogydd a newid arfordirol i gymunedau, busnesau a seilwaith; peryglon i iechyd, lles a chynhyrchiant oherwydd tymereddau uchel; perygl prinder dŵr yn y cyflenwad dŵr cyhoeddus, amaethyddiaeth, cynhyrchiad a diwydiant ynni, a pheryglon i bridd, bioamrywiaeth a chynefinoedd daearol, arfordirol, morol a dŵr croyw.

5.9.4 Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar gymeriad y dirwedd, adeiladau hanesyddol, hynodrwydd ac ansawdd lleol, yn uniongyrchol drwy newid yn y tir, cynefinoedd a rhywogaethau, ac yn anuniongyrchol drwy benderfyniadau dylanwadol o ran defnydd tir.

5.9.5 Cymerir ymagwedd ar y cyd mewn perthynas â materion sy'n croesi ffiniau gweinyddol, fel cymryd ymagwedd dalgylch tuag at berygl llifogydd lle mae gan weithrediadau ar draws dalgylch oblygiadau mewn gwahanol leoliadau a gwahanol raddfeydd.



5.9.6 Gall mynd i'r afael â pherygl llifogydd fel rhan o ymagwedd integredig tuag at ddileu risg fod yn ddefnyddiol lle mae rheidrwydd cryf i gyflawni potensial adfywio ardal. Gall hyn gynnwys ystyried opsiynau adleoli o fewn Cyfnod y Cynllun a thu hwnt iddo.

5.9.7 **Datblygiad ar yr Arfordir**

Ni ddylid cynnig datblygiad mewn lleoliadau arfordirol fel arfer oni bai bod angen iddo fod ar yr arfordir. Yn arbennig, anaml y bydd ardaloedd arfordirol heb eu datblygu yn lleoliad priodol ar gyfer datblygu. Pan fydd angen lleoliad arfordirol ar ddatblygiadau newydd, fel arfer, ardaloedd arfordirol datblygedig fydd yr opsiwn gorau, ar yr amod bod materion sy'n gysylltiedig â newid arfordirol wedi cael eu hystyried. Mae materion o'r fath yn cynnwys peryglon erydiad, llifogydd, ansefydlogrwydd tir, a'r dulliau dewisol o fynd i'r afael â pheryglon o'r fath, ac effeithiau ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol.

5.9.8 Efallai na fydd ffurfiau datblygu dros dro yn cael effeithiau andwyol ar nodweddion arfordirol neu newid arfordirol ond eto'n cynnig cyfle i hwyluso gweithgareddau sy'n seiliedig ar dwristiaeth. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus i sicrhau y gellir rheoli peryglon fel llifogydd yn dderbyniol, yn enwedig ar gyfer defnyddiau sensitif lle gall deiliaid ddisgwyl fod yn ddiogel rhag peryglon arfordirol.

5.9.9 Gallai'r posibilrwydd o wrthdaro godi lle gallai effeithiau codiad a datblygiad lefel y môr, gan gynnwys gweithdrefnau rheoli'r arfordir, effeithio ar gynefinoedd rhynglanwol neu asedau hanesyddol. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i gadw gwydnwch amgylcheddau o'r fath fel rhan o waith paratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

5.9.10 Cymerir canllawiau drwy weithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ar faterion safle penodol yn ogystal â gwybodaeth a ddarperir yn y canlynol:

- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2011[13]:
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010[14]
- Nodyn Cyngor Technegol 15.

5.9.11 **Dynodiadau a dylanwadau eraill**

Mae ffactorau eraill yn effeithio ar sut mae perygl llifogydd a'i newidiadau rheoli yn cael eu trafod mewn Penodau eraill, ac yn cynnwys:

- Gwarchod **Tirwedd** ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig a nodweddion tirwedd pwysig eraill.
- **Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol.**
- **Safleoedd wedi'u Dynodi**, yn arbennig mewn perthynas â safleoedd Natura 2000, wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 5: Gwarchod Natur a Chynllunio.
- **Ardaloedd Arfordirol a Newid Arfordirol**
- **Dŵr a Pherygl Llifogydd**
- **Isadeiledd Trafnidiaeth a Theithio Llesol**

13 www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/%3Flang%3Den

14 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents



# Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae'r thema Llefydd Ffyniannus yn ymdrin â chyfansoddion economaidd wrth greu lleoedd yng Nghonwy. Mae’r cyfansoddion hyn yn cyd-fynd ag adrannau Strategol eraill, sydd yn dod ynghyd i greu mannau cynaliadwy yng Nghonwy.

6.1.2 Mae’r llefydd hyn yn hyrwyddo ein lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy ddarparu cyflogaeth gysylltiedig a datblygiad economaidd cynaliadwy. Bydd y llefydd hyn yn cael eu cynllunio a’u lleoli i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a mynd i’r afael â newid hinsawdd. Fe gyflawnir hyn trwy sicrhau ei bod yn hawdd cerdded a beicio; yn hygyrch ar gludiant cyhoeddus; lleihau’r defnydd o adnoddau na ellir ei adnewyddu; a defnyddio ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel. Mae’r adran hon yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer **Datblygu Economaidd, Twristiaeth, Yr Economi Wledig, Isadeiledd Cludiant, Telathrebu, Ynni a Mwynau a Gwastraff.**

## 6.2 Datblygu Economaidd

6.2.1 **Amcan Strategol 7 (SO7):** Cefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio drwy fanteisio ar sefyllfa strategol Conwy yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth holistig sy'n cyd-leoli twf cyflogaeth a thwf tai, a fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r math iawn mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn cefnogi clystyrau a rhwydweithiau busnes, yn cynyddu sgiliau mewn swyddi gwerth uchel ac yn darparu'r seilwaith newydd angenrheidiol. Bydd hyn yn hwyluso lleoli busnesau newydd yng Nghonwy a thwf y busnesau presennol.

***Polisi Strategol 27: Datblygu Economaidd***

**Polisi Strategol 27 (SP/27) Datblygu Economaidd**

Er mwyn helpu i ddarparu'r twf economaidd a ragwelir ar gyfer y Sir,  bydd y CDLl yn darparu rhwng 12 a 14 hectar o dir cyflogaeth ar sail rhaniad o 50% defnyddiau swyddfa B1 a defnyddiau swyddfa a 50% defnyddiau B1c/B2/B8. Bydd polisi'n seiliedig ar feini prawf yn ceisio diogelu'r safleoedd cyflogaeth dosbarth B presennol lle mae eu hangen i sicrhau cyflenwad digonol o dir cyflogaeth yn y lleoliadau iawn, yn unol â'r cyfarwyddyd yn y Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy.

6.2.2 Ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013, mae Sir Conwy wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd, a than hydref 2018 bu gostyngiad graddol mewn lefelau diweithdra, sydd ar y cyfan, yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Cyfradd y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra ar gyfer Chwefror 2019 oedd 3.1., sy'n sylweddol uwch na'r ffigyrau a welwyd dros y pedair blynedd diwethaf neu fwy. Mae'n adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol, hynny yw, bod cyfraddau hawlwyr yn cynyddu fesul mis ers hydref 2018. Ar hyn o bryd mae'r ffigwr cenedlaethol hefyd yn sylweddol uwch na chyfraddau Cymru a'r DU (2.7% a 2.6% yn y drefn honno), o bosibl oherwydd natur dymhorol patrymau cyflogaeth sy'n seiliedig ar dwristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. (ffynhonnell: AOC nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra). Fodd bynnag, mae cyfradd defnydd tir cyflogaeth wedi aros yn isel ar gyfartaledd o 1.2 ha y flwyddyn (cyfartaledd o 5 mlynedd).

6.2.3 Er bod cyfraddau gweithgarwch economaidd yn tueddu i godi, mae cyfanswm nifer y bobl sy'n economaidd weithgar yn fwy anwadal. Caiff hyn ei effeithio gan faint y boblogaeth o oed gweithio, ar hyn o bryd amcangyfrifir  bod canran y boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy sydd rhwng 16 a 64 oed yn ddim ond 56.6%, o'i gymharu â 61.5% yng Nghymru a 62.9% drwy Brydain. Mae hyn yn arwain at gymarebau dibyniaeth uchel – hynny yw, nifer y plant/pobl hŷn ar gyfer pob unigolyn o oed gweithio. Gall cyfrannau uchel o ddibynyddion yn y boblogaeth roi straen ar yr economi ac ar strwythur cymdeithasol y gymuned. Mae strwythur y boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy hefyd yn heneiddio ar gyfradd gyflymach na llawer o



weddill Cymru a'n cymdogion dros y ffin a bydd maint y boblogaeth sydd o oed gweithio yn dechrau gostwng yn y dyfodol agos oherwydd y garfan fawr o 'bobl a anwyd yn y cyfnod wedi'r rhyfel' yn gadael y gweithlu wrth iddynt gyrraedd oedran ymddeol. Mae gan hyn oblygiadau i'r farchnad lafur a allai ddechrau gael trafferth llenwi swyddi gwag yn y dyfodol.

6.2.4 Tra bod y farchnad lafur bresennol â lefel gymharol uchel o sgiliau ac wedi'i phrisio'n gystadleuol ar gyfer busnesau, mae lefelau cymharol wan o fusnesau sy'n cychwyn ac felly rhagwelir y bydd twf cyflogaeth yn y dyfodol yn aros ar yr un lefel. Felly mae economi Conwy'n wynebu nifer o gyfleoedd a heriau yn y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae nifer o brosiectau rhanbarthol arfaethedig fydd yn cael eu cyflwyno o fewn cyfnod y CDLlN a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau cyflogaeth a dylai ddenu mwy o bob o oed gweithio i'r ardal, fel Lagŵn Llanw Bae Colwyn, Sefydliad Uwch Weithgynhyrchu Glannau Dyfrdwy, Parc Gwyddoniaeth Menai, Parc Eco a Chanolfan Ynni Orthios, Parc Adfer a Chanolfan Ynni Wrecsam.

6.2.5 Mae strwythur cyflogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n wahanol i un Prydain yn gyffredinol[15]. Mae'r sylfaen gynhyrchu wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf i tua 3.5% o swyddi erbyn 2017, ac mae'n gwyro'n amlwg tuag at gyflogaeth yn y diwydiannau gwasanaeth (yn arbennig yn y sector cyhoeddus) a'r sector twristiaeth. Ym Mwrdeistref Sirol Conwy mae cyflogaeth yn y sectorau sgiliau uchel, cyflog uchel gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a gwasanaethau gweinyddu a chefnogi busnes yn gymharol isel, gan ddod i gyfanswm o ddim ond 13% o'r holl gyflogaeth o'i gymharu â 25% drwy Brydain yn gyffredinol.

6.2.6 Mae canrannau cyflogaeth yn y sectorau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd, a chelfyddydau, adloniant a hamdden yn uchel – cyfanswm o tua 32% o'r holl swyddi o'i gymharu â 21% yn genedlaethol. Y sectorau hyn yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o gynnwys cyflogaeth dymhorol, rhan amser neu ar gyflog isel.

6.2.7 Yn ôl adroddiad STEAM 2017 amcangyfrifir bod tua 9,950 o swyddi'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan y diwydiant twristiaeth a bod 2,350 o swyddi'n cael eu cefnogi'n anuniongyrchol gan dwristiaeth – cyfanswm o tua 12,300 o swyddi sy'n dod â £888 miliwn i'r economi bob blwyddyn.

6.2.8 Gan ddefnyddio'r Adolygiad Tir Cyflogaeth (2019) fel sylfaen dystiolaeth, mae'r Strategaeth Ddewisol hon yn ystyried Gweledigaeth Twf Economaidd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB). Mae'r weledigaeth yn cynnwys cysylltiadau â Phwerdy'r Gogledd (Gogledd Orllewin Lloegr) ac Iwerddon, gan amcangyfrif y bydd 120,000 o swyddi ychwanegol yn y rhanbarth erbyn 2035, gan gynyddu Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) i £20 biliwn. Cynllun ar wahân ond sy'n gysylltiedig â'r uchod yw 'Bargen Dwf' Gogledd Cymru sy'n gosod gweledigaeth i ranbarth Gogledd Cymru gyda'r nod o greu dros 5,000 o swyddi a denu buddsoddiad sector preifat hyd at £1 biliwn yn y rhanbarth yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Yn

[15] Ymholiad busnes blynyddol AOC a'r Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth, (NOMIS) – 2017 data a gyhoeddwyd Medi 2018.



benodol, mae'r fargen yn ceisio adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth yn y sectorau digidol ac uwch weithgynhyrchu, carbon isel, hybu twf busnesau ar ffurf Busnes Rhanbarthol a hybiau Technoleg Glyfar ac Arloesedd.

6.2.9 Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth wedi ystyried y newidiadau presennol a'r rhai a ragwelir yn yr amgylchedd economaidd ac yn nodi y bydd angen rhwng 12 a 21 hectar drwy Gonwy hyd at 2033. Mae hyn yn seiliedig ar nifer o senarios yn cynnwys rhagolygon y gweithlu, tueddiadau sectorau a chyfraddau defnyddio yn y gorffennol. Yn unol â'r opsiwn dewisol ar gyfer twf, dewiswyd y senario sy'n adlewyrchu tua 14 hectar gan ei fod yn ystyried rhagolygon Experian o ran twf swyddi ar gyfer yr ardal a phrosiectau twf rhanbarthol fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y 15 mlynedd nesaf.

6.2.10 Yn ôl y Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy (2017) mae gan Gonwy, yn gymharol, fwy o ofod swyddfeydd (a llai o safleoedd diwydiannol) na Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru, a Chymru'n gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r galw am safleoedd diwydiannol yn y Fwrdeistref Sirol yn fwy o lawer na'r cyflenwad oherwydd prinder safleoedd modern wedi'u hadeiladu'n bwrpasol rhwng 2000 a 5000 troedfedd sgwâr o ran maint.

6.2.11 Mae cefnogi'r economi gwledig yn hollbwysig, gan gydnabod yr effaith y gall gadael yr Undeb Ewropeaidd ei chael ar y galw am wahanol ddefnyddiau tir yn y wlad. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, caniateir hyblygrwydd ychwanegol i fusnesau gwledig os byddant yn ceisio ehangu eu gweithrediadau presennol. Bydd y dull yn unol â dilyniant ym mholisi EMP/3 yn cael ei gynnal i annog busnesau ymhellach i nodi safleoedd o fewn lleoliadau cynaliadwy.

6.2.12 Mae hyn yn cydnabod y bydd prosiectau datblygu a sectorau twf yng Nghonwy, a'r cylch, yn creu galw sylweddol am sgiliau. Yn yr Asesiad Anghenion Sgiliau (Papur Cefndir 20) adroddir ei bod/y bydd yn debygol y gwelir prinder o weithwyr adeiladu, peirianwyr (trydanol a mecanyddol), syrfewyr, rheolwyr prosiect ac arbenigwyr ecoleg yn gysylltiedig â phrosiectau arfaethedig yn Rhanbarth Gogledd Cymru o fewn y 15 mlynedd nesaf. Mae twristiaeth hefyd yn faes wedi'i bwysleisio ar gyfer twf o fewn Strategaeth Economaidd Conwy 2017-2027, mae'r angen am swyddi a sgiliau i gefnogi'r sector hwn yn debygol o gynyddu. I gloi, tra nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod angen darparu sefydliad Addysg Uwch newydd yng Nghonwy, mae lle i gynnal mwy o ddeialog rhwng darparwyr AU a CBSC i ystyried cyfleoedd i fynd i'r afael â'r bwlch mewn sgiliau.

6.2.13 **Darparu'r Nod a'r Polisi Strategol**

Yn Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy (ELR) 2019 ac Adroddiad Gyrwyr Economaidd Rhanbarthol ceir nifer o senarios ar gyfer twf economaidd hyd at 2033. Dewiswyd yr ail o'r senarios hyn yn yr ELR dan y teitl 'Policy On' (hefyd Opsiwn Twf 4 yn y Papur Opsiynau Twf) fel yr opsiwn dewisol. Mae'n casglu y byddai angen i Gonwy ddarparu ar gyfer tua 1800 o swyddi ychwanegol yn ystod cyfnod y CDLIN sy'n gyfystyr â thua 12-14 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer defnyddiau dosbarth B. Mae'r senario hwn yn ystyried effaith gyrwyr rhanbarthol ar gyfer twf fel Lagŵn Llanw Bae Colwyn, Sefydliad Uwch Weithgynhyrchu Glannau Dyfrdwy, Parc Gwyddoniaeth, Parc Eco a Chanolfan Ynni Orthios, Parc Adfer a Chanolfan Ynni Wrecsam ac mae'n



ystyried safleoedd wrth gefn. Mae’r ELR yn datgan, yn seiliedig ar sicrhau swyddi yn y diwydiannau hyn a’r cydbwysedd presennol o ran cyflenwad tir cyflogaeth, dylai dyraniadau a chyflenwad a danddefnyddir gael ei rannu 50% ar gyfer B1 gofod swyddfa a 50% ar gyfer defnydd B1c/B2/B8 Diwydiannol a Warysau. Yn ôl yr Asesiad o Farchnad Fasnachol Conwy, yn ddelfrydol, dylai tir cyflogaeth newydd gael ei leoli ar hyd y prif lwybr A55 traws-Ewropeaidd, a Mochdre, Cyffordd Llandudno, Conwy a Bae Cinmel fel lleoliadau poblogaidd. Mae Strategaeth Economaidd Conwy hefyd yn hybu’r defnydd o ganol trefi, er enghraifft Bae Colwyn a Llandudno fel prif ardaloedd ar gyfer twf cyflogaeth.

6.2.14 O ran faint o gyflenwad tai sydd yng Nghonwy, crynhowyd y canlyniadau o’r Cyflenwad o Dir Cyflogaeth yn Nhabl 8 isod:

***Tabl 8: Cyflenwad o Dir Cyflogaeth***

| Tir Cyflogaeth a Ddiogelwyd NYS* (Ha) | Safleoedd newydd/Safleoedd â chaniatâd cynllunio a cholli safleoedd i ddefnyddiau eraill (Hectar Net) | Stoc Wag Bresennol (Ha) | Dyraniadau CDLl heb eu datblygu (Ha) | Cyfanswm (ha) |
|---|---|---|---|---|
| 0.5 | 2.86 | 1.1 | 13.46 | 17.92 |
| | | Llai dad-ddyraniadau ** | (4.6) | |
| | | | | 13.32 |
| Twf a dargedir o’r ELR | | | | 14 |
| Swm y tir **newydd** sydd ei angen ar gyfer cyflogaeth yn y CDLlN | | | | **0.68** |

*Ac eithrio Tir Llwyd, Bae Cinmel.

** Mae’r ffigwr hwn yn seiliedig ar asesiad ansoddol rhagarweiniol o ddyraniadau CDLlN heb eu datblygu presennol. Cynhelir asesiad manylach fel rhan o’r ymarferiad asesu safleoedd wrth lunio’r CDLlN Adnau drafft.

6.2.15 Ar hyn o bryd yn nhermau meintiol mae 17.92 hectar o gyflenwad tir cyflogaeth sy’n cynnwys tir gwag dynodedig, caniatâd newydd, colledion, dyraniadau CDLl heb eu datblygu ac unedau gwag ar barciau busnes presennol. Fodd bynnag o ystyried asesiad ansoddol cychwynnol, mae hyn yn lleihau i



13.32 hectar sy'n golygu y bydd 0.68 hectar o dir newydd yn cael ei ddyrannu yn y CDLIN Adnau i ganiatáu dewis safle a math yn unol â'r Dadansoddiad o'r Farchnad Fasnachol. Cynhelir asesiad ansoddol manylach wrth i'r gwaith o asesu safleoedd ar gyfer y Cynllun Adnau gael ei wneud, a allai arwain at lai o gyflenwad tir a mwy o angen am dir ar gyfer dyraniadau newydd. Ar hyn o bryd mae Tir Llwyd wedi'i ddiogelu yn y CDLl ar gyfer defnydd cyflogaeth, ond o ystyried y cyfyngiadau sylweddol o ran risg llifogydd nid yw'r tir sydd ar ôl yn Nhir Llwyd wedi'i gynnwys fel cyflenwad.

6.2.16 Diogelir safleoedd cyflogaeth B1, B2, B8 dynodedig a phresennol (yn amodol ar feini prawf) rhag defnyddiau eraill oni bai y gellir dangos nad oedd galw mwyach am y defnydd presennol. Yn wir bydd defnydd mwy deallus o ofod swyddfa'n cael ei eirioli os nad oes galw mwyach am y stoc ar gyfer defnydd B1 traddodiadol yn unol â Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy. Tra bod angen diogelu tir cyflogaeth B1, B2, B8 lle y bo angen, cydnabyddir hefyd y gall defnyddiau eraill fel clinigau D1, gwasanaethau ariannol A2 a rhai defnyddiau hamdden sui generis fod â photensial i greu cyflogaeth, lle ystyrir nad oes angen defnydd dosbarth B mwyach, gallai defnyddiau eraill fod yn dderbyniol yn amodol ar bolisi'n seiliedig ar feini prawf.

**Safle Cyflogaeth / Defnydd Cymysg Strategol – De Ddwyrain Abergele**

Dyrennir tua 8.8 hectar o dir ar gyfer amrywiol gyflogaeth, manwerthu, man agored ac ysgol ar dir yn Ne Orllewin Abergele.

6.2.17 Dyrannwyd De Ddwyrain Abergele o fewn CDLl Conwy 2007 - 2022 fel safle defnydd cymysg. Cydnabyddir elfen gyflogaeth y safle hwn yn rhanbarthol fel safle cyflogaeth strategol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn eu dogfen dan y teitl 'Y Weledigaeth Dwf ar gyfer Economi Gogledd Cymru'. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn trafod gyda datblygwyr a pherchnogion tir i baratoi cynllun meistr ar gyfer y parseli o dir mwyaf gogleddol. Cedwir tua 4.7 hectar o dir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn y lleoliad hwn.

**Safleoedd Cyflogaeth**

Bydd dewis o safleoedd cyflogaeth yn cael eu darparu o fewn yr ardal drefol ar hyd yr arfordir i sicrhau canran y twf a nodir yn y Cynllun. Mabwysiadir dull yn unol â dilyniant wrth ystyried safleoedd cyflogaeth newydd heb eu dyrannu neu eu diogelu yn y CDLIN i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyfeirio i'r lleoliadau mwyaf priodol.

6.2.18 Bydd y CDLIN yn dyrannu safleoedd o fewn yr ardal drefol ar hyd yr arfordir i ddiwallu'r angen am dwf hyd at 2033. Bydd y safleoedd hyn yn cynnwys rhai o'r dyraniadau CDLl presennol (lle cynhaliwyd asesiad ansoddol ac yr ystyrir eu bod yn addas i'w cyflwyno i'r CDLIN) a dyraniadau newydd.



## 6.3 Twristiaeth

6.3.1 **Amcan Strategol 8 (SO8):** Annog a chefnogi darpariaeth twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol, wrth gydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau, cymunedau lleol a'r angen i ddiogelu amgylcheddau hanesyddol a naturiol.

***Polisi Strategol 28: Twristiaeth***

**Polisi Strategol 28 (SP/28): Twristiaeth**

Bydd ceisiadau ar gyfer datblygu Twristiaeth yn cael eu cefnogi cyn belled â'u bod mewn lleoliad priodol, yn cyfrannu at amrywiaeth a safon llety ac atyniadau, ac yn parchu ac yn gwarchod amgylchedd naturiol ac adeiledig cymunedau cyfagos.

6.3.2 Mae'r polisi strategol hwn yn gosod y fframwaith ar gyfer y dull polisi o fewn y CDLlN sy'n ddigon hyblyg ac ymatebol i alw'r farchnad dwristiaeth hyd ar 2033, gan geisio gwarchod cymunedau, tirwedd a threflun Conwy hefyd. Mae'r polisi strategol yn darparu'r cyd-destun trosfwaol gyda pholisïau manwl wedi eu paratoi ar gyfer cam y Cynllun Adneuo.

6.3.3 **Cyflawni'r Amcan a'r Polisi Strategol**

Mae twristiaeth yn elfen hanfodol o economi Conwy, yn cefnogi mwy na 12,000 o swyddi cyfwerth â llawn amser un ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan ddod a mwy na £800 miliwn o refeniw i economi'r Sir yn flynyddol ac atynnu 9.5 miliwn o ymwelwyr yn 2017 (data STEAM 2017).

6.3.4 Mae amrywiaeth eang o weithgareddau, cyfleusterau a mathau o ddatblygiadau yn y Sir ac mae'n hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl rhan o Gonwy. Gall twristiaeth fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd. Felly, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn annog datblygiad twristiaeth lle mae'n cyfrannu tuag at ddatblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiad cymdeithasol, wrth gydnabod anghenion ymwelwyr ac anghenion cymunedau lleol. Yn fwy diweddar mae Conwy wedi gweld twf mewn busnesau twristiaeth antur ac awyr agored sydd ar agor gydol y flwyddyn, sydd wedi golygu mwy o alw am amrywiaeth o lety gwyliau.

6.3.5 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 10, bydd y CDLlN yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o ansawdd da, sydd wedi eu lleoli a'u dylunio yn dda. Bydd yn ystyried maint a dosbarthiad cyffredinol atyniadau twristiaeth cyfredol ac arfaethedig ac yn caniatáu darparu datblygiadau sy'n ategu ei gilydd fel llety a mynediad mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar effeithiau amgylcheddol negyddol.

6.3.6 Mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn dilyn dyheadau Gweledigaeth Twf Economi Gogledd Cymru (Bwrdd Uchelgais



Economaidd Gogledd Cymru - 2016) o safbwynt twristiaeth, ac yn ceisio manteisio ar enw da'r ardal fel lle gyda safon byw gwych a chyrchfan twristiaeth antur fyd-enwog.

6.3.7 Mae Astudiaeth Twristiaeth Llandudno (2019) yn darparu adroddiad cynhwysfawr a dadansoddiad o sut mae twristiaeth yn effeithio ar brif gyrchfan Llandudno ac yn darparu data allweddol i helpu i ddatblygu llwybr o ran nifer a phatrymau ymwelwyr dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal mae'r adroddiad hwn yn ceisio galluogi'r holl fudd-ddeiliaid yn y dref i ddeall deinameg allweddol economi twristiaeth y dref a darparu amrywiaeth o opsiynau posib er mwyn helpu i ddatblygu'r cynnig twristiaeth yn Llandudno yn unol â dyheadau budd-ddeiliaid allweddol, trigolion, ymwelwyr, a'r Cyngor. Bydd ffocws hefyd yn cael ei roi ar y ddarpariaeth i dwristiaid yn ystod tymor y gaeaf.

6.3.8 Bydd angen i'r CDLIN sicrhau bod modd ateb y galw a ragwelir drwy ddyrannu tir ac / neu bolisïau rheoli priodol. Mewn cyd-destun Sirol, mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy ac Arolwg Stoc Gwelyau Conwy yn darparu tystiolaeth i ddeall mwy am faterion galw a chyflenwad, yn clustnodi blaenoriaethau ac yn asesu lefel gyfredol pob math o stoc a deiliadaeth llety gwyliau Conwy, a data tripiau. Mae'r papur Parthau Llety Gwyliau Cynradd (HAZs) hwn yn dadansoddi'r polisïau a'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer llety gwyliau yng nghanolfan dwristiaeth Llandudno. Caiff darpariaeth llety gwyliau yn yr Ardaloedd Llety Gwyliau Cynradd ei adolygu yn unol â'r polisïau sydd wedi'u sefydlu a thystiolaeth newydd a bydd canlyniadau'r arolwg yn llywio unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardaloedd hyn.

6.3.9 Mewn ardaloedd gwledig, mae datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn hanfodol o safbwynt darparu economi iach ac amrywiol ac mae angen ei ystyried yn ofalus yn y CDLIN. Bydd angen i ddatblygiadau twristiaeth mewn ardaloedd gwledig fod yn sensitif eu natur ac o faint cywir i'r amgylchedd lleol.

6.3.10 Yn yr ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd sef Pensarn, Towyn a Bae Cinmel, sydd â niferoedd uchel o lety mewn meysydd carafannau, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i warchod a gwella safleoedd o'r fath er mwyn cynnal lefelau stoc gwelyau a chynorthwyo'r economi leol.

6.3.11 Yr ardaloedd allweddol sydd angen mynd i'r afael a nhw yw:

**Twristiaeth Antur**

Bydd amcanion a pholisïau'r CDLIN yn parhau i gefnogi datblygiad ac addasiad amrywiaeth o atyniadau twristiaeth, mewn lleoliadau priodol, er mwyn cael amrywiaeth eang o weithgareddau yn yr ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.

6.3.12 Mae Twristiaeth Antur yn farchnad sy'n tyfu, gydag atyniadau newydd o fewn ac yn agos i Sir Conwy. Mae'r Awdurdod wedi cefnogi cynigion twristiaeth newydd fel Parc Snowdonia (Surf Snowdonia gynt) yn Nolgarrog. Mae Llywodraeth Cymru am hyrwyddo Cymru fel prif gyrchfan twristiaeth antur y byd, roedd 2016 yn Flwyddyn Antur ac mae themâu canlynol wedi eu cyhoeddi i hyrwyddo cryfderau mwyaf Cymru a sicrhau bod gweithgareddau, digwyddiadau ac atyniadau yn tynnu ar elfennau cryfaf y cynnig twristiaeth Cymreig. Mae atyniadau



twristiaeth antur cyffrous newydd a chyfredol sydd o fewn neu yn agos at Gonwy yn cynnwys:

- Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Plas y Brenin
- Adventure Parc Snowdonia, Dolgarrog
- Bounce Below a Zip World, Blaenau Ffestiniog
- Zip World, Bethesda
- Zip World Fforest, Betws y Coed
- Canolfan Beiciau Mynydd Antur Stiniog, Blaenau Ffestiniog

6.3.13 Mae Gogledd-Orllewin Cymru wedi gweld twf sylweddol mewn twristiaeth gweithgareddau dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n cael ei weld fel maes twf sylweddol posib o fewn Conwy. Yn ogystal â hynny mae twristiaeth antur yn cynnig cyfle gwych i ddatblygu cynnyrch twristiaeth drwy gydol y flwyddyn nad yw'n cael ei effeithio lawer gan newidiadau yn y tywydd.

**Arallgyfeirio Busnesau Gwledig**

Bydd y CDLlN yn cynnwys polisi priodol i gefnogi datblygiad llety amgen o faint bach, bach ei effaith, sy'n gysylltiedig â gwir arallgyfeirio ar ffermydd. Byddai'n rhaid i ddatblygiadau newydd fod mewn lleoliadau addas a pheidio cael effaith negyddol ar y tirlun. Bydd polisi penodol yn sicrhau bod arallgyfeirio busnesau gwledig a ffermydd yn briodol, yn cynorthwyo i gadw'r fenter ac o fantais i'r economi wledig.

6.3.14 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen i rai busnesau amaethyddol arallgyfeirio er mwyn darparu incwm ychwanegol. Weithiau mae hyn yn golygu trawsnewid adeiladau cyfredol nad ydynt yn cael eu defnyddio i lety gwyliau hunan arlwyo tymor byr ac mae polisïau cyfredol yn cefnogi trawsnewid adeiladau amaethyddol penodol, lle bo'n briodol. Prif nod y polisïau yw darparu rhyw ffurf o fudd economaidd a pheidio caniatáu meddiannaeth ail gartrefi.

6.3.15 Mae Conwy wedi derbyn nifer cynyddol o ymholiadau a cheisiadau ar gyfer safleoedd gwersylla neu garafannau newydd ar ffermydd cyfredol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y mathau hyn o ddatblygiad ac yn cynnwys polisi priodol yn seiliedig ar feini prawf i gefnogi datblygiad llety amgen bach ei effaith, o faint bach, yn gysylltiedig â gwir arallgyfeirio ar ffermydd. Byddai'n rhaid i ddatblygiadau newydd fod mewn lleoliadau addas a pheidio cael effaith negyddol ar y tirlun.

**Ffurfiau amgen o lety i dwristiaid**

Gyda mathau newydd o lety 'glampio' bach eu maint yn dod yn gynyddol boblogaidd bydd polisïau CDLlN yn seiliedig ar feini prawf yn sicrhau bod pob math o lety gwyliau yn cael eu cynnwys a'u lleoli, eu hasesu, a'u rheoli'n briodol.

6.3.16 Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu bu cynnydd yn y mathau o lety hunanarlwyo / dros dro ar y farchnad. Y mathau o lety a welwyd yw podiau, iyrts, tipis a phebyll pren, y'i gelwir gyda'i gilydd yn 'glampio'. Mae'r Awdurdod yn debygol o brofi cynnydd mewn



ceisiadau cynllunio ar gyfer y mathau hyn o lety nad ydynt yn draddodiadol.

6.3.17 Gall y math ‘bach ei effaith' hwn o lety fod yn fwy derbyniol yn esthetaidd na ffurfiau ‘traddodiadol’ o lety fel carafanau statig. Felly, bydd angen addasu polisïau cyfredol y CDLI er mwyn sicrhau fod pob math o lety gwyliau yn cael eu cynnwys a’u hasesu’n briodol.

**Creu darpariaeth gyda’r nos ac yn y gaeaf i ymwelwyr**

Er mwyn cynyddu’r farchnad gydol y flwyddyn bydd amcanion a pholisïau’r CDLIN yn parhau i gefnogi datblygiad ac addasiad amrywiaeth o atyniadau a chyfleusterau twristiaeth er mwyn gwella’r ddarpariaeth twristiaeth gaeaf drwy'r Sir.

6.3.18 Mae’r economi gyda’r nos a chynnig deniadol i ymwelwyr yn ystod y gaeaf yn hanfodol i sefydlu Sir Conwy fel cyrchfan drwy gydol y flwyddyn. Mae data STEAM1 yn dangos bod niferoedd yr ymwelwyr ar draws y sir yn gostwng yn sylweddol o fis Tachwedd hyd at fis Chwefror. Nid yw hyn yn golygu nad yw pobl yn mynd ar eu gwyliau yn ystod misoedd y gaeaf, ond eu bod yn dewis mynd i rywle arall. Tra bo Llandudno yn gyrchfan gwyliau allweddol, rhaid buddsoddi ar draws Conwy er mwyn sicrhau profiad cyson i ymwelwyr. Yn greiddiol i atynnu mwy o ymwelwyr drwy’r misoedd hyn fydd rhaglenni i fuddsoddi mewn digwyddiadau i ymwelwyr ar yr adeg hon o’r flwyddyn a datblygu / buddsoddi mewn atyniadau y gellir eu mwynhau drwy'r gaeaf. Byddai hyn yn annog mwy o lety i fod ar gael ar yr adeg hon, gan gyfrannu tuag at y dyhead cyffredinol o wella’r amrywiaeth i dwristiaid a chreu amgylchedd ar gyfer swyddi llawn amser o safon.

**Llety Gwyliau**

Bydd llety gwyliau, yn enwedig o fewn y trefi arfordirol, yn cael eu rheoli a’u diogelu yn ofalus er mwyn sicrhau cyflenwad digonol ac amrywiaeth o lety safonol drwy gydol y flwyddyn i fodloni galw'r farchnad dwristiaeth.

6.3.19 Mae cyrchfan lwyddiannus i dwristiaid yn dibynnu yn helaeth ar safon, lefel a math y llety sydd ar gael o fewn yr ardal honno. Mae darparu a gwarchod llety safonol yn un o brif flaenoriaethau Conwy. Mae angen sicrhau bod digon o lety safonol, o ran nifer ac o ran amrywiaeth, yn yr ardaloedd cywir er mwyn bodloni gofynion newidiol y farchnad, caniatáu twf a chefnogi economi twristiaeth ffyniannus. Yn ogystal, cydnabuwyd hefyd y byddai amrywiaeth fwy eang o lety â gwasanaeth yn rhoi mwy o ddewis i’r ymwelwyr ac yn apelio i’r farchnad gwyliau byr, sy'n cynyddu.

**Twristiaeth Ddiwylliannol**

Bydd polisïau'r CDLIN yn parhau i gefnogi a datblygu'r rhanbarth ymhellach fel lle gall twristiaeth ddiwylliannol ffynnu, codi safonau ac annog sgiliau a gyrfaoedd.



6.3.20 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy yn nodi treftadaeth fel un o'r sectorau twristiaeth sy'n cynyddu gyflymaf yng Nghymru a'r DU gyda mwy na hanner yr 20 atyniad mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn safleoedd hanesyddol.  Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli prosiect i ddatblygu twristiaeth treftadaeth yng Nghymru, a fydd yn helpu i wneud y mwyaf o werth economaidd treftadaeth drwy godi niferoedd, hyd, a gwerth ymweliadau â Chymru. Mae Cadw yn gweithio gyda chymunedau, partneriaid treftadaeth a'r sector twristiaeth ar draws Cymru i wella profiadau i ymwelwyr a rhoi amrywiaeth mwy integredig o weithgareddau twristiaeth treftadaeth at ei gilydd drwy ddatblygu pecynnau teithiau, llwybrau a gweithgareddau treftadaeth.

6.3.21 Mae treftadaeth ddiwylliannol Conwy yn gyfoethog ac amrywiol ac yn cynnwys enghreifftiau fel Safle Treftadaeth Y Byd Castell Conwy sy'n rhan hanfodol o brosiect Cymru gyfan fel ased pwysig yn gymdeithasol, economaidd, a hanesyddol.



## 6.4 Yr Economi Wledig

6.4.1 **Amcan Strategol 9 (SO9):** Hyrwyddo a chefnogi cymunedau cynaliadwy a ffyniannus trwy sefydlu menter newydd, ehangu busnes presennol a thrwy fabwysiadu dull adeiladol o ran amaethyddiaeth a newid arferion ffermio.

***Polisi Strategol 29: Yr Economi Wledig***

> **Polisi Strategol 29 (SP/29): Yr Economi Wledig**
>
> Bydd polisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn sicrhau y caiff datblygiadau newydd o ran cyflogaeth wledig eu llywio at fannau addas drwy ddefnyddio dull dilyniannol o weithredu, ac yn rhoi hyblygrwydd i alluogi busnesau gwledig presennol i ehangu.

6.4.2 Mae angen i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ynghylch yr economi wledig fod yn ymatebol i newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ehangach yn y Deyrnas Gyfunol ac Ewrop. Wrth ddadansoddi ceisiadau cynllunio ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Conwy (2007-2022), gwelir fod datblygiadau yn yr ardaloedd gwledig yn dueddol o fod ym maes twristiaeth (llety gwyliau a meysydd gwersylla/carafanau), er y bu nifer o geisiadau ar gyfer cynhyrchu bwyd a datblygiadau amaethyddol, tyrbinau gwynt ac anheddau ar y farchnad. Bu hefyd nifer o ymholiadau ynglŷn ag ehangu busnesau gwledig oedd eisoes wedi'u sefydlu.

6.4.3 Gan edrych i'r dyfodol wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gallai rhai o'r newidiadau allweddol mewn ardaloedd gwledig gynnwys mwy o arallgyfeirio gan fusnesau bach ac ehangu safleoedd busnes, ac efallai y bydd mwy o angen am anheddau mentrau gwledig er mwyn cynnal cynhyrchiant ar raddfa uwch yn ogystal â microfusnesau newydd. Gallai hefyd fod mwy o angen am gyfleusterau prosesu ar gyfer cynnyrch amaethyddol, gan gynnwys da byw, a pharhau â'r tueddiad at weithio gartref.

6.4.4 **Cyflawni'r Amcan a'r Polisi Strategol**

I gefnogi datblygiad yr economi wledig, mabwysiadir dull hyblyg o ran y polisïau ar ehangu mentrau gwledig. Wedi neilltuo safleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol (a heb gael cais i ddatblygu dim un ohonynt), bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn hytrach yn cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf, ac felly bydd yno fwy o hyblygrwydd ar gyfer datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig. Disgwylir hefyd y gellir cynnal y dull hyblyg a dilyniannol a fydd yn galluogi busnesau i fwrw eu golygon y tu hwnt i ffiniau aneddiadau pan nad oes tir addas oddi mewn iddynt.



## 6.5 Isadeiledd Cludiant

6.5.1 **Amcan Strategol 6 (SO6):** Darparu datblygu cynaliadwy a cheisio mynd i’r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd drwy ehangu’r dewis o drafnidiaeth gynaliadwy er mwyn rhoi mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol i gymunedau Conwy, drwy hybu rhwydwaith o lwybrau byrrach, mwy llesol ac effeithlon ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, maint, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiadau newydd.

***Polisi Strategol 30: Isadeiledd Trafnidiaeth***

**Polisi Strategol 30 (SP/30): Isadeiledd Trafnidiaeth**

Hwyluso'r gwaith o ddarparu, datgarboneiddio a gwella isadeiledd trafnidiaeth gynaliadwy mewn ffordd sy’n lleihau’r angen i deithio, yn arbennig mewn cerbydau preifat, ac sy’n hwyluso a chynyddu dewisiadau teithio llesol. Bydd prosiectau trafnidiaeth yn cydweddu â’r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a Chyd-gynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru gan wella cysylltiadau o fewn a rhwng gwahanol fathau o gludiant, addysg, iechyd, cyflogaeth a defnyddiau cymdeithasol.

6.5.2 **Isadeiledd Trafnidiaeth**

Mae darparu isadeiledd trafnidiaeth gynaliadwy yn hanfodol er mwyn meithrin ffyniant, mynd i’r afael â newid hinsawdd, lleihau llygredd yn yr awyr a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi gwelliannau angenrheidiol i'r isadeiledd trafnidiaeth, lle gellir arddangos bod mesurau tebyg yn gydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru i annog a chynyddu lefelau defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau ein dibyniaeth ar geir preifat ar gyfer siwrneiau dyddiol.

6.5.3 Ni ddylai isadeiledd trafnidiaeth gynhyrchu galw sylweddol am symudiadau ychwanegol mewn ceir na chyfrannu at flerdwf trefol neu wahanu cymdogaethau. Bydd disgwyl i’r gwaith o gynllunio a dylunio cynlluniau isadeiledd trafnidiaeth ystyried anghenion defnyddwyr trafnidiaeth llesol a chynaliadwy cyn anghenion defnyddwyr ceir preifat, gan gymryd i ystyriaeth hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy.

6.5.4 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) yn cynnwys polisïau a chynigion sy'n ymwneud â datblygu isadeiledd trafnidiaeth a gwasanaethau cysylltiedig (megis cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau rheilffordd), gan gynnwys ardaloedd a ddiogelir ar gyfer isadeiledd / llwybrau trafnidiaeth y dyfodol. Lle bo hynny’n bosibl, caiff llwybr yr isadeiledd arfaethedig newydd neu well ei ddangos yn y cynllun datblygu. Pan fo'r union lwybr yn anhysbys, caiff polisi diogelu ei gymhwyso ar gyfer y darn o dir sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynllun. Cedwir malltod mor isel ag sy’n bosibl trwy gynnwys



cynlluniau sy'n debygol o ddechrau yn ystod cyfnod y Cynllun yn unig mewn cynlluniau datblygu. Ar ôl i gynlluniau datblygu gael eu paratoi neu eu diwygio, dylid adolygu cynigion trafnidiaeth presennol er mwyn cael gwared ar unrhyw gynigion sydd wedi cael eu diogelu yn y gorffennol, ond sydd bellach wedi cael eu rhoi heibio, neu unrhyw rai sy'n annhebygol o ddechrau yn ystod cyfnod y Cynllun.

6.5.5 Gwneir ymdrech ofalus i leihau effeithiau andwyol isadeiledd trafnidiaeth newydd neu well ar yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac ar gymunedau lleol, gan gynnwys iechyd y cyhoedd o ganlyniad i wahanu cymunedol a llygredd yn yr awyr.

6.5.6 **Seilwaith Gwyrdd**

Caiff hyn ei drafod yn fanylach o dan thema allweddol 'Lleoedd Nodedig a Naturiol', er bod ganddo amcanion sy'n gysylltiedig â'r ffordd y gellir integreiddio nodau trafnidiaeth gynaliadwy a Theithio Llesol i Ardal y Cynllun gyda buddion amgylcheddol ac iechyd ehangach.

6.5.7 Bydd mesurau Seilwaith Gwyrdd i liniaru effeithiau negyddol ac i wella ansawdd yr amgylchedd a chysylltedd yn cael eu hystyried yn gynnar. Disgwylir i gynlluniau llwybrau newydd wneud y defnydd gorau o dirffurfiau presennol a nodweddion tirweddol eraill er mwyn gostwng sŵn ac effeithiau gweledol, yn amodol ar ddiogelwch ac ystyriaethau amgylcheddol eraill. Os nad oes unrhyw lwybrau neu opsiynau amgen ymarferol ar gael, dylai cynlluniau isadeiledd trafnidiaeth ddarparu mesurau lliniaru i ostwng effeithiau negyddol a gwella'r rhai positif a achosir wrth adeiladu a gweithredu'r cynlluniau hyn, gan gynnwys dod i gysylltiad â llai o lygredd yn yr awyr.

6.5.8 **Asesu prosiectau trafnidiaeth**

Wrth asesu prosiectau trafnidiaeth, dylai awdurdodau cynllunio roi ystyriaeth i'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Mae WelTAG yn gosod allan proses a lwyfannir ac a arweinir gan dystiolaeth i ddadansoddi problemau trafnidiaeth ac i ddatblygu ac arfarnu opsiynau trafnidiaeth yn erbyn sbectrwm eang o bolisïau ac ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a thechnegol. Mae'r broses wrthrychol hon yn arbennig o bwysig wrth gynllunio prosiectau isadeiledd trafnidiaeth strategol a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau mawr, gan ei bod yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ystod lawn o effeithiau opsiynau trafnidiaeth. Mae hyn yn helpu i nodi datrysiadau sy'n cynyddu cyfraniadau at nodau lles ac yn caniatáu i ddatrysiadau a mesurau lliniaru gael eu nodi a'u datblygu cyn i benderfyniadau gael eu gwneud ynglŷn â p'un a ddylid parhau â chynlluniau. Mae'r broses WelTAG hefyd yn ffordd o sicrhau bod datrysiadau yn briodol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth a nodir ac i osgoi dewis opsiynau moddol mewn ffordd a bennir o flaen llaw heb dystiolaeth ategol.



**Trafnidiaeth gyhoeddus**

Bydd y CDLlN yn hyrwyddo a hwyluso darpariaeth isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus o safon uchel a bydd yn gosod polisïau i wneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yn nodi a hwyluso llwybrau, mesurau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus priodol, gan gymryd i ystyriaeth cynigion yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol, a allai gynnwys gwella cyfleusterau i deithwyr ar fysiau, cynlluniau parcio a theithio, rheilffyrdd newydd (gan gynnwys trenau ysgafn), ail-agor rheilffyrdd, darparu gorsafoedd newydd a gwella gwasanaethau i deithwyr ar reilffyrdd presennol.

6.5.9 Mae’r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cymryd i ystyriaeth yr angen am safleoedd cyfnewid ychwanegol a gwelliannau i gyfnewidfeydd presennol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mesurau i hyrwyddo diogelwch personol. Mewn ardaloedd gwledig, nodir cyfnewidfeydd ar geinciau lle mae’n bosibl trosglwyddo rhwng gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lleol a phell. Bydd y Cyngor hefyd yn diogelu cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus bresennol rhag datblygiadau a fyddai’n arwain at lai o ddefnydd ohonynt.

6.5.10 Ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru a Network Rail a lle bo hynny’n bosibl, bydd rheilffyrdd segur neu gilffyrdd segur neu nas defnyddir yn cael eu diogelu rhag datblygiadau a allai gael effaith andwyol ar y gallu i'w hailddefnyddio fel rheilffyrdd eto yn y dyfodol. Bydd unrhyw gais cynllunio neu bolisi cynllun datblygu arfaethedig sydd gerllaw hen reilffordd, neu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar hen reilffordd, yn ystyried yr effaith ar y posibilrwydd o’u hailddefnyddio fel rheilffyrdd yn y dyfodol. Fel mesur dros dro, efallai y byddai’n briodol defnyddio aliniadau rheilffyrdd segur fel coridorau agored, er enghraifft fel llwybrau cerdded a beicio yn unol ag Asesiadau Seilwaith Gwyrdd.

6.5.11 **Rhwydwaith Ffyrdd Strategol**

Mae cefnffyrdd yng Nghonwy yn chwarae rôl genedlaethol a rhyngwladol o ran darparu rhwydwaith o ffyrdd o safon uchel sy'n cludo traffig am bellter hir rhwng canolbwyntiau mawr. Bydd y Cyngor yn ceisio lleihau’r angen i ddefnyddio cefnffyrdd a llwybrau trwodd eraill ar gyfer siwrneiau byr a lleol. Yn unrhyw leoliad, gellir cynorthwyo llif y traffig a diogelwch trwy ddylunio cyffyrdd yn dda. Bydd nifer y mynediadau a ganiateir yn dibynnu ar y math o ffordd a’i natur. Yn yr un modd, dylai’r math o fynediad a ddarperir adlewyrchu’r math o ffordd a maint a chymeriad y traffig sy’n debygol o ddefnyddio’r mynediad a’r ffordd.

6.5.12 Mae’r strategaeth yn nodi’r prif rwydwaith ffyrdd, gan gynnwys cefnffyrdd ac mae’n nodi’r rhwydwaith craidd ar wahân. Caiff y llwybrau hyn eu nodi ar y map cyfyngiadau fel coridorau symudiad lle byddai datblygiad a fyddai’n peryglu’r rôl strategol hon neu’n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd neu iechyd, amwynder neu les pobl, yn cael ei wrthod.

6.5.13 Bydd y CDLlN yn cynnwys yr holl gynigion ar gyfer ffyrdd newydd a gwelliannau mawr i’r prif rwydwaith ffyrdd dros gyfnod y Cynllun, ac yn gosod allan y polisi eang ar flaenoriaethau o ran gwelliannau bach. Ar gyfer cynlluniau ffyrdd lleol, fel arfer dylai gweithdrefnau’r cynllun datblygu ddarparu modd o archwilio’r angen am y llwybr a’i aliniad.



6.5.14 Dylai'r broses o ddylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd gymryd i ystyriaeth yr hierarchaeth trafnidiaeth, lle rhoddir ystyriaeth i drafnidiaeth lesol a chynaliadwy cyn cerbydau modur preifat. Bydd hyn yn helpu i leihau gwahanu cymunedol a achosir gan gynllun a'i effeithiau ar ddiogelwch, cyfleustod ac amwynder llwybrau ar gyfer siwrneiau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

6.5.15 **Porthladdoedd, Marinas a Dyfrffyrdd Mewndirol**

Mae gan Conwy nifer fach o harbwrs, marinas a dyfrffyrdd mewndirol, sy'n gwneud y lleoliad yn un deniadol ar gyfer busnesau ac ymwelwyr.  Mae dociau chwareli hefyd yn caniatáu ar gyfer cludo nwyddau. Mae cefnogi a buddsoddi yn y cyfleusterau hyn yn creu potensial i roi hwb i'r economi yn uniongyrchol, trwy wneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau, ac yn anuniongyrchol trwy'r cyfleoedd a ddarperir i sectorau eraill (cenedlaethol a rhyngwladol) o ganlyniad i well isadeiledd trafnidiaeth forol.

6.5.16 Yng ngweledigaeth Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC), mae porthladdoedd, harbwrs, marinas a dyfrffyrdd mewndirol yn gallu cynllunio eu gweithrediadau nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys opsiynau i ymestyn ac arallgyfeirio. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried goblygiadau o ran defnydd tir i'r Cynllun Morol.

6.5.17 **Trafnidiaeth a'r Effeithiau Uniongyrchol ar Iechyd**

Mae gan awdurdodau cynllunio rôl i'w chwarae wrth atal salwch corfforol a meddyliol a achosir neu a waethygir gan lygredd, datgysylltu pobl o weithgareddau cymdeithasol (sy'n cyfrannu at unigrwydd), yn ogystal â hyrwyddo patrymau teithio sy'n hwyluso ffyrdd egnïol o fyw. Bydd y CDLIN yn ystyried effeithiau datblygu isadeiledd newydd ar gymunedau presennol a diogelu iechyd a lles yn well yn ogystal â gwarchod amwynder lleol.



## 6.6 Telathrebu

6.6.1 **Amcan Strategol 7 (SO7):** Cefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio drwy fanteisio ar sefyllfa strategol Conwy yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth holistig sy'n cyd-leoli twf cyflogaeth a thwf tai, a fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r math iawn mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn cefnogi clystyrau a rhwydweithiau busnes, yn cynyddu sgiliau mewn swyddi gwerth uchel ac yn darparu'r seilwaith newydd angenrheidiol. Bydd hyn yn hwyluso lleoli busnesau newydd yng Nghonwy a thwf y busnesau presennol.

***Polisi Strategol 31: Clystyrau Busnes a Thelathrebu***

> **Polisi Strategol 31 (SP/31): Clystyrau Busnes a Thelathrebu**
>
> Bydd darpariaeth isadeiledd i gefnogi telathrebu yn cael ei ystyried yn ystod un o gamau cyntaf y broses o ddatblygu dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y cyngor yn cysylltu â darparwyr telathrebu i bennu a oes angen gwella neu newid isadeiledd neu beidio, a sut i fynd ati i integreiddio hyn â datblygiadau newydd. Er mwyn gwella cyfleoedd rhwydweithio a chyfathrebu ymhellach, bydd clystyrau busnes ar safleoedd cyflogaeth presennol sydd o fudd i'r economi a'r gymuned leol yn derbyn cefnogaeth mewn egwyddor.

6.6.2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cydnabod bod telathrebu gan gynnwys rhwydweithiau ffonau symudol a band eang yn wasanaeth hanfodol ac y dylid eu cynllunio ynghyd â datblygiadau o'r cychwyn cyntaf, gan gymryd i ystyriaeth y gofynion a'r blaenoriaethau a nodwyd yn Strategaeth Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru. Mae gosod band eang cyflym iawn yn fater pwysig mewn ardaloedd gwledig, sy'n dibynnu ar wasanaethau o'r fath ar gyfer anghenion busnes yn ogystal ag anghenion cymdeithasol. Felly, cefnogir darpariaeth isadeiledd telathrebu megis cyfarpar band eang a ffonau symudol mewn lleoliadau priodol.

6.6.3 **Darparu Polisi Strategol ac Amcanion**

Cydnabyddir mai'r dull mwyaf cost effeithiol a'r dull lleiaf aflonyddgar o sefydlu isadeiledd band eang yw cyn dechrau datblygu. Drwy weithio ochr yn ochr â'r diwydiant telathrebu, bydd y Cyngor yn nodi pa leoliadau fydd yn gallu cynnig y gefnogaeth orau i'r isadeiledd, lle mae diffygion ar hyn o bryd yn ogystal â chynlluniau ar gyfer gwelliannau i'r dyfodol. Defnyddir y wybodaeth i lywio a chynllunio datblygiadau i'r dyfodol yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Byddwn yn datblygu polisi yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu ceisiadau am gyfarpar ffonau symudol, i sicrhau y caiff ei ddarparu mewn lleoliadau priodol.



6.6.4 Mae’n rhaid cefnogi datblygiad rhwydweithiau busnes a chlystyrau yn arbennig mewn perthynas â mentrau arloesol sy'n seiliedig ar dechnoleg. Argymhellir y dull hwn ym Mholisi Cynllunio Cymru 10, ac mae galw cynyddol ar y Cyngor am fusnesau sy’n ffurfio clystyrau i fanteisio ar y buddion cyffredin a geir drwy gyd-leoli, rhwydweithio a gallu cynnig gwasanaethau ar y cyd i gwsmeriaid/cleientiaid. Enghreifftiau o hyn yw dosbarthu bwyd yn Llanrwst, cyflenwyr adeiladwyr ym Mae Cinmel a Mochdre a labordai / cwmnïau fferyllol yng Nghonwy.



## 6.7 Ynni

6.7.1 **Amcan Strategol 10 (SO10):** Sicrhau cymysgedd priodol o ynni, gan gynnwys hyrwyddo Morlyn Ynni Llanw, sy’n cynnig manteision i economi a chymunedau Conwy ond yn lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol.

***Polisi Strategol 32: Ynni***

> **Polisi Strategol 32 (SP/32): Ynni**
>
> Hyrwyddo cymysgedd o ffynonellau cynhyrchu ynni, dulliau storio ynni a dyluniad adeiladau sy’n cyflawni twf glân ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio yn ogystal â bod yn wydn yn wyneb newid hinsawdd.

6.7.2 **Cefndir**

Mae’r system gynllunio yn chware rôl allweddol o ran cyflenwi twf glân a datgarboneiddio ynni, yn ogystal â bod yn hanfodol i feithrin gwydnwch yn wyneb effeithiau newid hinsawdd. Mae’r trawsnewid i economi carbon isel nid yn unig yn dod â chyfleoedd ar gyfer twf glân a swyddi o safon, ond mae ganddo hefyd fuddion ehangach o ran lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt, gydag aer a dŵr glân a gwell canlyniadau o ran iechyd.

6.7.3 Cyflwynodd Papur Testun 9 y materion mewn perthynas ag Ynni Adnewyddadwy o fewn Ardal y Cynllun ac mae’r cam hwn yn adeiladu ar y darn hwnnw o waith i lywio newid a’r ymagwedd strategol. Mae angen parhau i ddatgarboneiddio’r sector cynhyrchu ynni ar draws Cymru er mwyn cefnogi’r trawsnewid i economi carbon isel ac i helpu i liniaru newid hinsawdd. Ar yr un pryd, mae angen cymysgedd o ffynonellau cynhyrchu ynni i sicrhau cyflenwad diogel yn barhaus, ac i oresgyn materion o ran natur ysbeidiol technolegau gwynt a’r haul.

6.7.4 Mae’r hinsawdd newidiol a’r effeithiau a ragwelir ar gyfer Cymru gan Raglen Effeithiau Hinsawdd y DU (UKCIP) yn cyflwyno heriau difrifol i’r system gynllunio. Wrth fynd i’r afael â hwy, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu cyfres o amcanion y dylid eu hystyried yn ystod paratoi cynllun datblygu. Mae gan Awdurdodau Lleol amryw rolau allweddol i’w chwarae sy’n gallu hwyluso defnyddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon. Mae’r rhain yn cynnwys:

- **Paratoi polisïau cynllunio** a dyrannu tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).
- **Rheoli Datblygu** - gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a gyflwynir i’r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ar gyfer datblygu, yn ogystal â pharatoi Asesiadau o’r Effaith ar yr Ardal Leol.



- **Corfforaethol** – gweithredu ar lefel y Cyngor cyfan i gyflawni economi carbon isel.
- **Arweinyddiaeth** – gyrru ymlaen gweithredu ehangach yn y gymuned a chyfathrebu'r angen i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

6.7.5 **Cyflawni'r Amcanion a Pholisi Strategol**

Mae Deddf yr Amgylchedd yn gosod targed cyfreithiol ar gyfer cyflawni gostyngiad o o leiaf 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn am gyfres o dargedau dros dro (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon cysylltiedig ar gyfer sectorau allweddol. Bydd y cyllidebau'n gosod terfynau ar gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a ollyngwyd yng Nghymru dros gyfnod o 5 mlynedd fel cam tuag at darged 2050, ac i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

6.7.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y targedau a ganlyn ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy:

- I Gymru gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir ganddi o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- I un Gigawat o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru gael ei berchnogi'n lleol erbyn 2030; ac
- Erbyn 2020, i brosiectau ynni adnewyddadwy gael o leiaf elfen o berchnogaeth leol.

6.7.7 **Gofynion allweddol:**

- Integreiddio datblygiad gyda'r ddarpariaeth o isadeiledd rhwydwaith grid trydan ychwanegol;
- Storio cymaint o ynni ag y bo modd;
- Hwyluso integreiddio egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy mewn datblygiadau newydd;
- Lleoli datblygiadau newydd yn y lleoedd gorau bosibl i ganiatáu defnyddio adnoddau'n effeithlon;
- Cynhyrchu cymaint o ynni adnewyddadwy a charbon isel ag y bo modd;
- Defnyddio ffynonellau ynni lleol cymaint ag y bo modd, fel rhwydweithiau gwresogi ardal (DHN);
- Lleihau effaith dulliau cynhyrchu ynni eraill o ran carbon, cymaint ag y bo modd a
- Symud i ffwrdd o echdynnu mwynau ar gyfer ynni, y mae effaith eu llosgi'n ddwys o ran carbon.

6.7.8 Bydd y CDLlN yn nodi polisïau, cynigion a chanllawiau i gefnogi'r trosglwyddiad i economi carbon isel. Bydd y canllawiau'n ymateb i'r effeithiau a ragwelir o ran newid hinsawdd ac yn caniatáu i gymunedau a busnesau yn Ardal y Cynllun addasu i'r hinsawdd sy'n newid.

6.7.9 **Sut y gwneir hyn?**

Mae PCC yn nodi canllawiau ar ddewis safleoedd er mwyn cyflawni cynaliadwyedd. Mae'r posibiliadau o ran safleoedd strategol yn cyfrannu at gyflenwi adeiladau cynaliadwy (gan gynnwys rhai di-garbon) yn ffurfio rhan o'r cam hwn o'r broses CDLl. Gellir lleoli datblygiadau newydd er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd i gyflawni safonau cynaliadwy uwch o ran adeiladau. Mae hyn, er enghraifft, yn cynnwys lleoli safleoedd



ar gyfer mathau penodol o ddefnydd gyda'i gilydd er mwyn gwneud cynlluniau gwresogi cymunedol yn fwy hyfyw drwy ddarparu llwyth gwres digonol. Fodd bynnag, roedd Asesiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) Conwy yn dangos ychydig iawn o gyfleoedd ar gyfer lleoli tai presennol neu newydd yn ddigon agos i lwythi angor presennol. Bydd Conwy'n ymgysylltu â datblygwyr, tirfeddianwyr a'r gymuned i ganfod a thrafod y cyfleoedd ar gyfer cyflawni safonau uwch o ran adeiladu cynaliadwy ar safleoedd strategol. Rhan bwysig o hyn fydd ystyried p'un a yw gofynion lleol yn hyfyw ac ni fydd yn gweithredu fel rhwystr afresymol i ddatblygu neu dwf sydd wedi'i gynllunio, gan gynnwys cyflenwi tai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio eraill.

6.7.10 Mae'r CDLlN yn categoreiddio anheddau mewn hierarchaeth sy'n adlewyrchu eu cynaliadwyedd cymharol. Mae dyhead y Cynllun o leihau'r angen i deithio, yn enwedig yn defnyddio car modur preifat, ynghyd â'i rôl o ran cyfrannu at hwyluso strategaeth cludiant integredig yn ceisio cyfeirio datblygiadau i leoliadau priodol sy'n gweithredu i gyflawni hyn.

6.7.11 **Cysylltiad Grid**

Mewn sawl achos, ni fydd gallu a chapasiti datblygiad YA arfaethedig i gysylltu â'r grid dosbarthu trydan yn ystyriaeth o ran cynllunio. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd allforio trydan i'r grid mewn sawl achos, argymhellir y dylai datblygwyr gynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (GRhD) yn gynnar yn natblygiad y prosiect. Dylai'r trafodaethau hyn geisio canfod llwybrau ar gyfer isadeiledd cysylltiad grid sy'n osgoi ardaloedd tra sensitif o ran tirwedd, ecoleg ac archeoleg. Rhoir ffafriaeth i gysylltiadau o dan wyneb y tir.

6.7.12 Ni fydd hyn yn fater i'w ystyried mewn amgylchiadau lle nad oes bwriad i gysylltu'r dechnoleg â'r grid dosbarthu trydan. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys defnyddio'r trydan a gynhyrchir yn uniongyrchol gan y busnes neu aelwyd, neu ddefnyddio datrysiadau o ran storio, fel batris, a fydd yn cael eu hystyried mewn egwyddor.

6.7.13 Mae'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn cynrychioli her sylfaenol os bydd datblygiadau cynaliadwy a'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 am gael eu cyflawni.

6.7.14 **Y Rhwydwaith Grid Trydan a Storio Ynni**

Mae angen rhwydwaith grid trydan effeithiol i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran trydan adnewyddadwy a charbon isel. Mabwysiadir ymagwedd integredig tuag at gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni ac isadeiledd ychwanegol o ran y rhwydwaith y grid trydan. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen isadeiledd ychwanegol o ran y rhwydwaith grid trydan i gefnogi'r Ardaloedd Chwilio Strategol ac ardaloedd eraill a nodir mewn cynlluniau datblygu. Bydd CBSC yn cynllunio mewn modd cadarnhaol ac yn hwyluso'r isadeiledd a fynnir o ran y grid i gefnogi posibiliadau o ran ynni carbon isel ar gyfer yr ardal. Bydd cynlluniau priodol ar gyfer datblygu'r grid yn cael eu hystyried mewn egwyddor, p'un a fydd y datblygiadau sydd i'w cysylltu wedi'u lleoli o fewn Ardal y Cynllun ai peidio.



**Cysylltiad Grid a storio YA**

Bydd cynlluniau o ran cysylltiadau grid, gwelliannau a storio yn cael eu cefnogi mewn egwyddor yn lle maent yn osgoi ardaloedd tra sensitif o ran tirwedd, ecoleg ac archeoleg. Rhoir ffafriaeth i gysylltiadau o dan wyneb y tir.

6.7.15 **Ymrwymo Ardaloedd Lleol a Budd Cymunedol**

Efallai y bydd ar grwpiau cymunedol, a sefydliadau sy'n ceisio hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy, angen cymorth arbennig i lywio eu ffordd drwy'r system gynllunio. Bydd CBSC yn cynorthwyo drwy hwyluso'r broses wrth ddelio â'r prosiectau hyn.

6.7.16 Mae grwpiau cymunedol yng Nghonwy ar hyn o bryd yn gymwys i ymgeisio i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr o Fferm Wynt ar y Môr GYM sy'n cynnig cyfanswm o £19 miliwn ar gyfer cymunedau yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Bydd manteision rhan CBSC mewn prosiectau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol yn cael ei archwilio er mwyn mynd i'r afael â materion o ran amddifadedd o fewn ardal CBSC, drwy ragor o gyfleoedd ariannu fel y mae datblygiadau newydd yn dod yn eu blaenau.

6.7.17 **Targedau Ynni Adnewyddadwy**

Mae gan y system gynllunio rôl weithredol i helpu i sicrhau bod targedau lleihau carbon yn cael eu cyflawni, yn nhermau capasiti i gynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd ac ar gyfer hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau newydd.

6.7.18 Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r targedau hyn, bydd CBSC yn cymryd ymagwedd weithredol, arweinyddol ar y lefel leol a rhanbarthol, drwy ganfod targedau heriol ond cyflawnadwy ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn cynlluniau datblygu.

6.7.19 Mae CBSC wedi ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael yn Ardal y Cynllun drwy'r AYA, a bydd targedau ynni adnewyddadwy yn seiliedig ar hyn a sylfaen dystiolaeth ychwanegol. Datblygir targedau drwy'r CDLlN Adnau, ond fe'u defnyddir fel offeryn i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae gan gynlluniau ariannu ychwanegol a chysylltiadau grid rolau allweddol i'w chwarae.

6.7.20 Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau:


- Bydd capasiti ychwanegol o fewn yr Ardal Chwilio Strategol o hyd at 30MW yn ychwanegol yn cael ei gefnogi o fewn Cyfnod y Cynllun ac yn cael ei adolygu.
- Bydd tir yng Ngofer yn cael ei ddyrannu ar gyfer aráe paneli solar 4MW PV.
- Bydd datblygiadau a berchnogir yn lleol a rhai cymunedol yn cael eu cefnogi yn lle maent yn cydymffurfio â pholisïau cenedlaethol a lleol eraill. Erbyn 2020, bwriedir y bydd gan brosiectau ynni adnewyddadwy newydd o leiaf elfen o berchnogaeth leol.
- Cefnogir cynlluniau i wella'r grid.
- Bydd 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghonwy yn dod o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.

6.7.21 Mae'r Hierarchaeth Ynni yn gofyn i bob datblygiad newydd liniaru'r hyn sy'n achosi newid hinsawdd drwy leihau'r galw am



ynni, a chynyddu effeithlonrwydd ynni drwy leoliadau a dyluniad datblygiadau newydd.

***Ffigur 5: PCC10 Hierarchaeth Ynni***




6.7.22 **Adeiladau Cynaliadwy**

Dylai egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy fod yn rhan annatod o ddyluniad datblygiadau newydd. Dylai cynigion ar gyfer datblygu:

- liniaru achosion newid hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â lleoliad, dyluniad, adeiladu, defnydd a dymchwel datblygiad yn y diwedd; a
- chynnwys nodweddion sy'n darparu modd effeithiol o addasu i'r newid yn yr hinsawdd a gwydnwch yn erbyn ei effeithiau presennol a'r rhai a ragwelir i'r dyfodol.

6.7.23 Rhoir cefnogaeth mewn egwyddor i ddatblygiadau newydd sy'n perfformio ar lefel uchel iawn o ran ynni, yn cefnogi datgarboneiddio, ac yn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol drwy ymgorffori mesurau lliniaru ac addasu effeithiol.

6.7.24 **Trydan a ULEVau**

Bydd hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cludiant.

**Cerbydau Allyriadau Isel Iawn**

Bydd y ddarpariaeth o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn/'Ultra Low Emission Vehicles' (ULEVaus) a phwyntiau trydanu yn cael ei hannog a'i chefnogi drwy'r CDLl fel rhan o ddatblygiadau newydd. Lle darperir mannau parcio ar gyfer datblygiadau amhreswyl, bydd y CDLl yn ceisio sicrhau bod gan o leiaf 10% o fannau parcio leoedd i gael pwyntiau trydanu ULEV. Bydd y Cyngor hefyd yn paratoi Strategaeth ULEV a fydd yn ategu dyheadau'r CDLlN o ran yr uchelgais ar gyfer ULEVau.

6.7.25 **Cynhyrchu Ynni yn Lleol**

O ran trydan a gwres a gynhyrchir yn lleol i helpu i gyflawni'r targed cenedlaethol o un Gigawat erbyn 2030, cefnogir hyn mewn egwyddor, yn enwedig lle mae cynigion:

- yn hwyluso cydleoli datblygiadau mawr i alluogi defnyddio cyfleoedd lleol o ran gwres;

- hwyluso cysylltu ynni adnewyddadwy a charbon isel gyda datblygiadau newydd mawr a rhai sy'n defnyddio llawer o ynni;
- defnyddio cymaint o wres gwastraff ag y bo modd;
- hyrwyddo systemau gwresogi ardal;
- hyrwyddo cynlluniau Gwres a Phŵer Cyfunol.

**Cynhyrchu Ynni yn Lleol**

Mewn egwyddor, bydd y CDLlN yn cefnogi cyfleoedd a ganfuwyd ar gyfer cynlluniau gwresogi ardal, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ynghyd â chydleoli cynigion newydd a dyraniadau tir gyda datblygiadau, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres presennol.

6.7.26 **Polisïau Lleoliadol ar gyfer Datblygu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

Bydd datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cael ei gefnogi mewn egwyddor. Mae'r Cyngor wedi asesu'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal, a bydd yn defnyddio'r dystiolaeth hon i sefydlu polisïau gofodol yn y CDLlN a fydd yn nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygu. Bydd rhagdybiaeth o blaid datblygu mewn mannau a nodwyd, gan gynnwys derbyn newidiadau o ran tirwedd, gyda pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn nodi materion lleoliadol manwl sydd i'w hystyried ar adeg cyflwyno cais cynllunio.

6.7.27 **Datblygiadau Ynni Gwynt ar Raddfa Fawr**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi Ardaloedd Chwilio Strategol (AChS'au) sydd, ar sail ymchwil empirig sylweddol, yn cael eu hystyried fel y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir ar raddfa fawr (dros 25MW). O fewn AChS'au ac yn union wrth eu hymyl, bydd yn cael ei dderbyn yn anorfod y bydd newid sylweddol yng nghymeriad y dirwedd o ganlyniad i ddatblygiad tyrbinau gwynt. Tra bo'r effaith gronnol yn ystyriaeth berthnasol, bydd yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r angen i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni yng Nghymru, a bydd rhaid cyfiawnhau unrhyw gasgliadau yn llawn yng nghyswllt unrhyw benderfyniadau a wneir. Bydd angen i ddatblygwyr fod yn sensitif i amgylchiadau lleol, gan gynnwys lleoliad a dyluniad mewn perthynas â thirffurf lleol, agosrwydd at aneddiadau, perchnogaeth leol ac ystyriaethau eraill o ran cynllunio.

6.7.28 Yn gyffredinol, ni fydd datblygu ffermydd gwynt mawr neu gynlluniau ynni adnewyddadwy neu garbon isel eraill ar raddfa fawr yn briodol mewn ardaloedd a safleoedd a chanddynt ddynodiad rhyngwladol neu genedlaethol.

6.7.29 Mae'r CDLlN yn cefnogi rhagor o ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr o fewn y AChS presennol. Mae cysylltiad grid a chymhellion ariannol yn parhau i fod yn ffactorau cyfyngol o ran datblygiadau, a phe bai angen meini prawf ar gyfer micro-leoli ar gyfer tir y tu allan i'r lleoliadau a ffefrir, yna bydd safleoedd yn cael eu hasesu yn ôl eu rhinweddau eu hunain.



**Datblygiadau tyrbinau gwynt ar raddfa fawr**

Bydd datblygiadau tyrbinau gwynt ar raddfa fawr, gyda tharged o ran capasiti o 30MW o fewn Cyfnod y Cynllun, yn cael eu cefnogi o fewn yr AChS presennol fel y dangosir ar y map cynigion.

6.7.30 **Cynhyrchu Ynni ar y Môr**

Ar 1 Ebrill 2012, o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, daeth yr Arolygiaeth Gynllunio i fod yr asiantaeth sy'n gyfrifol am weithredu'r broses gynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (NSIP). Mae datblygiadau NSIP yn rhai ar raddfa fawr fel arfer, fel harbyrau, gorsafoedd cynhyrchu pŵer (gan gynnwys ffermydd gwynt), a llinellau trawsyrru trydan, sy'n gofyn am ganiatâd o'r enw 'caniatâd datblygu' o dan weithdrefnau a lywodraethir gan Ddeddf Cynllunio 2008 (ac a ddiwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011). Mae Deddf 2008 yn nodi'r trothwyon yr ystyrir bod rhai mathau o ddatblygiadau isadeiledd o arwyddocâd cenedlaethol uwch ben iddynt ac sydd angen caniatâd ar gyfer datblygu.

6.7.31 Cefnogir prosiect cynhyrchu ynni morlyn llanw ar gyfer ardal y glannau oddi ar arfordir Conwy a allai ymestyn i ardal awdurdod cyfagos. Mae gwaith cwmpasu a dichonoldeb cynnar yn mynd rhagddo. Gallai'r prosiect hwn hefyd fod â buddion ehangach o ran amddiffyn yr arfordir, sydd hefyd yn cynnwys diogelu'r gymuned a nodau o ran iechyd a lles.

6.7.32 O ran y gwaith ar y tir ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy ar y môr, bydd angen gwneud gwaith sylweddol yn ffurf ymarferion cwmpasu ac asesu cymalog a gwaith arall cyn ymgeisio. Dylai datganiadau amgylcheddol gynnwys effeithiau a mesurau lliniaru. Mae angen ystyried y budd i'r gymuned a pherchnogaeth o'r cychwyn cyntaf.

6.7.33 **Rheoli Datblygu ac Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

Wrth benderfynu ceisiadau ar gyfer yr ystod o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel, bydd CBSC yn ystyried:

- y cyfraniad a wneir gan gynnig o ran cyflawni targedau Cymru, y DU ac Ewrop;
- y cyfraniad tuag at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; a
- buddion a chyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel.

6.7.34 Bydd CBSC yn rhoi pwyslais sylweddol ar dargedau Llywodraeth Cymru i gynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, fel rhan o'r ymagwedd gyffredinol tuag at fynd i'r afael â newid hinsawdd a chynyddu diogelwch o ran ynni. Mewn amgylchiadau lle mae dynodiadau tirwedd, bioamrywiaeth a hanesyddol ac adeiladau gwarchodedig yn cael eu hystyried yn y broses benderfynu, dim ond yr effeithiau uniongyrchol diwrthdro ar safleoedd ac adeiladau a'u lleoliadau (lle bo'n briodol) sydd o dan warchodaeth statudol a fydd yn cael eu hystyried. Ym mhob achos, dylid rhoi cryn bwyslais ar yr angen i gynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel, er mwyn i Gymru gyflawni ei thargedau o ran carbon ac ynni adnewyddadwy.

6.7.35 Bydd y CDLlN yn nodi ac yn gofyn am ddulliau addas o osgoi, lliniaru neu ddigolledu o ganlyniad i effeithiau datblygu ynni



adnewyddadwy a charbon isel. O ran adeiladu, gweithredu, datgomisiynu, adfer ac ôl-ofal cynigion dylid ystyried:

- yr angen i leihau effeithiau ar gymunedau lleol, fel y rheiny gan sŵn a llygredd aer er enghraifft, i ddiogelu ansawdd bywyd cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol;
- yr effaith ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol;
- yr effaith gronnol;
- capasiti'r rhwydwaith trafnidiaeth, a'r effaith arno;
- materion cysylltiad grid lle cynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan); ac
- effeithiau newid hinsawdd ar leoliad, dyluniad, adeiladu a gweithredu datblygiad ynni carbon isel ac adnewyddadwy. Wrth wneud hyn, dylid ystyried p'un a yw mesurau i addasu i effeithiau newid hinsawdd yn arwain at ragor o effeithiau.

6.7.36 **Asesiad Ynni Adnewyddadwy**

Mae'r AYA yn cynnwys asesiad strategol lefel uchel o'r potensial ar gyfer gwahanol raddfeydd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon mewn gwahanol leoliadau.

6.7.37 Mae'r AYA hwn yn ffurfio sylfaen dystiolaeth sy'n llywio'r CDLlN. Mae hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar bolisïau sy'n cefnogi ac yn hwyluso defnyddio systemau ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon. Mae'r AYA yn cynnwys asesiad strategol lefel uchel o'r potensial ar gyfer gwahanol raddfeydd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon mewn gwahanol leoliadau. Cyflwynir y polisïau hyn drwy'r CDLlN.

6.7.38 Mae CBSC wedi cynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy sy'n ffurfio sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu polisïau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae CBSC wedi:

- ystyried y cyfraniad y gall Ardal y Cynllun ei wneud tuag at leihau allyriadau carbon a chynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- cydnabod y bydd dulliau o ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn amrywio;
- canfod potensial hygyrch a chyflawnadwy o ran ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer Ardal y Cynllun, gan gynnwys gwres, ac wedi ystyried defnydd tebygol yr adnodd hwn dros gyfnod y cynllun;
- asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n codi o ddatblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- ystyried effaith gronnol datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'u hisadeiledd cysylltiedig, gan gynnwys cysylltiadau grid;
- ymgysylltu â'r diwydiant datblygu ynni adnewyddadwy a Gwasanaeth Ynni LlC er mwyn ystyried cyflawnadwyedd cynlluniau; ac
- wedi ystyried blaenoriaethau lleol a strategol o ran ynni adnewyddadwy.



6.7.39 Bydd y CDLlN yn:

- nodi meini prawf ar gyfer penderfynu ceisiadau ar gyfer safleoedd yn seiliedig ar y capasiti sydd wedi'i osod ynddynt; ac
- yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â chysylltiad grid a'r rhwydwaith trafnidiaeth.

6.7.40 **Beth mae'r Strategaeth a Ffefrir a'r CDLlN yn ceisio ei gyflawni?**

Yn achos dim CDLl, byddai gwaith datblygu yn parhau o ran YA a'r rhwydwaith yn nhermau cynlluniau ar raddfa genedlaethol a gofynion Rheoliadau Adeiladu. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn caniatáu ar gyfer cryn integreiddio â datblygiadau eraill, a hynny o ganlyniad i'r CDLl. Yn y diwedd, bydd gwell integreiddio â chynlluniau eraill a chydweithio ar amserlenni a nodau a rennir o fudd ehangach o ran cyflawni gwell integreiddio yng nghyswllt datblygu, rhannu costau a defnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithlon.


**Dyraniad Strategol**

Dyrannir tir a berchnogir gan y Cyngor yng Ngofer ar gyfer aráe paneli solar 4MW PV.

**Dyraniad Strategol**

Mae Ardal Chwilio Strategol wedi'i dynodi'n unol â chanllawiau cenedlaethol fel y dangosir ar Map 9.

***Map 9: Map Ynni Adnewyddadwy Strategol***



## 6.8 Mwynau a Gwastraff

6.8.1 **Amcan Strategol 11 (SO11):** Cyfrannu at weithredu’r economi gylchol, rheoli gwastraff gan effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a sicrhau y gwneir defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.

***Polisi Strategol 33: Mwynau***

**Polisi Strategol 33 (SP/33): Mwynau**

Bydd y Cyngor yn rheoli'r adnoddau mwynol mewn modd cynaliadwy a fydd yn cefnogi’r economi adeiladu, a hefyd yn diogelu’r amgylchedd naturiol ac adeiledig drwy:

a) Sicrhau fod digon o ddarpariaeth o adnoddau a ganiateir o agregau i gwrdd ag anghenion cyflenwi lleol a rhanbarthol drwy gydol oes y Cynllun.

b) Nodi ardaloedd ar gyfer gweithio gyda cherrig caled yn y dyfodol, gan gynnwys estyniadau posibl mewn chwareli presennol, a chynnig sicrwydd hirdymor angenrheidiol i atal sterileiddio yn ddiangen adnoddau y gallai fod eu hangen yn ystod a'r tu hwnt i Gyfnod y Cynllun.

c) Annog defnydd effeithlon a phriodol o fwynau o ansawdd uchel a chefnogi cynigion ar gyfer ail-ddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau addas fel dull amgen yn hytrach na defnyddio agregau a sicrheir drwy ddulliau cynradd.

d) Dynodi clustogfeydd o amgylch chwareli i ddiogelu amwynder a sicrhau nad yw gweithrediadau mwynau yn cael eu cyfyngu’n ddiangen gan ddefnyddwyr tir eraill.

e) Diogelu tir a graean ac adnoddau carreg galed fel y nodir ar y map cynigion ac mewn adnoddau wrth gefn presennol a ganiateir o garreg galed yn Chwareli Penmaenmawr, Raynes (Llysfaen) a Llansan Siôr.

f) Sicrhau bod gweithfeydd mwynau yn cael eu hadfer yn briodol ar y cyfle cyntaf er mwyn gwella buddion amgylcheddol, amwynder a chymunedol.



6.8.2 **Mwynau**

Mae mwynau yn adnodd y mae pen draw iddo y gellir ond gweithio arno lle maent yn bodoli. Bydd polisïau yn cael eu datblygu i sicrhau fod y Sir yn darparu adnoddau mwynol mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion y gymdeithas i hyrwyddo a chefnogi twf economaidd, tai ac isadeiledd mewn modd sy’n diogelu'r amwynder a’r buddsoddiad, sy’n diwallu’r amcanion lles a amlinellir gan Lywodraeth Cymru, a sicrhau bod adnoddau mwynol gwerthfawr yn cael eu diogelu er mwyn eu defnyddio gan genedlaethau’r dyfodol.

6.8.3 **Cyflawni’r Amcan a Pholisi Strategol**

**Darparu agregau –** Ar gyfer mwynau, darparu agregau o fewn awdurdodau lleol unigol, mae grwpiau o awdurdodau neu grwpiau rhanbarthol yn cael eu harwain gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol (RTS). Mae’r datganiad technegol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau 2020. Bydd y datganiad technegol rhanbarthol newydd yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw ddosraniad angenrheidiol i sicrhau cyflenwad digonol o agregau craig wedi’i malu a thywod a graean, gan gynnwys y lleiafswm darpariaeth cenedlaethol a argymhellir sef 7 mlynedd o dywod a graean a 10 mlynedd o graig wedi’i malu fel y nodir ym Mharagraff 49 MTAN1, ar gael drwy gyfnod unrhyw CDLl, yn cydnabod argaeledd gofodol adnoddau mwynau addas ar draws ardal pob awdurdod lleol.

6.8.4 Ar hyn o bryd mae yna fanc tir sylweddol o agregau craig wedi'i malu wrth gefn yng Nghonwy a rhagwelir y bydd yn para yn ystod cyfnod y CDLl Newydd llawn ynghyd â’r banc tir 10 mlynedd, ac o ran ei hun, ystyrir ei bod yn annhebyg y bydd angen sylweddol i wneud darpariaeth ychwanegol. Fodd bynnag, rhaid nodi bod yr RTS sy’n cael ei ddatblygu yn asesu dewisiadau ar gyfer grwpiau is-ranbarthol, a bydd yn gosod dosraniadau is-ranbarthol. Efallai y bydd angen gwaith ar y cyd rhwng awdurdodau cyfagos i sicrhau y gwneir darpariaeth i sicrhau y cynhelir y cyflenwad o agregau i gwrdd â dosraniadau is-ranbarthol o fewn y grwpiad is-ranbarthol a allai ddatblygu. I’r perwyl hwn, efallai y bydd angen paratoi datganiadau tir cyffredin rhwng awdurdodau lleol i sefydlu’r egwyddor o ddarpariaeth agregau mwynol ar y cyd. Nodir y gallai’r grwpiau is-ranbarthol gynnwys Sir Ddinbych, neu Wynedd, Ynys Môn, ac ardal Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae cyfyngiadau polisi cenedlaethol ar yr awdurdodau hyn o ran gweithfeydd mwynau o fewn y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol, a chyfyngiadau yn sgil lleoliad daearyddol mwynau.

6.8.5 Mae absenoldeb adnoddau tywod a graean digyfyngiad masnachol hyfyw yng Nghonwy, yn bennaf oherwydd eu bod wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd ar hyd y llain arfordirol a gwastadedd afonydd dyffryn Conwy, neu ddyddodion nentydd cul yr ucheldir, yn golygu bod unrhyw ddarpariaeth o dywod a graean y gallai fod eu hangen yng Nghonwy yn fwy tebygol o gael eu diwallu drwy ddosraniad o Wynedd. Gallai diffyg posibl agregau carreg wedi’i malu yng Ngwynedd olygu y bydd angen i Gonwy wneud darpariaeth. Rhoddir eglurhad o hyn unwaith y cyhoeddir yr RTS ac y cytunir ar unrhyw ddatganiadau tir cyffredin sydd eu hangen os bydd angen dyraniad neu ardal a ffefrir ar gyfer gweithfeydd agregau mwynol yn y dyfodol.

6.8.6 Bydd y polisi strategol yn gwneud darpariaeth i nodi ardaloedd i weithio arnynt yn y dyfodol y dylid eu gwarchod er mwyn osgoi sterileiddio adnoddau mwynol sy’n debyg o fod eu hangen yn ystod cyfnodau’r CDLl yn y dyfodol o ystyried fod yr agregau wrth



gefn presennol yn asedau darfodol, ond yn cael eu cefnogi gan yr isadeiledd sydd eisoes yn bodoli ac yn elwa o fynediad at ddulliau cludiant cynaliadwy fel llongau a'r rheilffyrdd, neu fel arall yn agos at rwydwaith briffyrdd brifwythiennol Gwibffordd draws-Ewropeaidd yr A55(T).

6.8.7 **Diogelu mwynau –** Mae Llywodraeth Cymru yn gorchymyn fod angen diogelu tir sy'n cynnwys adnoddau i'w defnyddio gan genedlaethau'r dyfodol, ac yn rhoi sicrwydd polisi yn erbyn datblygiad a fyddai'n sterileiddio gwaith ar fwynau o'r fath heb fod angen. Mae Conwy'n cynnwys calchfaen Carbonifferaidd o ansawdd uchel yn rhedeg ar hyd y llain arfordirol o Abergele i'r Gogarth yn Llandudno, a gwenithfaen dïorit o ansawdd uchel ym Mhenmaenmawr. Bydd mwynau o fewn categorïau adnoddau 1 (Cynradd) a 2 (Eilaidd), sef yr adnoddau o'r ansawdd uchaf, yn cael eu diogelu. Nid ydym yn cynnig diogelu adnoddau categori 3 (Trydyddol) oherwydd y dosbarthiad mawr o adnoddau categori 1 a 2. Mae bodolaeth tywod a graean yn gyfyngedig iawn yng Nghonwy, ac naill ai wedi ei leoli ar y llain arfordirol tir isel a dyffryn a Moryd yr Afon Conwy, neu mewn dyffrynnoedd afonydd ynysig a phocedi o dywod rhewlifol mewn clai meini mawr a leolir yn yr ucheldiroedd. Oherwydd natur graddfa fechan neu gul llawer o'r dyddodion hyn, cynigir y dylid diogelu gwaddodion sy'n fwy na throthwy penodol o ran maint yn unig, gan, yn realistig, fod mwyafrif dyddodion o'r fath yn rhy fach o ran graddfa neu'n rhy ynysig i gyfiawnhau eu diogelu.

***Polisi Strategol 34: Gwastraff***

**Polisi Strategol 34 (SP/34): Gwastraff**

Bydd y Cyngor yn hwyluso rheoli cynaliadwy o ran gwastraff ac adfer adnoddau, gan gynnwys yr economi gylchol, i ddarparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd drwy:

a) Dyrannu tir sy'n addas ar gyfer datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff ar gyfer defnydd rheoli gwastraff presennol ac i'r dyfodol.

b) Hyrwyddo rheolaeth gwastraff ac adfer adnoddau yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

c) Cefnogi cynigion ar gyfer cynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff ac adennill adnoddau mewn safleoedd diwydiannol presennol a rhai a neilltuwyd sy'n addas at y defnydd bwriedig yn unol â'r asesiad addasrwydd ar sail meini prawf.

d) Darparu ar gyfer mathau penodol o gyfleusterau rheoli ac adfer gwastraff y gallai fod angen eu lleoli'r tu allan i derfynau aneddiadau, fel tirlenwi, rhai mathau o ailgylchu a throsglwyddo, ynni o wastraff, treulwyr anaerobig a defnydd chwareli trefol.

e) Hyrwyddo'r economi gylchol gyda phwyslais penodol ar leihau cynhyrchu gwastraff o fewn cynlluniau.

f) Hyrwyddo rheoli gwastraff cynaliadwy mewn datblygiadau newydd i leihau cynhyrchiant gwastraff ac i gynyddu adferiad, ail-ddefnyddio ac ailgylchu'r gwastraff hynny a gynhyrchir yn ystod oes a defnydd datblygiad penodol.



6.8.8 **Gwastraff**

Mae newid sylweddol yn y modd y rheolir gwastraff a'r modd yr ailgylchir, ail-ddefnyddir ac y gostyngir y defnydd o adnoddau. Mae targedau ailgylchu yn dal i gael eu diwygio ac mae digwyddiadau byd-eang yn rhoi cyfle i ddatblygu economi gylchol i gadw adnoddau y gellir eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio o fewn economi Cymru. Bu symudiad sylfaenol oddi wrth dirlenwi i fyny'r hierarchaeth wastraff ac mae angen polisïau i barhau i hyrwyddo hyn.

6.8.9 **Cyflawni'r Amcan a'r Polisi Strategol**

**Sgil-gynhyrchion gwastraff** – Mae nifer o adroddiadau monitro rhanbarthol wedi eu cyhoeddi ar gyfer gwastraff, sy'n dangos fod sgil-gynhyrchion gwastraff a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol yn y Sir wedi dirywio ar y cyfan ers 2008 ac mae cyfraddau ailgylchu wedi codi ar y cyfan ac mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi cwrdd â thargedau cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n gynyddol ar wella cyfraddau ailgylchu'r sector diwydiannol a masnachol. Y prif gasgliad hyd yma yw nad oes angen ychwanegol am allu gwaredu gwastraff gweddilliol terfynol yn y rhanbarth ac y dylid ystyried unrhyw ofyniad pellach am allu trin gwastraff gweddillol yn ofalus i sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain at orddarpariaeth.

6.8.10 **Cyfleusterau Gwastraff Rhanbarthol** – Mae nifer o gyfleusterau ar draws Cymru wedi cael eu datblygu mewn ymateb i hyn, gan gynnwys Parc Adfer yn Sir y Fflint, sy'n safle ynni o wastraff penodol ar gyfer trin gwastraff bwrdeistrefol gweddillol a'r cyfleuster Treulio Anaerobig yn Rhuallt, Sir Ddinbych, sy'n derbyn gwastraff bwyd y cartref, sy'n uniongyrchol berthnasol i Gonwy. Mae'r ddau gyfleuster wedi cael eu caffael i reoli gwastraff a gesglir gan Gyngor Conwy. Mae gan Parc Adfer hefyd allu i reoli rhywfaint o wastraff masnachol a diwydiannol, er y byddai'r swm y gellid ei reoli yn dibynnu ar ofynion yr Awdurdodau Partner. Mae hyn yn lleihau'r angen am ddewisiadau gwaredu terfynol ac yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer cyfleusterau isadeiledd ar gyfer gwaredu a thrin gwastraff fel yr amlinellir yn y Cynllun Casgliadau, isadeiledd a Sector y Farchnad.

6.8.11 **Safleoedd gwastraff lleol** – Mae tir o fewn safle chwarel a thirlenwi Llanddulas yn cynnwys plot sy'n addas ar gyfer ystod o ddefnyddiau rheoli gwastraff. Dyrannwyd y safle yn CDLl presennol Conwy (2007-2022) ac mae'n cynnig y fantais o gyfleuster canolog, mewn lleoliad sy'n cynnig mynediad da i'r rwydwaith ffyrdd brifwythiennol. Yn sgil y lefel uchel o sgrinio gweledol a'i fod wedi ei gyfyngu o fewn gwagle chwarel, mae'r safle'n addas ar gyfer trosglwyddo, storio, prosesu a thrin, ac yn cynnig cwmpas ar gyfer datblygu chwarel Drefol ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel. Gan fod hwn wedi ei diffinio fel safle lleol yn hytrach nac un strategol, bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach ar y cam CDLl Newydd i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

6.8.12 Bydd angen safleoedd addas ar gyfer cyfleusterau prosesu a thrin ar gyfer ailgylchu deunyddiau gwastraff ynghyd ag ystod amrywiol o weithgareddau rheoli gwastraff ar gyfer sortio, gwahanu, ailgylchu, ailddefnyddio, prosesu a thrin gwastraff. Mae canran sylweddol o'r rhain yn addas i'w lleoli o fewn dyraniadau tir cyflogaeth presennol, a chynhelir ymagwedd bolisi hyblyg yn unol â'r polisi cyfredol ar gyflogaeth. Dylid gweithredu'r meini prawf i sicrhau nad yw cyfleusterau rheoli



gwastraff yn cyfaddawdu defnyddiau cyfagos presennol, a bydd safleoedd cyflogaeth yn cael eu nodi sy’n addas ar gyfer y defnyddiau rheoli gwastraff sy’n fwy tebyg o arwain at wrthdaro amwynder.

6.8.13 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais cynyddol ar yr Economi Gylchol ac mae angen newidiadau i gynnal gwerth adnoddau diwedd oes yng Nghymru sy’n gallu cynnig manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a chludiant, a boed hyn i hwyluso ailgylchu ac adfer rhwydd ar adnoddau diwedd defnydd, i gynllunio dyfodol heb wastraff a gwneud y defnydd mwyaf cynaliadwy posibl o adnoddau ym mhob datblygiad, neu ddarparu lleoliadau addas i gynorthwyo ailgylchu a chynlluniau ailbrosesu, bydd angen i bolisïau hyrwyddo’r amcanion hyn.



# Atodiad 1: Rhestr o bolisïau wedi eu cadw, eu diwygio a pholisïau newydd



| Testun | Polisi | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| **Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy** | | |
| Creu Lleoedd a Dylunio Da | DP/1 Polisi Strategol – Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy | Yn gweithredu'n effeithiol – angen gwelliannau ar gyfer arweiniad pellach ac eglurder. |
| | DP/4 Meini Prawf Datblygu | Yn gweithredu'n effeithiol – angen gwelliannau ar gyfer arweiniad pellach ac eglurder. |
| | DP/7 - Uwchgynllun a Gwerthusiadau Cymunedol | Yn gweithredu'n effeithiol – angen gwelliannau ar gyfer arweiniad pellach ac integreiddio gyda strategaethau eraill. |
| | DP/8 - Uwchgynllun Adfywio Trefol Bae Colwyn | Polisi i'w adolygu gyda phwyslais ar adfywio wedi ei arwain gan ddiwylliant ar draws y sir. Bydd y polisi hwn yn cael ei symud i'r adran Adfywio a Arweinir gan Ddiwylliant. |
| | Polisi Newydd - Cyflawni Dyluniad Da | I ddarparu rhagor o eglurder ac integreiddiad gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| Yr Iaith Gymraeg | CTH/5 – Yr Iaith Gymraeg | Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | DP/1 – Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy | Wedi'i ddiwygio i ddarparu eglurhad pellach ac i integreiddio gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| | DP/4 - Meini Prawf Datblygu | Wedi'i ddiwygio i ddarparu eglurhad pellach ac i integreiddio gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| | NTE/1 – Yr Amgylchedd Naturiol | Diwygio i ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | Polisi Newydd - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | I gynnwys y sail dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf. |
| | Polisi Newydd - Cyflawni Dyluniad Da | Wedi'i ddiwygio i ddarparu eglurhad pellach ac i integreiddio gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| | Polisi Newydd - Seilwaith Gwyrdd | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion. |
| Rheoli Ffurf Anheddiad | DP/1 – Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy | Wedi'i ddiwygio i ddarparu eglurhad pellach ac i integreiddio gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| | DP/4 - Meini Prawf Datblygu | Wedi'i ddiwygio i ddarparu eglurhad pellach ac i integreiddio gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| | NTE/1 – Yr Amgylchedd Naturiol | Diwygio i ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | NTE/2 - Lletemau Glas a bodloni anghenion datblygu'r gymuned | Gweithredu'n effeithiol - efallai y bydd angen mân newidiadau.<br>Bydd y polisi hwn yn cael ei symud i'r adran Rheoli Ffurf Aneddiadau o dan Creu Lleoedd Cynaliadwy. |
| | Polisi Newydd - Rheoli Ffurf Aneddiadau | I gynnwys y sail dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf. |
| **Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy** | | |
| Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd | STR / 1 – Cludiant, Datblygiad a Hygyrchedd Cynaliadwy | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | STR/2 - Safonau Parcio | Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen gwneud mân newidiadau. |
| | STR/3 - Lliniaru effaith teithio | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | STR/4 - Teithio heb fodur | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | STR/5 – System Drafnidiaeth Gynaliadwy Integredig | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | STR/6 – Cludo nwyddau ar reilffyrdd | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | Polisi Newydd - Isadeiledd trafnidiaeth | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion ar gyfer darparu isadeiledd a thargedau gostwng carbon. |
| | Polisi Newydd - Teithio Llesol | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion ar gyfer darparu isadeiledd a thargedau gostwng carbon. |
| | Polisi Newydd - Seilwaith Gwyrdd | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion. |



| Testun | Polisi | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| | Polisi Newydd - Cerbydau Gollyngiadau Isel Iawn | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion. |
| Tai | HOU/1 – Cwrdd â'r anghenion o ran tai | Bydd unrhyw faterion blaenorol o ran cyflawni a dosbarthu safleoedd newydd, cynaliadwy a hygyrch ar gyfer tai yn cael eu trafod yn unol â'r strategaeth a ffefrir, y cytunwyd arni, gan ymgorffori'r taflwybr tai. |
| | HOU/2 – Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol | Nid oes tai fforddiadwy digonol wedi'u darparu oherwydd y cyfraddau isel o gwblhau gwerthiannau tai ar draws y rhanbarth cyfan ac nid oherwydd problemau penodol ynghylch y polisi. Er hynny, bydd angen diwygio'r polisi hwn, yn arbennig o ran cyflawni tai fforddiadwy mewn cefn gwlad agored ac ystyried yr Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy, y Cyfrifiad Anghenion o Dai Fforddiadwy a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. |
| | HOU/3 – Datblygu Tai Fesul Cam | Bydd y gyfradd gyflawni ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy ar gyfer Cyfnod y Cynllun CDLlG yn cael ei hamlinellu yn y taflwybr tai. Bydd y gyfradd gyflawni yn cael ei harchwilio'n fanwl drwy brosesau'r JHLAS, LHMA ac AMR. |
| | HOU/4 – Dwyster Tai | Bydd datblygiadau tai y CDLlG yn parhau i wneud y defnydd gorau o dir. Bydd CBSC yn parhau i chwilio am ddwyster o 30 annedd fesul hectar (dph) ar safleoedd dynodedig a hap-safleoedd. Bydd dwyseddau uwch ac is yn cael eu hystyried ar sail safleoedd unigol. |
| | HOU/5 – Cymysgedd Tai | Bydd y cymysgedd tai yn parhau i gael ei hysbysu gan dystiolaeth ddiweddaraf LHMH a thystiolaeth arall berthnasol. |
| | HOU/6 – Safleoedd Eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol | Ystyrir bod y gyfradd ddiddordeb mewn Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy yn araf oherwydd argaeledd cyllid a materion hyfywedd. Bydd angen newidiadau i'r polisi er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd, mewn ymgynghoriad â Strategaeth Dai CBSC, ac ystyried mentrau newydd megis Hunanadeiladu Cymru, er mwyn gwella darpariaeth safleoedd o'r fath. |
| | HOU/7 – Safleoedd y mae'r Cyngor a'r Llywodraeth yn berchen arnynt yn ardal y cynllun | Bydd CBSC yn parhau i geisio lefelau uwch o AHLN ar safleoedd y mae'r Cyngor a'r Llywodraeth yn berchen arnynt, hyd yn oed hyd at 100% yn amodol ar hyfywedd ac angen, a hefyd ystyried mentrau newydd megis Hunanadeiladu Cymru ar gyfer darparu safleoedd o'r fath. Bydd blaenlwytho safleoedd o'r fath a gwelliannau i broses adneuo'r Cyngor hefyd yn helpu'r ddarpariaeth. |
| | HOU/8 – Cofrestru Tirddaliadaethau | Nid yw'r polisi hwn yn ofynnol mwyach a bydd yn cael ei ddileu. |
| | HOU/9 – Cyflawni'r angen am safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | Mae gofynion y polisi hwn yn parhau, yn unol â chanfyddiadau diweddaraf GTAA. Bydd Safle Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei dyrannu yng ngham y Cynllun Adneuo. Ystyrir bod y polisi yn dderbyniol yn gyffredinol, yn amodol ar fân-ddiwygiadau. |
| | HOU/10 – Tai Amlfeddiannaeth a fflatiau hunangynhwysol | Mae'r polisi hwn yn rhy gyfyngol yn awr a chaiff ei ddiwygio i ystyried newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd, gofynion trwyddedu newydd, yr angen am fusnesau HMO bach (LHMA) a phenderfyniadau apêl diweddar. |
| | HOU/11 – Cartrefi gofal preswyl a thai gofal ychwanegol | Bydd angen addasu'r polisi hwn ar sail meini prawf er mwyn adlewyrchu'r angen a'r ddarpariaeth tai ar gyfer pobl hŷn a thai arbenigol fel y'i nodwyd yn yr LHMA a thystiolaeth gefndir arall. |
| | HOU/12 – Ail-ddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig gwag ar gyfer defnydd preswyl | Mae penderfyniadau apêl diweddar wedi dangos yr angen i adolygu'r meini prawf polisi, yn arbennig mewn cysylltiad â'r AHLN. Rhoddir ystyriaeth i uno polisïau EMP/6 a HOU/12 er mwyn darparu un set o feini prawf ar gyfer pob addasiad gwledig. |
| | Polisi Newydd - Safleoedd ar gyfer tai hunanadeiladu | Gyda chyflwyniad cynllun Hunanadeiladu Cymru newydd Llywodraeth Cymru, rhoddir ystyriaeth i bolisi penodol i gynnwys tai hunanadeiladu neu eu cynnwys o fewn polisi tai presennol. |



| Testun | Polisi | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| | Polisi Newydd - Anheddau Mentrau Gwledig | Bydd angen polisi newydd ar sail meini prawf yn benodol ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig er mwyn asesu a rheoli angen, daliadaeth, maint eithriadol ac ati, yn unol â TAN2 a TAN6. |
| Canolfannau Manwerthu a Masnachol | CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Ailenwi i Manwerthu gan ei fod bellach yn faes testun unigol yn y CDLl Newydd. Bydd cyfeiriadau at gyfleusterau cymunedol yn cael eu dileu.<br>Bydd y polisi yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau i'r polisïau manwerthu isod. |
| | CFS/2 - Hierarchaeth Manwerthu | Diweddarwyd hyn ym Mhapur Cefndir 26. Cynigir Hierarchaeth Fanwerthu newydd, sy'n adlewyrchu'n well lefel y gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael ym mhob canolfan a dalgylch tebygol y siopwyr. |
| | CFS / 3 – Prif Ardaloedd Siopa | Mae polisi cenedlaethol yn nodi y dylai defnyddiau siop A1 barhau i fod yn sail i'r ardaloedd hyn. Mae angen adolygu'r ffiniau er mwyn sicrhau bod crynhoad y defnydd hwn yn cael ei warchod a bydd yn cael ei newid os bydd angen. Bydd y gwaith hwn yn dilyn ar y cam Archwilio gan y cyhoedd. |
| | CFS/4 – Ardaloedd siopa | Mae polisi cenedlaethol wedi ei ddiweddaru i annog hyblygrwydd defnydd yn yr ardaloedd penodedig hyn.<br>Mae Papur Cefndirol 25 Gwiriadau Iechyd Canolfannau Manwerthu wedi nodi bod lefelau rhai defnyddiau yn anghytbwys mewn rhai canolfannau manwerthu. Mae angen newid y polisi CCA er mwyn gwahanu'r defnyddiau nad ydynt yn A1 sy'n achosi effaith negyddol.<br>Mae angen adolygu'r ffiniau er mwyn sicrhau bod digon o ddefnyddiau A yn yr ardal a warchodir. Bydd y rhain yn cael eu newid os oes angen. Bydd y gwaith hwn yn dilyn ar y cam Archwilio gan y cyhoedd. |
| | CFS / 5 – Parciau Manwerthu | Mae angen diwygiadau i roi eglurhad dros y safbwynt polisi ar geisiadau am ddefnyddiau A3 a diwygio'r nwyddau y gellir eu gwerthu, a fydd yn diogelu canol tref Llandudno.<br>Gallai Parc Hamdden Cyffordd Llandudno gael ei ychwanegu i'r polisi i ddiogelu ei swyddogaeth Hamdden. |
| | Polisi Newydd - Safle a Neilltuwyd | Mae angen manwerthu wedi ei nodi ym Mhapur Cefndirol 24. Bydd angen dyrannu safleoedd i fodloni'r angen hwn. |
| | Polisi Newydd - Dynodiad hamdden | Dynodiad i ddiogelu swyddogaeth hamdden Parc Hamdden Cyffordd Llandudno<br>Gellid cynnwys hyn fel isadran i'r polisi ynghylch Parc Llandudno a Mostyn Champneys. |
| | Polisi Newydd - Polisi i gefnogi adfywio a Chynlluniau Lleoedd. | Mae Bae Colwyn wedi ei ddynodi fel ardal adfywio Mae'n bosib y bydd angen newidiadau manwerthu o ganlyniad i hyn. Mae'n bosib y gall rhain gael eu hymgorffori i'r polisïau uchod, neu efallai y bydd angen ei bolisi ei hun.<br>Mae Cynlluniau Lleoedd yn rhan o'r polisi cynllunio cenedlaethol. Bydd angen ystyried effeithiau manwerthu a chaniatáu ar eu cyfer yn y CDLlN, un ai drwy'r polisïau uchod neu ei bolisi ei hun. |
| | Polisi Newydd - Polisi ar lywio cynigion ar safleoedd heb eu dyrannu | Mae hwn yn ofyniad newydd mewn polisi cynllunio cenedlaethol. |
| | Polisi Newydd - Polisi ar gyfer unedau prydau parod poeth ger ysgolion | Mae gordewdra ymysg plant yn broblem ar draws Cymru. Gall annog bwyta'n iach ymhlith plant ysgol a chyfyngu ar eu mynediad i fwydydd llai iach helpu cyflawni amcanion cenedlaethol a lleol ar gyfer iechyd a lles. |
| | CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Dileu cyfeiriadau at fanwerthu a mannau agored gan eu bod bellach yn benodau unigol.<br>Diwygio i gael gwared ar safleoedd sydd wedi'u darparu.<br>Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, yn cynnwys unrhyw ddyraniad newydd sy'n ofynnol ac yn adlewyrchu'r newid yn y polisi cenedlaethol. |



| Testun | Polisi | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| Cyfleusterau Cymunedol | CFS/9 – Diogelu Rhandiroedd | Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen gwneud mân newidiadau. |
| | CFS/10- Rhandiroedd Newydd | Diwygio i gael gwared ar safleoedd sydd wedi'u darparu. Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf yn cynnwys dyrannu safleoedd newydd lle bo'r angen. |
| | CFS/14 – Dyraniadau Tir Claddu Newydd | Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, yn cynnwys unrhyw ddyraniad newydd sy'n ofynnol. |
| | CFS/15 – Cyfleusterau Addysgol | Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, yn cynnwys unrhyw ddyraniad newydd sy'n ofynnol. |
| | Polisi Newydd - Polisi i ddyrannu cyfleusterau iechyd newydd | Efallai y bydd angen safleoedd gofal iechyd sylfaenol neu eilaidd newydd, neu estyniadau i rai presennol i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio. |
| Mannau Hamdden | CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Bydd angen dileu cyfeiriad at gyfleusterau manwerthu a chymunedol gan fod mannau hamdden bellach yn feysydd testun ar wahân.<br>Bydd y polisi yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau i'r polisïau mannau hamdden isod. |
| | CFS/11 - Datblygu a mannau agored | Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu safonau Meysydd Chwarae Cymru newydd. Gall trothwyon ar gyfer darparu ar safleoedd newid. |
| | CFS/12 – Diogelu Mannau Agored Presennol | Dim ond mân newidiadau sydd angen eu gwneud i'r polisi hwn. |
| | CFS/13 – Dyraniadau Mannau Agored Newydd | Bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith fod yr Asesiad Mannau Hamdden yn gyflawn. Efallai y bydd angen dyraniadau newydd. |
| | Polisi Newydd - Polisi i osgoi neu ddatrys gwrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau. | Mae hwn yn ofyniad newydd mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Bydd yr Asesiad Mannau Hamdden yn asesu a oes angen polisi yn ymwneud â'r mater. |
| | Polisi Newydd - Defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol neu dir segur a chyrff dŵr at ddibenion chwaraeon a hamdden | Mae hwn yn ofyniad newydd mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Bydd angen Asesiad Mannau Hamdden i asesu a oes unrhyw safleoedd priodol i'w cynnwys. |
| **Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy** | | |
| Y Dirwedd | NTE/1 – Yr Amgylchedd Naturiol | Diwygio i ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | NTE/4 - Y Dirwedd a Diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig | Yn gweithredu'n effeithiol - efallai y bydd angen mân newidiadau. effectively – minor amendments may be required. |
| Ardaloedd Arfordirol | NTE/5 – Yr Ardal Arfordirol | Yn gweithredu'n effeithiol - efallai y bydd angen mân newidiadau. effectively – minor amendments may be required. |
| | Polisi Newydd - Newid Arfordirol a'r CRhT | Diwygio i ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf |
| | Polisi Newydd - Diwygio i ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol | CTH/1 – Treftadaeth Ddiwylliannol | Ei adolygu i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf (gweler polisi strategol newydd). |
| | CTH/2 – Datblygiad sy'n Effeithio ar Asedau Treftadaeth | Ei adolygu i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf (gweler polisi strategol trosfwaol newydd). |
| | CTH/3 – Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol | Tynnu – mae'r polisi'n cael ei drafod gan ganllawiau cenedlaethol a'r polisi strategol trosfwaol |
| | CTH/4 – Galluogi Datblygu | Tynnu – mae'r polisi'n cael ei drafod gan ganllawiau cenedlaethol a'r polisi strategol trosfwaol |
| Adfywio Drwy Ddiwylliant | Polisi Newydd - Adfywio Drwy Ddiwylliant | I adnabod y cysylltiadau rhwng mentrau adfywio diwylliannol a'u pwysigrwydd wrth greu lle. |
| Seilwaith Gwyrdd | NTE/2 - Lletemau Glas a bodloni anghenion datblygu'r gymuned | Gweithredu'n effeithiol - efallai y bydd angen mân newidiadau.<br>Bydd y polisi hwn yn cael ei symud i'r adran Rheoli Ffurf Aneddiadau o dan Creu Lleoedd Cynaliadwy. |
| | Seilwaith Gwyrdd | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf |



| Testun | Polisi | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| Bioamrywiaeth | NTE/3 – Bioamrywiaeth | Yn gweithredu'n effeithiol - angen diwygiadau er mwyn rhoi arweiniad ac eglurhad pellach. |
| | Polisi Newydd - Gwarchod a Rheoli Safleoedd Dynodedig | Diwygio i ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf |
| Water | NTE/8 - Systemau draenio Cynaliadwy | Angen newidiadau i adlewyrchu newidiadau diweddar i'r canllawiau cenedlaethol. |
| | NTE/9 – Draenio Dŵr Budr | Yn gweithredu'n effeithiol - efallai y bydd angen mân newidiadau |
| | NTE/10 - Arbed Dŵr | Yn gweithredu'n effeithiol - newidiadau i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol |
| Yr Aer, Seinwedd a Goleuni | Polisi Newydd - Ansawdd Aer | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf |
| | Polisi Newydd - Seinwedd a Goleuni | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf |
| Llifogydd | DP/1 – Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy | Adolygu i ddarparu eglurder ac integreiddiad pellach gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| | DP/4 Meini Prawf Datblygu | Adolygu i ddarparu eglurder ac integreiddiad pellach gyda pholisïau, cynlluniau ac amcanion strategol eraill. |
| | NTE/1 – Yr Amgylchedd Naturiol | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | NTE/2 - Lletemau Glas a diwallu anghenion datblygu'r gymuned | Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen gwneud mân newidiadau. |
| | Polisi Newydd - Rheoli Perygl Llifogydd | Cynnwys y sail tystiolaeth a'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf, yn ogystal â mwy o eglurder. |
| **Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy** | | |
| Datblygu Economaidd | EMP/1 - Diwallu Anghenion Cyflogaeth Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8 | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf (gweler polisi strategol newydd) |
| | EMP/2 – Dyrannu Safleoedd Datblygu Cyflogaeth Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8 | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | EMP/3 - Datblygiadau swyddfa a diwydiannol B1, B2 a B8 newydd ar safleoedd heb eu dyrannu | Bydd angen gwneud mân newidiadau yn y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd |
| | EMP/4 - Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8 | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | EMP/5 Ardaloedd Gwella Cyflogaeth Diwydiannol a Swyddfeydd | Cadw |
| | EMP6 - Ailddefnyddio ac Addasu Adeiladau Gwledig Segur ar gyfer Defnydd Preswyl | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| Twristiaeth | TOU/1 - Twristiaeth gynaliadwy | Newidiadau i adlewyrchu diwygiadau Polisi eraill ac ychwanegiadau polisi newydd. |
| | TOU/2 – Datblygiadau hamdden a thwristiaeth gynaliadwy newydd | Mae angen mwy o eglurder i gefnogi darpariaeth 'atyniadau twristiaeth' yn bennaf. Bydd angen ail eirio'r polisi hwn ac egluro mai ategol yn unig y dylai'r elfen lety fod, ac yn gymesur â'r atyniad. Dileu cyfeiriad at safle'r hen waith Aliminiwm yn Nolgarrog sef Parc Antur Eryri bellach. |
| | TOU/3 – Parth Llety Gwyliau | Mae ceisiadau diweddar yn nodi y gallai fod angen elfen o hyblygrwydd o safbwynt Parthau Llety Gwyliau  Efallai system dwy haen i warchod y stoc llety 'cynradd' (h.y. Promenâd Llandudno) rhag defnyddiau amgen a chaniatáu dull mwy hyblyg o safbwynt yr ardaloedd stoc eilaidd – yn ddibynnol ar sail dystiolaeth gref, gan gynnwys Arolwg Stoc Gwelyau Conwy, asesiad Parthau Llety Gwyliau ac yn ddibynnol ar feini prawf llym. |
| | TOU/4 - Safleoedd cabannau, carafanau a gwersylla | Bydd angen gwneud newidiadau i'r polisi hwn er mwyn egluro dull gweithredu CBSC a beth a olygir drwy gyfeirio at 'garafannau statig', rheoli faint o gynnydd a wneir i safleoedd sydd eisoes yn fawr, ystyried ffurfiau cyfoes o lety bach ei effaith a gwahanu hen safleoedd a safleoedd newydd. Hefyd, posibilrwydd o bolisi ar wahân ar gyfer safleoedd carafanau a gwersylla. |
| | Polisi Newydd - Safleoedd Twristiaeth Antur | Ble bo'n briodol cefnogi egwyddor safleoedd newydd a safleoedd sy'n ehangu gyda Pholisi TOU/2 diwygiedig. |



| Testun | Polisi | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| | Polisi Newydd - Ffurfiau amgen o lety i dwristiaid | Ystyried ffurfiau cyfoes isel eu heffaith o lety gwyliau fel iyrts, cytiau, podiau ac ati. |
| | Polisi Newydd - Arallgyfeirio gwledig | Mae nifer o geisiadau wedi eu dyfarnu i gefnogi busnesau gwledig cyfredol i arallgyfeirio a darparu llety gwyliau amgen. Polisi newydd posib yn benodol i fynd i'r afael ac egluro'r mater hwn. |
| | Polisi Newydd - Llety gwyliau newydd parhaol | Polisi newydd i ddarparu meini prawf ar gyfer datblygu llety gwyliau newydd ac a drawsnewidiwyd (e.e. hostel, byncws) |
| Yr Economi Wledig | Polisi Newydd - Yr Economi Wledig | I gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf er mwyn ehangu'r busnesau gwledig presennol, yn amodol ar bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf. |
| Isadeiledd Cludiant | STR / 1 – Cludiant,<br>Datblygiad a Hygyrchedd Cynaliadwy | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | STR/3 – Mitigating Travel Impact | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | STR/5 – Integrated Sustainable | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf |
| | Polisi Newydd - Isadeiledd trafnidiaeth | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion ar gyfer darparu isadeiledd a thargedau gostwng carbon. |
| | Polisi Newydd - Teithio Llesol | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion ar gyfer darparu isadeiledd a thargedau gostwng carbon. |
| Telathrebu | Polisi Newydd - Telathrebu a Chlystyrau Busnes | I gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf i sicrhau bod darparwyr telathrebu yn cael eu cynnwys ar gam cynnar o'r broses ddatblygu ac i gefnogi'r gwaith o glystyru mathau busnes yn lleoliadol pan fo'n briodol. |
| Ynni | NTE/6 – Effeithlonrwydd ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd | Diwygio er mwyn ymgorffori rhagor o dechnolegau |
| | NTE/7 – Datblygu tyrbinau gwynt ar y tir | Diwygio er mwyn newid y canllawiau yng nghyswllt polisi cenedlaethol. |
| | Polisi Newydd - Cyswllt Grid a storio YA | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion ar gyfer cyflenwi isadeiledd a chyflawni targedau ar gyfer lleihau carbon |
| | Polisi Newydd - Cynhyrchu Ynni yn Lleol | Ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a'r gofynion ar gyfer cyflenwi isadeiledd a chyflawni targedau ar gyfer lleihau carbon. |
| Mwynau a Gwastraff | MWS/1 Mwynau a Gwastraff | Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf (polisi strategol newydd) |
| | MWS/2 Mwynau | Adolygu'r polisi i gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | MWS/3 Diogelu Craig Galed ac Adnoddau Tywod a Graean | Adolygu'r polisi i gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | MWS/4 Parth Clustogi Chwarel | Adolygu'r polisi i gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | MWS/5 Cynigion ar gyfer Rheoli Gwastraff | Adolygu'r polisi i gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | MWS/6 Lleoliadau ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff | Adolygu'r polisi i gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | MWS/7 Defnyddio Tir Diwydiannol ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff | Adolygu'r polisi i gynnwys y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf |
| | MWS/8 Parth Clustogi Tirlenwi | Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen gwneud mân newidiadau |



# Atodiad 2: Asesu Polisïau a Chysylltiadau

| | Themâu CDLl Conwy | | | | Nodau Lles | | | | | | | Themâu Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy | Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy | Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy | Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy | Cyfrifol yn Fyd-eang | Llewyrchus | Cadarn | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynnol | Diwylliant Bywiog | Lles diwylliannol | Lles economaidd | Lles amgylcheddol | Lles cymdeithasol |
| **Canlyniadau Creu Mannau Cynaliadwy Cenedlaethol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Gwarchod yr Amgylchedd cymaint â Phosibl a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | |
| Tirweddau unigryw ac arbennig | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Seilwaith gwyrdd integredig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Seinweddau priodol | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Lleihau risgiau amgylcheddol | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ |
| Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Aer glân | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Lleihau llygredd cyffredinol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Yn meddu ar amgylcheddau hanesyddol unigryw ac arbennig | ✓ | | | ✓ | | | | | | | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch a Iach** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mannau gwyrdd hygyrch o safon uchel | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Hygyrch trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Heb fod yn ddibynnol ar geir | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |

| | Themâu CDLl Conwy | | | | Nodau Lles | | | | | | | Themâu Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy | Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy | Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy | Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy | Cyfrifol yn Fyd-eang | Llewyrchus | Cadarn | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynnol | Diwylliant Bywiog | Lles diwylliannol | Lles economaidd | Lles amgylcheddol | Lles cymdeithasol |
| Lleihau yr angen i deithio | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Cynnig mynediad cyfartal | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Diogel a chynhwysol | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Cefnogi poblogaeth amrywiol | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cysylltiadau da | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mynediad cyfleus at nwyddau a gwasanaethau | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| **Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | |
| Rhwystro gwastraff | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | |
| Blaenoriaethu y defnydd o dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes ac adeiladau sy'n bodoli eisoes | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | |
| Rhyddhau posibiliadau ac adnewyddu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| O safon uchel ac wedi'i greu i bara am oes | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | |
| **Datblygu ein Heconomi mewn Dull Cynaliadwy** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Meithrin gweithgarwch economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | |
| Galluogi cyfathrebu hawdd | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | |
| Cynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | |
| Yn fywiog a deinamig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| Yn addasu i newid | | | | | | | | | | | | | ✓ | | |
| Yn croesawu technoleg ddoeth ac arloesol | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| **Creu a Chynnal Cymunedau** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Galluogi'r iaith Gymraetg i ffynnu | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Dwyseddau datblygu priodol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Cartrefi a swyddi i fodloni anghenion cymdeithas | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| At ddefnydd cymysg | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Yn cynnig profiadau diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Cyfleusterau a gwasanaethau o fewn y gymuned | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |



# Atodiad 3: Canllawiau Cynllunio Atodol i'w cynhyrchu

Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) canlynol yn cael eu cynhyrchu:
Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol

| **CCA** | **Blaenoriaeth** |
|---|---|
| Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio | Uchel |
| Canllaw Dylunio i Berchnogion Tai | Uchel |
| Dylunio | Uchel |
| Hybu Cymunedau Iachach | Canolig |
| Lleihau Carbon wrth Gynllunio | Canolig |
| Yr Iaith Gymraeg | Canolig |
| Cynlluniau Lle | Canolig |
| Rhwymedigaethau Cynllunio | Uchel |
| Safonau Parcio | Uchel |
| Newid defnydd mewn canolfannau manwerthu | Canolig |
| Cyfleusterau manwerthu | Isel |
| Diogelwch Blaenau Siopau | Canolig |
| Dyluniad Ffryntiadau Siopau | Canolig |
| Mannau Hamdden | Canolig |
| Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol | Canolig |
| Galluogi Datblygu | Canolig |
| Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth (ardaloedd cadwraeth amrywiol) | Canolig |
| Ardaloedd Cadwraeth | Canolig |
| Cynllun Rheoli a Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Waliau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd | Canolig |
| Seilwaith Gwyrdd | Uchel |
| Bioamrywiaeth a Chynllunio | Uchel |
| Tirlunio, Mynediad a Dylunio | Canolig |
| Coed a Datblygiad | Uchel |
| Diogelu Tir Cyflogaeth B1, B2 a B8 | Canolig/Uchel |
| Safleoedd Cyflogaeth Newydd mewn Ardaloedd Trefol a Gwledig | Canolig |
| Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd ar gyfer Datblygiad Tyrbinau Gwynt ar y Tir | Uchel |
| Datblygiad Tyrbin Gwynt ar y Tir | Uchel |
| Ynni Adnewyddadwy | Uchel |
| Risg Llifogydd Arfordirol Protocol | Uchel |
| Briff Datblygu Safle: Safle Strategol yn Hen Golwyn | Uchel |
| Briff Datblygu Safle: Safle Strategol yn Llanfairfechan | Uchel |
| Briff Datblygu Safle: Safle Strategol yn Llanrhos | Uchel |
| Briff Datblygu Safle: Safle Strategol yn Abergele | Uchel |
| Briff Datblygu Safle: Safle Strategol yn Llanrwst | Uchel |




# Atodiad 4:
# Mapiau Safleoedd Strategol


**Safle Strategol / Strategic Site**

Llanfairfechan


Graddfa/Scale 1:4,000 @ A4




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.

# Safle Strategol / Strategic Site

Abergele





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.

## Safle Strategol / Strategic Site

Llanrwst

Graddfa/Scale 1:4,000 @ A4






© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.


# Atodiad 5:
# Papurau Testun a Phapurau Cefndir

| Papurau Testun | Papurau Cefndir Cysylltiedig | |
|---|---|---|
| Papur Testun 1: Tai | PC01 | Adroddiad Opsiynau Lefel Twf (Tai a Chyflogaeth) |
| | PC02 | Adroddiad Opsiynau Dosbarthiad Gofodol |
| | PC03 | Hierarchaeth Aneddiadau ac Aneddiadau a Rennir |
| | PC06 | Asesiadau Cyflawni Safleoedd |
| | PC07 | Cyflenwad Tir ar gyfer Tai |
| | PC08 | Cydastudiaeth Flynyddol Argaeledd Tir ar Gyfer Tai Conwy (2018) |
| | PC09 | Asesiad y Farchnad Dai Leol (LHMA) |
| | PC10 | Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy |
| | PC11 | Cyfrifiad Anghenion Tai Fforddiadwy |
| | PC12 | Tai Amlfeddiannaeth (HMO) |
| | PC13 | Cynllun Graddol |
| | PC14 | Capasiti'r Diwydiant Adeiladu Tai |
| | PC15 | Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | PC35 | Perygl Llifogydd a Chyfleoedd i Ddatblygu i'r Dwyrain o'r Fwrdeistref Sirol |
| Papur Testun 2: Economi, Sgiliau a Chyflogaeth | PC16 | Brexit a'r Economi Wledig |
| | PC17 | Cyflenwad Tir Cyflogaeth |
| | PC18 | Adolygiad Tir Cyflogaeth (gan gynnwys Gyrwyr Economaidd Rhanbarthol) |
| | PC19 | Dadansoddiad Marchnad Masnachol |
| | PC20 | Asesiad o Anghenion Sgiliau |
| Papur Testun 3: Adwerthu | PC24 | Astudiaeth Capasiti Manwerthu |
| | PC25 | Gwiriadau Iechyd Canolfan Fanwerthu |
| | PC26 | Hierarchaeth Fanwerthu |
| | PC27 | Ardaloedd Manwerthu Cynradd ac Eilradd |
| Papur Testun 4: Twristiaeth | PC21 | Ardaloedd Llety Gwyliau Cynradd |
| | PC22 | Strategaeth Twf Twristiaeth |
| | PC23 | Gweledigaeth Twristiaeth Llandudno |




| Papurau Testun | Papurau Cefndir Cysylltiedig | |
|---|---|---|
| **Papur Testun 5: Cyfleusterau Cymunedol** | PC30 | Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Lotments |
| | PC31 | Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Claddfeydd |
| | PC44 | Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol |
| | PC45 | Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg |
| **Papur Testun 6: Yr Amgylchedd Naturiol** | PC29 | Asesiadau Lleiniau Gwyrdd |
| | PC32 | Ardaloedd Tirwedd Arbennig |
| **Papur Testun 7: Yr Amgylchedd Hanesyddol** | PC38 | Dynodiadau Treftadaeth |
| | PC39 | Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol |
| | PC42 | Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg |
| **Papur Testun 8: Trafnidiaeth** | PC40 | Cynllun Teithio Llesol |
| | PC41 | Strategaeth Cludiant Strategol Conwy |
| **Papur Testun 9: Ynni Adnewyddadwy** | PC33 | Asesiad Ynni Adnewyddadwy |
| **Papur Testun 10: Mwynau a Gwastraff** | PC36 | Rheoli Gwastraff |
| | PC37 | Mwynau |
| **Papur Testun 11: Llesiant, Iechyd a Chydraddoldeb** | PC44 | Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol |
| | PC45 | Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg |
| **Papur Testun 12: Mannau Hamdden** | PC28 | Asesiad Mannau Agored |

| Papur Cefndir | | Pwrpas |
|---|---|---|
| **PC1** | **Adroddiad Opsiynau Lefel Twf (Tai a Chyflogaeth)** | Mae’r papur briffio hwn yn edrych ar yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cenedlaethol diweddaraf, gan nodi nifer o opsiynau twf. Mae’n eu cymharu ag amcanestyniadau’r gorffennol, edrych ar oblygiadau’r amcanestyniadau ar gyfer yr RLDP a darparu beirniadaeth o ddefnydd yr amcanestyniadau. Rhoi diweddariad er mwyn canfod Lefel Twf a Ffefrir. |
| **PC2** | **Adroddiad Opsiynau Dosbarthiad Gofodol** | Mae’r papur hwn yn nodi dosbarthiad gofodol cyffredinol datblygiad dros gyfnod y Cynllun. Mae’r papur hwn yn nodi’r opsiynau gofodol a ystyriwyd. Rhoi diweddariad er mwyn canfod Lefel Twf a Ffefrir. |
| **PC3** | **Hierarchaeth Aneddiadau ac Aneddiadau a Rennir** | Mae’r BP yn nodi’r opsiynau hierarchaeth aneddiadau presennol ar gyfer yr RLDP ar sail asesiad o gymeriad a chynaliadwyedd pob anheddiad. Mae’r Hierarchaeth Aneddiadau yn hanfodol wrth osod dosbarthiad gofodol twf. Rhoi diweddariad pan fydd y strategaeth anheddu a ffefrir yn hysbys. |
| **PC4** | **Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol** | Mae’r adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd llawn yn ddogfen gyhoeddus a’i bwrpas yw dangos sut caiff yr ystyriaethau cynaliadwyedd eu hintegreiddio i baratoi’r RLDP. Bwriedir i’r adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd ganiatáu i rai sy’n darllen yr adroddiad gael syniad o pa mor effeithiol allai’r RLDP fod o ran darparu datblygu mwy cynaliadwy a lle gallai effaith fwy andwyol fodoli. Lle caiff effaith negyddol bosibl ei nodi, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn gwneud argymhellion o ran sut gellir addasu’r RLDP, neu roi rheolaethau ar ddatblygiad, er mwyn osgoi neu liniaru yn erbyn y rhain. Mae hyn yn rhan o broses lle caiff camau olynol o’r RLDP sy’n dod i’r amlwg eu harfarnu a lle caiff canfyddiadau eu bwydo i gam nesaf paratoi’r cynllun. |
| **PC5** | **Arfarniad Rheoliadau’r Cynefinoedd** | Mae chwe Safle Ewropeaidd yn Ardal y Cynllun a phump arall y tu allan i’r ardal a gallai’r RLDP gael effaith arnynt o bosibl. Mae’r safleoedd hyn yn naill ai ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA) (am bwysigrwydd eu cynefinoedd) neu |



| Papur Cefndir | | Pwrpas |
|---|---|---|
| | | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (am bwysigrwydd eu rhywogaethau adar). Yn ei hanfod, bydd angen arfarniad er mwyn asesu pob cam o'r RLDP ac a yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd ac os felly, bydd angen cynnal Asesiad Priodol. Ni ellir mabwysiadu'r RLDP oni bai y gellir canfod, drwy'r Asesiad Priodol, na fydd y cynllun yn cael effaith andwyol ar integriti'r safle(oedd). |
| **PC6** | **Asesiadau Cyflawni Safleoedd** | Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses a gynhelir ar gyfer asesu safleoedd a gyflwynwyd ar gyfer eu cynnwys yn yr RLDP, a elwir 'safleoedd ymgeisiol'. Mae safleoedd wedi'u cyflwyno ar gyfer nifer o wahanol ddefnydd tir ac maent wedi bod yn destun proses asesu safleoedd manwl, ei phwrpas yw nodi'r safleoedd mwyaf addas i'w cynnwys yn yr RLDP i ddiwallu anghenion safle a nodwyd ar gyfer defnydd preswyl, cyflogaeth a chymysg. |
| **PC7** | **Cyflenwad Tir ar gyfer Tai** | Mae'r Papur Cefndir hwn yn edrych ar ffynonellau posibl a realistig y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai dros gyfnod yr RLDP 2018 – 2033. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r papurau cefndir cysylltiedig eraill, gan gynnwys y Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai. |
| **PC8** | **Cydastudiaeth Flynyddol Argaeledd Tir ar Gyfer Tai Conwy (2018)** | Dyma'r Adroddiad blynyddol Cydastudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai ac mae'n darparu data tueddiadau hanfodol sy'n ymwneud â darpariaeth tai a nifer sy'n manteisio arnynt. Mae'r Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai yn ffynhonnell ddata dda i ddeall capasiti'r diwydiant adeiladu tai a llywio lefelau twf. |
| **PC9** | **Asesiad y Farchnad Dai Leol (LHMA)** | Mae'r adroddiad hwn yn ystyried tystiolaeth am angen o ran tai a galw yng Nghonwy a bydd yn llywio gwaith paratoi strategaethau lleol gan gynnwys polisïau cynllunio a thai. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r papurau cefndir cysylltiedig eraill, gan gynnwys BP08 y Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai, BP11 Cyfrifiad Anghenion o ran Tai Fforddiadwy a BP10 Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy. |
| **PC10** | **Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy** | Bydd yr Astudiaeth yn cynghori am y targed(au) a'r trothwy(au) mwyaf uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar gyfer tai fforddiadwy sy'n adlewyrchu'n llawn argaeledd amrywiaeth o gyllid tuag at dai fforddiadwy ac sy'n adlewyrchu anghenion isadeiledd blaenoriaethol. Bydd yr astudiaeth yn asesu'r opsiynau posibl ar gyfer cynyddu lefelau tai fforddiadwy drwy amryw opsiynau hefyd, a fydd yn llywio polisi diweddarach. |
| **PC11** | **Cyfrifiad Anghenion Tai Fforddiadwy** | Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei RLDP, rhaid iddo egluro sut mae'r polisi perthnasol wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r papur cefndir hwn yn darparu tystiolaeth a chyfiawnhad ar gyfer y dull polisi yn yr RLDP sy'n ymwneud â'r targed tai fforddiadwy. Bydd y papur hwn yn bwysig wrth asesu'r holl systemau posibl o wella cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys archwilio gwerthoedd tai i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r cyfrifiad anghenion tai fforddiadwy yn edrych ar angen presennol a phosibl yn y dyfodol o ran tai fforddiadwy, ac mae'n cyfrifo amcangyfrif blynyddol o faint o aelwydydd fydd angen help i gael mynediad i dai fforddiadwy yn ychwanegol at aelwydydd sydd eisoes yn cael help.<br><br>Mae'n bwysig nodi bod y ffigur gwaelodlin angen o ran tai fforddiadwy yn ymwneud â'r gofyniad i adeiladu cartrefi newydd – a hefyd am aelwydydd mewn angen. Yn ogystal â darparu tai fforddiadwy newydd, mae amrywiaeth o ffyrdd eraill o helpu'r aelwydydd hyn nad oes angen gwaith adeiladu newydd – er enghraifft trwy leoli mewn stoc tai cymdeithasol presennol; darparu cynlluniau prynu â chymorth fel yr un a ddarperir drwy'r gofrestr Camau Cyntaf; trawsnewid neu addasu stoc presennol i ddiwallu anghenion tenantiaid yn well (o stoc yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat) a thrwy gefnogaeth ariannol i rentu yn y sector preifat (budd-dal tai). Er bydd rhai aelwydydd sydd wedi'u nodi fel bod angen help arnynt i gael mynediad i dai fforddiadwy heb gartref ar hyn o bryd, bydd gan y rhan fwyaf lety, er ei fod mewn tai annigonol. Nid yw hyn yn negyddu'r angen i ddarparu nifer sylweddol uwch o opsiynau tai fforddiadwy (yn enwedig wrth i gostau tai barhau i gynyddu ac wrth i'r rhai ag incymau is gael eu gwasgu allan o'r farchnad), ond mae'n awgrymu bod angen defnyddio dulliau ar wahân i adeiladu tai newydd ar gyfer deiliadaeth cymdeithasol a chanolradd i ddiwallu'r angen hwn. Bydd y BP hwn yn hanfodol o ran deall hyn. |
| **PC12** | **Tai Amlfeddiannaeth (HMO)** | Yng ngoleuni newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd sy'n ymwneud â Thai amlfeddiannaeth a'r angen i ddarparu ar gyfer llety aelwydydd sengl, caiff y polisi presennol ei adolygu yng ngoleuni canlyniadau'r papur hwn. |



| Papur Cefndir | | Pwrpas |
|---|---|---|
| **PC13** | **Cynllun Graddol** | Ei bwrpas yw darparu rhagor o dystiolaeth a chyfiawnhad dros ddatblygu safleoedd tai a chyflogaeth yn raddol rhwng 2018 a 2033. |
| **PC14** | **Capasiti'r Diwydiant Adeiladu Tai** | Mae'n hanfodol bod gan y Cyngor ddealltwriaeth o gapasiti'r diwydiant adeiladu tai. Bydd hyn caniatáu i lefel gadarn a phriodol o gyflenwad tai gael ei ddarparu gan alluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â'r newid o ran amcanestyniad poblogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Er mwyn helpu i gael y ddealltwriaeth hon, bydd y Cyngor yn cysylltu â datblygwyr a pherchnogion tir i ddeall materion capasiti. |
| **PC15** | **Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr** | Mae'n nodi bod gan Gonwy angen presennol i ddarparu 1 safle tramwy i ddarparu ar gyfer 7 llain. |
| **PC16** | **Brexit a'r Economi Wledig** | Mae'r BP yn archwilio effaith bosibl Brexit ar yr economi leol yn benodol ac effaith arallgyfeirio ffermydd a goblygiadau ar bolisi yn yr RLDP. |
| **PC17** | **Cyflenwad Tir Cyflogaeth** | Mae'r Adroddiad Cyflenwad Tir Cyflogaeth yn astudiaeth o'r holl safleoedd cyflogaeth dros 0.1 hectar a gaiff eu hystyried yn addas ar gyfer datblygiad swyddfa, diwydiannol neu warws. Mae hwn yn ymarfer parhaus a chaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn. Mae'r astudiaeth yn monitro nifer sy'n manteisio ar dir cyflogaeth, ei ddyraniad a'i ddosbarthiad ac mae'n galluogi'r Cyngor i ddechrau penderfynu'r graddau y gall y gofynion cyflogaeth a nodir yn yr RLDP gael eu bodloni'n realistig drwy ddarpariaeth bresennol. |
| **PC18** | **Adolygiad Tir Cyflogaeth (gan gynnwys Gyrwyr Economaidd Rhanbarthol)** | Mae'n asesu nifer o ragolygon cyflogaeth i benderfynu ar lefel y tir cyflogaeth gofynnol dros gyfnod yr RLDP. Mae'r BP hefyd yn nodi'r math o ddatblygiad dosbarthu busnes gofynnol. Mae'r BP hefyd wedi rhoi ystyriaeth i oblygiadau Bargen Dwf Gogledd Cymru a Strategaeth Economaidd Conwy o ran angen cyflogaeth a gofyniad tir. |
| **PC19** | **Dadansoddiad Marchnad Masnachol** | Mae'r BP yn ystyried y lleoliadau gorau ar gyfer cyflogaeth ar ôl ymgynghori â gweithwyr presennol yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y gwaith yn cynorthwyo'r lleoliadau tir cyflogaeth a llywio'r strategaeth twf. |
| **PC20** | **Asesiad o Anghenion Sgiliau** | Mae'r BP hwn yn ystyried y canlyniad a nodir yn Strategaeth Economaidd Conwy i ddeall yr anghenion ar gyfer cyfadrannau addysg uwch a'r potensial ar gyfer campws addysg uwch newydd. Bydd canlyniadau'r BP yn llywio'r angen am dir/polisi. |
| **PC21** | **Ardaloedd Llety Gwyliau Cynradd** | Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r polisïau a darpariaeth bresennol ar gyfer llety gwyliau yng nghanolfan dwristiaeth Llandudno. Caiff darpariaeth llety gwyliau yn yr Ardaloedd Llety Gwyliau Cynradd ei hadolygu yn unol â'r polisïau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ardaloedd llety gwyliau, a bydd canlyniadau'r arolwg yn llywio unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardaloedd hyn yn yr RLDP. |
| **PC22** | **Strategaeth Twf Twristiaeth** | Bydd yn asesu'r galw am gyfleusterau twristiaeth (gan gynnwys twristiaeth antur) a llety drwy'r Fwrdeistref Sirol. Bydd y BP yn llywio polisi posibl a dynodiadau a dyraniadau defnydd tir. |
| **PC23** | **Gweledigaeth Twristiaeth Llandudno** | Bydd yn nodi'r cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer Llandudno mewn partneriaeth gyda'r sector. Gallai'r Weledigaeth arwain at angen i nodi polisi ategol a dyraniadau defnydd tir. |
| **PC24** | **Astudiaeth Capasiti Manwerthu** | Mae'r astudiaeth yn ystyried ystadegau manwerthu allweddol a gwariant yn y Fwrdeistref Sirol ac mae'n nodi cyfleoedd a chyfyngiadau sy'n effeithio ar bob anheddiad. Yna mae'n darparu asesiad o sut i ddarparu orau ar gyfer gofynion y dyfodol ar gyfer gofod llawr manwerthu. Mae'r Astudiaeth Manwerthu hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu a argymhellir i'r Cyngor eu cyflawni o ran polisi cynllunio. |
| **PC25** | **Gwiriadau Iechyd Canolfan Fanwerthu** | Mae'r BP hwn yn asesu iechyd cyffredinol y canol trefi yn erbyn amrywiaeth o feini prawf, gan gynnwys lefelau swyddi gwag, hygyrchedd ac ati. Bydd yn llywio'r polisïau manwerthu a strategaethau adfywio ar gyfer yr RLDP. |
| **PC26** | **Hierarchaeth Fanwerthu** | Mae gan y CDLl presennol Hierarchaeth Fanwerthu sy'n seiliedig ar feini prawf cynaliadwyedd. Defnyddir yr hierarchaeth mewn polisi i sicrhau bod manwerthu mawr wedi'i gyfeirio at y trefi mwyaf cynaliadwy. |
| **PC27** | **Ardaloedd Manwerthu Cynradd ac Eilradd** | Mae dau brif bwrpas i'r papur hwn; egluro'r rhesymeg sy'n sail i ffurfio'r hierarchaeth fanwerthu, ac adolygu a rhesymoli'r ardaloedd siopa presennol yn y CDLl a fabwysiadwyd, gan gynnig diwygiadau a ffiniau newydd lle bo'n briodol. |



| Papur Cefndir | | Pwrpas |
|---|---|---|
| **PC28** | **Asesiad Mannau Agored** | Mae’r papur hwn yn dadansoddi ac adolygu darpariaeth bresennol mannau agored yng Nghonwy a bydd yn cynnwys safleoedd newydd arfaethedig yn yr RLDP. Bydd y BP hefyd yn llywio strategaethau twf posibl oherwydd pwysigrwydd creu ffyrdd o fyw iach ac actif. |
| **PC29** | **Asesiadau Lleiniau Gwyrdd** | Mae’r adroddiad hwn yn adolygu rôl Rhwystrau Glas a Lletemau Glas dynodedig o fewn cynlluniau datblygu presennol sy’n cwmpasu Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn ceisio nodi unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i Rwystrau/Lletemau Glas presennol o ganlyniad i ymrwymiadau blaenorol neu ddyraniadau tai arfaethedig. Yn olaf mae’n ceisio nodi unrhyw ardaloedd newydd sydd angen dynodiad oherwydd perygl o ymgyfuniad neu resymau tirwedd eraill. |
| **PC30** | **Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Lotments** | Pwrpas y papur cefndir hwn yw amlinellu lefel bresennol darpariaeth lotments, nodi’r ardaloedd lle mae’r galw mwyaf am lotments ac asesu unrhyw safleoedd lotments newydd posibl. |
| **PC31** | **Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Claddfeydd** | Pwrpas y papur cefndir hwn yw amlinellu lefel bresennol darpariaeth claddfeydd, nodi’r ardaloedd lle mae galw am ddarpariaeth claddfeydd ac asesu unrhyw safleoedd newydd posibl. |
| **PC32** | **Ardaloedd Tirwedd Arbennig** | Mae’r Papur Cefndir hwn yn darparu trosolwg byr o brosesau sy’n rhan o nodi’r ardaloedd cymeriad tirwedd yn Ardal y Cynllun a’r rhesymeg a chyfiawnhad dros y meini prawf a nodir ym Mholisi NTE/5 yr RLDP. Roedd Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi’u cynnwys yng Nghynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn, Cynllun Fframwaith Gwynedd a Chynllun Datblygu Unedol gyda’r bwriad o ychwanegu rhagor o gryfder i ddiogelu’r ardaloedd gwledig heb eu datblygu. Ym mhob un o’r cynlluniau hyn, roedd yr Ardaloedd Cymeriad yn cwmpasu holl Ardal y Cynllun y tu allan i ffiniau’r anheddiad a ddiffiniwyd. Yn y dyfodol, cynigir defnyddio LANDMAP fel sail ar gyfer asesiadau effaith tirwedd. |
| **PC33** | **Asesiad Ynni Adnewyddadwy** | Darparu sylfaen dystiolaeth Ynni Adnewyddadwy cadarn a fydd yn llywio gwaith cynhyrchu’r RLDP a ffurfio’r gwaelodlin ar gyfer monitro Ynni Adnewyddadwy yn y dyfodol. |
| **PC34** | **Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Conwy (SFCA)** | Mae llifogydd yn ddigwyddiad naturiol sy’n anodd ei ragweld yn aml. Gall beri risg uniongyrchol i fywyd dynol ac achosi difrod helaeth i eiddo ac isadeiledd. Mae’r bygythiad gan newid hinsawdd yn debygol o gynyddu’r risg o lifogydd arfordirol ac afonol oherwydd rhagwelir y bydd lefel y môr yn codi a rhagwelir cawodydd glaw mwy dwys. Felly mae’r perygl o lifogydd yn ystyriaeth berthnasol sy’n dylanwadu ar benderfyniadau rheoli datblygu a dyraniadau safle’r CDLl. Nod yr SFCA yw llywio defnydd o’r prawf cymalog i safleoedd datblygu ymgeisiol yn yr RLDP. Bydd hyn yn galluogi’r Awdurdod Cynllunio Lleol i fabwysiadu’r egwyddor ragofalus a gaiff ei hyrwyddo mewn canllawiau cynllunio Cenedlaethol i gyfeirio datblygiad oddi wrth ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd. |
| **PC35** | **Perygl Llifogydd a Chyfleoedd i Ddatblygu i’r Dwyrain o’r Fwrdeistref Sirol** | Prif bwrpas yr astudiaeth hon yw asesu’r potensial ar gyfer datblygiad yn yr ardal perygl llifogydd drwy hyrwyddo datrysiadau dylunio arloesol. Bydd y papur yn llywio’r strategaeth twf a ffefrir, ond yn y pen draw bydd yn asesu’r potensial ar gyfer darparu datblygiad yn yr ardal hon oherwydd lefelau uchel o berygl llifogydd presennol. |
| **PC36** | **Rheoli Gwastraff** | Mae llawer o yrwyr newid o ran sut rydym yn rheoli ein gwastraff. Mae Cyfarwyddebau Ewropeaidd a Chanllawiau Cenedlaethol a gweithio ar lefel rhanbarthol yn cyflwyno newid o ran dulliau rheoli gwastraff. Pwrpas y papur cefndir hwn yw gosod y cyd-destun a darparu crynodeb o’r gyrwyr hyn a materion lleol a fydd yn dylanwadu ar bolisi defnydd tir, a ffurfio rhan o’r sylfaen dystiolaeth i gefnogi polisïau Gwastraff yn yr RLDP. |
| **PC37** | **Mwynau** | Gall prosiectau adeiladu sterileiddio adnoddau cyfansymiol yn barhaol, gan olygu na fyddant ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae polisïau cynllunio yn diogelu adnoddau cyfansymiol a allai fod yn werthfawr rhag cynigion datblygu a allai eu sterileiddio yn y tymor hir. Mae’r papur cefndir hwn yn egluro sut mae’r CDLl yn sicrhau bod cronfeydd wrth gefn cyfansymiol yn cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| **PC38** | **Dynodiadau Treftadaeth** | Mae’r Papur Cefndir hwn yn darparu trosolwg byr o’r dynodiadau treftadaeth statudol sydd angen eu hystyried wrth adolygu’r CDLl. |
| **PC39** | **Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol** | Bydd y BP yn llywio’r rhesymeg a’r cyfiawnhad dros y polisi Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol sy’n ceisio cadw adeiladau heb eu rhestru sydd o ddiddordeb hanesyddol/pensaernïol. |



| Papur Cefndir | | Pwrpas |
|---|---|---|
| **PC40** | **Cynllun Teithio Llesol** | Mae'n asesu'r llwybrau dulliau amgen (beicio, cerdded ac ati) drwy'r Fwrdeistref Sirol ac mae'n nodi bylchau allweddol o ran y system gyffredinol. Bydd y BP yn llywio'r meysydd gwelliant posibl, polisi a'r dosbarthiad gofodol. |
| **PC41** | **Strategaeth Cludiant Strategol Conwy** | Bydd yn nodi'r ymyriadau cludiant strategol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. |
| **PC42** | **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Mae'r papur cefndir hwn yn darparu tystiolaeth a chyfiawnhad ar gyfer y dull polisi yn yr RLDP sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd yn llywio'r strategaeth dwf a ffefrir yn unol â TAN20. |
| **PC43** | **Cydweithio gydag Awdurdodau cyfagos** | Mae'r papur cefndir hwn yn nodi'r cydweithio a wneir gyda Chynghorau cyfagos ac awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r RLDP. Mae hyn yn cynnwys materion trawsffiniol fel yr economi, tai fforddiadwy a chludiant. |
| **PC44** | **Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol** | Bydd y BP yn asesu'r materion capasiti presennol a deall effaith twf a ragwelir ar Ofal Sylfaenol. Bydd y BP yn penderfynu a oes angen tir/goblygiadau i gynorthwyo â lefelau twf. |
| **PC45** | **Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg** | Bydd y BP yn asesu'r materion capasiti presennol a deall effaith twf a ragwelir ar addysg. Bydd y BP yn penderfynu a oes angen tir/goblygiadau i gynorthwyo â lefelau twf. |
| **PC46** | **Cynlluniau Lleoedd** | Mae'r papur hwn yn nodi'r dull ymlaen a statws Cynlluniau Lleoedd yng Nghonwy. Bydd Cynlluniau Lleoedd yn nodi'r canllawiau mwy manwl thematig neu sy'n benodol i safleoedd i ategu'r polisïau a'r cynigion a gyflwynir mewn CDLl, bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn ymgysylltu â chymunedau lleol, busnes a'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddarparu Cynlluniau Lleoedd yn lleol. Bydd Cynlluniau Lleoedd yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a rhaid iddynt fod yn unol ag ef. Bydd Cynllun Lleoedd pan gaiff ei gynhyrchu yn unol â'r canllawiau yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| **PC47** | **Asesiadau Seilwaith Gwyrdd** | Mae'r papur hwn yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau newydd. |

